# Cyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy

## Adroddiad Terfynol

18 Mai 2023

**Cyflwynwyd i:**

Llywodraeth Cymru

# Mae ICF yn gwneud pethau mawr yn bosib

Darparwr gwasanaethau technoleg ac ymgynghori byd-eang yw ICF, gyda dros 7,000 o weithwyr proffesiynol yn gweithio i wneud pethau mawr yn bosib i'n cleientiaid. Rydym yn arbenigwyr polisi, gwyddonwyr cymdeithasol, dadansoddwyr busnes, technolegwyr, ymchwilwyr, strategaethwyr digidol a gweithwyr creadigol. Ers 1969, mae cleientiaid llywodraeth a masnachol wedi gweithio gyda ICF i oresgyn eu heriau anoddaf ar faterion o bwys mawr i'w llwyddiant. Disgrifir ein pum maes gwasanaeth craidd isod. Cysylltwch â ni yn icf.com.



## Research + Analyse

Our teams delve deep into critical policy, industry and stakeholder issues, trends, and behaviour. By collecting and analysing data of all kinds, we help clients understand the current landscape clearly and plan their next steps wisely.



## Assess + Advise

With equal parts experience and dedication, our experts get to the heart of the issue—asking all the right questions from the start. After examining the results and evaluating the impact of research findings, we counsel clients on how to best navigate societal, market, business, communications, and technology challenges.



## Design + Manage

We design, develop and manage plans, frameworks, programmes, and tools that are key to each client's mission or business performance. These solutions often stem from our analytics and advice.



## Identify+Implement

Our experts define and put into place the technology systems and business tools that make our clients' enterprises more effective and efficient. We deploy standard or customised methodologies based on the business context.



## Engage

Realising the promise of the digital revolution requires foresight and heightened understanding. Both are baked into the solutions-focused engagement work that runs through all we do.

# Cyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy

## Adroddiad Terfynol

Adroddiad a gyflwynwyd gan ICF Consulting Services Limited
mewn cydweithrediad ag ADAS

Dyddiad: 18 Mai 2023

Rhif Gwaith: 30302896

Jessica Lyon
jessica.lyon@icf.com

ICF Consulting Services Limited
Riverscape
10 Queen Street Place
London
EC4R 1BE

T +44 (0)20 3096 4800

www.icf.com

# Rheoli Dogfennau

| | |
|---|---|
| **Teitl y ddogfen** | Cyd-ddylunio’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| **Rhif gwaith** | 30302896 |
| **Paratowyd gan** | Jessica Lyon, Ellie Cook, Rachel Hardy |
| **Gwiriwyd gan** | John Elliot, Liz Lewis-Reddy |
| **Dyddiad** | 18 Mai 2023 |

Hawlfraint Llywodraeth Cymru yw'r adroddiad hwn ac fe'i paratowyd gan ICF Consulting Services Ltd o dan gontract i Lywodraeth Cymru. Ni chaniateir atgynhyrchu cynnwys yr adroddiad hwn yn gyfan gwbl nac yn rhannol, na’i drosglwyddo i unrhyw sefydliad neu berson arall heb ganiatâd ysgrifenedig penodol ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.Ni chaniateir atgynhyrchu cynnwys yr adroddiad hwn yn llwyr na’n rhannol na’i basio ymlaen at sefydliad na pherson arall heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig penodol Llywodraeth Cymru ymlaen llaw.

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ..... 4

1 Rhagarweiniad ..... 6

1.1 Y Cefndir Polisi ..... 6
1.2 Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025 ac ail gam y broses cyd-ddylunio ..... 7
1.3 Strwythur yr adroddiad hwn ..... 8

2 Methodoleg ..... 9

2.1 Y dull cyd-ddylunio ..... 9
2.2 Cyflwyno a mynychu'r gweithdai cyd-ddylunio ..... 11
2.3 Cyflwyno ac ymateb i'r arolwg ..... 12
2.4 Nodweddion fferm a demograffeg yr arolwg ..... 14

3 Cyfuno canfyddiadau'r broses cyd-ddylunio ..... 22

4 Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol ..... 25

4.1 Rhagarweiniad ..... 25
4.2 Rheoli ac optimeiddio perfformiad y fferm drwy fesur a monitro ..... 26
4.3 Arallgyfeirio, gwahaniaethu, arbenigo i ychwanegu gwerth ..... 32
4.4 Lleihau'r risg o ddal a lledu clefydau ..... 37

5 Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff ..... 43

5.1 Rhagarweiniad ..... 43
5.2 Gwneud y defnydd gorau o wrtaith artiffisial drwy reoli maetholion a gwneud profion pridd ..... 44
5.3 Blaenoriaethu defnyddio tail a gwella ffrwythlondeb ..... 50
5.4 Defnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr drwy reoli plâu yn integredig ..... 52
5.5 Gwneud y defnydd gorau o laswelltir drwy ddulliau amgen o bori a chyflwyno tir gwndwn aml-rywogaeth a phori cymysg ..... 55
5.6 Lleihau effaith allyriadau amonia ar yr amgylchedd ..... 57

6 Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon ..... 59

6.1 Rhagarweiniad ..... 59
6.2 Gweithredu arferion arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm ..... 60
6.3 Anifeiliaid effeithlon: Y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ..... 61
6.4 Adfer mawndir lled-naturiol ..... 64
6.5 Rheoli coetir ac amaeth-goedwigaeth sy'n bodoli'n barod a chreu o'r newydd ..... 67

7 Gwarchod a gwella ecosystem y fferm ..... 82

7.1 Rhagarweiniad ..... 82
7.2 Diogelu priddoedd rhag erydu a diraddio ..... 83
7.3 Amrywiaeth cyfoethog ar y fferm: gwarchod bridiau brodorol ..... 86
7.4 Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau: cynnal a chreu cynefinoedd ..... 88
7.5 Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau: safleoedd dynodedig ..... 94
7.6 Dŵr yn cael ei warchod rhag llygredd ..... 97
7.7 Arbed a chadw dŵr ..... 101

8 Lles pobl, anifeiliaid a llefydd ..... 107

8.1 Rhagarweiniad ..... 107
8.2 Cynnal a gwella'r amgylchedd hanesyddol, treftadaeth a harddwch ..... 108
8.3 Cynorthwyo pobl i fwynhau a chael mynediad at yr amgylchedd naturiol ..... 113

8.4 Mae gan dda byw les bywyd da ....115
8.5 Hyfedredd i ymarfer yn ddiogel ac effeithlon ....116

9 Prosesau'r Cynllun ....121

9.1 Meini prawf cymhwyso ....121
9.2 Adolygiad Cynaliadwyedd ....123
9.3 Monitro a thystiolaeth ....125
9.4 Data ....126

10 Casgliadau ....129

10.1 Diffyg eglurder ar beth yw amcanion y cynllun ....129
10.2 Gwobrwyo gwaith a wneir eisoes a chydnabod perfformiad ....131
10.3 Pryder am ddull 'un esgid i ffitio pawb' a'r camau gwaith UA ....133
10.4 Cymorth i'r diwydiant ....134
10.5 Parodrwydd y diwydiant a chadwyni cyflenwi i gefnogi'r camau gwaith ....135
10.6 Ffermwyr dan bwysau ....136

11 Myfyrdodau ar y broses cyd-ddylunio ....138

Atodiad 1 Camau Gwaith Sylfaenol ....140

Atodiad 2 Camau Gwaith Dewisol ....162

Atodiad 3 Camau Gwaith Cydweithredol ....166

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn trafod adborth a barn ffermwyr Cymru am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025[1]. Roedd yr ail gam hwn o'r broses gyd-ddylunio'n edrych ar sgiliau a phrofiad, cyfle a chymhelliad ffermwyr i gyflawni'r gwaith a'r prosesau a gynigir yn y cynigion bras ynghyd â'u syniadau a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella, newid ac ychwanegu i'r cynigion hyn.

Casglwyd barn ffermwyr am y cynigion bras hyn drwy arolwg, gweithdai a chyfweliadau i ddeall a allent gwblhau'r hyn sy'n cael ei gynnig yn y Cynllun, pa gymorth a allai fod ei angen arnynt a pha newidiadau posib y gellid eu gwneud i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) wrth ddiwygio'r Cynllun yn y dyfodol. Mae'r camau gwaith a ddisgrifir yn y cynigion bras wedi eu grwpio'n bum nodwedd allweddol er mwyn cefnogi a chanolbwyntio ar gyflawni gwahanol ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM).

- **Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol**
- **Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff**
- **Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon**
- **Gwarchod a gwella ecosystem y fferm**
- **Lles pobl, anifeiliaid a llefydd**

Mae pob nodwedd a ddisgrifir yn yr SFS yn cynnwys ystod o gamau gwaith Sylfaenol (UA), Dewisol (OA) a Chydweithredol (CA) ar gyfer cyflawni eu hamcanion. Yn ogystal â nodweddion a chamau gwaith Cynllun, trafodwyd hefyd brosesau'r Cynllun fel cymhwyso a chofrestru ar gyfer y Cynllun, yr adolygiad cynaliadwyedd, a monitro a thystiolaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o adborth ffermwyr ar gamau gwaith a phrosesau'r SFS. Mae hefyd yn rhoi trosolwg ar y themâu cyffredin a gododd yn ail gam y broses gyd-ddylunio hon.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

Roedd ffermwyr yn gefnogol o egwyddor gyffredinol a chysyniad nifer o gamau gwaith y Cynllun. Teimlai ffermwyr fod gwaith i wella iechyd y pridd, rheoli gwrychoedd, opsiynau ynni adnewyddadwy, iechyd a lles anifeiliaid, ac iechyd a diogelwch ffermwyr, yn bwysig. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cydnabod ei bod yn bwysig bod y Cynllun wedi'i ategu gan egwyddorion cynaliadwyedd, er bod peth gwahaniaeth barn am sut orau i wneud hyn.

Roedd y rhai a fynychodd y gweithdai'n hoffi'r gwahanol lefelau o gamau gwaith yn y Cynllun. At ei gilydd, ar draws y camau gwaith OA a CA, roedd yr adborth yn bositif a'r cyfranogwyr yn awyddus i fod yn gallu dewis camau gwaith a allai weithio'n dda a bod o fudd i'w fferm. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd o blaid y syniad o gael haen sylfaenol o gamau gwaith i helpu i godi'r holl ffermydd drwy Gymru a oedd yn y Cynllun i safon debyg, er bod rhai am weld rhai o'r camau gwaith UA yn cael eu symleiddio gan leisio pryderon am ddull 'un esgid i ffitio pawb' gyda'r camau gwaith hyn.

Ar draws y gwahanol weithdai ac yn yr arolwg, dywedodd lawer o ffermwyr eu bod eisoes yn cwblhau rhai o gamau gwaith yr SFS. Roedd y rhai nad oeddent yn cwblhau'r camau gwaith wedi trafod sut y gallent weithio iddynt gan geisio datrys rhwystrau ymarferol posib i'w cwblhau ar eu ffermydd. Nodir y canfyddiadau hyn drwy gydol yr adroddiad hwn gan roi

[1] Cynllun Ffermio Cynaliadwy (llyw.cymru)

arweiniad defnyddiol i Lywodraeth Cymru ar sut i wneud y camau gwaith yn fwy ymarferol i ffermwyr.

Er i'r cyfranogwyr nodi bod gan y Cynllun a'i gamau gwaith gryfderau drwy gydol y broses cyd-ddylunio, roedd meysydd cyffredin lle y lleisiwyd pryderon. Mae'r pryderon cyffredin canlynol a godwyd gan gyfranogwyr yn feysydd allweddol i Lywodraeth Cymru eu hystyried er mwyn gwella a datblygu'r SFS.

- **Diffyg eglurder ar beth yw amcanion y Cynllun:** Roedd dryswch ynghylch rhai o'r amcanion a'r camau gwaith yn yr SFS. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i'r UA Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI); er bod cyfranogwyr yn cydnabod gwerth monitro perfformiad eu fferm, roeddent yn ddryslyd ynghylch pam oedd y cam gwaith hwn wedi'i gynnwys mewn polisi llywodraeth. Teimlent hefyd fod gwrth-ddweud rhwng amcanion y cam gwaith KPI, a oedd fel pe bai'n ceisio gwella cynhyrchu, o'i gymharu â'r camau gwaith gorchudd coed a chynefinoedd, a oedd fel pe baent yn lleihau cynhyrchu'r fferm. Roedd y cyfranogwyr eisiau eglurder ar beth oedd amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun, ac eglurder ar sut y gwnaed rhai penderfyniadau.
- **Gwobrwyo gwaith a wneir yn barod a chydnabod perfformiad:** Drwy gydol y gweithdai, roedd y cyfranogwyr wedi dweud yn glir y byddent yn gwerthfawrogi system o gydnabod perfformiad a thaliadau i rai sydd eisoes yn cwblhau camau gwaith. Roedd angen mwy o eglurder ar sut y bydd ffermwyr sydd eisoes yn cwblhau camau gwaith yn cael eu gwobrwyo drwy'r Cynllun, a dealltwriaeth o sut y gellid defnyddio cydnabod perfformiad i leihau'r baich gweinyddol a dyblygu ymdrechion.
- **Pryder am ddull 'un esgid i ffitio pawb' a'r camau gwaith sylfaenol:** Roedd pwyslais cryf yn y gweithdai a'r arolygon bod cyd-destun pob fferm yn wahanol a bod angen i'r cyd-destunau ac amgylchiadau gwahanol hyn gael eu cydnabod yn y Cynllun. Teimlai rai y byddai'r dull 'un esgid i ffitio pawb', yn benodol gyda'r camau gwaith UA, yn rhwystro ymuno â'r Cynllun. Roedd y rhai a fynychodd y gweithdai'n hoffi'r hyblygrwydd o gael camau gwaith OA ac yn awyddus i sicrhau camau gwaith OA a fyddai'n berthnasol iddynt ac y gallent gymryd rhan ynddynt.
- **Cymorth i'r diwydiant:** Roedd gan y rhai a fynychodd y gweithdai ac ymateb i'r arolwg nifer o bryderon pwysig am sut fydd yr SFS yn cefnogi'r diwydiant amaethyddol o ran cymorth ariannol a chefnogi cynhyrchu bwyd. Roedd ffermwyr eisiau sicrhau bod digon o gyllid ar gael i'w cefnogi i gwblhau camau gwaith a chynnal busnes fferm hyfyw, ac na fyddai gorfod defnyddio ymgynghorwyr a chynghorwyr i gwblhau camau gwaith yn amharu ar y gyllideb ar gyfer ffermwyr.
- **Parodrwydd y diwydiant a chadwyni cyflenwi i gefnogi'r camau gwaith:** Lleisiodd y cyfranogwyr bryderon am gapasiti staff cynghori, contractwyr, arolygwyr a rhannau o'r gadwyn gyflenwi (adnoddau ar gyfer cwblhau'r camau gwaith), i ymdopi â'r mewnlifiad o ffermwyr a fyddai'n cwblhau camau gwaith o dan y Cynllun. Roedd y pryderon hyn am gamau gwaith fel Gorchudd Coed neu Brofion Pridd lle y byddai'n rhaid cael cymorth gan ymgynghorwyr, labordai, contractwyr a meithrinfeydd planhigion.
- **Ffermwyr dan bwysau** Lleisiodd nifer o'r gweithdai bryderon am y pwysau ychwanegol y gallai'r SFS ei roi ar ffermwyr sy'n gwneud gwaith anodd yn barod, ac effaith hyn ar iechyd meddwl o ganlyniad. Mae'r diwydiant ffermio wedi dioddef lefelau uchel o iechyd meddwl gwael ers tro byd, gyda llawer o astudiaethau'n tynnu sylw at achosion straen yn y sector. Mae'r digwyddiadau byd-eang a gwleidyddol presennol yn cynyddu costau mewnbynnau, gwneud prisiau cynnyrch yn fwy ansefydlog a chreu ansicrwydd am bolisi a thaliadau cymorth.

# 1 Rhagarweiniad

## 1.1 Y Cefndir Polisi

Mae ymadawiad y DU o'r UE yn dod â'r Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) i ben fel sail ar gyfer cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd a gwasanaethau amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ymgynghoriadau canlynol i drafod ar ba sail y dylai gefnogi ffermwyr yn y dyfodol, gan gynnwys yn ystod y cyfnod o drosglwyddo i'r dull polisi a chymorth newydd hwn i ffermwyr.

- Brexit a'n Tir (2018)[2,3]
- Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (2019-21)[4,5]
- Y Papur Gwyn ar Amaeth (Cymru) (2020-21)[6],[7]

Mae'r ymgynghoriadau hyn a'r llwybr tuag at ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn amlinellu symudiad i ffwrdd oddi wrth daliadau uniongyrchol a chynlluniau amaeth-amgylchedd (e.e. Glastir). Maen nhw'n cynrychioli symud tuag at un Cynllun fydd yn talu am arferion fferm sy'n darparu canlyniadau o fudd i gymdeithas Cymru ar lefel amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Mae ymateb y cyhoedd i'r broses ymgynghori hon wedi dangos amrediad o safbwyntiau ar draws y sector amaeth yng Nghymru. Mae'r cymysgedd o ymateb yn adlewyrchu pwysigrwydd bod yn agored drwy gydol y broses ac yn ategu'r rôl y mae cyd-ddylunio'n ei chwarae i gyrraedd y nod hwn.

Cyd-ddylunio yw cyd-gyfrifoldeb a chynnwys rhanddeiliaid yn weithredol mewn diffinio a dylunio atebion i broblemau cyffredin. Mae cynnwys ffermwyr, rheolwyr tir a rhanddeiliaid eraill mewn cyd-ddylunio'r SFS yn rhoi cyfle i greu atebion polisi arloesol ar gyfer y cyfnod hwn o newid yn y sector amaethyddol ac sy'n cyfateb i anghenion y sector. Os yw'r broses yn glynu'n llawn at egwyddorion cyd-ddylunio – tryloywder, cynhwysiant, rhannu pŵer a chyfranogiad – bydd yn gyfle i wella ymddiriedaeth rhwng ffermwyr a'r llywodraeth ac fel bod y sector yn fwy parod i dderbyn y polisi[8]. Mae'r ddwy ochr yn allweddol i sicrhau newid llyfn mewn polisi ac i ddylunio polisi effeithiol.

Digwyddodd gam cyntaf y broses cyd-ddylunio rhwng Mawrth a Hydref 2020[9] gan gynnwys arolygon, cyfweliadau a gweithdai i drafod barn ffermwyr am bynciau er mwyn goleuo datblygiad yr SFS:

- Allgymorth
- Rheoli pridd
- Rheoli cynefinoedd (gwydnwch ecosystemau)
- Cyfleoedd i ddatblygu'r fferm
- Iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw
- Yr Iaith Gymraeg

---

[2] Brexit a'n Tir: Diogelu Dyfodol Ffermio yng Nghymru - Dogfen Ymgynghori *(Dogfen ymgynghori, 2018)*

[3] Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Crynodeb o'r Ymatebion *(Crynodeb o'r ymatebion, 2019)*

[4] Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Dogfen Ymgynghori *(Dogfen ymgynghori, 2019)*

[5] Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Crynodeb o'r Ymatebion *(Crynodeb o'r ymatebion, 2020)*

[6] Papur Gwyn ar Amaeth (Cymru) *(Dogfen ymgynghori, 2020)*

[7] Papur Gwyn ar Amaeth: Crynodeb o'r Ymatebion *(Crynodeb o'r ymatebion, 2021)*

[8] Hurley, P., Lyon, J., Hall, J., Little, R., Tsouvalis, J., White, V. a Rose, D. C. (2022). Co-designing the environmental land management scheme in England: The why, who and how of engaging 'harder to reach' stakeholders. People and Nature, 00, 1–14. https://doi.org/10.1002/pan3.10313


[9] Cyd-ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru

Fe wnaeth gam cyntaf y broses cyd-ddylunio a'r adborth a gafwyd yn ystod ymgynghoriadau blaenorol oleuo'r ddogfen Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022[10].Roedd y cynigion bras yn sail ar gyfer ail gam y broses cyd-ddylunio, sef byrdwn yr adroddiad hwn.

## 1.2 Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025 ac ail gam y broses cyd-ddylunio

Mae'r cynigion bras yn rhoi mwy o fanylion am y camau gwaith arfaethedig – Sylfaenol (UA), Dewisol (OA) a Chydweithredol (CA) – a'r prosesau a gynigir i fod yn rhan o'r Cynllun.

Mae'r camau gwaith a gynigir yn y cynigion bras wedi eu grwpio'n bump o nodweddion cysylltiedig sy'n dangos sut y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio i gefnogi ffermwyr i ddarparu gwahanol ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys:




- Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol
- Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff
- Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon
- Gwarchod a gwella ecosystem y fferm
- Lles pobl, anifeiliaid a llefydd

Mae pob nodwedd yn cynnwys ystod o gamau gwaith UA, OA a CA.

Yn ogystal â'r camau gwaith UA, OA a CA y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod ffermydd yn eu cwblhau o dan yr SFS, mae'r cynigion bras hefyd yn rhoi manylion y broses fel bod ffermwyr yn gallu ymgeisio am a chwblhau'r camau gwaith drwy gyfnod contract. Gelwir yr adran yma'n **'Prosesau'r Cynllun'** ac mae'n cynnwys pynciau fel cymhwyso a chofrestru ar gyfer y Cynllun, yr adolygiad cynaliadwyedd, a monitro a thystiolaeth.

---


[10] Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025

Nod ail gam y broses cyd-ddylunio oedd ymgysylltu â'r diwydiant ffermio mewn gwahanol ffyrdd ar gamau gwaith a phrosesau penodol y Cynllun SFS. Bydd yr ail gam hwn o'r broses cyd-ddylunio'n cyfrannu at ddatblygu'r SFS ymhellach, ynghyd ag adborth pellach gan randdeiliaid, tystiolaeth a ffrydiau gwaith polisi, mewn pryd ar gyfer ymgynghori ar y cynigion terfynol drafft erbyn diwedd 2023.

Mae'r siart isod yn dangos y meysydd ymchwilio wnaeth ategu ail gam y broses cyd-ddylunio, gan ofyn dau gwestiwn allweddol:

A) Ydy ffermwyr yn gallu gwneud yr hyn a ddisgrifir yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy?

B) Beth sydd efallai angen iddo ddigwydd neu newid i ffermwyr ymuno â'r Cynllun?




## 1.3 Strwythur yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi canlyniadau ail gam y broses o gyd-ddylunio'r SFS, wedi eu trefnu o dan yr adrannau canlynol:

- **Adran 2**, sy'n egluro'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â'r diwydiant ffermio a chasglu eu barn.
- **Adran 3**, sy'n egluro strwythur y broses o gyfuno a chyflwyno'r canfyddiadau yn adrannau 4-8.
- **Adrannau 4-8** sy'n cyflwyno canfyddiadau'r broses cyd-ddylunio ar gamau gwaith yr SFS, wedi eu trefnu o dan bum nodwedd y Cynllun. Mae pob adran yn egluro sgiliau a phrofiad, cyfle a chymhelliad ffermwyr i gwblhau'r camau gwaith, ynghyd â'u hawgrymiadau ar gyfer eu gwella ac unrhyw gymorth a allai fod ei angen arnynt i'w cwblhau.
- Mae **adran 9** yn cyflwyno canfyddiadau'r broses cyd-ddylunio ar broses y Cynllun, gan gynnwys cymhwyso ar gyfer y Cynllun, yr adolygiad cynaliadwyedd, monitro a thystiolaeth, a'r defnydd o ddata.
- Mae **adran 10** yn dod i gasgliad ar ganfyddiadau'r broses cyd-ddylunio. Trefnir hyn o dan themâu sy'n codi'n aml ac sy'n torri ar draws gwahanol gamau gwaith a phrosesau'r Cynllun.
- Mae **adran 11** yn cyflwyno myfyrdodau'r tîm ADAS a'r ICF ar y broses cyd-ddylunio.
- Mae'r **Atodiadau** yn cynnwys gwybodaeth a graffiau ychwanegol i gefnogi canfyddiadau'r adroddiad.

# 2 Methodoleg

## 2.1 Y dull cyd-ddylunio

Roedd dau bwrpas i ail gam y broses cyd-ddylunio:

- **Casglu tystiolaeth** er mwyn deall sgiliau a phrofiad, cyfle, a chymhelliad ffermwyr i wneud yr hyn y mae'r cynigion bras yn ei gynnig.
- **Cyd-ddylunio** a chynhyrchu syniadau ac atebion i wella'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) gyda ffermwyr.

Mae angen dulliau gwahanol o ddelio â'r ddau nod uchod. Mae casglu tystiolaeth yn ceisio defnyddio dulliau neilltuol i geisio ateb cwestiynau ymchwil penodol am sgiliau a phrofiad, cyfle a chymhelliad ffermwyr i gwblhau camau gwaith y Cynllun, tra bo'r broses cyd-ddylunio'n defnyddio dull cyfranogol llawer mwy manwl sy'n rhoi cyfle i ffermwyr rannu a thrafod eu meddyliau a'u syniadau. Dangosir ffocws y ddau ddull gwaith gwahanol hwn, ond sy'n mynd law yn llaw â'i gilydd, yn Nhabl 2.1 isod.

Tabl 2.1 Dulliau ymchwilio a chyd-ddylunio

| | Cyd-ddylunio – drwy weithdai a chyfweliadau | Casglu tystiolaeth – drwy arolwg |
|---|---|---|
| Ffocws y dull | Dull cyd-ddylunio drwy siarad yn uniongyrchol â ffermwyr ledled Cymru a gwahanol sectorau ffermio, i drafod cwestiynau polisi penodol a chynnig atebion cyd-ddylunio gyda ffermwyr. | Dull casglu tystiolaeth yn bennaf gyda'r ffocws ar gyrraedd nifer uchel o ymatebion i ennill dealltwriaeth o bersbectif cychwynnol y diwydiant ar y cynigion bras. Defnyddir y data meintiol i wneud cymhariaeth rhwng gwahanol fathau o ffermwyr gan edrych, er enghraifft, ar wahaniaethau sector a demograffig. |
| Data a gasglwyd | Data ansoddol | Data meintiol yn bennaf |
| Dyluniad y dull | Trefnwyd gweithdai ar sail gwahanol elfennau o'r Cynllun:<br><br>**Camau gwaith Sylfaenol (UA), Dewisol (OA), a Chydweithredol (CA):** cynhaliwyd 23 o weithdai i drafod camau gwaith y Cynllun, wedi eu trefnu o dan bum nodwedd y Cynllun a'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.<br><br>**Prosesau'r Cynllun:** cynhaliwyd tri gweithdy i drafod prosesau'r Cynllun SFS, gan gynnwys pynciau ar gymhwyso a chofrestru ar gyfer y Cynllun, yr adolygiad cynaliadwyedd, monitro a thystiolaeth. | Dyluniwyd yr arolwg i ganolbwyntio ar gamau gwaith **UA** y Cynllun.<br><br>Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn barod neu beidio i gwblhau camau gwaith y Cynllun, gan ofyn iddynt nodi'r prif ffactorau a oedd yn cymell neu rwystro eu parodrwydd i gwblhau'r camau gwaith. Trefnwyd cwestiynau'r arolwg yn ôl y model COM-B i ddeall gallu (sgiliau a phrofiad), cyfle a chymhelliad ffermwyr i gwblhau'r camau gwaith. Rhoddir mwy o fanylion am sut y defnyddiwyd y model ymddygiad COM-B i ddylunio'r arolwg yn adran 2.3.1.<br><br>Yn ogystal â thrafod y camau gwaith UA, roedd rhai fersiynau o'r arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau am brosesau a chamau gwaith OA a CA y Cynllun. |
| Dulliau cyflwyno | **Gweithdai cyd-ddylunio**: Cafodd y gweithdai eu cyflwyno ar-lein drwy Microsoft Teams am 11am a 4.30pm ar wahanol ddiwrnodau rhwng Hydref a | Cynhaliwyd yr arolwg mewn pedair o wahanol ffyrdd:<br>- Ar-lein |

| | Cyd-ddylunio – drwy weithdai a chyfweliadau | Casglu tystiolaeth – drwy arolwg |
|---|---|---|
| | Rhagfyr. Roedd gan gyfranogwyr gyfle i ddewis dyddiadau ac amseroedd gweithdai oedd yn gyfleus iddynt.<br><br>**Cyfweliadau**: Os nad oedd cyfranogwyr ar gael i ddod i'r gweithdai, yn cael trafferth cysylltu ar-lein ar gyfer y gweithdai, neu os oedd yn well ganddynt siarad dros y ffôn, cynigiwyd cyfweliad ffôn iddynt. | - Wyneb yn wyneb mewn sioeau a marchnadoedd amaethyddol<br>- Dros y ffôn<br>- Drwy gopi caled pan ofynnwyd am hynny |

### 2.1.2 Recriwtio ar gyfer yr arolwg, gweithdai a'r cyfweliadau

Defnyddiwyd cymysgedd o sianeli cyfathrebu i sicrhau bod gan ffermwyr gyfle i gyfrannu mewn ffordd oedd yn gyfleus iddynt ac er mwyn gwella'r siawns o gael rhanddeiliaid anoddach i'w cyrraedd i gymryd rhan. Defnyddiwyd y sianeli canlynol i gyfathrebu â'r ffermwyr a rhoi cyfle iddynt gymryd rhan yn y prosiect hwn.

- **Mynychu sioeau, marchnadoedd anifeiliaid, digwyddiadau a grwpiau amaethyddol**

Bu tîm ADAS, sydd â pherthynas waith hirsefydlog â ffermwyr Cymru a'u cynrychiolwyr, yn mynychu sioeau, marchnadoedd a digwyddiadau amaethyddol i roi gwybod i ffermwyr am y cyfle i gyd-ddylunio'r Cynllun. Cynhaliodd ADAS hefyd arolygon wyneb yn wyneb â ffermwyr yn y sioeau a'r digwyddiadau hyn. Roedd y sioeau a'r digwyddiadau'n cynnwys:

– Sioe Môn
– Sioe Sir Benfro
– Dinbych a Fflint
– CFfI Meirionnydd
– Marchnad wartheg Tregaron
– Digwyddiadau Cyswllt Ffermio
– CFfI Ceredigion

Yn y digwyddiadau hyn, rhannwyd cardiau busnes gyda chod QR yn cysylltu i'r arolwg, a chyfeiriad e-bost ICF, i hyrwyddo'r arolwg a'r broses cyd-ddylunio. Rhannodd ADAS, Cyswllt Ffermio a Llywodraeth Cymru dros 3000 o gardiau busnes â ffermwyr yn y digwyddiadau hyn. Yn y digwyddiadau, rhannwyd hefyd gopïau papur o'r arolwg gyda rhai a ofynnodd am un.

- **E-byst a galwadau ffôn i rai yn y grŵp a fynegodd ddiddordeb**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi creu databas o dros 750 o ffermwyr a fynegodd ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r broses cyd-ddylunio. E-bostiwyd dolen i'r arolwg ar-lein at ffermwyr ar restr y grŵp mynegi diddordeb (EOI) gan roi sawl cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithdy cyd-ddylunio ar ddyddiad oedd yn gyfleus iddynt.

Derbyniodd ffermwyr yn y grŵp EOI a ddywedodd y byddai'n well ganddynt siarad dros y ffôn alwad gan ymchwilydd dwyieithog i ofyn a fyddent yn hoffi cynnal yr arolwg dros y ffôn, ac a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cyfweliad neu weithdy ar-lein.

- **Rhannu dolen yr arolwg drwy rwydweithiau a chyfryngau cymdeithasol**

Defnyddiwyd ADAS, tîm Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Llywodraeth Cymru, ac amrywiaeth o sianeli cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru, i hysbysebu'r arolwg ar-lein.

## 2.2 Cyflwyno a mynychu'r gweithdai cyd-ddylunio

Cynhaliwyd cyfanswm 26 o weithdai, gyda'r cynnwys wedi'i drefnu'n unol â phrosesau a chamau gwaith y Cynllun (Tabl 2.2).

- Cynhaliwyd 20 o weithdai ar gamau gwaith y Cynllun. Ar gyfer y gweithdai hyn, mynychodd bob grŵp gweithdy ddau wahanol weithdy i drafod y camau gwaith UA, OA a CA o dan bwnc nodwedd y gyfres honno o weithdai.
- Cynhaliwyd 3 gweithdy ar broses y Cynllun, gyda grwpiau'n mynychu un gweithdy.
- Cynhaliwyd 3 gweithdy ar gamau gwaith a oedd wedi eu hadnabod fel meysydd gwaith a fyddai'n elwa o gael eu trafod ymhellach. Roedd y gweithdai hyn yn trafod yr UA KPI, UA 10% Gorchudd Coed a'r UA Profion Pridd.

Tabl 2.2 Mynychu'r gweithdai a'r cyfweliadau

| Pwnc y gweithdy | Iaith | Nifer yn bresennol | Sectorau wedi eu cynrychioli |
|---|---|---|---|
| Camau gwaith ffermydd cydnerth a chynhyrchiol | Saesneg | 10 | Gwartheg Bîff a Llaeth, Defaid, Dofednod a Cheffylau |
| | Saesneg | 18 | Tir Âr, Gwartheg Bîff a Llaeth, Defaid |
| Camau gwaith lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu | Saesneg | 8 | Gwartheg Bîff, Defaid, Garddwriaeth a Moch |
| | Saesneg | 10 | Gwartheg Bîff, Defaid, Tir Âr a Garddwriaeth |
| Camau gwaith lleihau allyriadau'r fferm | Saesneg | 12 | Gwartheg Bîff, Sugno a Llaeth, Defaid, Dofednod, Coedwigaeth |
| | Cymraeg | 16 | Gwartheg Bîff a Llaeth, Defaid |
| Camau gwaith gwarchod a gwella ecosystem y fferm | Saesneg | 11 | Tir Âr, Gwartheg Bîff, Defaid, Coedwigaeth |
| | Cymraeg | 9 | Gwartheg Bîff a Defaid |
| Camau gwaith lles pobl, anifeiliaid a llefydd | Saesneg | 12 | Tir Âr, Gwartheg Bîff a Llaeth, Defaid |
| | Cymraeg | 13 | Gwartheg Bîff, Sugno a Llaeth, Defaid |
| Prosesau'r Cynllun | Cymraeg | 8 | Gwartheg Bîff a Llaeth, Defaid |
| | Saesneg | 10 | Tir Âr, Gwartheg Bîff, Sugno a Llaeth, Defaid, Ceffylau |
| | Saesneg | 11 | Gwartheg Bîff, Defaid, Garddwriaeth, Ceirw |
| Gweithdai ychwanegol: yn trafod camau gwaith KPU, gorchudd coed a phrofion pridd | Saesneg | 8 | Gwartheg Bîff a Sugno, Defaid, Ceffylau |
| | Saesneg | 12 | Tir Âr, Gwartheg Bîff, Defaid |
| | Saesneg | 11 | Tir Âr, Gwartheg Bîff, Defaid, Garddwriaeth |

| Pwnc y gweithdy | Iaith | Nifer yn bresennol | Sectorau wedi eu cynrychioli |
|---|---|---|---|
| Cyfweliadau ar bynciau'r gweithdai | Cymysg | 15 | Cymysgedd |
| Cyfanswm | | **194** | |

Cymerwyd y camau canlynol wrth ddarparu'r gweithdai cyd-ddylunio er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag egwyddorion allweddol cyd-ddylunio – tryloywder, cynhwysedd a chyfranogiad.

- **Dyddiadau ac amseroedd:** Rhoddwyd yr opsiwn i'r cyfranogwyr o fynychu'r gweithdai ar amser a dyddiad cyfleus iddynt. Gallai'r cyfranogwyr ddewis rhwng gweithdai am 11am neu 4.30pm ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos drwy gydol mis Hydref a Thachwedd. Roedd y cyfranogwyr yn cael eu dyrannu i weithdai ar sail eu dewis o amser. Cynigiwyd cyfweliad ar amser cyfleus i rai na allai fynychu gweithdai ar unrhyw un o'r dyddiadau a gynigiwyd.
- **Gweithdai ar-lein:** Roedd gweithdai ar-lein yn lleihau'r cyfyngiadau amser a lleoliad sy'n gysylltiedig â gweithdai wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, gall cynnal gweithdai ar-lein greu rhwystr i rai ffermwyr sy'n cael trafferth mynd ar y we neu ddefnyddio meddalwedd cynadledda ar-lein. I leihau'r rhwystr hwn, rhoddwyd canllawiau i holl gyfranogwyr y gweithdai ar sut i ddefnyddio'r meddalwedd Microsoft Teams a chyfle i ymuno mewn sesiwn ymarfer technegol i sicrhau eu bod yn gyffyrddus yn ymuno ar Teams. Os oedd unrhyw un ar ôl na allai ddefnyddio'r meddalwedd ar-lein neu'n cael trafferth ymuno â'r gweithdy, cysylltwyd a chynigiwyd cyfle iddynt drafod y gweithdy dros y ffôn mewn cyfweliad.
- **Deunydd briffio:** I sicrhau bod y cyfranogwyr yn glir beth oedd pwrpas y gweithdy ac wedi cael amser i brosesu'r wybodaeth am yr SFS, rhannwyd deunydd briffio gyda nhw hyd at wythnos cyn y gweithdy. Roedd y deunydd briffio hwn yn rhoi trosolwg ar yr SFS, nodau ac amcanion y gweithdai, yn egluro beth oedd pwrpas cyd-ddylunio a sut y gallent ddisgwyl i'w mewnbwn gael ei ddefnyddio, yn ogystal â manylion pellach am y polisi a'r camau gwaith penodol a fyddai'n cael eu trafod yn y gweithdai.

## 2.3 Cyflwyno ac ymateb i'r arolwg

### 2.3.1 Dyluniad yr arolwg

Roedd ffocws yr arolwg ar ddeall persbectif y ffermwyr ar y cynigion bras. Rhannwyd yr arolwg ar-lein yn arolwg craidd ar sail camau gwaith UA ac arolygon ychwanegol y gallai'r cyfranogwyr eu hateb os oedd ganddynt amser. Gwnaed hyn i gwtogi'r arolwg a blaenoriaethu adborth ar y camau gwaith UA.

***Yr arolwg craidd***

- **Chi a'ch fferm:** Nifer o gwestiynau demograffig ac am nodweddion y fferm, er enghraifft oed y ffermwr, profiad o gynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol, maint, math a lleoliad y fferm.
- **Proses yr SFS:** Trafod y broses o gymryd rhan yn y rhaglen SFS gan roi ffocws ar gofrestru a'r adolygiad cynaliadwyedd.

- **Camau gwaith UA:** Ffactorau a oedd yn cymell neu rwystro parodrwydd i gwblhau'r camau gwaith UA o dan y model COM-B, a gyda beth y byddai angen cymorth ar ffermwyr.

Ar gyfer pob UA, gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg 'a fyddech yn barod i gwblhau'r cam gwaith uchod ar eich fferm, fel UA o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd?'

Os oedd ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi parodrwydd i gwblhau cam gwaith, gofynnwyd iddynt nodi'r prif ffactorau a fyddai'n eu cymell i wneud hynny.

Tabl 2.3 Ffactorau yn cymell parodrwydd i gwblhau'r camau gwaith UA

| Model COM-B | Ffactorau cymell |
|---|---|
| Gallu (sgiliau a phrofiad) | Mae gen i'r sgiliau / wybodaeth angenrheidiol i gwblhau'r cam gwaith hwn |
| Gallu (sgiliau a phrofiad) / Cyfle | Dw i'n cwblhau'r cam gwaith hwn ar y fferm yn barod. |
| Cyfle | Mae fy system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn. |
| | Mae gen i'r adnoddau amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn ar y fferm. |
| Cymhelliad | Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun. |
| | Byddai hyn yn gwella allbynnau'r fferm (e.e. iechyd anifeiliaid / cynhyrchu / elw) |
| | Byddai hyn yn fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy |
| | Dw i'n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da |
| | Rhywbeth arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda. |

Os oedd cyfranogwyr wedi nodi nad oeddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith, gofynnwyd iddynt egluro'r prif rwystrau. Roedd y rhain yn amrywio ychydig ond gan amlaf yn cynnwys y canlynol:

Tabl 2.4 Ffactorau yn rhwystro parodrwydd i gwblhau'r camau gwaith UA

| Model COM-B | Ffactorau rhwystro |
|---|---|
| Gallu (sgiliau a phrofiad) | Nid oes gen i'r sgiliau / gwybodaeth / profiad angenrheidiol i gwblhau'r cam gwaith hwn ar fy fferm. |
| | Nid oes gen i'r gallu corfforol i gwblhau'r cam gwaith hwn (oherwydd salwch neu anabledd). |
| Cyfle | Nid yw fy system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn. |
| | Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn ar y fferm. |
| | Nid oes gen i reolaeth dros y math hwn o waith rheoli ar y fferm, er enghraifft dw i'n denant / dan gontract / tir comin. |
| Cymhelliad | Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i fy fferm. |
| | Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision. |

| Model COM-B | Ffactorau rhwystro |
|---|---|
| | Ddim yn meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da. |
| | Yn meddwl bod gormod o risg neu gyfyngiadau gyda'r cam gwaith hwn. |
| | Ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol. |
| | Rhywbeth arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda. |

***Arolygon ychwanegol***

- **Camau gwaith OA:** Trafod diddordeb a phrofiad y cyfranogwyr o gwblhau'r camau gwaith OA yn y cynigion.
- **Camau gwaith CA:** Trafod diddordeb a phrofiad y cyfranogwyr o gydweithredu ar gwblhau'r camau gwaith CA yn y cynigion.

Gwnaed rhai addasiadau i'r arolygon papur a'r cyfweliadau fel bod eu hyd yn fwy priodol i'r dulliau hynny o ddarparu.

## 2.4 Nodweddion fferm a demograffeg yr arolwg

Ar ôl glanhau'r data, derbyniodd yr arolwg 1445 o ymatebion. Cwblhawyd yr arolwg mewn un o dair ffordd:

- **Ar-lein:** 1334
- **Cyfweliad dros y ffôn neu wyneb yn wyneb:** 101
- **Copi papur:** 10


Nid oedd yn rhaid i'r cyfranogwyr ateb pob cwestiwn yn yr arolwg. O'r herwydd, mae nifer yr ymatebwyr i bob cwestiwn (y gwerth 'n') yn amrywio o gwestiwn i gwestiwn ac wedi'i nodi wrth ymyl graffiau ac ystadegau'r adroddiad hwn.

Dangosodd yr ymateb i'r arolwg ystod dda o wahanol fathau o ffermydd a demograffeg gan adlewyrchu, yn gyffredinol, y gwahanol fathau o ffermydd a demograffeg ar draws Cymru (Ffigwr 2.1 a Ffigwr 2.2)[11]. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi nodi mai Defaid (37%) oedd eu prif sector, yna Fferm Gymysg (27%) ac yna Gwartheg Llaeth (10%). Roedd cyfran fwy o ffermydd cymysg yn yr arolwg na'r hyn oedd wedi'i adlewyrchu yn yr ystadegau gwladol a gyhoeddwyd yn 2022[11] ond gallai hyn fod oherwydd y dehongliadau gwahanol o beth yw ffermwr 'cymysg'.


Roedd rhai mathau o ffermydd wedi eu gorgynrychioli, er enghraifft ffermydd mwy (Ffigwr 2.4), ffermydd organig (Tabl 2.5) a ffermydd gyda phrofiad o gynlluniau amaeth-amgylchedd (AES) (Tabl 2.6).

[11] Ffeithiau a Ffigurau Ffermio Cymru 2022


Ffigwr 2.1 Prif sector ffermio'r ymatebwyr i'r arolwg (n=1409)




Ffigwr 2.2 Is-sectorau fferm yr ymatebwyr i'r arolwg (n=1204)



Ffigwr 2.3 Perchnogaeth tir yr ymatebwyr i'r arolwg (n=1452)




Yn 2020 roedd 593 o gynhyrchwyr organig ar draws Cymru[12] sy'n cyfrif am tua 2.4% o'r holl ffermydd yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu bod ffermydd organig, o'i gymharu â chynhyrchwyr anorganig, wedi eu gorgynrychioli yn yr arolwg.

Tabl 2.5 Nodweddion fferm yr ymatebwyr i'r arolwg


| Nodwedd | Nifer yr ymatebwyr | Canran o'r ymatebwyr (%) |
|---|---|---|
| **Ydy eich fferm yn organig? (n=1452)** | | |
| Organig | 145 | |
| Anorganig | 1307 | 90% |
| **Ydy eich fferm yn bennaf yn… (n=1438)** | | |
| Ucheldir / tir mynydd | 842 | 59% |
| Iseldir | 596 | 41% |
| **Ydy eich perchnogaeth hefyd yn cynnwys hawliau Tir Comin? (n=1451)** | | |
| Ydy | 319 | 22% |
| Nac ydy | 1132 | 78% |

Yn sampl yr arolwg, roedd 14% o'r ymatebwyr wedi nodi bod ganddynt fferm o 20 hectar neu lai, a 63% bod ganddynt fferm o 50 hectar neu fwy (Ffigwr 2.4). Fodd bynnag, maint y fferm


[12] Ystadegau Ffermio Organig 2020

gyfartalog yng Nghymru yw 45 hectar, gyda 54% o ddaliadau o dan 20 hectar[13]. Mae hyn yn awgrymu bod ffermydd llai (20 hectar neu lai) wedi eu tangynrychioli a bod ffermydd mwy (50 hectar neu fwy) wedi eu gorgynrychioli yn sampl yr arolwg.

Ffigwr 2.4 Maint ffermydd yr ymatebwyr i'r arolwg (n=1435)





Ffigwr 2.5 Arwynebedd coetir ar ffermydd yr ymatebwyr i'r arolwg (n=1444)





[13] Sicrhau Dyfodol Cymru - Crynodeb


Ffigwr 2.6 Nifer y gweithwyr llawn amser (39 awr yr wythnos) a rhan amser ar ffermydd yr ymatebwyr i'r arolwg (llawn amser n=1439; rhan amser n=1418)





Ffigwr 2.7 Oed yr ymatebwyr i'r arolwg (n=1445)



Ffigwr 2.8 Rhywedd yr ymatebwyr i'r arolwg (n=1430)




Ffigwr 2.9 Addysg yr ymatebwyr i'r arolwg (n=1451)




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (64%) wedi bod yn rhan o AES o'r blaen. O'r rhai oedd wedi bod yn rhan o gynllun, roedd gan dros hanner (53%) 10 mlynedd o brofiad (Tabl 2.6). Yn 2021, roedd tua 3,000 o gytundebau AES ar draws Cymru gan gyfrif am gyfanswm arwynebedd o 647,000 hectar[14] sydd tua 37% o'r holl dir amaethyddol yng Nghymru. Mae'r ystadegau hyn yn awgrymu bod ffermwyr gyda phrofiad blaenorol o gynlluniau AES wedi eu gorgynrychioli yn yr arolwg (Tabl 2.6). Mae'n debygol bod rhai gyda phrofiad blaenorol yn fwy tebygol o fod â diddordeb mewn ymuno â'r SFS ac felly gyda diddordeb mewn cwblhau'r arolwg. Mae hyn yn ffactor bwysig i'w ystyried oherwydd gellir disgwyl i rai gyda phrofiad blaenorol fod yn fwy parod, a gyda mwy o brofiad o weithredu camau gwaith amaeth-amgylchedd


[14] Data ar amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig

ar eu ffermydd. Mae canlyniadau'r arolwg efallai'n dangos lefel uwch felly o rai a fyddai'n debygol o gwblhau'r camau gwaith o'i gymharu â'r boblogaeth ehangach. Dylid nodi hyn wrth edrych ar draws y data perthnasol.


Tabl 2.6 Profiad ymatebwyr i'r arolwg o gynlluniau AES (n=931)

| Blynyddoedd o brofiad o gynlluniau AES (n=931) | Canran o'r ymatebwyr |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | 1% |
| 1 – <3 blynedd | 5% |
| 3 – <5 mlynedd | 13% |
| 5 – <7 mlynedd | 13% |
| 7 – <10 mlynedd | 12% |
| 10 mlynedd neu fwy | 53% |


Ffigwr 2.10 Profiad o gynlluniau gwarant fferm yr ymatebwyr i'r arolwg (n=1451)



Ffigwr 2.11 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg mewn ymuno â'r SFS (n=1452)




Ffigwr 2.12 Dewisiadau fformat gwybodaeth yr ymatebwyr i ddysgu am yr SFS (n=1452)



# 3 Cyfuno canfyddiadau'r broses cyd-ddylunio

Mae'r rhannau canlynol yn cyfuno data'r arolwg, cyfweliadau a'r gweithdai ar draws gwahanol gamau gwaith y Cynllun. Mae'r canfyddiadau'n dadansoddi'n fanwl y rhesymau pam fod ffermwyr yn fwy neu'n llai parod i gwblhau rhai camau gwaith, pa ffactorau sy'n cymell neu'n rhwystro eu parodrwydd i gwblhau'r camau gwaith hyn a'u syniadau ac awgrymiadau ar sut i'w gwella. Mae'r arolwg yn rhoi trosolwg eang ar bwy sy'n gallu cwblhau'r gwahanol gamau gwaith neu beidio, a pham, gyda'r gweithdai'n rhoi dealltwriaeth ansoddol fwy manwl i egluro dewisiadau'r ffermwyr ynghyd ag awgrymiadau ar sut i'w gwella / diwygio fel rhan o ethos cyd-ddylunio.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu cyflwyno yn ôl fformat a threfn y ddogfen cynigion bras, yn ôl nodweddion, is-nodweddion a chamau gwaith y Cynllun (Tabl 3.1). Ar gyfer Camau gwaith Sylfaenol (UA), rhoddir dadansoddiad o sgiliau a phrofiad, cyfle a chymhelliad ffermwyr i gwblhau'r camau gwaith UA, ac ar gyfer camau gwaith Dewisol (OA) a Chydweithredol (CA), rhoddir crynodeb o'r prif ganfyddiadau. Mae'r adrannau hyn hefyd yn adrodd ar awgrymiadau'r ffermwyr ar gyfer newid neu wella camau gwaith y Cynllun.

Tabl 3.1 Strwythur canfyddiadau'r adroddiad

| Is-nodwedd | Camau gwaith | Tudalen |
|---|---|---|
| **Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol** | | |
| Rheoli ac optimeiddio perfformiad y fferm drwy fesur a monitro | UA: Dangosyddion perfformiad allweddol | 26 |
| Arallgyfeirio, gwahaniaethu, arbenigo i ychwanegu gwerth | OA: Cnydau porthiant<br>OA: Cymorth i sefydlu busnes garddwriaeth<br>OA: Cymorth i arloesi<br>CA: Gwerthu i'r farchnad | 32 |
| Lleihau'r risg o ddal a lledu clefydau | UA: Bioddiogelwch<br>OA: Ffensys 3m o led<br>OA: Ynysu am 6 diwrnod<br>CA: Ffermwyr yn gweithio gyda'i gilydd i werthu i'r defnyddiwr | 37**Error! Bookmark not defined.** |
| **Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff** | | |
| Gwneud y defnydd gorau o wrtaith artiffisial drwy reoli maetholion a phrofion pridd | UA: Profion pridd<br>OA: Gwella cyflwr y pridd | 44 |
| Blaenoriaethu defnyddio tail a gwella ffrwythlondeb y pridd | OA: Cylchdroi cnydau | 50 |
| Defnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr drwy reoli plâu yn integredig | UA: IPM a PPP | 52 |
| Gwneud y defnydd gorau o laswelltir drwy ddulliau eraill o bori, gan gyflwyno tir gwndwn aml-rywogaeth a phori cymysg | OA: Pori a gorffwys<br>OA: Porfa gymysg | 55 |

| Is-nodwedd | Camau gwaith | Tudalen |
| --- | --- | --- |
| Lleihau effaith allyriadau amonia ar yr amgylchedd | OA: Lleihau allyriadau amonia<br>CA: Lleihau allyriadau amonia | 57 |
| **Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon** | | |
| Mabwysiadu arferion arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm | OA: Peiriannau ynni-effeithlon | 59 |
| Anifeiliaid effeithlon: Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) | UA: AHIC | 61 |
| Adfer mawndir lled-naturiol | UA: Mawndir<br>OA: Mawndir<br>CA: Mawndir | 64 |
| Creu a rheoli coetir a thir amaeth-goedwigaeth newydd | UA: 10% gorchudd coed<br>OA: Rheoli a phlannu mwy na 10% o goed<br>CA: Coetiroedd sy'n cysylltu i'w gilydd | 67 |
| **Gwarchod a gwella ecosystem y fferm** | | |
| Diogelu pridd rhag erydu a diraddio | OA: Bridiau brodorol<br>CA: Bridiau brodorol | 83 |
| Amrywiaeth cyfoethog ar y fferm: gwarchod bridiau brodorol | UA: 10% o gynefin<br>OA: Mwy na 10% o gynefin<br>CA: Cynefinoedd yn cysylltu i'w gilydd | 86 |
| Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau | UA: Safleoedd gwarchodedig<br>CA: Safleoedd gwarchodedig | 94 |
| Dŵr yn cael ei warchod rhag llygredd | OA: Dull pwrpasol o ddelio â llygredd dŵr<br>OA: Lleiniau clustog 6m<br>CA: Dalgylchoedd ansawdd dŵr | 97 |
| Arbed a chadw dŵr | UA: Pyllau dŵr<br>OA: Pyllau dŵr<br>OA: Cynaeafu dŵr<br>CA: Lleihau llifogydd | 101 |
| **Lles pobl, anifeiliaid a llefydd** | | |
| Cynnal a chadw'r amgylchedd hanesyddol, treftadaeth a harddwch | | 108 |
| Cynorthwyo pobl i fwynhau a chael mynediad i'r amgylchedd naturiol | OA: Mynediad i'r cyhoedd<br>CA: Mynediad i'r cyhoedd | 113 |
| Mae gan dda byw les bywyd da | OA: Lles bywyd da | 115 |
| Hyfedredd i ymarfer yn ddiogel ac effeithlon | UA: Dysgu<br>OA: Dysgu ychwanegol | 116 |

Mae Adran 9 yn canolbwyntio ar brosesau'r Cynllun gan roi dadansoddiad o barodrwydd a chapasiti ffermwyr i gwblhau'r prosesau gweinyddol ar gyfer cofrestru a darparu'r contract, fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Trefnir yr adrannau hyn fel a ganlyn:

Tabl 3.2 Strwythur adran prosesau'r Cynllun yn yr adroddiad

| Prosesau'r Cynllun | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| Cymhwyso a chofrestru ar gyfer y Cynllun | Meini prawf cymhwyso, gan gynnwys gofyn eu bod yn 'ffermwr gweithredol' a gyda '3 hectar' o dir, a chofrestru ar gyfer y Cynllun | 121 |
| Adolygiad cynaliadwyedd | Asesiad carbon, asesiad cynefin sylfaenol | 123 |
| Monitro a thystiolaeth | Hunan-asesiadau, asesiadau ar y safle | 125 |
| Data | Defnyddio data fel rhan o'r Cynllun | 126 |

Mae Adran 10, Casgliadau, yn rhoi dadansoddiad o'r themâu cyffredin a'r pryderon a gododd y cyfranogwyr, ynghyd â'r prif feysydd yr oeddent eisiau i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer gwella a datblygu'r SFS.

Tabl 3.3 Strwythur casgliadau'r adroddiad

| Themâu | Tudalen |
|---|---|
| Diffyg eglurder ar amcanion y Cynllun | 129 |
| Gwobrwyo gwaith a wneir yn barod a chydnabod perfformiad | 131 |
| Pryder gyda'r dull 'un esgid i ffitio pawb' a'r camau gwaith UA | 133 |
| Cymorth i'r diwydiant | 134 |
| Parodrwydd y diwydiant a chadwyni cyflenwi i gefnogi'r camau gwaith | 135 |
| Ffermwyr dan bwysau | 136 |

# 4 Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol

## 4.1 Rhagarweiniad

Amcan y nodwedd 'Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol' yw helpu ffermwyr i addasu i newidiadau yn yr amgylchedd neu'r farchnad. Bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi ffermwyr i wneud eu busnesau fferm yn fwy gwydn. Bydd hyn, yn ei dro, yn creu cyfleoedd yn yr economi wledig ehangach ac o ran gwaith hirdymor dibynadwy lle y gwerthfawrogir sgiliau a phrofiad.

Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi sgiliau a phrofiad, cyfle a chymhelliad ffermwyr i gwblhau'r Camau gwaith Sylfaenol (UA) o dan 'Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol'. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau ar draws y Camau gwaith Dewisol (OA) a Chydweithredol (CA). Mae'r adran hon hefyd yn adrodd awgrymiadau'r ffermwyr ar gyfer newid neu wella camau gwaith y Cynllun.

Trefnir yr adran hon o dan is-nodweddion a chamau gwaith ffermydd cydnerth a chynhyrchiol (Tabl 4.1).

Tabl 4.1 Camau gwaith o dan ffermydd cydnerth a chynhyrchiol

| Is-nodwedd | Camau gwaith | Tudalen |
|---|---|---|
| Rheoli ac optimeiddio perfformiad y fferm drwy fesur a monitro | UA: Dangosyddion perfformiad allweddol | 26**Error! Bookmark not defined.** |
| Arallgyfeirio, gwahaniaethu, arbenigo i ychwanegu gwerth | OA: Cnydau porthiant<br>OA: Cymorth i sefydlu busnes garddwriaeth<br>OA: Cymorth i arloesi<br>CA: Gwerthu i'r farchnad | 32 |
| Lleihau'r risg o ddal a lledu clefydau | UA: Bioddiogelwch<br>OA: Ffensys 3m o led<br>OA: Ynysu am 6 diwrnod<br>CA: Ffermwyr yn gweithio gyda'i gilydd i werthu i'r defnyddiwr | 37 |

## 4.2 Rheoli ac optimeiddio perfformiad y fferm drwy fesur a monitro

### 4.2.1 UA: Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)

**UA:** Bydd pob ffermwr yn cwblhau hunan-asesiad unwaith y flwyddyn yn erbyn lleiafswm o ddangosyddion KPI sector a diwydiant (dau i bob sector neu dri i gyd, pa un bynnag sydd fwyaf).

#### 4.2.1.1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| •Roedd **72%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn barod i gwblhau'r cam gwaith.<br>•**Y 3 prif ffactor cymell:**<br>•"Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (76%)<br>•"Dw i'n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da" (55%)<br>•"Dw i'n meddwl bod gen i'r sgiliau / gwybodaeth angenrheidiol i gwblhau'r gwaith hwn ar y fferm" (47%) | •Roedd **28%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn amharod i gwblhau'r cam gwaith.<br>•**Y 3 prif rwystr:**<br>•"Dw i ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol" (69%).<br>•"Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (52%)<br>•"Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn ar y fferm" (50%) | •Pryder unfrydol bron am ffermwyr yn cymharu eu ffigurau KPI ag eraill ynghyd ag amheuaeth a methu ag ymddiried yn Llywodraeth Cymru a deall pam ei fod wedi'i gynnwys yn y Cynllun. |

#### 4.2.1.2 Sgiliau a phrofiad

Yn ystod trafodaethau'r gweithdai, soniodd y rhan fwyaf o ffermwyr eu bod eisoes yn casglu gwybodaeth KPI eu hunain ac yn deall gwerth monitro perfformiad eu fferm er mwyn cymharu'r cynnydd drwy'r blynyddoedd. Ni wnaeth y rhan fwyaf ymhelaethu ar sut yr oeddent yn monitro'r wybodaeth yma er i rai sôn eu bod yn monitro cynnydd 'yn fy mhen'. Dywedodd y cyfranogwyr felly fod ganddynt sgiliau a phrofiad eisoes o gasglu a defnyddio data KPI er bod rhai'n teimlo y byddai'r profiad o dracio dangosyddion KPI yn y diwydiant ffermio'n gymysg.

Dywedodd 72% o'r ymatebwyr i'r arolwg y byddent yn fodlon hunan-asesu yn erbyn dangosyddion KPI y diwydiant. O'r rhai a oedd yn barod i wneud hyn, dywedodd 47% fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i wneud hyn.

#### 4.2.1.3 Cyfle

Awgryma ganfyddiadau’r adran uchod (Sgiliau a Phrofiad), oherwydd bod llawer o ffermwyr yn monitro dangosyddion KPI yn barod, er bod ffurfioldeb hynny’n amrywio, bod ffermwyr yn cael cyfle i dracio dangosyddion KPI.

Dywedodd ffermwyr newydd y byddai’r gwaith hwn yn newydd iddynt ond hefyd yn ddefnyddiol i roi arweiniad ar sut i ddatblygu eu busnesau.

Soniodd rai o gyfranogwyr y gweithdai fod dangosyddion KPI yn fwy tebygol o gael eu cwblhau gan ffermwyr mwy o faint, mwy masnachol. Cefnogir hyn gan ganlyniadau’r arolwg ar gyfer rhai a ddywedodd eu bod yn barod i gwblhau’r UA KPI, gyda ffermwyr mwy (dros 100 hectar) yn fwy tebygol na ffermydd llai (llai na 100 hectar) o ddweud eu bod yn cwblhau’r cam gwaith hwn yn barod (Tabl 4.2). Ffermwyr llaeth (n=107) oedd y ganran uchaf o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn barod i gwblhau’r cam gwaith hwn (77%), gyda 55% yn dweud eu bod yn ei gwblhau’n barod.

Tabl 4.2 Canran o’r ymatebwyr i’r arolwg a oedd yn barod i gwblhau’r cam gwaith KPI ac yn cwblhau dangosyddion KPI ar y fferm yn barod, yn ôl maint y fferm

| | Rhwng 3 a <20 Ha (n=151) | Rhwng 20 a <50 Ha (n=229) | Rhwng 50 a <100 Ha (n=237) | Rhwng 100 a <200 Ha (n=234) | Dros 200 (n=151) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymatebwyr i’r arolwg sy’n cwblhau dangosyddion KPI yn barod | 17% | 25% | 29% | 41% | 36% |

O weld rhestr o ddangosyddion KPI posib sy’n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru, dywedodd nifer o’r cyfranogwyr fod rhai sectorau heb eu cynnwys yn y rhestr, gan gynnwys moch, dofednod, garddwriaeth a cheffylau. O’r rhai a ddywedodd nad oeddent yn barod i gwblhau’r cam gwaith (n=400), dywedodd 38% na fyddai o fudd i’w fferm. Roedd nifer o sylwadau’r arolwg yn nodi pryder na fyddai’r dangosyddion perfformiad yn cyd-fynd â’r math o fferm oedd ganddynt. Gwnaed y sylwadau gan ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn barod i gwblhau’r cam gwaith (n=8) a rhai a ddywedodd eu bod yn amharod i’w gwblhau (n=20):

> *“Dw i’n poeni na fydd mentrau a gweithgareddau’r fferm hon yn cyd-fynd â’r dangosyddion perfformiad arferol”*

Roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn ‘sector arall’ (n=59) yn un o’r canrannau isaf o ffermwyr oedd yn barod i gwblhau’r cam gwaith sef 69% (41 allan o 59). Dim ond 8 allan o 41 oedd yn barod i gwblhau’r cam gwaith a ddywedodd eu bod yn cwblhau’r gwaith hwn yn barod. Roedd cyfranogwyr y grŵp ‘sector arall’ wedi rhoi rhesymau tebyg am fod yn amharod i gwblhau’r cam gwaith KPI i’r rhai oedd wedi adnabod eu hunain i fod yn rhan o grŵp math o fferm. Roedd rhesymau’r grŵp ‘sector arall’ yn cynnwys bod busnes eu fferm yn anaddas, er enghraifft porwyr tir comin neu os oeddent yn cadw gwenyn neu geffylau. Teimlai rai nad oedd y dangosyddion yn cyd-fynd ag amcanion y fferm oherwydd eu bod yn llai dwys neu gyda mwy o ffocws ar fywyd gwyllt. Roedd pryderon hefyd y byddai’r cam gwaith yn ormod o faich

gweinyddol o'i gymharu ag unrhyw fanteision posib. Lleisiwyd pryderon hefyd am gosb pe na bai'r dangosyddion yn cael eu cwrdd.

#### 4.2.1.4 Cymhelliad

Ar ddechrau'r gweithdy yn ystod yr ymarfer SWOT, roedd y cyfranogwyr wedi nodi dangosyddion KPI fel un o gryfderau camau gwaith y nodwedd Ffermydd Cydnerth a Chynhyrchiol, gan ddweud bod llawer o ffermwyr yn gwneud hyn yn barod ac o'i gadw'n syml y gall fod yn ffordd dda o fonitro'r busnes a dangos tystiolaeth o welliannau ar y fferm. Adleisiwyd y farn hon yn yr arolwg gyda 55% o'r rhai a ddywedodd eu bod yn cwblhau'r cam gwaith yn barod yn credu ei fod yn arfer ffermio da. 'Arfer ffermio da' oedd y ffactor ail uchaf a fyddai'n cymell cwblhau'r cam gwaith hwn, ar ôl derbyn taliadau.

Er y dywedodd gyfranogwyr y gweithdai i ddechrau fod y cam gwaith yn gysyniad da, ar ôl trafod yn fwy manwl roedd gan y cyfranogwyr farn negyddol gryf amdano ar y cyfan. Roedd y rhan fwyaf yn poeni am feincnodi perfformiad eu fferm yn erbyn dangosyddion KPI lefel diwydiant. Roeddent yn teimlo nad yw amgylchiadau unigol yr un fath o ran nodweddion ffermydd (e.e. daearyddiaeth, organig neu beidio, ffactorau amgylcheddol a thywydd amrywiol) gydag amcanion ffermydd yn amrywio'n sylweddol. Roedd enghreifftiau o amcanion fferm gwahanol a drafodwyd yn y gweithdai'n cynnwys gwahaniaeth rhwng dwys a helaeth, effeithlon ac ansawdd, bridiau prin a masnachol, tyfu'r busnes neu arafu.

> *"Allwch chi ddim cymharu. Mae fy ffigurau i'n rhai am wahanol resymau i'r person nesaf. Ni allwch gymharu'r data felly ni allwch ddod i gasgliad oni bai ei fod yn seiliedig ar ffermydd unigol."*

> *"Gallwn gael fy ystyried yn effeithlon iawn, gan fwydo anifail yn galed o greadur ifanc i bwysau lladd – ond a fydd hynny'n rhoi cynnyrch da? Gallai edrych yn effeithlon, ond beth fyddai'n cael ei gynhyrchu?"*

> *"Rydym ni'n organig felly byddwn yn stocio llai na ffermwyr mwy dwys. Bydd cymharu'n anodd. Marchnatwn y rhan fwyaf o'n stoc yn uniongyrchol, gan werthu drwy farchnadoedd ffermwyr. Nid yw faint o bwysau y mae anifail yn ei ennill yn ddyddiol yn berthnasol iawn i'n system. Ansawdd y cig yw'r peth pwysicaf. Ni fydd dangosyddion KPI yn helpu i fesur y math hwnnw o allbwn."*

Gwnaed sylwadau tebyg yn yr arolwg hefyd. Roedd rhai ymatebwyr yn ddryslyd ynghylch pwrpas a nod yr amcan ac yn poeni am effaith gwahanol ffactorau amrywiol ar berfformiad ffermydd.

> *"Er enghraifft, oed buwch yn cael ei llo cyntaf: Gwn o brofiad beth sydd orau i fy system, ein da byw, cyfleusterau, pridd a thopograffi'r tir. Nid wyf eisiau cael fy mesur yn erbyn KPI amherthnasol."*

> *"Dydyn nhw ddim yn ystyried y ffactorau amrywiol mewn ffermio – mae gymaint o ffactorau allanol felly pe bai KPI yn cael ei fethu, byddwn yn teimlo fel methiant. Mae ffermio'n fater o addasu i'r tywydd, prisiau'r farchnad a ffactorau allanol fel costau porthiant a gwrtaith. Mae'n anodd iawn gosod targedau o un flwyddyn i'r llall."*

Lleisiodd nifer o weithdai bryderon y gallai meincnodi o dan gynllun gan y llywodraeth roi pwysau ychwanegol diangen ar ffermwyr a gwaethygu iechyd meddwl o fewn y diwydiant, sy'n wael yn barod. Yn hanesyddol, mae'r sector ffermio'n gysylltiedig ag ystadegau iechyd meddwl gwael ond yn fwy diweddar mae'r

pwysau ar y diwydiant wedi gwaethygu oherwydd costau uwch y mewnbynnau, prisiau cynnyrch ansefydlog a pholisi a thaliadau cymorth ansicr. Roedd adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl yn 2019 yn nodi'n glir bod y newidiadau yn sgîl Brexit yn cyflwyno elfen sylweddol o ansicrwydd i'r diwydiant ffermio ac yn gyfle allweddol i awdurdodau sydd â'r pŵer i wneud penderfyniadau gefnogi'r diwydiant ffermio gyda'r broses drosglwyddo (Davies, AR. et al., 2019)[15]. Mae canfyddiadau'r broses cyd-ddylunio'n dangos pwysigrwydd y cymorth hwn ac ail-bwysleisio'r pryderon am iechyd meddwl y gymuned ffermio.

Roedd y rhan fwyaf yn aneglur ynghylch amcanion y cam gwaith hwn a pham yr oedd wedi'i gynnwys yn y Cynllun. Er esbonio droeon nad oedd yn fwriad gan Lywodraeth Cymru arwahanu neu gosbi ffermwyr os oedd eu dangosyddion KPI yn is na safon y diwydiant, roedd ffermwyr yn dal i boeni am gael eu cosbi pe byddent yn adrodd dangosyddion isel. Nid oedd gan rai lawer o ffydd yn Llywodraeth Cymru i beidio eu cosbi am ddangosyddion KPI isel yn y dyfodol. Felly hefyd, casglodd ymchwil i ffermwyr anoddach eu cyrraedd yn y broses o gyd-ddylunio'r Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol yn Lloegr fod gan ffermwyr anoddach eu cyrraedd 'amheuaeth naturiol' o lywodraeth ac asiantaethau cysylltiedig. Gall hyn ymwneud â phrofiadau blaenorol negyddol o lywodraeth ac ofni cael eu cosbi am beidio â chwrdd â gofynion neu waith papur yn gysylltiedig ag AES (Hurley et al., 2022)[16]. Roedd pryderon hefyd am sut y byddai data'r dangosyddion KPI yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio.

> *"Mae angen gallu ymddiried, ddim yn siŵr ydy pobl yn ymddiried ynoch [Llywodraeth Cymru]. Dw i'n monitro dangosyddion KPI yn fy mhen. Os dechreuaf rannu hynny, beth fydd yn digwydd? Mae angen dangos y gallwn ymddiried ynoch, dechrau pethau'n araf a'i gyflwyno i wneud gwelliannau – nid drwy sancsiynau."*

> *"Gan bwy fydd y data hwn i gyd a phwy fydd yn ei gasglu? Beth fyddan nhw'n ei wneud â fo? Dw i'n poeni y bydd yn cael ei ddefnyddio fel ffon ac nid i'n helpu. Casglu er mwyn casglu, neu a fydd defnydd cynhyrchiol iddo?"*

Roedd y rhan fwyaf yn aneglur am yr amcanion gan ddweud bod angen deall a gwybod mwy am resymau'r dangosyddion er mwyn eu hystyried. Er enghraifft, teimlent fod diffyg cysondeb rhwng dangosyddion a dargedir at fod yn fwy cynhyrchiol ac effeithlon, a chamau gwaith a fyddai'n lleihau cynhyrchu a gostwng eu dangosyddion KPI.

> *"Bydd tynnu allan 20% yn effeithio ar ein dangosyddion KPI. Os yw'r peiriannau gennych yn barod ar gyfer hyn a hyn o aceri a rhaid tynnu allan 20% o dir ar gyfer camau gwaith eraill, bydd y busnes dan bwysau a gormod o gyfalaf mewn cyfarpar."*

Roedd amser a baich gweinyddol yn rhwystrau allweddol i barodrwydd ffermwyr i gwblhau'r cam gwaith hwn. Allan o'r 28% wnaeth ymateb i'r arolwg (n=401) a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn, y tri rhwystr mwyaf i gwblhau'r cam gwaith oedd:

---

[15] Davies AR, Homolova L, Grey CNB, Fisher J, Burchett N, Kousoulis A (2019). Supporting farming communities at times of uncertainty: an action framework to support the mental health and well-being of farmers and their families. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl.

[16] Hurley, P., Lyon, J., Hall, J., Little, R., Tsouvalis, J., White, V. & Rose, D. C. (2022). Co-designing the environmental land management scheme in England: The why, who and how of engaging 'harder to reach' stakeholders. People and Nature, 00, 1–14. **https://doi.org/10.1002/pan3.10313**

- 69% Dw i ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol.
- 52% Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision.
- 50% Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn ar y fferm.

Roedd y rhai a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith (n=7) a'r rhai a oedd yn amharod (n=13) wedi ailadrodd y pryder hwn wrth ymateb i'r arolwg ansoddol:

> *"Amser ydy'r rhwystr mwyaf. Ble ydw i'n cael amser i dderbyn y cyngor / arweiniad / hyfforddiant 'am ddim'? Byddai'n well gen i fod ar y fferm yn gweithio, ddim yn treulio mwy fyth o amser ar waith papur."*

Cafodd y rhwystr hwn ei ailadrodd yn y gweithdy gyda llawer yn sôn am bryderon am y gwaith papur ychwanegol a'r baich amser y byddai'r cam gwaith hwn yn ei greu.

#### 4.2.1.5 Gwelliannau a chymorth

Er bod llawer yn y gweithdy yn erbyn y camau gwaith KPI a'r rhan fwyaf yn erbyn eu cynnwys fel UA yn y Cynllun, cynigiwyd rhai syniadau ar gyfer sut i'w gwella.

Roedd angen i Lywodraeth Cymru egluro amcan a phwrpas y cam gwaith hwn yn well a sut y gallai'r dangosyddion KPI gysylltu i amcanion y fferm, i annog mwy i gwblhau'r cam gwaith a chael mwy o hyder mewn defnyddio dangosyddion KPI. Er y teimlai rhai ffermwyr y byddai'n fuddiol cymharu dangosyddion KPI y fferm â rhai'r diwydiant, teimlai'r rhan fwyaf y dylid ond eu defnyddio i fonitro eu perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ac nid i gymharu ag eraill.

> *"Unig amcan y dangosyddion KPI fyddai edrych ar ffigurau'r fferm fel data cychwynnol, ac er mwyn gwella o flwyddyn i flwyddyn. Gyda'ch busnes eich hun a'ch arferion eich hun, os oes cyfle i wella'r pethau hyn, gallai hyn fod yn ffordd o wneud hynny. Gallech ddewis y rhai mwyaf perthnasol i chi ac adeiladu ar hynny. Ni fyddwn yn meddwl am ffermydd eraill, dim ond eu defnyddio i wella eich fferm chi."*

Awgrymodd un cyfranogwr os nad oedd ffermwyr eisiau cymharu eu dangosyddion â rhai ffermydd eraill, y gellid cynnwys hyn fel rhan o CA lle y gallai ffermwyr tebyg o'r un meddylfryd feincnodi a chymharu â'i gilydd yn lle cymharu eu canlyniadau ar draws y diwydiant.

Pan gyflwynwyd opsiynau arfaethedig ar gyfer y dangosyddion KPI, teimlai rhai y dylid symleiddio hyn i gyfres graidd o ddangosyddion, a allai leihau cymhlethdod y cam gwaith. Teimlwyd hefyd y byddai gormod o ddangosyddion yn cynhyrchu gormod o ddata na fyddai'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac y byddai cyfres graidd felly'n fwy defnyddiol. Dywedodd un cyfranogwr fod ffermydd yn annhebygol o newid o flwyddyn i flwyddyn ac y dylid felly lleihau'r cylch adrodd gan leihau'r amser a'r baich gweinyddol o gwblhau'r cam gwaith.

Roedd ffermwyr yn awyddus i weld hyblygrwydd gyda'r dangosyddion ac y byddent yn gweithio'n ymarferol i'w fferm. Er enghraifft, dywedodd ffermwyr mynydd bod y data a gesglir ar gyfer y dangosyddion yn aml yn anghydnaws â'u harferion ffermio ac y byddai angen cadarnhau eu synnwyr yn gyntaf i sicrhau y byddent yn gweithio.

> *"Mae angen iddyn nhw adlewyrchu realiti. Rhaid iddyn nhw fod yn llawer mwy hyblyg. e.e. ar gyfer fferm fynydd, rhaid i unrhyw ddata a gesglir fod yn gydnaws ag arferion ar y fferm honno. Os yw defaid yn cael eu hel hanner dwsin o weithiau'r flwyddyn, rhaid adnabod pa ddata sy'n werthfawr*

> *i'w gasglu ar yr adegau hynny, a'i gynnwys mewn senario KPI. Rhaid i'r ymarfer fod yn hyblyg a hyfyw i'w wneud heb gost ychwanegol."*

Roeddent hefyd yn awyddus i sicrhau y byddai unrhyw ddangosyddion KPI yn cyd-fynd ag amcanion penodol y fferm. Roedd syniadau'r cyfranogwyr ar gyfer sut i wneud hyn yn cynnwys:

- Targedu dangosyddion KPI i amcanion busnes penodol, e.e. ydy'r fferm yn ceisio ehangu, cynnal neu adael y farchnad, a ffactorau eraill fel ansawdd y cynnyrch.
- Lle i ychwanegu nodiadau at ddangosyddion KPI fel y gallai ffermwyr egluro newidiadau neu roi rhesymau dros redeg y fferm fel y câi ei rhedeg, gan roi cyd-destun i'r KPI a helpu ffermwyr i ddeall y flwyddyn wedyn pam y cawsant y canlyniadau a gawsant mewn blynyddoedd blaenorol.
- Cynnwys dangosyddion KPI amgylcheddol / dwys yn ogystal â rhai cynhyrchiol i gyd-bwyso'r gwahanol amcanion y mae ffermwyr yn ceisio eu cyflawni. Roedd enghreifftiau'n cynnwys amrywiaeth y cynnyrch coetir, coed a glaswellt, ansawdd pridd a dŵr.

Byddai hefyd angen i'r dangosyddion gynnwys pob sector, gan gynnwys Dofednod, Ceffylau a Garddwriaeth.

Dywedodd 84% o'r rhai wnaeth ymateb i'r arolwg a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith y byddai angen cymorth arnynt i wneud y gwaith hwn. O'r cyfweliadau, 'cyngor gan ymgynghorwyr' a 'cwrs hyfforddiant wyneb yn wyneb' oedd y cymorth mwyaf poblogaidd. Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai y byddai angen arweiniad clir arnynt ar sut i weithio allan y ffigurau ac y gellid defnyddio technoleg fel rhaglen neu ap i wneud mewnbynnu'r data'n broses syml a hawdd. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod er y byddai'r rhan fwyaf yn gyffyrddus yn defnyddio meddalwedd TG, y byddai angen cydnabod y byddai angen help ar rai ffermwyr a bod angen ystyried y cysylltedd band-eang gwael mewn rhai ardaloedd. Dim ond dau o gyfranogwyr y gweithdai a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r system enghreifftiol – system KPI AHDB. Teimlai un bod y system yn ddryslyd i edrych arni a chyfranogwr arall ei bod yn ddefnyddiol ond ei bod yn rhoi pwysau diangen ar ffermwyr.


Dywedodd y cyfranogwyr hefyd y gallai canllawiau arfer da, a grwpiau trafod, fod yn ddefnyddiol i egluro sut y gallai ffermwyr wella eu dangosyddion KPI. Yn enwedig, teimlai ffermwyr newydd fod arnynt angen mwy o arweiniad ar ddangosyddion KPI.

# 4.3 Arallgyfeirio, gwahaniaethu, arbenigo i ychwanegu gwerth

## 4.3.1 OA: Cnydau porthiant

**OA:** Cefnogir ffermwyr i dyfu cnydau fel bod angen iddynt brynu llai o borthiant.

Ffigwr 4.1 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y cam gwaith OA cnydau porthiant (n=733)




Dywedodd 26% o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod (Ffigwr 4.1) a soniodd nifer o gyfranogwyr y gweithdai eu bod wedi cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod o dan Glastir ond gyda llwyddiant cymysg:

> *"Yn gwneud hyn yn barod o dan Glastir. Wel pam lai – cymorth i dyfu cnwd sydd o fudd i ni, pawb yn ennill. Maip sydd acw, a hau glaswellt o dano ar un adeg cyn i Glastir benderfynu rhoi'r gorau i hynny. Dw i ddim yn deall pam na wneir mwy o hyn."*

> *"Tyfu maip o dan Glastir – dim chwistrellu felly mae llawer o'r cnwd yn mynd yn ofer wrth i'r chwilen chwain ei fwyta. Gwyddom fod angen defnyddio llai o gemegau ond rhaid meddwl am ffyrdd o dyfu cnwd yn llwyddiannus. Efallai amrywio'r cnydau a dyfwn – rhai heblaw maip – sydd ag ymwrthedd i'r chwilen chwain."*

Roedd cyfranogwyr eraill yn ddryslyd am bwrpas y cam gwaith hwn. Teimlai lawer fod hyn yn anghyson ag amcanion carbon y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) oherwydd y byddai angen troi'r tir a hynny'n rhyddhau carbon, ac yn aneglur beth fyddai'r manteision.

> *"Tynnu carbon allan o'r pridd – byddai hau cnydau'n groes i'r nod o fod yn fanteisiol i'r glaswelltir oherwydd byddai angen i ni droi'r tir."*

> *"Mewn gwirionedd, fy nhalu am dyfu ychydig o ŷd ond byddwn yna'n cael gwared ar y glaswellt a byddai'n rhaid i mi brynu gwair. Dim pwynt i'r peth. Dylai leihau faint o borthiant a brynwn ond ni fydd yn gwneud hynny."*

> *"Fel fferm hen laswellt, pe byddem yn arallgyfeirio i dyfu ein cnydau ein hunain, byddai angen troi. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu templed ar gyfer ein hôl-troed carbon a sut y byddai troi'r tir i dyfu cnydau'n effeithio ar*

*yr ôl-troed. Mae angen meddwl yn ofalus am hyn cyn annog pobl i dyfu gwahanol gnydau."*

Roedd gan rai cyfranogwyr ddiddordeb yn yr opsiwn hwn ond yn teimlo na allent ei wneud ar y fferm oherwydd diffyg peiriannau, e.e. combein pe byddent yn penderfynu tyfu grawnfwydydd. Trafodwyd cael contractwr i'w helpu i gwblhau'r cam gwaith ond teimlwyd y byddai faint o dir a fyddai ar gael i wneud y gwaith yn rhy fach i fod yn werth chweil i gontractwyr. Soniwyd am broblemau eraill fel lle i storio cnydau, e.e. seilos ar gyfer grawnfwydydd. Awgrymodd rai mai un ateb fyddai bod ffermwyr yn gweithio gyda'i gilydd fel y gallai contractwr weithio ar ffermydd cyfagos hefyd wrth ddod allan.

Trafodwyd yn y gweithdy na fyddai plannu cnydau'n ymarferol i bob math o dir. Teimlai'r cyfranogwyr na fyddai'n ateb gorau ar gyfer pob fferm oherwydd bod addasrwydd tir yn amrywio a'r gwahanol fathau o bridd i dyfu cnydau.

Yn yr arolwg, dywedodd 32% y byddai angen cymorth arnynt i gwblhau'r gwaith hwn. Teimlai cyfranogwyr y gweithdai fod angen y cyngor a'r arweiniad canlynol:


- Profion pridd ac arweiniad fel bo'r cam gwaith yn briodol i'r gwaith hwn
- Grantiau cyfalaf i brynu peiriannau ac adnoddau ar gyfer y cam gwaith hwn
- Cyngor ac arweiniad ar sut y gallai'r cam gwaith effeithio ar ôl-troed carbon y fferm drwy orfod troi glaswelltir oedd heb gael ei droi o'r blaen. Yn benodol, soniodd un cyfranogwr am 'dempled ôl-troed carbon' ar gyfer y cam gwaith.

### 4.3.2 OA: Cymorth i sefydlu busnes garddwriaeth

**OA:** Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth i sefydlu busnesau garddwriaeth neu fentrau garddwriaeth newydd fel rhan o fusnes fferm wedi sefydlu'n barod.

Dywedodd canran uchel o'r cyfranogwyr nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru i sefydlu busnes garddwriaeth (Ffigwr 4.2). Dyma un o'r camau gwaith OA lleiaf poblogaidd ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg.

Ffigwr 4.2 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA cymorth i sefydlu busnes garddwriaeth (n=733)



Fel gyda’r camau gwaith OA i dyfu cnydau porthiant, dywedodd y cyfranogwyr fod rhai mathau o dir yn anaddas i blannu cnydau ac y byddai angen derbyn cyngor a gwneud profion pridd i sicrhau bod y cam gwaith yn briodol i’r fferm.

Soniodd rai cyfranogwyr hefyd am drafferthion cael caniatâd cynllunio priodol wrth geisio arallgyfeirio’r busnes.

> *“Mae llawer o bobl sy’n meddwl am arallgyfeirio yn darganfod y gall rhwystrau mawr godi gyda deddfwriaeth a chynllunio. Maen nhw [y bobl gynllunio a deddfwriaeth] eisiau i chi werthu cynnyrch drwy’r fferm. Os am agor siop fferm, gall problemau diri godi gyda chynllunwyr a phriffyrdd yn anhapus efo un peth neu’r llall. Mae gymaint yn eich rhwystro, neu gallech sefydlu ac yna rhoi’r gorau iddi a dweud wel dio ddim yn werth o.”*

Dywedodd un cyfranogwr y byddai angen arweiniad ar sut i fynd i mewn i’r math hwn o fusnes fferm, a chymorth i werthu cynnyrch i’r farchnad, ar unrhyw un a fyddai’n ystyried yr UA hwn. Yn yr arolwg, dywedodd 26% y byddai angen cymorth arnynt i gwblhau’r gwaith hwn.

Yn yr arolwg, soniodd ymatebwyr am fathau eraill o arallgyfeirio, fel cadw gwenyn, y byddent yn hoffi gweld y Cynllun yn eu hystyried.

> *“Cadw gwenyn a mesurau cymorth sy’n lleihau’r risg amgylcheddol i wenyn.”*


> *“Gwahodd gwenynwyr i gadw cychod gwenyn ar y fferm i gynorthwyo peillio.”*

### 4.3.3 OA: Cymorth ar gyfer prosiectau arloesi

**OA:** Bydd Llywodraeth Cymru’n cynnig cymorth i brosiectau arloesi sy’n treialu technegau a thechnoleg newydd ar lefel ymarferol gan roi ffocws ar gynaliadwyedd, arallgyfeirio marchnad a gwella gwydnwch y fferm.

Dangosodd ymatebwyr i’r arolwg lawer iawn o ddiddordeb mewn derbyn cymorth ar gyfer prosiectau arloesi (Ffigwr 4.3). Roedd cyfranogwyr y gweithdai eisiau mwy o enghreifftiau o beth fyddai arallgyfeirio neu arloesi’n ei olygu fel rhan o’r OA hwn. Lleisiwyd pryder pe bai pawb yn ceisio cwblhau camau gwaith arallgyfeirio fferm, y byddai’n llifo’r farchnad fel na fyddai fawr ddim mantais marchnad wedyn i’r rhai a fyddai’n cwblhau’r math yma o gamau gwaith.


Ffigwr 4.3 Diddordeb ymatebwyr i’r arolwg yn yr OA cymorth arloesi (n=733)




### 4.3.4 CA: Ffermwyr yn gweithio gyda'i gilydd i werthu i'r defnyddiwr

**CA:** Bydd cymorth cydweithredol ar gael i helpu ffermwyr i weithio gyda'i gilydd i werthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr ac ychwanegu gwerth.

Ffigwr 4.4 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y cam gwaith CA gwerthu i farchnadoedd (n=416)




Roedd gan ganran uchel o'r ymatebwyr i'r arolwg ddiddordeb yn y cam gwaith CA o weithio gyda'i gilydd i werthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr (Ffigwr 4.4). Roedd gan un o gyfranogwyr y gweithdy brofiad o weithio'n gydweithredol â ffermwyr i werthu'n uniongyrchol i'r farchnad gan deimlo y byddai'r math hwn o CA yn elwa o gymorth gan Lywodraeth Cymru.

> *"Rai blynyddoedd yn ôl, roeddwn yn rhan o brosiect rhentu eiddo i sefydlu siop fferm gydweithredol. Ar ôl cyrraedd pwynt, roedd y broses yn cymryd amser ac fe aeth rai ohonom i wahanol gyfeiriadau. Roedd tua 6 ohonom yn rhan o'r fenter. Byddem yn cyflenwi'r hyn a dyfwyd fel cynnyrch yn y siop. Nid oedd risg i un unigolyn wedyn. Mae'n rhywbeth y gallech deimlo ei fod yn amhosib ei wneud eich hun, ond yn gydweithredol credaf y gallai Llywodraeth Cymru ei gefnogi."*

Er bod y cyfranogwr hwn yn teimlo y gallai'r math hwn o waith cydweithredol fod yn ddefnyddiol i wasgaru risg ar draws grŵp yn hytrach nag un unigolyn, teimlai eraill y byddai'n well ganddynt fynd ar ôl y gwahanol lwybrau i'r farchnad eu hunain ac nid fel grŵp.

Cytunodd y cyfranogwyr mai problem fawr yw nad yw archfarchnadoedd yn gofalu am eu cyflenwyr. Rhoesant enghreifftiau o hyn, fel gostwng prisiau ychydig cyn cynaeafu. Dywedodd y cyfranogwyr y byddai angen cymorth cyfreithiol er mwyn rhoi sicrwydd incwm iddynt ac y byddent yn hoffi mwy o gymorth ar hyn. Roedd eraill eisiau cadarnhad a fyddai 'menter gydweithredol' yn cael ei ystyried yn gydweithredu o dan y math hwn o gam gwaith.

## 4.4 Lleihau'r risg o ddal a lledu clefydau

### 4.4.1 UA: Bioddiogelwch

**UA:** Pob fferm i gwblhau'r camau gwaith bioddiogelwch angenrheidiol, sef:

- ardal olchi a diheintio i bobl gael glanhau eu dillad a golchi cyfarpar a cherbydau wrth ddod i mewn a mynd allan o'r fferm ac unrhyw ardaloedd da byw
- diogelu pob terfyn tir amgaeedig i atal stoc rhag crwydro
- storfa ddiogel bwrpasol ar gyfer stoc marw, y gellir ei glanhau a'i diheintio. I fod yn ddigon pell o dda byw, porthiant a dŵr
- diogelu storfeydd porthiant i gadw bywyd gwyllt a llygod mawr ayyb allan
- rhaglen rheoli pla yn ei lle, sy'n cynnwys defnydd cyfrifol o fio-laddwvr.

#### 4.4.1.1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| •Roedd **77%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn barod i gwblhau'r cam gwaith.<br>•**Y 3 prif ffactor cymell:**<br>•"Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (65%)<br>•"Dw i'n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da" (59%)<br>•"Dw i'n gwneud hyn yn barod ar y fferm" (46%) | •Roedd **23%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn amharod i gwblhau'r cam gwaith<br>•**Y 3 prif rwystr:**<br>•"Nid yw fy math o fferm / system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn" (46%).<br>•"Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (46%)<br>•"Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn ar y fferm" (45%) | •Teimlai ffermwyr fod bioddiogelwch yn bwysig ac o blaid y cam gwaith ar y cyfan. Er hynny, lleisiwyd pryderon am elfennau ymarferol rhai tasgau ar y fferm, e.e. ardal olchi a storfa anifeiliaid marw. Thema gyffredin arall oedd poeni am fynediad i'r cyhoedd ac ymddygiad y cyhoedd ar y fferm. |

#### 4.4.1.2 Sgiliau a phrofiad

Dywedodd 77% o'r rhai wnaeth ymateb i'r arolwg y byddent yn barod i gwblhau'r UA Bioddiogelwch. O'r rhai a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith, dywedodd 46% eu bod yn ei gwblhau'n barod a dywedodd 44% fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i'w gwblhau. Y prif rwystrau gan y rhai nad oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith oedd nad oedd eu math o fferm neu system ffermio'n cynnig ei hun yn dda iddo (46%), bod yr ymdrech oedd ei hangen yn fwy na'r manteision (46%) a diffyg amser, llafur neu adnoddau i wneud y gwaith (45%).

Teimlai'r rhan fwyaf a fynychodd y gweithdai eu bod yn cwblhau'r rhan fwyaf o'r camau gwaith bioddiogelwch o dan yr UA yn barod, yn enwedig y rhai a oedd yn rhan o gynlluniau gwarant fferm. Cefnogir hyn gan yr arolwg, gyda'r rhai a oedd yn rhan o gynlluniau gwarant fferm yn fwy parod i gwblhau'r cam gwaith hwn ac yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt y sgiliau neu o fod yn gwneud y gwaith hwn yn barod (Tabl 4.3). Fodd bynnag, soniodd gyfranogwyr y gweithdai am broblem neilltuol gyda'r elfen 'ardal olchi', a thrafodir mwy ar hyn isod.

Tabl 4.3 Parodrwydd i gwblhau'r UA Bioddiogelwch yn ôl profiad o gynlluniau gwarant fferm.

| Cynllun gwarant fferm | Yn barod i gwblhau'r cam gwaith | Ffactorau cymell gan rai a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn | |
|---|---|---|---|
| | | "Dw i eisoes yn gwneud hyn ar y fferm" | "Mae gen i'r sgiliau / gwybodaeth i wneud hyn" |
| Dim (n=439) | 69% | 34% | 38% |
| Cynllun Gwarant Fferm Bîff a Chig Oen (n=850) | 79% | 51% | 45% |
| Tractor Coch (n=249) | 82% | 50% | 47% |
| Cynllun Organig Cymru (n=86) | 77% | 45% | 56% |

### 4.4.1.3 Cyfle

O'r rhai a ddywedodd na fyddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn (23% o'r 1,445 wnaeth ymateb), un o'r prif ffactorau a oedd yn rhwystro eu parodrwydd i'w gwblhau oedd nad oedd eu math o fferm neu system ffermio'n addas (46%). Roedd 153 wedi dewis y ffactor rwystro hon ar draws amrediad o wahanol fathau o ffermydd yn cynnwys Defaid (41%), Ffermio Cymysg (24%), Arall (9%), Bîff (11%). Cyfeiriodd y cyfranogwyr hyn at broblemau penodol yn ymwneud â chael storfa bwrpasol i gadw stoc marw gydag amryw'n dweud bod eu stoc marw'n cael eu symud o'r fferm yn syth ac felly bod storfa'n gost ddiangen.

> *"Dw i'n cwblhau pob un o'r camau gwaith UA uchod yn barod heblaw am storfa bwrpasol i gadw stoc marw, sy'n hollol ddiangen ar y raddfa yr ydw i'n ei ffermio. Os yw anifail yn marw, mae'r cwmni cludo stoc marw'n dod i'w nôl yr un diwrnod neu'r diwrnod wedyn."*

Roedd hyn yn thema gyffredin yn yr arolwg, gyda'r rhai a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith (n=12) ac yn amharod (n=25) yn ychwanegu mwy o fanylion i egluro pam na fyddai hyn yn addas i'w math o fferm neu system ffermio.

> *"Gall byw yn yr ucheldir ei gwneud yn anodd weithiau cyrraedd stoc marw, er mai ychydig iawn o ddefaid a gollir fel arfer."*
>
> *"Oherwydd natur ffermio yn yr ucheldir (y cwestiwn terfynau), byddai'r ymarfer yn amhosib ei reoli."*

Gwnaed sylwadau tebyg yn y gweithdai am rai o broblemau ymarferol cwblhau'r cam gwaith hwn a'r anawsterau posib o gwblhau'r math yma o waith ar dir comin. Yn yr arolwg, roedd y rhai oedd â 'hawliau tir comin' ychydig yn llai parod i gwblhau'r

cam gwaith hwn (75%) na'r rhai oedd heb hawliau tir comin (77%) er mai bach iawn oedd y gwahaniaeth.

Lleisiwyd pryderon eraill o ran ymarferoldeb yn y gweithdy hefyd. Er bod y rhan fwyaf yn cwblhau'r rhan fwyaf o'r camau gwaith bioddiogelwch dan sylw, roeddent yn cytuno nad yw cael 'ardal olchi' bob amser yn ymarferol. Ni ystyriwyd bod cael 'ardal olchi' wrth bob mynedfa i'r fferm yn ymarferol, yn enwedig gyda hawliau tramwy cyhoeddus ac os nad oedd anifeiliaid wedi eu cau allan. Roedd consenswS yn y gweithdai, er bod ffermwyr yn meddwl bod bioddiogelwch yn bwysig ac yn barod i gwblhau'r rhan fwyaf o'r camau gwaith hyn, nad oes ganddynt reolaeth dros orfodi'r cyhoedd i ymolchi na golchi eu cŵn wrth ddod i'r fferm. Cafodd hyn ei adleisio gan 24 o'r rhai wnaeth ymateb i'r arolwg a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith, a gan 9 a oedd yn barod i'w gwblhau.

> *"Mae'r tir ar y fferm yn fynediad agored, byddai'n amhosib diheintio wrth bob mynedfa i mewn ac allan. Mae cerddwyr / beicwyr ayyb yn aml iawn yn gadael gatiau ar agor a cherddwyr cŵn yn aml yn torri ffensys ar y mynydd, felly byddai'n amhosib cynnal terfynau diogel."*

Lleisiodd rai bryderon am risg o lygredd drwy ddiheintio'n amlach o ganlyniad i gael mwy o ardaloedd golchi.

#### 4.4.1.4 Cymhelliad

Yn ôl un gweithdy, roedd cael camau gwaith bioddiogelwch yn y Cynllun yn gryfder oherwydd gallai'r camau gwaith helpu i gadw'r ffermydd ar y blaen i gamau gwaith bioddiogelwch ac atal clefydau rhag lledu. Teimlai 59% o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith ei fod yn arfer ffermio da, a hynny oedd y prif ffactor a fyddai'n cymell ei gwblhau ar wahân i dderbyn taliadau. Cytunodd gyfranogwyr y gweithdai fod bioddiogelwch yn bwysig, gyda'r rhan fwyaf yn cwblhau nifer o'r camau gwaith dan sylw, yn enwedig fel rhan o gynllun gwarant fferm.

O'r rhai a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith, amser (45%) ac ymdrech (46%) oedd y prif ffactorau rhwystro. Mae'r rhain yn rhwystrau cyffredin ar draws holl gamau gwaith y Cynllun sy'n dangos bod y ffactorau rhwystro hyn efallai'n symptom o ddiffyg amser gan ffermwyr a phryderon am faich amser y Cynllun yn gyffredinol, yn hytrach na phryderon am y cam gwaith penodol hwn.

#### 4.4.1.5 Gwelliannau a chymorth

I helpu ffermwyr i gwblhau'r cam gwaith, roedd cyfranogwyr y gweithdai eisiau gweld elfen o hyblygrwydd gyda'r cam gwaith i sicrhau y byddai'r gwaith a gâi ei wneud yn addas i'r fferm. Codwyd y mater o gymorth cyfalaf hefyd fel ffactor bwysig i dalu am osod ardaloedd golchi a gatiau dwbl.

Roedd y rhai a oedd eisoes yn achrededig o dan gynllun gwarant fferm eisiau bod yn siŵr y gallent ddefnyddio'r cynllun gwarant fferm fel elfen **cydnabod perfformiad** fel na fyddai angen archwiliad neu waith papur pellach.


Soniodd rai yn y gweithdai am faterion bioddiogelwch eraill fel TB mewn gwartheg (bTB) a'r clafr a bod arnynt eisiau gweld mwy o gymorth i'r diwydiant gyda'r problemau hyn. Roeddent yn poeni am bTB gan deimlo ei fod yn broblem anferth yn y diwydiant. Awgrymwyd bod angen profion a chymorth gwell gan Lywodraeth Cymru. Soniwyd yn benodol bod y cynnydd mewn prisiau dipio defaid yn rhwystr i fynd i'r afael â chlafr mewn defaid a bod arnynt eisiau cymorth gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â'r clefyd hwn.

### 4.4.2 OA: Ffensys 3m o led

**OA:** Bydd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am godi ffensys a gwrychoedd 3m o led ar hyd terfynau'r fferm (lle bo'n briodol) i atal stoc o dir cyfagos rhag dod i gysylltiad â stoc y fferm.

O'r rhai a gwblhaodd yr arolwg o gamau gwaith OA, roedd 17% eisoes yn cwblhau'r cam gwaith ffensys 3m o led, a 51% gyda diddordeb.

Ffigwr 4.5 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA ffensys 3m o led (n=740)




Roedd peth dryswch yn y gweithdy o ran beth a fyddai'n ddisgwyliedig gyda'r cam gwaith hwn a sut y byddai'n gweithio'n ymarferol.

Roedd ffermwyr yn y gweithdai eisiau mwy o eglurder ar sut y byddai'n gweithio o ystyried ei fod dibynnu, yn eu barn nhw, ar gydweithrediad rhwng cymdogion i sicrhau'r pellter o 3m. Teimlai'r cyfranogwyr y gallai'r cam gwaith hwn weithio'n well fel CA gyda therfyn o tua 1.5m ar bob ochr er mwyn sicrhau'r cyfanswm o 3m o bellter. Roedd rhai wedi lleisio pryderon y gallai anghydfod terfynau godi gyda'r cam gwaith hwn. Dywedodd 40% y byddai angen cymorth arnynt i'w gwblhau.


Teimlai gyfranogwyr y gweithdai fod anghysondeb rhwng ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella mynediad i'r cyhoedd a gwthio camau gwaith bioddiogelwch anifeiliaid. Meddylient, yn gyfreithiol, fod yn rhaid cadw hawliau tramwy cyhoeddus ar agor, hyd yn oed os nad yw'r peth gorau i fioddiogelwch bob tro.

### 4.4.3 OA: Ynysu am chwe diwrnod

**OA:** Ynysu pob anifail sy'n cyrraedd y fferm o'r newydd am 6 diwrnod o leiaf cyn cymysgu â stoc arall y fferm.

Yr OA ynysu am 6 diwrnod a dderbyniodd y ganran uchaf o gyfranogwyr yn dweud eu bod yn gwneud hyn yn barod (Ffigwr 4.6). Roedd rhai o gyfranogwyr y gweithdai eisoes yn gwneud hyn ac yn ei werthfawrogi fel cam gwaith derbyniol i'w gynnwys yn y Cynllun. Dywedodd 17% y byddai angen cymorth arnynt i'w gwblhau.

Ffigwr 4.6 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA ynysu am 6 diwrnod (n=737)





Roedd rhai cwestiynau am sut y byddai'r cam gwaith hwn yn cael ei fonitro, a hefyd a fyddai'r OA hwn efallai'n disodli'r [Rheol 6 diwrnod ar wahardd symud (6DSS)].

> *"Os byddwn ni fel diwydiant yn cytuno i hyn ac yn ei wneud, a fydd y rheol 6 diwrnod yna'n mynd?"*

### 4.4.4 CA: Y diwydiant yn gweithio gyda'i gilydd i leihau clefydau

> **CA:** Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i weld sut y gallai'r Cynllun gyflwyno trefniadau sy'n dangos bod anifeiliaid sy'n cyrraedd y fferm o unedau eraill yn ddiogel, gan leihau'r risg o gyflwyno afiechydon.

Ffigwr 4.7 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA lleihau clefydau (n=414)




Soniodd y cyfranogwyr am nifer o syniadau gwahanol ar gyfer cyflawni'r nod o atal clefydau rhag lledu:

- **Rhannu statws clefyd yn orfodol** – rhannu statws clefyd anifeiliaid i godi mwy o ymwybyddiaeth yn y diwydiant ac atal symud anifeiliaid gyda chlefydau.

Dywedodd rai y gallai hyn droi'n ymarfer 'ticio'r bocs' os nad yw pobl yn cael eu dal i gyfrif ac yn rhannu'r wybodaeth gywir.

- **Clafr defaid** – trafodwyd bod angen gwneud mwy i leihau clafr defaid mewn nifer o'r gweithdai. Teimlai'r cyfranogwyr fod angen edrych ar y pethau sy'n rhwystro dipio defaid, fel y gost uwch o ddipio, i weld a allai Llywodraeth Cymru roi unrhyw gymorth i fynd i'r afael â'r clefyd hwn drwy'r Cynllun.
- **bTB –** cyfeiriodd nifer o weithdai hefyd at y broblem o bTB, gyda phryder cryf ymhlith cyfranogwyr fod angen gwneud mwy i ddatrys y broblem hon. Roedd syniadau am sut i leihau bTB yn cynnwys databas o statws iechyd anifeiliaid drwy ddefnyddio EID Cymru, y system tracio da byw aml-rywogaeth newydd, mwy o brofion antigen wrth symud anifeiliaid rhwng ffermydd, ei gwneud yn anghyfreithlon gwerthu anifeiliaid gyda chanlyniad TB amhendant, a chyfarfodydd i drafod sut i atal clefydon.
- **Cyswllt â'r cyhoedd** – teimlai'r cyfranogwyr fod angen mwy o waith cydweithredol i siarad am fioddiogelwch â'r gymuned yn gyffredinol er mwyn trafod ymddygiad fel gadael gatiau ar agor, cŵn ar y fferm a gwella golchi dwylo i wella problemau bioddiogelwch. Codwyd y mater hwn mewn nifer o'r gweithdai.

Teimlai rai y byddai cydweithredu rhwng ffermwyr yn anodd gan boeni mai dim ond 'ffermwyr da' a oedd yn gwella eu camau gwaith bioddiogelwch yn barod a fyddai'n gwneud y math yma o waith, ac na fyddai 'ffermwyr gwael' yn gwneud.

# 5 Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff

## 5.1 Rhagarweiniad

Amcan ‘lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff’ yw helpu ffermydd i fewnbynnu llai a gwneud y defnydd gorau o’u hadnoddau er mwyn effeithio llai ar yr amgylchedd, gwella ansawdd yr aer a’r dŵr a’u gwneud yn fwy effeithlon a phroffidiol.

Mae’r rhan yma o’r adroddiad yn dadansoddi sgiliau a phrofiad, cyfle a chymhelliad ffermwyr i gwblhau’r Camau gwaith Sylfaenol (UA) o dan y nodwedd ‘Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu...’ a hefyd yn rhoi crynodeb o’r prif ganfyddiadau ar draws y Camau gwaith Dewisol (OA) a Chydweithredol (CA). Mae’r adran hon hefyd yn trafod cynigion ffermwyr ar sut i newid neu wella camau gwaith y Cynllun.

Trefnir yr adran hon o dan is-nodweddion canlynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) sy’n cynnwys y camau gwaith canlynol:

Tabl 5.1 Camau gwaith o dan Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff

| Is-nodwedd | Camau gwaith | Tudalen |
|---|---|---|
| Gwneud y defnydd gorau o wrtaith artiffisial drwy reoli maetholion a phrofion pridd | UA: Profion pridd<br>OA: Gwella cyflwr y pridd | 44 |
| Blaenoriaethu defnyddio tail a gwella ffrwythlondeb y pridd | OA: Cylchdroi cnydau | 50**Error! Bookmark not defined.** |
| Defnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr drwy reoli plâu yn integredig | UA: IPM a PPP | 52 |
| Gwneud y defnydd gorau o laswelltir drwy ddulliau eraill o bori, gan gyflwyno tir gwndwn aml-rywogaeth a phori cymysg | OA: Pori a gorffwys<br>OA: Porfa gymysg | 55 |
| Lleihau effaith allyriadau amonia ar yr amgylchedd | OA: Lleihau allyriadau amonia<br>CA: Lleihau allyriadau amonia | 57 |

## 5.2 Gwneud y defnydd gorau o wrtaith artiffisial drwy reoli maetholion a gwneud profion pridd

### 5.2.1 UA: Profion pridd

**UA:** Asiantaethau proffesiynol a'r ffermwr ei hun i wneud profion pridd wrth ymuno â'r Cynllun ac mewn pryd i adnewyddu'r contract, gan gynnwys cyfuniad o:

- Nitrogen (N), Potasiwm (K), Ffosfforws (P), Carbon a pH
- Cam gwaith biolegol, e.e. eDNA, lefel resbiradu drwy gyfrif rhywogaethau 'procsi' (pryfed genwair)
- Asesiad ffisegol, e.e. cyfradd ymdreiddio, dwysedd y pridd neu werthusiad gweledol o strwythur y pridd (VESS).
- Cyflwyno cyfrifon maetholion a thystiolaeth i gynnwys N, P, K ,C a pH

#### 5.2.1.1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| •Roedd **77%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn barod i gwblhau'r cam gwaith.<br>•**Y 3 prif ffactor cymell:**<br>•"Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (profion ffermwr 71%) (profion proffesiynol 65%)<br>•"Dw i'n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da" (profion ffermwr 58%) (profion proffesiynol 54%)<br>•"Yn fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol gyfeillgar" (profion ffermwr 43%) (profion proffesiynol 42%) | •Roedd **23%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn amharod i gwblhau'r cam gwaith profion pridd ffermwr na phroffesiynol.<br>•**Y 3 prif rwystr:**<br>•"Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn" (51% profion ffermwr) (44% profion proffesiynol)<br>•"Dw i ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol" (50% profion ffermwr) (49% profion proffesiynol)<br>•"Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (41% profion ffermwr) (36% profion proffesiynol) | •Roedd ffermwyr ar y cyfan o blaid profion pridd er ddim yn cytuno â'r holl brofion gan awgrymu sut y gellid gwella'r cam gwaith. Roedd ffermwyr organig ac eraill na fyddai'n defnyddio gwrtaith ar y fferm eisiau deall mwy am amcan y cam gwaith hwn. |

#### 5.2.1.2 Sgiliau a phrofiad

Dywedodd 77% o'r ymatebwyr i'r arolwg y byddent yn barod i gwblhau'r camau gwaith profion pridd ffermwr a phroffesiynol. Dywedodd 38% o'r cyfranogwyr a oedd

yn fodlon gwneud y profion y byddai ganddynt hyder i ddehongli canlyniadau’r profion ffermwr a dywedodd 34% y byddai ganddynt hyder i ddehongli’r canlyniadau proffesiynol. Roedd ffermwyr organig, ffermwyr gyda phrofiad o AES a rhai a fu’n rhan o gynlluniau gwarant fferm yn cyfrif am ganran uwch o ffermwyr a ddywedodd fod ganddynt hyder i ddehongli canlyniadau’r profion ffermwr a’r rhai proffesiynol na rhai heb y profiad hwn.

Yn y gweithdai, roedd gan y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr beth profiad o brofion pridd a defnyddio gwasanaeth proffesiynol fel Cyswllt Ffermio. Roeddent yn cytuno y byddai’r rhan fwyaf o ffermwyr yn gwneud rhyw fath o brofion pridd proffesiynol ond roedd barn gymysg am sgiliau a phrofiad ffermwyr o wneud profion pridd eu hunain. Roedd gan rai cyfranogwyr brofiad o brofi eu hunain ond yn amheus y byddai gan eraill y sgiliau a’r profiad i gwblhau’r cam gwaith hwn:

> *“Byddai angen i chi hyfforddi pobl i’w wneud o. Nid yw mor hawdd ag y mae’n edrych ar ddu a gwyn. Dw i wedi hyfforddi mewn bio-gemeg ond dydy’r rhan fwyaf ddim”*

Teimlai rai, gydag ychydig o hyfforddiant, y gallai ffermwyr ddechrau gwneud y profion eu hunain ac y gallai fod yn gyfle da fel rhan o’r Cynllun.

#### 5.2.1.3 Cyfle

Lleisiwyd pryderon yn y gweithdai a fyddai gan y diwydiant ddigon o adnoddau a chapasiti i wneud profion pridd ar draws yr holl ffermydd a fyddai eisiau ymuno â’r Cynllun. Codwyd y pryderon hyn am gapasiti labordai i wneud profion pridd, yn ogystal â chapasiti Cyswllt Ffermio i gefnogi a hyfforddi ffermwyr i wneud y profion. Gwnaed sylwadau na fyddai profi’n rhy aml yn werth chweil oherwydd gall gymryd amser i effaith unrhyw gamau gwaith ar y fferm gael ei gweld yn y pridd.

Codwyd y mater o denantiaeth fel rhwystr bosib i’r cam gwaith, mewn dau wahanol weithdy. Dywedodd un cyfranogwr na fyddai rhai sy’n rhentu tir dros dymor byr efallai’n gwybod llawer am gyfrifon maetholion tenantiaid blaenorol, a allai fod yn broblem gyda chwblhau’r cyfrifon maetholion pe bai’n rhaid iddynt wneud hyn ar gyfer nifer o flynyddoedd. Dywedodd un arall na fyddai tenant efallai’n gweld unrhyw newid yn y tir dros dymor byr ar ôl cwblhau profion a gwaith rheoli, ac felly nad oedd yn glir beth fyddai pwrpas y cam gwaith hwn i’r bobl hyn.

> *“Mae hyn i gyd yn seiliedig ar fod yn berchen ar dir a’i ffermio, nid yn berchen dros dro. Os ydych ond yn ffermio tir dros dro, ni fyddwch yn gwybod sut yr oedd pethau’r llynedd...mae llawer iawn o dir newidiol yng Nghymru.”*

Er hynny, nid oedd canlyniadau’r arolwg yn awgrymu bod tenantiaeth yn rhwystr i’r cam gwaith hwn gyda chanran debyg neu uwch o denantiaid yn barod i’w gwblhau o’i gymharu â rhai a oedd yn berchen ar eu tir i gyd neu’r rhan fwyaf ohono.

#### 5.2.1.4 Cymhelliad

Yn y gweithdai ac yn yr arolwg, roedd y cyfranogwyr yn cydnabod manteision profion pridd. O’r rhai a oedd yn barod i gwblhau’r cam gwaith, teimlai 58% fod profion pridd gan y ffermwr, a 54% fod profion pridd proffesiynol, yn arfer ffermio da. Dywedodd yr ymatebwyr i’r arolwg y byddai’r cam gwaith hwn yn eu cynorthwyo i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy (43% ar gyfer profion ffermwr a 42% ar gyfer profion proffesiynol). Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai fod y cam gwaith hwn yn fuddiol i leihau mewnbynnau’r fferm a hynny, yn ei dro, yn helpu i leihau costau

gwrtaith. Roedd y cam gwaith hwn, meddent, ynghyd â chamau gwaith eraill o dan y nodwedd 'Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu', yn beth da i asesu iechyd hirdymor y pridd yn lle canolbwyntio ar enillion cynhyrchu tymor byr.

Er bod cyfranogwyr yn deall manteision profion pridd, roedd geiriad y cam gwaith a'i amcan yn achosi dryswch. Mewn un gweithdy, roedd pawb yn cytuno bod yr amcan "Gwneud y defnydd gorau o wrtaith artiffisial drwy reoli maetholion a phrofi'r pridd" yn awgrymu hyrwyddo gwrtaith artiffisial. Teimlai rai y dylid annog ffermwyr yn gryfach i ddefnyddio llai neu symud i ffwrdd o wrteithiau artiffisial.

> *"Dylai gwrteithiau artiffisial fod yn ddewisol, dylai defnyddio pethau 'da' fod yn sylfaenol. Mae'n ddryslyd cael gwrteithiau artiffisial mewn dangosydd sylfaenol, gan awgrymu y dylai pawb fod yn gwneud hyn."*

Nid oedd eraill yn glir ai amcan y cam gwaith hwn oedd gwella cynhyrchu ar ffermydd, er mwyn dal a storio carbon, neu fel bod gan Lywodraeth Cymru ddata 'statws pridd' cychwynnol. Roedd y dryswch yn rhannol oherwydd geiriad y cam gwaith ond hefyd oherwydd bod angen profi'r fferm i gyd er bod rhai nad oeddent yn defnyddio na'n bwriadu defnyddio gwrtaith artiffisial. Nid oedd rhai'n bwriadu rhoi gwrtaith artiffisial ar y pridd oherwydd eu bod yn organig, roedd rhai ardaloedd yn warchodedig, trafferthion tir comin a chytundebau hawliau mynydd neu drafferth yn cyrraedd rhannau o'r fferm gyda thractor. Roedd angen eglurder ar bwrpas profi'r rhannau hyn o'r fferm.

> *"I mi, drwy fod yn dyddynnwr mor fach, ni wnawn unrhyw brofion pridd. Dw i heb wneud unrhyw ddarllen – dw i'n ddechreuwr llwyr. Byddai angen gafael yn fy llaw a chael rhywun i egluro manteision defnyddio gwrtaith artiffisial i mi. Pe bai'n rhaid i mi dalu'r prisiau presennol ar wrteithio i wella fy mhridd, sy'n asidig ar hyn o bryd, ni fyddai gen i unrhyw incwm ar ôl. Byddai'n fy nhorri a byddai'n rhaid i mi dynnu allan o'r farchnad."*

> *"Credaf mai cwestiwn ydyw o beth yw pwrpas y wybodaeth yma. Os er mwyn gwella cynhyrchu, yna dw i'n cytuno â'r pwyntiau na allwn wneud dim byd beth bynnag. Dw i'n amau mai'r hyn y mae Llywodraeth Cymru ei eisiau yw 'statws pridd' cychwynnol. Bydd yn werthfawr iawn i oleuo polisïau / camau gwaith / blaenoriaethau yn y dyfodol. Ac os yw Llywodraeth Cymru'n barod i dalu, mae hynny'n iawn efo fi!"*

Teimlent hefyd fod gormod o ffocws ar brofion N,P,K sy'n rhywbeth nad yw'n ddefnyddiol i'r ffermwr bob tro. Roedd nifer yn cwestiynu profi am nitrogen gan ddweud nad oedd yn rhan o brawf pridd arferol oherwydd y trafferthion gyda'i fesur, gyda rhai'n awgrymu os oedd nitrogen i gael ei gynnwys y dylai gael ei brofi ar ddail y planhigion ac nid ar y pridd.

#### 5.2.1.5 Gwelliannau a chymorth

Roedd canfyddiadau'r gweithdai'n awgrymu bod angen gwneud mwy i wella geiriad y cam gwaith ac egluro ei amcan. Yn enwedig, teimlai nifer o ffermwyr fod geiriad y cam gwaith fel pe bai'n annog ffermwyr i ddefnyddio gwrtaith artiffisial yn hytrach na defnyddio llai. Teimlwyd hefyd fod angen symleiddio'r cam gwaith i fod yn llai dyrys i ffermwyr ac i annog profion pridd sylfaenol.

Roedd gan ffermwyr wahanol flaenoriaethau ar gyfer profi'r pridd, gyda rhai yn y gweithdai'n well ganddynt fwy o ffocws ar brawf pridd biolegol yn hytrach na NPK. Dywedodd cynrychiolydd o'r sector garddwriaeth fod y sector yn wahanol iawn ei gyd-destun i eraill a bod angen darparu gwybodaeth ar lefel uwch na'r prawf a gynigir. Er mwyn cynnig hyblygrwydd ac atal y rhai sy'n gwneud profion pridd lefel

isel i beidio â chwblhau'r cam gwaith, awgrymwyd symud rhai profion i fod yn ddewisol. Gellid wedyn adeiladu ar y cam gwaith dros amser wrth i'r Cynllun ddatblygu. Teimlai rai y gallai profion Nitrogen a Charbon fod yn ddewisol, ac awgrymodd eraill fod prawf eDNA yn mynd gam ymhellach na phrawf sylfaenol.

Roedd profion eraill a fyddai o ddiddordeb, ac y gellid eu cynnwys mewn cam gwaith OA, yn cynnwys:

- Prawf capasiti cyfnewid cationau
- Dadansoddiad dal a storio carbon
- Prawf dail i asesu faint o faetholion a gymerir i mewn
- Cymhareb magnesiwm a chalsiwm
- Pridd a effeithiwyd gan facteria neu ffwng
- Prawf tail (cyn ei daenu)
- Elfennau hybrin

Wrth drafod sut y dylid profi, roedd y cyfranogwyr eisiau hyblygrwydd i'w wneud yn y ffordd oedd yn addas iddynt, i gyd-fynd â'r ffordd yr oeddent wedi profi'n flaenorol. Roedd cyfranogwyr gyda mwy o brofiad o brofi pridd yn tueddu i beidio â defnyddio'r patrwm W oherwydd ni fyddai'n bosib cymharu'r samplau yn y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf wedi cymryd samplau o ran o'u fferm pob blwyddyn, gyda rhai'n eu gwneud ar sail cylchdro. Roedd rhai eisiau sicrhau y gallent brofi'r pridd ar yr un adeg pob blwyddyn oherwydd mae hyn yn gallu effeithio ar y canlyniadau. Roedd peth amheuaeth gan ffermwyr am bwrpas profi tir na fyddai'n cael ei wrteithio ac mae angen mwy o eglurder felly ynghylch a oes angen y math hwn o brofi a pham.

Roedd gan nifer o ffermwyr ar draws y gwahanol weithdai brofiad o ddefnyddio Cyswllt Ffermio i brofi'r pridd ac eisiau gweld y cymorth hwn yn parhau i gael ei ariannu drwy'r Cynllun. Roedd ffermwyr yn awyddus i gyngor a chymorth priodol fod ar gael ar ôl gwneud profion pridd i sicrhau y gallent reoli'r tir yn effeithiol ar sail y canlyniadau. Yn benodol, soniwyd am fwy o gyngor a chymorth i reoli pridd heb ddefnyddio gwrteithiau artiffisial.

Er i rai cyfranogwyr sôn am brofiadau da o weithio gyda Cyswllt Ffermio, roedd eraill wedi cael trafferth dod o hyd i rywun i wneud y profion ac roedd pryderon y byddai capasiti ac argaeledd daearyddol yn broblem. Gallai'r broblem hon waethygu, yn enwedig o ystyried faint o brofi a fyddai angen ei wneud o dan y Cynllun. Byddai'n well gan rai barhau i ddefnyddio Cyswllt Ffermio a byddai eraill eisiau dod o hyd i'w cymorth eu hunain. Roedd rhai eisiau cymryd samplau eu hunain ar amser oedd yn gyfleus iddynt gan gyflwyno tystiolaeth ffotograffig i brofi bod y samplau wedi dod o'u cae. Roedd gan rai cyfranogwyr bryderon bod angen ymgynghorwyr i helpu i gwblhau'r camau gwaith UA gan deimlo y dylai'r angen i ddefnyddio ymgynghorwyr fod ar gyfer camau gwaith sylfaenol yn unig. Roedd hyfforddiant ar ddadansoddi profion pridd, annog profion cartref a darparu pecynnau profion cartref yn fathau eraill o gymorth a awgrymwyd er mwyn cynyddu capasiti'r diwydiant i gwblhau'r camau gwaith hyn eu hunain.


Wrth drafod y delweddu ar gyfer dadansoddi pridd, tabl codau lliw (Ffigwr 5.1) oedd yr opsiwn a ffafriwyd yn y gweithdai er yr awgrymwyd y dylai ddod gyda chanllawiau pellach ar gamau ar gyfer gwella. Soniodd un cyfranogwr y byddai'r map gwres (Ffigwr 5.2) yn ddefnyddiol i rai ffermwyr sy'n defnyddio technoleg uwch ond na fyddai'n briodol i lawer o rai eraill. Syniad arall a awgrymwyd oedd defnyddio lluniau lloeren o gaeau'r fferm i ddelweddu iechyd y pridd a gweld yn hawdd pa gaeau sy'n gwneud yn dda a pha rai sy'n dioddef mwy ac sydd angen mwy o brofion a gwaith rheoli pellach arnynt.

Ffigwr 5.1 Tabl codau lliw enghreifftiol yn dangos iechyd y pridd, a gyflwynwyd yn y gweithdai (Cerdyn Iechyd Pridd AHDB[17])

| Attribute* | Field A; Farm 1 | Field B; Farm 2 | Field C; Farm 3 |
|---|---|---|---|
| SOM (%) | 3.4 | 2 | 2.2 |
| pH | 6.7 | 6.9 | 7.0 |
| Ext. P (mg/l) | 40.6 | 59.6 | 37.2 |
| Ext. K (mg/l) | 158 | 106 | 148 |
| Ext. Mg (mg/l) | 82 | 89 | 144 |
| VESS score | 2 | 2 | 2 |
| Earthworms (Number/pit) | 13 | 8 | 1 |

Investigate  Monitor  No action needed

Ffigwr 5.2 Map gwres enghreifftiol yn dangos iechyd y pridd, a gyflwynwyd yn y gweithdai



Ar wahân i ddefnyddio llai o wrtaith artiffisial, rhannodd gyfranogwyr y gweithdai a'r arolwg hefyd syniadau pellach ar gyfer 'Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu'. Teimlai un cyfranogwr gweithdy a rhai o rai'r arolwg y gallai'r nodwedd hon gynnwys mwy o gamau gwaith OA i drafod lleihau gwastraff drwy ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau fel plastig, gwastraff cynwysyddion cemegau a phren ar y fferm.

*"Cynllun ailgylchu plastig fferm gyda phwyntiau casglu mewn marchnadoedd lleol i sicrhau gwaredu'n gyfrifol."*

[17] Cerdyn Sgorio Iechyd Pridd AHDB [Soil health: Let's get physical (chemical and biological) | AHDB]


*“ni soniwyd ychwaith am wastraff plastig – rhaid atal eu llosgi’n anghyfreithlon.  P’un ai drwy gael pwyntiau gollwng yn lleol neu drwy i’r llywodraeth sefydlu ffatri ailgylchu, neu ddirwyo’n drwm ayyb...”*

### 5.2.2 OA: Gwella cyflwr y pridd

**OA:** Disgrifir camau gwaith dewisol yn ymwneud â chyflwr y pridd a defnydd y fferm o faetholion drwy’r ddogfen hon, gan gynnwys camau gwaith i:

- Yn ychwanegol i’r nitrogen a daenir ar y tir, sefydlu planhigion ‘bachu’ nitrogen (porfeydd gymysg, cynllunio ar sail cylchdro, cnydau gorchudd)
- Sefydlu tir gwndwn a chnydau gydag ymddygiad gwreiddiau amrywiol (porfeydd cymysg, cylchdroi cnydau, cnydau gorchudd)
- Gwella bioleg y pridd (plannu amrywiol, pori a gorffwys, troi’r tir cyn lleied â phosib neu ddim o gwbl, defnyddio planhigion gwrth-lyngyr fel bod angen defnyddio llai o driniaethau llyngyr, rheoli cynefinoedd).

Ffigwr 5.3 Diddordeb ymatebwyr i’r arolwg yn yr OA cyflwr y pridd (n=726)




Roedd yr OA hwn yn un o’r tri cham gwaith a dderbyniodd y ganran uchaf o ymatebwyr i’r arolwg yn dweud eu bod eisoes yn gwneud hyn (Ffigwr 5.3).  Roedd cyfranogwyr y gweithdai o blaid y mathau hyn o gamau gwaith. Teimlai un ffermwr organig yn y gweithdy eu bod wedi bod yn gwneud y mathau hyn o waith ar y fferm ers tro byd ac y dylai’r SFS gydnabod yn well sut y mae’r camau gwaith hyn yn berthnasol i arferion ffermio organig.

*“Fel cynhyrchydd organig, rydym i gyd wedi bod yn gwneud hyn. Maen nhw’n bethau sy’n hysbys ers 50-100 mlynedd.”*

Roedd syniadau gan gyfranogwyr am gamau gwaith ychwanegol y gellid eu cynnwys yn yr OA hwn yn cynnwys: tail gwyrdd e.e. mwstard a lleiniau clustog wrth ymyl afonydd i gadw maetholion yn y cae ac nid mewn cyrsiau dŵr.

Yn y ddau weithdy roedd pryderon am sut y gallai tenantiaid weithio gyda'r camau gwaith OA hyn oherwydd bod angen meddwl yn fwy hirdymor am y gwaith, gyda cholledion cynhyrchu mwy tymor byr yn aml.


> *"Mae llawer o dir ond yn cael ei ddefnyddio dros dro. Sut y mae annog rhywun i blannu tir gwndwn hirdymor os yw'r denantiaeth ond yn flwyddyn – ni fyddwch yn gallu. Hoffwn weld ffermwyr yn meddwl mewn cenedlaethau, ond mae'r rhan fwyaf o dir ar gytundebau dros dro o 5 mlynedd neu lai. Mae'n anodd wedyn newid at system 'troi cyn lleied â phosib' gyda thir gwndwn hirdymor pryd y bydd mantais y tir ond yn para am 5 mlynedd."*

## 5.3 Blaenoriaethu defnyddio tail a gwella ffrwythlondeb

### 5.3.1 OA: Cylchdroi cnydau

**OA:** Bydd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am gylchdroi cnydau mewn ffordd sy'n dilyn egwyddorion sylfaenol ac o fudd i iechyd y pridd a'r amgylchedd ehangach.

Ffigwr 5.4 Diddordeb cyfranogwyr yr arolwg yn yr OA cylchdroi cnydau (n=726)




Roedd dau o gyfranogwyr y gweithdai gyda ffermydd organig eisoes yn cwblhau'r OA hwn ac yn teimlo bod y camau gwaith yn eithaf sylfaenol ac y dylid eu symud i'r haen UA. Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno gan deimlo na fyddai'r camau gwaith yn addas fel rhai UA. Teimlai'r cyfranogwyr hyn na fyddai rhai mathau o ffermydd fel Llaeth a Glaswelltir yn cylchdroi cnydau a gweithredu amodau eraill penodol i rai mathau o ffermydd, er enghraifft na fyddai ffermwr gyda llifogydd ar eu tir yn cylchdroi cnydau oherwydd y risg o golli gormod o bridd.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod angen i'r camau gwaith fod yn hyblyg, peidio â mynnu ar ormod o ofynion a chydnabod bod angen gwahanol fathau o waith rheoli ar wahanol briddoedd:

*"Mae gan bob fferm wahanol system gylchdroi / cnydau, rhaid bod yn hyblyg. Mae'n bwysig iawn peidio â mynnu ar ormod."*

*"Ddim yn siŵr ydy'r camau gwaith OA hyn yn egluro'r gwahanol ddulliau o reoli tir drwy ofalu am faetholion y pridd a sut y defnyddiwch y pridd – dim digon o bwyslais ar hyn. Ar fy mhridd i, mae gen i siâl ar yr wyneb, clai, gwaddod – sy'n gallu creu problemau pan fo'n wlyb a sychu a chracio yn yr haf...mae hyblygrwydd yn bwysig."*

Eto, roedd natur hirdymor y cam gwaith hwn yn cael ei weld fel rhwystr i denantiaid. Awgrymwyd y gellid goresgyn hyn drwy rannu'r camau gwaith CA rhwng y landlord a'r tenant - y landlord gyda'r cyfrifoldeb hirdymor ac yn cael y manteision hirdymor i'r tir, a'r tenant yn gwneud y gwaith ac ennill y manteision ariannol tymor byr (taliadau'r Cynllun).

Awgrymodd y cyfranogwyr syniadau eraill ar gyfer gwella ffrwythlondeb y pridd, i'w cynnwys yn y cam gwaith hwn:

- plannu cnydau mewn rhesi rhwng india corn
- cnydau bachu nitrogen
- cynnwys codlys mewn cnydau gorchudd
- ychwanegu codlysiau glaswellt cymysg at borthiant

Dywedodd 33% o ymatebwyr yr arolwg y byddai angen cymorth arnynt gyda'r cam gwaith hwn. Soniodd gyfranogwyr y gweithdai am ddulliau penodol o reoli tir / pridd yn ogystal â rhaglen bridio planhigion a allai gynhyrchu'r gwahanol blanhigion sy'n addas i'r math hwn o reoli tir.

## 5.4 Defnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr drwy reoli plâu yn integredig

### 5.4.1 UA: Cynhyrchion Diogelu Planhigion (PPP) ac IPM

**UA:** Cefnogir ffermwyr i:
- casglu, cofnodi ac adrodd data ar ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion
- cwblhau asesiad IPM

#### 5.4.1.1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

**Ffactorau cymell**

- Roedd **83%** o'r ymatebwyr i'r arolwg sy'n defnyddio PPP yn barod i gwblhau'r cam gwaith.
- **Y 3 prif ffactor cymell:**
- "Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (63%)
- "Dw i'n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da" (52%)
- "Byddai'n fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy" (38%)

**Ffactorau rhwystro**

- Roedd **17%** o'r ymatebwyr i'r arolwg sy'n defnyddio PPP yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn.
- **Y 3 prif ffactor rhwystro:**
- "Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn" (49%)
- "Dw i ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol" (49%)
- "Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (41%)

**Prif negeseuon o'r gweithdai**

- Roedd y cyfranogwyr eisiau sicrhau y byddai dyblygu ymdrech yn cael ei osgoi i rai sy'n cyflwyno'r data yma'n barod. Roeddent hefyd am weld mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu drwy rannu dysgu rhwng ffermwyr fel bod camau gwaith i leihau plaladdwyr ar y fferm yn cael eu cefnogi, nid dim ond fel ymarfer ticio bocs drwy gwblhau'r asesiad IPM.

#### 5.4.1.2 Sgiliau a phrofiad

Dywedodd 39% (n=562) o ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion (PPP) ar eu fferm. Mae 83% (n=484) o'r rhai sy'n defnyddio PPP yn fodlon casglu, cofnodi ac adrodd data ar eu defnydd, a chwblhau asesiad rheoli plâu yn integredig (IPM). O'r rhai a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith, teimlai 34% fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ac roedd 37% eisoes yn gwneud hyn ar y fferm. Fodd bynnag, dim ond 13% oedd â chymhwyster achrededig yn cefnogi IPM, e.e. BASIS. Yn y gweithdai roedd rhai cyfranogwyr sy'n defnyddio PPP ac felly gyda phrofiad o gofnodi data ar PPP ar gyfer yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) fel rhan o ofynion cyfreithiol, ac roedd nifer o'r cyfranogwyr eisoes yn ymarfer IPM.

Lleisiodd rai o gyfranogwyr y gweithdai bryderon am ddiffyg cyfrifiadur a sgiliau TG gan rai ffermwyr, yn enwedig ar ffermydd llai, a sut y gallai hyn wneud llenwi gwahanol ffurflenni a defnyddio systemau cyfrifiadurol yn anodd, yn enwedig os oedd yn achosi cost ariannol. Fodd bynnag, dywedodd ymatebwyr i'r arolwg a oedd

yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn nad diffyg sgiliau neu wybodaeth (19%) oedd y prif rwystr.

#### 5.4.1.3 Cyfle

Roedd y ganran a ddywedodd eu bod yn defnyddio cynhyrchion PPP yn amrywio yn ôl sector ond roedd y cam gwaith yn fwy perthnasol i'r sector âr. O'r rhai a ddywedodd mai tir âr oedd eu prif sector (n=45), roedd 91% yn defnyddio cynhyrchion PPP. O'r rhai a ddywedodd mai tir âr oedd eu hail sector (n=119), roedd 74% yn eu defnyddio. Fel y byddid yn ei ddisgwyl, dywedodd ganran uwch o ffermwyr tir isel (47%) na ffermwyr ucheldir a mynydd (35%) eu bod yn defnyddio PPP.

Yn yr arolwg, dywedodd 96% o ffermwyr organig nad oeddent yn defnyddio PPP. Mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd fel arfer nid yw ffermwyr organig yn defnyddio cemegau artiffisial ac yn gorfod dilyn rheolau organig wrth ddewis cynhyrchion i ddiogelu cnydau rhag plâu a chlefydau[18]. Yn y gweithdy, roedd ffermwyr organig eisiau cadarnhad a oedd y cam gwaith hwn yn berthnasol iddynt, h.y. a fyddai angen dweud nad oeddent yn defnyddio PPP. Roeddent hefyd eisiau cadarnhad a fyddai angen cwblhau asesiad IPM oherwydd bod y cam gwaith yn ymddangos i fod yn llai perthnasol i rai nad ydynt yn defnyddio plaladdwyr na chwynladdwyr.

#### 5.4.1.4 Cymhelliad

Roedd cyfranogwyr y gweithdai'n cytuno bod adrodd y math yma o wybodaeth yn bwysig ac yn rhywbeth y dylid parhau i gael ei fonitro. Yn yr arolwg, teimlai 52% o ffermwyr a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith ei fod yn arfer ffermio da, a 38% y byddai'n yn eu helpu i fod yn fwy amgylcheddol cynaliadwy. Y ddau ffactor cymell hyn oedd y rhai a ddewiswyd amlaf, ar wahân i daliadau.

Roedd rhai o gyfranogwyr y gweithdai o blaid defnyddio'r data a gasglwyd o'r cam gwaith hwn i hyrwyddo cynaliadwyedd ffermio yng Nghymru drwy adrodd os defnyddir dim neu ddim llawer o blaladdwyr. Fodd bynnag, teimlai un bod geiriad y cam gwaith yn awgrymu bod ffermwyr Cymru'n defnyddio llawer iawn o blaladdwyr a hwythau ddim, ac nad yw ffermwyr yn gwybod sut i reoli eu ffermydd:

> *"Mae i gyd yn awgrymu na allwn reoli ein ffermydd. Mae'r geiriad yn sarhaus. Yn awgrymu bod rhywun yn gwybod yn well na ni o hyd."*

Er bod y rhan fwyaf wnaeth ymateb i'r arolwg, a'r rhai yn y gweithdai, yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn, soniwyd bod gweinyddu a baich amser yn rhwystr. Soniodd ffermwr tir âr am y drafferth a'r baich amser o fewnbynnu'r data ar wahanol systemau. Mae'r cyfranogwr hwn yn cofnodi'r data'n rheolaidd ar ei system fferm yn ddigidol i fonitro defnydd, cofnodi ffigurau elw a meincnodi. Fodd bynnag, wrth gyflwyno'r data i system arall, e.e. HSE, mae'n dod yn gymhleth ac yn cymryd amser oherwydd y gwahanol fetrigau.

I rai nad oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith, baich gweinyddol (49%), amser ac adnoddau (49%) a theimlo bod yr ymdrech yn fwy na'r manteision (41%) oedd y prif rwystrau. O'r rhai a ddywedodd eu bod yn y sector âr (naill ai fel prif sector neu ail sector), rhestrodd 22 allan o'r 24 o ymatebwyr o leiaf un o'r rhwystrau uchod. Dewisodd y ddau gyfranogwr arall 'arall' fel rhwystr gan wneud sylw i nodi eu bod eisoes yn cwblhau'r cam gwaith hwn:

---

[18] Farmers and growers using plant protection products (hse.gov.uk)

*"rydym eisoes yn gwneud hyn yn ein ffordd ein hunain".*

#### 5.4.1.5 Gwelliannau a chymorth

Mae lleihau dyblygu ymdrechion fel rhan o'r cam gwaith hwn, i ffermwyr sy'n cofnodi'r wybodaeth yma'n barod, yn bwysig i leihau unrhyw faich gweinyddol diangen. Roedd cyfranogwyr gyda phrofiad o gyflwyno'r math yma o wybodaeth eisiau eglurder am beth sy'n ofynnol gan godi problemau blaenorol gyda defnyddio systemau HSE, e.e. anghysondeb o ran rhestru'r 'cynnyrch' neu'r 'cynhwysyn actif'. Roedd cyfranogwyr nad ydynt yn defnyddio PPP, fel ffermwyr organig, eisiau eglurder a oedd angen iddynt gwblhau'r UA hwn.

Roedd ffermwyr eisiau gwybod sut y byddai Llywodraeth Cymru'n defnyddio data a fyddai'n cael ei gasglu drwy'r cam gwaith hwn ac eraill yn y Cynllun. Er bod rhai'n deall a hoffi'r syniad o rannu'r data i hyrwyddo bod ffermydd Cymru'n gynaliadwy, roedd eraill yn dal i boeni am gasglu data a'u bod yn methu ag ymddiried yn Llywodraeth Cymru.

Dywedodd cyfranogwyr ei bod yn bwysig nad ymarfer ticio bocys yn unig oedd y cam gwaith hwn ac y gallai ffermwyr weithredu ar sail y data. Cyfeiriwyd yn benodol at yr asesiad IPM. Cynigiwyd syniadau ar sut i helpu i hyrwyddo dysgu rhwng ffermwyr i gyflawni'r nod hwn:

- **Gwefan / fforwm:** Databas / gwefan i rannu syniadau ffermwyr am sut i ddefnyddio llai o gemegau.
- **Cylchgronau:** Rhannu gwybodaeth drwy erthyglau yn Cyswllt Ffermio neu gylchgronau Llywodraeth Cymru am brofiadau ffermwyr.
- **Grwpiau trafod:** Grwpiau trafod rhwng ffermwyr i annog dysgu, gyda chymorth hwyluso gan Lywodraeth Cymru neu Cyswllt Ffermio i roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfodydd, trefnu siaradwyr ac atgoffa ffermwyr i fynychu.


Teimlai rhai bod dysgu rhwng ffermwyr yn cael ei bwysleisio yng ngham cyntaf y broses cyd-ddylunio ond nad oedd yn cael ei ystyried yn y cynigion bras.

## 5.5 Gwneud y defnydd gorau o laswelltir drwy ddulliau amgen o bori a chyflwyno tir gwndwn aml-rywogaeth a phori cymysg

### 5.5.1 Camau gwaith OA: Dull pori a gorffwys a phorfeydd cymysg


**OA:** Defnyddio dull pori a gorffwys am o leiaf bum mis yn y flwyddyn drwy rannu caeau fel bod stoc yn gallu symud yn rheolaidd a phori glaswellt am gyfnodau byr

Ffigwr 5.5 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA dull pori a gorffwys (n=729)




**OA:** Sefydlu a / neu gynnal porfeydd cymysg o weiriau, codlysiau a pherlysiau (neu flodau gwyllt brodorol)

Ffigwr 5.6 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA porfeydd cymysg (n=725)




Roedd cyfranogwyr y gweithdai o blaid y camau gwaith hyn ac yn eu gweld fel dulliau ffermio traddodiadol, gyda rhai'n cwblhau'r camau gwaith hyn yn barod. O'i gymharu â chamau gwaith OA eraill, dywedodd ganran uchel o'r ymatebwyr i'r arolwg (40%) eu bod yn pori a gorffwys ar eu ffermydd yn barod (Ffigwr 5.5) a'r ateb hwn oedd gyda'r ganran uchaf ar ôl y cam gwaith o ynysu am chwe diwrnod.

Cafodd y camau gwaith hyn eu hadnabod fel un o gryfderau'r Cynllun gan gyfranogwyr y gweithdai a oedd yn arbennig o awyddus i annog defnyddio tir gwndwn aml-rywogaeth. Rhoddodd un cyfranogwr enghreifftiau o fanteision y math yma o waith, er enghraifft bod gorffwys tir yn helpu i reoli parasitiaid (e.e. llyngyr yr iau) ac o les i anifeiliaid.

Roedd rhai ffermydd a allai gael trafferth â'r camau gwaith hyn yn ôl rhai:

- Byddai ffermydd llai'n cael trafferth gyda phori a gorffwys
- Byddai porwyr tir comin yn cael trafferth pori a gorffwys a byddai ailhadu unrhyw laswelltir yn anghyfreithlon o dan reolau tir comin
- Trafferthion i rai ar dir morfa

Dywedodd 35% o'r ymatebwyr i'r arolwg y byddai angen cymorth gyda'r camau gwaith pori a gorffwys a phorfeydd cymysg. Yn y gweithdai, gofynnodd y cyfranogwyr am ganllawiau ar y planhigion gorau i'w defnyddio mewn porfa gymysg a fyddai'n addas i'w tir, yn blaenoriaethu rhywogaethau brodorol ac yn atal cyflwyno plâu a phlanhigion ymwthiol.

Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai y byddai cymorth cyfalaf yn hanfodol i helpu gyda'r cam gwaith hwn, yn enwedig i ffensio a chreu gwrychoedd i reoli da byw er mwyn gallu cylchdroi'r pori. Soniodd rai eu bod yn teimlo bod angen i grantiau ffensio fod yn uwch nag ar hyn o bryd a bod angen edrych eto ar y gofyniad 2-3m o led oherwydd y gallai fod yn rhwystr i ffermydd llai. Roedd gan 67% o gyfranogwyr y gweithdai ddiddordeb mewn derbyn cymorth cyfalaf ar gyfer y cam gwaith hwn.


# 5.6 Lleihau effaith allyriadau amonia ar yr amgylchedd

## 5.6.1 Camau gwaith OA a CA: Lleihau allyriadau amonia

**OA:** Mae'r camau gwaith dewisol i leihau allyriadau'n cynnwys yr addasiadau canlynol:

- Unedau storio dan do, e.e. crafu slyri'n rheolaidd a sychu baw dofednod
- Storfeydd slyri e.e. gorchuddio storfeydd slyri ac asideiddio'r slyri

Ffigwr 5.7 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA lleihau allyriadau amonia (n=718)





Teimlai'r rhan fwyaf yn y gweithdai nad oedd y camau gwaith hyn yn berthnasol iddynt oherwydd mai ffermwyr glaswelltir sylweddol heb ddim slyri oedd y rhan fwyaf ohonynt. Teimlent fod y cam gwaith hwn yn fwy perthnasol i ffermydd bîff / llaeth dwys gyda'r cyfranogwyr yn cytuno y dylai'r ffermydd hyn fod yn cwblhau'r mathau hyn o gamau gwaith.

Er mwyn egluro mwy ar y cam gwaith hwn, roedd y cyfranogwyr eisiau deall sut y byddai storio slyri'n lleihau allyriadau amonia, h.y. i ble y mae'r nwy amonia a fyddai'n hel yn dianc? Roeddent hefyd eisiau cadarnhad ynghylch sut a pham oedd y cam gwaith hwn yn berthnasol i faw anifeiliaid di-laeth fel dofednod.

**CA:** Cymorth ar gyfer dulliau cydweithredol fel y gall ffermwyr weithio gyda'i gilydd i gwblhau camau gwaith lleihau allyriadau amonia. Gellid eu targedu at y mannau y byddent fwyaf o fudd i ecosystemau. Byddai hyn yn cynnwys cydlynu lleol rhwng ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Nitrogen Ar-y-Cyd er mwyn adfer cynefinoedd a chynyddu manteision i'r economi leol.

Ffigwr 5.8 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA lleihau allyriadau amonia (n=407)




Wrth drafod y CA lleihau allyriadau amonia, er nad oedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y cam gwaith hwn yn berthnasol iddynt, awgrymwyd y syniad o rannu unrhyw ormodedd o faw fel gwrtaith organig rhwng ffermydd. Dywedodd un cyfranogwr a oedd yn filfeddyg y gallai rhannu baw rhwng ffermydd greu pryderon clefydau a haint. Bu'r cyfranogwyr yn trafod y byddai angen profi'r baw i sicrhau ei fod yn addas i'w fferm.

# 6 Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon

## 6.1 Rhagarweiniad

Amcan y cam gwaith "Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon" yw helpu ffermydd i fod yn fwy effeithlon, lleihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella eu stociau carbon drwy ddal a storio mwy o garbon. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn helpu ffermydd i ddefnyddio ynni adnewyddadwy a chynhyrchu bwyd ag ôl-troed carbon isel.

Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi sgiliau a phrofiad, cyfle a chymhelliad ffermwyr i gwblhau'r Camau gwaith Sylfaenol (UA) o dan y nodwedd 'Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu...' ac yn rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau ar draws y Camau gwaith Dewisol (OA) a Chydweithredol (CA). Mae'r adran hon hefyd yn trafod syniadau'r ffermwyr ar gyfer newid neu wella camau gwaith y Cynllun.

Trefnir yr adran hon o dan is-nodweddion canlynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) (Tabl 6.1):

Tabl 6.1 Camau gwaith o dan Lleihau allyriadau'r fferm a Dal a storio mwy o garbon

| Is-nodweddion | Camau gwaith | Tudalen |
|---|---|---|
| Mabwysiadu arferion arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm | OA: Peiriannau ynni-effeithlon | 59 |
| Anifeiliaid effeithlon: Y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) | UA: AHIC | 61 |
| Adfer mawndir lled-naturiol | UA: Mawndir<br>OA: Mawndir<br>CA: Mawndir | 64 |
| Creu coetiroedd a thir amaeth-goedwigaeth newydd a rheoli rhai sydd yno'n barod | UA: 10% gorchudd coed<br>OA: Rheoli a phlannu mwy na 10% o goed<br>CA: Coetiroedd sy'n cysylltu i'w gilydd | 67 |

## 6.2 Gweithredu arferion arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm

### 6.2.1 OA: Peiriannau ynni-effeithlon

**OA:** Bydd cymorth cyfalaf ar gael i ffermwyr ar gyfer cwblhau amrywiol gamau gwaith arbed ynni i ddatgarboneiddio eu defnydd o beiriannau a'u harferion ffermio, ar sail yr asesiad carbon yn yr adolygiad cynaliadwyedd.

Roedd gan **71%** o'r ymatebwyr i'r arolwg a atebodd y cwestiwn hwn (n=726) ddiddordeb mewn derbyn cymorth cyfalaf i fod yn fwy ynni-effeithlon. **Hwn a dderbyniodd y ganran uchaf o ymatebwyr i'r arolwg oedd â diddordeb mewn cwblhau'r OA hwn.** Roedd gan gyfranogwyr y gweithdai hefyd ddiddordeb mawr yn y camau gwaith OA hyn gan awgrymu nifer o syniadau:

- **Syniadau ar gyfer taliadau cyfalaf:** llifau cadwyn yn rhedeg ar fatri, paneli solar, tyrbinau gwynt, paciau batri, datgarboneiddio beiciau cwad a cherbydau fferm, trydan dŵr.
- **Mentrau cymunedol cydweithredol** i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, e.e. ynni solar a gwynt a phrosiectau trydan dŵr bach.
- **Cyfleoedd i baratoi seilwaith ar gyfer y dyfodol**, e.e. symud i ffwrdd o ddisel tuag at hydrogen.

Er bod gan y cyfranogwyr ddiddordeb yn y camau gwaith hyn, soniwyd am nifer o rwystrau:

- **Capasiti / ynni'r grid cenedlaethol:** Soniodd rai eu bod yn cael trafferth cael eu cyflenwad ynni adnewyddadwy i fwydo i'r grid cenedlaethol.
- **Lleoliad a daearyddiaeth:** Roedd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr y gweithdai ddiddordeb mewn cwblhau mwy o gamau gwaith ynni adnewyddadwy ond wedi cael trafferthion yn y gorffennol, yn enwedig gyda pharciau cenedlaethol, safleoedd SoDdGA, problemau daearyddol cyffredinol neu'n methu cael caniatâd i osod dyfeisiau fel paneli solar neu dyrbinau gwynt oherwydd eu bod yn 'anghydnaws â'r ardal'.

Teimlai'r cyfranogwyr fod mwy o gyfle i ddatgarboneiddio ffermydd iseldir / âr dwys oherwydd eu bod yn defnyddio peiriannau mwy dwys o'i gymharu â ffermydd ucheldir ehangach. Roedd y ffermwyr ucheldir eisiau sicrhau bod opsiynau iddyn nhw hefyd fod yn rhan o'r mathau hyn o gamau gwaith. Roedd pryder eto am denantiaid oherwydd natur hirdymor y cam gwaith.

# 6.3 Anifeiliaid effeithlon: Y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid

## 6.3.1 UA: Y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid

**UA**: Bydd angen i ffermwyr gwblhau’r camau gwaith Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid fydd wedi eu hadnabod drwy weithio’n agos â’u milfeddyg. Cyfrifo ac adrodd faint o wrth-fiotigau a ddefnyddir ar y fferm ar gyfartaledd.

### 6.3.1.1 Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| • Roedd **79%** o'r ymatebwyr i'r arolwg sy'n cadw anifeiliaid ar y fferm yn barod i gwblhau'r cam gwaith.<br>• **Y 3 prif ffactor cymell:**<br>• "Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (62%)<br>• "Dw i'n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da" (55%)<br>• "Dw i'n gwneud hyn yn barod ar y fferm e.e. fel rhan o gynllun gwarant fferm neu ofynion cadwyn gyflenwi" (55%) | • Roedd **21%** o'r ymatebwyr i'r arolwg sy'n cadw anifeiliaid ar y fferm yn amharod i gwblhau'r cam gwaith.<br>• **Y 3 prif rwystr:**<br>• "Ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol" (48%).<br>• "Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (42%)<br>• "Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith" (37%) | • Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr y gweithdy'n gefnogol iawn o'r cam gwaith hwn gydag un yn dweud mai hwn oedd yr UA mwyaf derbyniol yn y Cynllun. |

### 6.3.1.2 Sgiliau a phrofiad

O’r ymatebwyr i’r arolwg a ddywedodd fod ganddynt anifeiliaid ar y fferm (n=1331), roedd 79% yn barod i gwblhau’r cam gwaith a 55% o’r rhai a oedd yn barod i’w gwblhau’n dweud eu bod yn gwneud hyn ar y fferm yn barod. Cytunodd bawb mewn un gweithdy y dylai’r diwydiant fod yn gwneud y math yma o waith ar eu ffermydd yn barod a dywedodd amryw eu bod yn cwblhau gwaith tebyg eisoes drwy eu cynlluniau gwarant fferm. Cefnogir hyn gan yr arolwg, gyda’r rhai a oedd yn rhan o gynlluniau gwarant fferm yn fwy parod i gwblhau’r cam gwaith hwn ac yn fwy tebygol o fod yn ei gwblhau’n barod (Tabl 6.2).

Tabl 6.2 Parodrwydd i gwblhau'r cam gwaith AHIC yn ôl profiad o gynlluniau gwarant fferm

| Nifer sylfaenol | Dim Cynllun Gwarant Fferm (n=385) | Tystysgrif Ansawdd Bwyd Cymru (QWFC) (n=51) | Gwarant Fferm (n=835) | Tractor Coch (n=232) | Cynllun Organig Cymru (n=81) |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn barod i gwblhau'r cam gwaith | 71% | 82% | 83% | 84% | 85% |
| Yn barod i gwblhau'r cam gwaith ac yn gwneud hyn yn barod | 12% | 57% | 71% | 75% | 67% |

### 6.3.1.3 Cyfle

Roedd y sector llaeth (86%) a gwartheg sugno (83%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn na'r sectorau bîff (77%) a defaid (77%). Y sector llaeth hefyd oedd fwyaf tebygol o fod yn cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod ar y fferm, gyda 99 allan o 119 o ffermwyr (83%) a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith yn ei wneud yn barod ar y fferm.

Teimlai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr y gweithdai fod ganddynt berthynas agos â'u milfeddyg. Fodd bynnag, teimlai un mewn cyfweliad fod ansawdd milfeddygon yn amrywio ac nad oes gan bawb berthynas waith dda â'u milfeddyg. Gallai ansawdd y berthynas rhwng y ffermwr a'r milfeddyg fod yn rhwystr mawr neu'n ffactor o blaid rhoi cyfle i'r ffermwr gwblhau'r cam gwaith hwn yn llwyddiannus.

### 6.3.1.4 Cymhelliad

Y farn yn y ddau weithdy oedd bod y cam gwaith iechyd anifeiliaid yn un o gryfderau'r Cynllun. Teimlai'r cyfranogwyr fod y cam gwaith hwn yn ddefnyddiol i roi cysondeb a sicrhau safonau uchel ar draws y diwydiant. Dywedodd 55% o'r cyfranogwyr i'r arolwg a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith ei fod yn arfer ffermio da a dywedodd 38% y byddai'n gwella allbynnau'r fferm. Dywedodd un cyfranogwr gweithdy mai'r cam gwaith hwn oedd yr UA mwyaf derbyniol yn y Cynllun, gyda chyfranogwr arall a fu'n cwblhau'r cam gwaith yn barod o dan gynllun gwarant fferm yn rhannu bod eu profiad o wneud asesiad gwrth-fiotigau wedi lleihau faint o wrth-fiotigau yr oeddent yn eu defnyddio ar y fferm. Roedd hyn wedi rhoi canlyniad buddiol iddynt.

Teimlai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr y gweithdai mai milfeddygon oedd y bobl orau i roi'r math yma o gyngor ar y fferm er i rai cyfranogwyr ac un a holwyd mewn cyfweliad godi pryderon. Teimlai un o gyfranogwyr y gweithdai fod rhai milfeddygon yn rhagnodi meddyginiaeth i anifeiliaid ond efallai mai problem reoli oedd angen ei chywiro. Teimlai un a holwyd mewn cyfweliad mai'r ffermwr oedd y person gorau i fonitro iechyd ei anifeiliaid ac nad oedd angen milfeddyg oni bai fod problem.

O'r rhai oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn (n=239), baich gweinyddol (48%), yr ymdrech yn fwy na'r manteision (42%) a'r amser i wneud y gwaith (37%) oedd y ffactorau rhwystro y soniwyd amdanynt amlaf. Yn ogystal â'r ffactorau rhwystro cyffredin hyn, roedd nifer fawr o 'ymatebion eraill' (n=96). Dywedodd 50

ymateb arall eu bod yn anghytuno â phwrpas y cam gwaith ac yn credu na fyddai'n ychwanegu gwerth i'r fferm. Yn ôl y rhan fwyaf o'r sylwadau, teimlai'r ymatebwyr eu bod yn gofalu'n dda am eu hanifeiliaid yn barod ac nad oeddent yn defnyddio llawer o wrth-fiotigau. Roedd teimlad cyffredinol, oherwydd eu bod yn credu eu bod yn gofalu'n dda am eu hanifeiliaid yn barod, y byddai'n wastraff o amser ac arian ar filiau milfeddyg:

> *"Gan amlaf, budd ariannol i'r milfeddyg yw hyn gan ychwanegu mwy o ffioedd milfeddyg i'r fferm. O fy mhrofiad i, mae'n wastraff llwyr o amser ac arian er bod y milfeddygon yn hapus iawn i gael eu talu am wastraffu amser ffermwyr."*

> *"Gwastraff o amser i ffermydd sy'n gofalu'n dda am eu hanifeiliaid yn barod. Mae'n sarhad y byddai adroddiad milfeddyg yn gwella iechyd anifeiliaid ar fferm sy'n gofalu'n dda amdanynt yn barod. Ni fydd hyn yn gwella iechyd anifeiliaid ar y rhan fwyaf o ffermydd."*

Roedd nifer fach a ddywedodd eu bod yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn hefyd wedi gwneud sylwadau tebyg:

> *"Dywedais y byddwn ond yn y bôn dw i'n anghytuno bod angen cwblhau rhwng 2-5 o gamau gwaith. Dw i'n gwerthu stoc magu o safon a chredaf y byddai eu hiechyd yn well na'r rhan fwyaf. Os yw'r milfeddyg yn chwilio am feiau, ni fyddai o fudd i'r ffermwr. Rhaid i chi gael ffydd yn y milfeddyg i ddweud, ar rai ffermydd, nad oes angen cymryd unrhyw gamau.*

Mae hyn yn adlewyrchu bod y cam gwaith hwn yn dibynnu ar filfeddygon proffesiynol a phrofiadol sy'n hyrwyddo arferion ffermio llesol drwy deilwrio a chydnabod os yw fferm yn gofalu'n dda am eu hanifeiliaid.

#### 6.3.1.5 Gwelliannau a chymorth

Lleisiwyd pryder am broblemau capasiti a natur anghysbell rhai ffermydd a thrafodwyd y diffyg gwasanaeth *post-mortem* mewn rhai ardaloedd yn benodol. Lleisiodd nifer fach o ymatebwyr i'r arolwg bryderon hefyd am gapasiti milfeddygon ac y byddai angen mwy o filfeddygon i gefnogi'r cam gwaith hwn:

> *"Eto, bydd hyn yn dibynnu a fydd adnoddau a milfeddygon ar gael i gwblhau'r UA hwn."*

> *"Mae fy milfeddygon i wedi dweud eu bod yn brin o staff yn barod i wneud profion TB. Nid yw'r capasiti ganddynt i weithredu fel personél dan is-gontract i Lywodraeth Cymru i wneud yr arolygon fferm arfaethedig hyn. Maen nhw ym mhen eu tennyn yn barod."*

> *"Byddai angen i'r milfeddyg fod ar fy ochr i ac ar gael i drafod beth sydd angen ei wneud ac unrhyw bryderon iechyd, ac ar gael i adolygu unrhyw broblemau ayyb. Y broblem ar hyn o bryd yw bod ein milfeddyg mor brysur fel bo'n anodd iawn cael gafael ar yr un milfeddyg sy'n adnabod a deall ein fferm er mwyn gwneud cynnydd ar hyn."*

Roedd ffermwyr eisiau gweld mwy o wyddoniaeth ac ymchwil i iechyd anifeiliaid er mwyn gallu gwella'r mesurau rheoli. Y pethau yr oedd ffermwyr eisiau cyngor a chymorth i wella iechyd eu hanifeiliaid arnynt oedd ymwrthedd gwrth-ficrobaidd a gwerthoedd EBV (gwerth genetig bras).

# 6.4 Adfer mawndir lled-naturiol

## 6.4.1 UA: Cynnal mawndir lled-naturiol

**UA**: Lle y mae mawndir yn bodoli, bydd angen i ffermwyr ei reoli'n briodol.

### 6.4.1.1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| •Roedd **78%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn barod i gwblhau'r cam gwaith.<br>•**Y 3 prif ffactor cymell:**<br>•Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (72%)<br>•"Byddai'n fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy" (53%)<br>•"Dw i'n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da" (40%) | •Roedd **22%** o'r ymatebwyr i'r arolwg oedd â mawndir yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn.<br>•**Y 3 prif rwystr:**<br>•"Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i fy fferm" (43%).<br>•"Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (39%)<br>•"Nid yw fy math o fferm a / neu system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i hyn" (33%) | •Roedd y cyfranogwyr ar y cyfan o blaid y cam gwaith hwn ond am weld mwy o adnoddau'n cael eu gwario ar adnabod ardaloedd o fawndir a mwy o gymorth ac arweiniad ar eu rheoli. |

### 6.4.1.2 Sgiliau a phrofiad

Dywedodd 21% o'r ymatebwyr i'r arolwg fod ganddynt fawndir ar eu fferm (n=298), gyda 78% o'r rheini'n dweud y byddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith a 38% eu bod yn gwneud hyn yn barod. Fodd bynnag, yn ôl dangosyddion sgiliau a phrofiad eraill, roedd lefelau isel o sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol (28%). Yn ôl sampl yr arolwg, isel hefyd oedd y cyfranogi presennol mewn prosiectau mawndir (9%).

### 6.4.1.3 Cyfle

Dywedodd 21% o'r holl ymatebwyr i'r arolwg fod ganddynt fawndir. Mae ffermwyr ucheldir / mynydd (31%) yn fwy tebygol o fod â mawndir na ffermwyr iseldir (6%). Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai fod llawer o fawndir i'w gael ar dir comin, gyda 35% o'r rhai gyda hawliau tir comin a ymatebodd i'r arolwg yn dweud bod ganddynt fawndir, o'i gymharu â 17% nad oedd ganddynt fawndir. Mae angen mwy o eglurder felly ar sut y disgwylir i ffermwyr gwblhau'r gwaith os yw tir gyda mawndir yn cael ei rannu.

Dywedodd rai o’r cyfranogwyr fod rhai darnau o fawndir ar y ffermydd heb eu cynnwys wrth fapio[19] ac felly bod angen meddwl mwy am sut y mae’r darnau o fawndir hyn yn cael eu cynnwys yn y Cynllun.

#### 6.4.1.4 Cymhelliad

Ar y cyfan roedd y rhan fwyaf yn barod i gwblhau’r cam gwaith hwn ac eisiau sicrhau y byddai’r ffermwyr a oedd eisoes yn rheoli mawndir yn cael eu gwobrwyo yn y Cynllun. Teimlai 53% o’r ymatebwyr i’r arolwg a oedd yn barod i gwblhau’r gwaith y byddai’n eu helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy.

Lleisiwyd rhai pryderon gan gyfranogwyr y gweithdai am reoli mawndir yn achos porwyr mynydd, gyda rhai’n poeni y gallai rheoli mawndir arwain at leihau cyfraddau stocio.

#### 6.4.1.5 Gwelliannau a chymorth

O’r rhai a fyddai’n barod i gwblhau’r cam gwaith hwn, teimlai 79% y byddai angen cymorth arnynt.

Yn y gweithdai, trafododd y cyfranogwyr fod angen manylder ac eglurder ar waith rheoli mawndir, yn benodol sut y byddai’n gweithio ar gyfer tir comin, pori mynydd ac yn rhyngweithio â gwaith plannu coed.

I gefnogi’r cam gwaith hwn, cytunodd y cyfranogwyr fod angen gwneud mwy o waith i ddeall ac adnabod cyflwr presennol y mawndir ar ffermydd. Byddai hyn yn sicrhau nad yw ffermwyr gyda mawndir yn cael eu colli o’r cam gwaith hwn ac y gellir gwneud gwaith rheoli priodol, a monitro’r gwelliannau.

Teimlwyd, ar gyfer gwaith mawndir, fod angen mwy o gydlynu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru:

> *“Hefyd, a fydd Cyfoeth Naturiol Cymru’n gweithredu’r gwaith hwn i’r Llywodraeth oherwydd i NRW y mae’n rhaid i ni ofyn am ganiatâd i wneud llawer o’r gwaith hwn?...mae’n ymddangos bod anghysondeb rhwng Llywodraeth Cymru, NRW a Glastir oherwydd mae un yn gofyn i ni wneud un peth, a’r llall yn dweud fel arall.”*

Gallai anawsterau godi os oes angen defnyddio peiriannau trwm i reoli’r mawndir oherwydd gall yn aml fod yn anodd cyrraedd mawndir oherwydd daearyddiaeth y tir. Gallai ceisio cael peiriannau i gyrraedd yr ardaloedd hyn fod yn ddrud felly awgrymwyd derbyn cymorth cyfalaf i wneud hyn, gan gynnwys cyfarpar cymorth a thraciau ar y ddaear ar gyfer peiriannau pe bai angen.

### 6.4.2 Camau gwaith OA a CA i adfer mawndir


**OA:** Bydd gan ffermwyr gyfle i gwblhau camau gwaith sy’n adfer a rheoli mawndir.

Yr OA a dderbyniodd y ganran fwyaf o ymatebwyr heb ddiddordeb mewn cwblhau’r cam gwaith oedd cymorth i gwblhau gwaith adfer a rheoli mawndir (65%), mae’n debyg oherwydd bod y cam gwaith yn dibynnu a oes mawndir ar y fferm. Wrth

[19] Map Mawndir Llywodraeth Cymru https://mapdata.llyw.cymru/maps/peatlands-of-wales-maps/


edrych ar ymatebion y rhai a ddywedodd fod ganddynt fawndir ar y fferm ac a atebodd gwestiynau'r arolwg dewisol (n=170), dywedodd 53% fod ganddynt ddiddordeb mewn cwblhau'r gwaith o'i gymharu â 23% oedd heb ddiddordeb.

Ffigwr 6.1 Diddordeb yr ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA adfer mawndir (n=708)




**CA:** Cymorth ar gyfer prosiectau i adfer a rheoli mawndir sy'n cael ei rannu gan nifer o ffermwyr.

Ffigwr 6.2 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA adfer mawndir (n=402)




Er i'r ymatebwyr i'r arolwg ddangos diddordeb isel yn y camau gwaith OA (Ffigwr 6.1) a CA (Ffigwr 6.2) ar gyfer mawndir, mae hyn yn debygol o fod oherwydd eu bod ond yn berthnasol i ffermwyr gyda mawndir ar eu ffermydd. Roedd cyfranogwyr y gweithdai'n croesawu'r camau gwaith hyn gan ddweud pe byddent yn rheoli mawndir o dan yr UA, y byddent yn debygol o ystyried y camau gwaith OA ychwanegol hyn. Roedd un cyfranogwr gyda phrofiad o reoli mawndir yn

gydweithredol yn falch o’r hyblygrwydd i ddewis rheoli mawndir fel unigolyn neu’n gydweithredol ag eraill fel rhan o’r Cynllun.

Gofynnodd un cyfranogwr a allai ffermwyr gyda digon o fawndir ddewis cwblhau’r cam gwaith dewisol o reoli ac adfer mawndir er mwyn budd carbon yn lle gorfod cwblhau’r cam gwaith UA gorchudd coed.

## 6.5 Rheoli coetir ac amaeth-goedwigaeth sy’n bodoli’n barod a chreu o’r newydd

### 6.5.1 UA: 10% gorchudd coed a rheoli gwrychoedd

**UA**: Bydd gan ffermwyr: 10% o orchudd coed o leiaf ar eu fferm. Dylid rheoli hyn yn unol â Safon Coedwigaeth y DU. Dylid rheoli gwrychoedd presennol a rhai newydd yn unol â’r cylch rheoli gwrychoedd.

#### 6.5.1.1 Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

**Ffactorau cymell**

- Roedd **57%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn.
- **Y 3 prif ffactor cymell:**
- "Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (73%)
- "Byddai'n fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy" (54%)
- ""Dw i'n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da" (52%)

**Ffactorau rhwystro**

- Roedd **43%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn.
- **Y 3 prif rystr:**
- "Nid yw'n ymarferol plannu 10% o goed ar y math o fferm a / neu system ffermio sydd gen i" (67%).
- "Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i fy fferm" (57%)
- "Ddim yn meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da" (48%)

**Prif negeseuon o'r gweithdai**

- Er bod cyfranogwyr y gweithdy'n deall manteision coed, cyfeiriodd amryw at amgylchiadau penodol lle y byddai gorchudd coed o 10% yn anodd neu'n anymarferol iddynt. Lleisiwyd pryderon penodol yn achos ffermwyr llaeth a thenantiaid.


#### 6.5.1.2 Sgiliau a phrofiad

Roedd 57% o’r ymatebwyr i’r arolwg yn barod i gwblhau’r cam gwaith. O’r rhai a oedd yn barod i gwblhau’r cam gwaith, dywedodd 52% eu bod yn cwblhau’r mesur hwn yn barod (n=425).

Dywedodd y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr fod ganddynt lai na 2 hectar o goetir ar y fferm (Ffigwr 6.3). Roedd ffermydd iseldir yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt lai o goetir o’i gymharu â ffermydd yn yr ucheldir. Dywedodd 44% o ffermydd iseldir fod ganddynt rhwng 0-2 hectar o goetir o’i gymharu â 31% o ffermydd ucheldir. Yn yr un

modd, roedd rhai oedd heb fod yn rhan o AES o'r blaen yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt rhwng 0-2 hectar o goetir (51%) na rhai oedd wedi bod yn rhan o AES (28%). Roedd ffermydd mwy hefyd yn fwy tebygol o fod â mwy o goetir ar eu fferm.

Ffigwr 6.3 Cyfanswm arwynebedd coetir ar ffermydd ymatebwyr i'r arolwg (n=1444)




Yn yr arolwg, dywedodd 425 o'r ymatebwyr eu bod yn cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod ar y fferm. Yn yr un modd yn y gweithdai, roedd rhai ffermwyr yn cwrdd yn barod â'r gofyniad 10% ac yn rheoli eu coetir eisoes ond nid yw'r rhan fwyaf yn defnyddio Safon Coedwigaeth y DU ac nid oeddent yn gwbl ymwybodol o'i gofynion.

Teimlai 38% o'r rhai a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gwblhau'r gwaith hwn. O'r rhai nad oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith, nid oedd sgiliau a gwybodaeth yn rhwystr mawr gyda dim ond 12% yn dweud y byddai hyn yn eu hatal rhag cwblhau'r gwaith.

#### 6.5.1.3 Cyfle

Er bod rhai cyfranogwyr yn cwrdd â'r gofyniad 10%, ac eraill a deimlai y gallent blannu rhai coed, pwysleisiodd y rhan fwyaf na fyddai 10% o orchudd coed yn bosib ar bob fferm a bod y cam gwaith hwn yn rhwystr i ymuno â'r Cynllun.

Soniwyd am fathau penodol o ffermydd a thir a allai gael trafferth gyda hyn, gan gynnwys:

- **Math o dir:** Soniwyd yn ystod y gweithdai y gall rhai mathau o ddaearyddiaeth a thopograffi achosi trafferthion gyda thyfu coed. Yn benodol, soniwyd yn y gweithdai a'r arolwg bod ardaloedd arfordirol yn llefydd anodd i blannu coed ynddynt, gyda 16 o'r ymatebwyr i'r arolwg yn dweud bod hyn yn rhwystr i'r Cynllun. Roedd mathau eraill o dir y soniwyd amdanynt yn cynnwys tir mynydd, gorlifdir a thir rhos.
- **Safleoedd gwarchodedig:** Soniwyd am safleoedd gwarchodedig yn y gweithdai a hefyd fel sylwadau yn yr arolwg. Yn y gweithdai, cyflwynwyd rhestr o eithriadau posib i blannu coed, gan gynnwys safleoedd gwarchodedig. Roedd y cyfranogwyr yn falch o weld y rhestr ac y byddent wedi hoffi ei derbyn yn gynt. Er

hynny teimlent fod mwy o sefyllfaoedd y dylid eu heithrio ar wahân i'r rhai yn y rhestr.


- **Tenantiaid a chytundebau tenantiaeth:** Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent yn berchen ar eu tir i gyd eu bod yn llai tebygol o fod yn gallu cwblhau'r cam gwaith. Tenantiaid oedd y ganran isaf a ddywedodd eu bod yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn (38%).

  Roedd nifer fach o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi rhoi atebion ansoddol yn egluro bod eu cytundeb tenantiaeth neu forgais yn nodi'n glir nad ydynt yn cael plannu coed:

  > *"Nid yw fy nhenantiaeth amaethyddol yn caniatáu plannu coed."*

  > *"Mae morgais y fferm yn nodi amaethyddiaeth yn unig, dim coedwigaeth. Mae'r fferm yn terfynu ag un o goedwigoedd NRW, nid oes angen mwy o goed yn yr ardal."*

Ffigwr 6.4  Parodrwydd i gwblhau'r UA 10% gorchudd coed yn ôl math o berchnogaeth fferm




I rai nad oeddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith, eu diffyg rheolaeth dros y math yma o waith rheoli tir oedd y rhwystr mwyaf i rai a oedd yn denantiaid ar eu tir i gyd (65%) a thenantiaid ar y rhan fwyaf o'u tir (61%) (Tabl 6.3).

Tabl 6.3  Y tri rhwystr mwyaf gan rai a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith gorchudd coed, yn ôl perchnogaeth tir

| Perchen ar y tir i gyd (n=252) | Perchen ar y rhan fwyaf o'r tir (n=206) | Tenant ar y rhan fwyaf o'r tir (n=72) | Tenant ar y tir i gyd (n=57) |
|---|---|---|---|
| Ddim yn ymarferol plannu 10% ar y fferm (65%) | Ddim yn ymarferol plannu 10% ar y fferm (70%) | Ddim yn ymarferol plannu 10% ar y fferm (76%) | Dim rheolaeth dros y math yma o waith rheoli (65%) |
| Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i fy fferm (62%) | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i fy fferm (61%) | Dim rheolaeth dros y math yma o waith rheoli (61%) | Ddim yn ymarferol plannu 10% ar y fferm (61%) |

| Perchen ar y tir i gyd (n=252) | Perchen ar y rhan fwyaf o'r tir (n=206) | Tenant ar y rhan fwyaf o'r tir (n=72) | Tenant ar y tir i gyd (n=57) |
|---|---|---|---|
| Ddim yn meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da (50%) | Ddim yn meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da (49%) | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i fy fferm (49%) | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i fy fferm (44%) |

Hefyd, gwnaed 25 o sylwadau yn yr arolwg gan ffermwyr a ddywedodd y byddai eu cytundeb tenantiaeth a rhent yn gwneud plannu coed yn anodd. Gwnaed y sylwadau hyn gan rai a ddywedodd eu bod yn barod (8) ac amharod (17) i gwblhau'r cam gwaith.

> *"Oherwydd mai tenant ydw i, ni fyddwn yn gallu plannu coetir, dim ond gwrychoedd, dywedodd fy landlord na allwn blannu coetir ar eu tir."*

> *"Ond tenant ydw i ac ni fyddwn yn gallu, felly beth wedyn? Hefyd, mae 10% yn ormod, yn enwedig i denantiaid."*


> *"Rydym yn berchen ar 100 acer ac yn rhentu tua 150 acer arall ac ni allwn blannu coed ar y tir rhent neu ni fyddai pwynt ei rentu."*

Cododd hyn yn aml yn y gweithdai gyda'r cyfranogwyr yn aneglur ynghylch pwy a fyddai'n derbyn tâl am y cam gwaith hwn – y landlord neu'r tenant. Yng ngoleuni'r cam gwaith hwn, os yw'r tirfeddiannwr yn newid pa dir y gall y tenant ei rentu, gallai hyn newid pwy sy'n elwa o'r refeniw coed a phwy sydd angen plannu mwy o goed, a gallai dynnu'r tir cynhyrchiol allan i'r tenant.


> *"Pwy sy'n cael yr arian gan Lywodraeth Cymru? Os yw'n cael ei dynnu allan o'r denantiaeth, a oes raid i mi blannu 10% arall? Mae'n debyg bod gennym 3-4% heb gynnwys gwrychoedd, felly byddai'n anodd ymuno â'r cynllun."*

Gwelwn o Ffigwr 6.5 fod ffermwyr hŷn yn fwy parod i gwblhau'r UA hwn na ffermwyr iau. Mae'n debyg bod y duedd oed wedi'i chysylltu i berchnogaeth ffermydd. Gallwn weld o Ffigwr 6.6 isod fod ffermwyr hŷn a ymatebodd i'r arolwg yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu tir. Gwelwn o Ffigwr 6.4 uchod mai ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu tir i gyd oedd fwyaf parod i gwblhau'r cam gwaith gorchudd coed.

Ffigwr 6.5 Parodrwydd i gwblhau'r UA 10% gorchudd coed yn ôl oed yr ymatebwyr




Ffigwr 6.6  Canran y ffermwyr o bob math o berchnogaeth yn ôl oed




- **Maint y fferm:** Dangosodd ganlyniadau'r arolwg bod ffermydd llai'n fwy tebygol na rhai mwy o fod yn barod i gwblhau'r UA hwn (Ffigwr 6.7) Y rheswm posib am hyn yw bod gan ffermydd llai brif ffynhonnell incwm arall yn aml ac felly'n poeni llai am golli tir cynhyrchiol i blannu coed.

Ffigwr 6.7 Parodrwydd i gwblhau'r UA 10% gorchudd coed yn ôl maint y fferm (Ha)




- **Ffermwyr llaeth:** Cyfeiriwyd yn aml yn y gweithdai at ffermwyr llaeth fel sector a fyddai'n cael trafferth cwblhau'r cam gwaith hwn. Teimlai un ffermwr llaeth yn un o'r gweithdai y byddai'r cam gwaith hwn yn rhwystr iddynt ymuno â'r Cynllun, er eu bod yn frwdfrydig am rannau eraill o'r Cynllun. Rhannwyd teimladau tebyg gan ffermwyr llaeth eraill, neu rai a wyddai am ffermwyr llaeth:

*“Mae prisiau llaeth yn pwyso ar fusnesau – ni fyddent yn fodlon rhoi 10% o dir i blannu coed.”*

*“Bydd y ffermwyr llaeth mwyaf cynhyrchiol yn edrych ar y Cynllun a dweud na.”*

Cefnogir y canfyddiad hwn gan yr arolwg, gyda ffermwyr llaeth y sector gyda’r ganran isaf o ymatebwyr a fyddai’n barod i gwblhau’r cam gwaith hwn (36%). Y tri rhwystr mwyaf i ffermwyr llaeth a oedd yn amharod i gwblhau’r cam gwaith oedd:

– Ddim yn ymarferol plannu 10% o goed ar fferm / system fel ein un ni – 75%
– Ni fyddai’r cam gwaith o fudd i’r fferm – 61%
– Ddim yn meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da – 49%.

- **Pryderon eraill am gapasiti:** Yn ogystal ag amodau’r fferm, gofynnwyd y cwestiwn hefyd a oedd gan y diwydiant gapasiti adnoddau i ymdopi â nifer sylweddol o ffermydd yn ceisio cwblhau’r cam gwaith hwn. Yn benodol, a fyddai digon o gontractwyr ar gael i gynorthwyo i blannu a rheoli coed, a chapasiti meithrinfeydd o ran bod â digon o goed ifanc. Roedd yr amserlen ar gyfer ymgeisio am gymorth gyda’r cam gwaith hwn o ddiddordeb, i osgoi bod gormod o ffermwyr ar draws Cymru’n ymgeisio ar unwaith. Dywedodd y cyfranogwyr hefyd y byddai oedi rhwng mynd drwy’r system grantiau a phlannu’r coed yn y ddaear.

#### 6.5.1.4 Cymhelliad

***Deall manteision coed***

Roedd y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr yn y gweithdai a fu’n trafod y cam gwaith plannu coed yn deall manteision coed a phlannu coed. Roedd y manteision a drafodwyd yn cynnwys:

- Lleiniau cysgodi
- Cysgod i anifeiliaid
- Bioddiogelwch (pellter rhwng fferm a fferm)
- Diogelu ansawdd dŵr a lleiniau clustog
- Bioamrywiaeth
- Newid hinsawdd, e.e. diogelu’r tir rhag sychder

Teimlai un o’r cyfranogwyr oedd yn fwy profiadol mewn coedwigaeth a gyda choetir cynhyrchiol ar y fferm y gellid gwneud mwy i hyrwyddo manteision cynhyrchiol coetir ar y fferm, e.e. polion ffens, ffrwythau a chnau, coed tân.

*“Gyda 10% o goetir: pe bai ffermwyr yn cael eu helpu i weld y gall rheoli coetir fod yn agwedd gynhyrchiol bositif iawn arall sy’n cyfrannu at wella bioamrywiaeth, cryfhau’r economi a chryfhau gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd. Gallai hyn helpu i gael gwared ar y rhwystrau a dydw i ddim yn synnu bod gan ffermwyr broblem gyda gweld sut y gall ardaloedd bach o goed collddaill fod yn gynhyrchiol. Ond oherwydd bod fy nghoetir i wedi cael ei reoli’n dda, mae’n adnodd uchel ei werth.”*

Teimlai 54% o’r ymatebwyr a oedd yn barod i gwblhau’r cam gwaith y byddai’n eu helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy a theimlai 48% ei fod yn arfer ffermio da. Teimlai 32% o ymatebwyr parod yr arolwg y gall plannu coed helpu i wella allbynnau ffermio a gwnaed nifer o sylwadau yn yr arolwg yn cydnabod manteision

coed, hyd yn oed gan rai a ddywedodd nad oeddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith (parod n=6, amharod n=7):

> *"Mae gennym goedwig hen a naturiol sylweddol yn barod. Mae'n debyg bod bron i 10% yn cael ei reoli'n holistig i roi cysgod i ddefaid pan fo angen ond heb or-bori fel bod gennym blanhigion ac adar."*

> *"Gall hyn wneud synnwyr busnes i fferm, os gallwch gynhyrchu coed i'r diwydiant adeiladu ac mae angen coed ar gyfer defnyddiau eraill yng Nghymru."*

Er yn deall manteision coed, roedd rhai'n cwestiynu pa mor fuddiol oedd coed i ddal a storio carbon o'i gymharu â glaswelltir dan ofal da a mathau eraill o ddulliau rheoli tir. Roedd hyn hefyd yn thema gyffredin yn yr ymatebion ansoddol i'r arolwg:

> *"Dylai glaswelltir fod yn gyfartal â choedwigaeth / dal a storio carbon. Cynefinoedd mor werthfawr."*

> *"na chawsant eu troi am 40/50 o flynyddoedd. Mae nodweddion dal a storio carbon y tir hwnnw cystal os nad gwell na choed wedi'i blannu arno. Dw i ddim yn meddwl y byddai plannu coed ar y math hwn o dir yn gwella'r amgylchedd."*

> *"Angen mwy o wybodaeth a data ar ddal a storio carbon ar laswelltir traddodiadol o'i gymharu â dal a storio carbon mewn coetir."*

> *"Mae glaswelltir yn dal a storio carbon yn barod a'r wyddoniaeth yn dangos eu bod yn fwy buddiol na choed i gynaliadwyedd amgylcheddol yn aml, cyn belled ag y rheolir y glaswelltir yn iawn."*

Yn ystod y gweithdai, trafodwyd sut y byddai'r cyfranogwyr yn plannu coed a pha goed y byddai ganddynt ddiddordeb yn eu plannu. Roedd gan amryw ddiddordeb mewn amaeth-goedwigaeth yn ogystal â phlannu perllannau, ond eisiau mwy o eglurder ar sut y byddai'r systemau plannu hyn yn gweithio o dan y cam gwaith, ac a fyddent yn cael eu hystyried fel rhan o'r Cynllun. Dywedodd rai y gallai'r cam gwaith hwn newid dosbarthiad tir ac y gallai hyn effeithio ar eu rheolaeth o'r tir o ganlyniad. Lleisiwyd pryderon ynghylch a fyddai'r coed a gâi eu plannu yna'n cael eu cyfrif fel coetir yn hytrach na thir pori. Roedd cyfranogwyr yn deall bod angen diogelu'r coed wrth eu plannu ond yn poeni y byddai angen ffensio'r ardal lle'r oedd y goedwig yn cael ei phlannu. Roeddent eisiau sicrhau y gellid parhau i ddefnyddio'r tir ar gyfer pori / amaeth-goedwigaeth.

### *Adnabod gwerth tir a'r syniad o blannu'r goeden iawn yn y lle iawn*

Yn y gweithdai, roedd y cyfranogwyr eisiau i werth eu tir gael ei gydnabod p'un ai'n gynefin, glaswelltir neu'n dir cynhyrchiol. Teimlai'r cyfranogwyr yn gryf bod angen cydbwyso eu gwaith rheoli tir presennol, ar gyfer cynhyrchu a budd amgylcheddol, â'r angen i blannu mwy o goed.

Teimlai rhai ffermwyr y gallent wneud mwy na'r 10% o gynnal a chadw cynefin ac y dylid blaenoriaethu hyn oherwydd mai hyn oedd ar gael, yn lle plannu mwy o goed. Roedd y cyfranogwyr mewn un gweithdy'n poeni'n arbennig am gynnal glaswelltir 'cap cŵyr' sy'n aml yn gallu bod yn anodd ei adnabod oherwydd ei natur dymhorol. Teimlai llawer o ffermwyr fod y cam gwaith 10% o goed yn ddull 'un esgid i ffitio pawb' nad oedd yn ystyried y defnydd gorau o'r tir, yn enwedig ar gyfer cynhyrchu bwyd. Roedd llawer yn y gweithdai'n poeni y gallai'r cam gwaith hwn fygwth cynhyrchu bwyd os collir tir amaethyddol da i blannu coed.

*“Mae coed yn addas i rai mathau o dir, a chynhyrchu bwyd i fathau eraill o dir – sut fydd un metrig yn ystyried hyn.”*

*“Yn y 12 mis diwethaf dylai Llywodraeth Cymru fod wedi gweld tro ar fyd anferth yn stociau bwyd y byd – mae bwyd yn mynd yn brinnach a ninnau’n trafod sut i gynhyrchu llai fyth o fwyd. Mae angen gweld yn bellach ar hyn – sychder o gwmpas y byd, y rhyfel yn Wcráin. Angen cynhyrchu amgylchedd cynaliadwy a system fwyd gynaliadwy i Lywodraeth Cymru. Ydy pobl eraill yn meddwl yr un fath? Y bydd cynhyrchu bwyd yn cael ei daflu allan.”*

*“[un o fygythiadau’r Cynllun yw] peintio pawb gyda’r un brws a dylid ei dargedu’n fwy penodol i ystyried ffermydd gyda gwahanol dirluniau, systemau ffermio a dulliau cynhyrchu.”*

*“A fydd angen cynnwys tir gradd 1 a gradd 2 hefyd?”*

Lleisiodd 78 o’r ymatebion ansoddol i’r arolwg (66 gan rai a oedd yn amharod a 12 gan rai a oedd yn barod i gwblhau’r cam gwaith) bryder am golli tir amaethyddol cynhyrchiol da.

Roedd llawer o’r ymatebion hyn yn sylwadau emosiynol cryf gan ffermwyr a deimlai na fyddent yn gallu parhau fel busnes hyfyw a bod y cam gwaith coed yn tanseilio ymdrechion i fod yn fferm gynhyrchiol. Lleisiwyd pryderon hefyd am ddiogelwch bwyd a pha mor hyfyw fyddai ffermio i genedlaethau’r dyfodol.

*“Mae gofyn i ni wneud hyn yn drychineb i fferm deuluol fach fel ein un ni. Mae gan fy fferm i lwyth o wrychoedd ynghyd â choed sy’n cael eu rheoli’n dda... Pe bai’n rhaid i ni golli 10% i blannu coed, ni fyddai fy musnes yn hyfyw wedyn... Yn bersonol, dw i wedi plannu dros 250 o goed ifanc fy hun dros y 4 blynedd ddiwethaf, mewn gwrychoedd a chorneli bach, ond dim byd yn agos at 10%... Peidiwch da chi â gwneud hyn yn orfodol.”*

*“Mae gan y fferm bytiau o goed a gwrychoedd, ond nid gymaint â 10ha. Nid yw plannu mwy’n opsiwn yma ac yn sicr nid yn opsiwn ar ffermydd llawr gwlad. Mae angen derbyn bod glaswelltir yn dal a storio carbon cystal os nad gwell na choed.”*

*“Byddai’n tynnu tir da allan o gynhyrchu gan fy ngadael heb ddigon o aceri i gadw fy fferm fechan yn hyfyw. Mae’r syniad yn sarhaus. Mae coed – ond nid fi sy’n berchen arnynt - yn amgylchynu’r fferm. Ni fyddai plannu mwy’n fanteisiol o gwbl i’r amgylchedd a byddai’n difetha fferm y buodd fy niweddar dad yn chwysu gwaed i’w gwella gydol ei oes. Mae hyn yn ormod!”*

Roedd pryderon hefyd y byddai’r cam gwaith plannu coed yn dibrisio’r tir yn economaidd.

*“Ble y mae’r elw i’r economi? A’r elw i’r amgylchedd wedyn? Os tynnwn 10% o’r fferm a’i blannu’n goed, o beth y byddaf yn cael fy elw cyfalaf? Ar sail beth fydd y banc yn diogelu eu benthyciad, ni fydd unrhyw werth masnachol i’r tir (er y bydd iddo werth amgylcheddol). "*

*“Byddai gwerth tir wedi’i neilltuo i blannu coed yn lleihau o £10000 yr acer i £3000 yr acer ac mae rhentu glaswelltir yn £130 yr acer yn flynyddol, felly byddai’n well i’r fferm rentu’r tir allan i ffermwyr eraill na phlannu coed.”*

#### 6.5.1.5 Gwelliannau a chymorth

***Eglurder ar sut y byddai plannu coed yn gweithio i wahanol ffermydd***

Mae angen mwy o eglurder a manylion i ddeall sut y gallai'r cam gwaith hwn weithio'n ymarferol a pha dir y byddai ffermwyr yn cael eu hannog i blannu arno. Rhannwyd rhestr o eithriadau gyda chyfranogwyr y gweithdai ac er bod y ffermwyr yn falch o weld mwy o fanylion, roedd arnynt angen eglurder a chadarnhad pellach gyda rhai cyfranogwyr am i eithriadau ychwanegol gael eu hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ardaloedd SAC / SPA
- Tir parc
- Henebion
- Tir Gradd 1 a Gradd 2

Roedd mathau eraill o ffermwyr a drafodwyd i fod yn debygol o weld cwblhau'r cam gwaith hwn yn anodd, a lle y byddai angen ystyried eithriadau neu newidiadau i'r cam gwaith, yn cynnwys:

- Ffermydd llaeth
- Ffermydd arfordirol
- Tenantiaid

Roedd un cyfranogwr yn deall mai pwrpas yr adolygiad cynefin sylfaenol oedd helpu ffermwyr i adnabod pa dir a fyddai orau i blannu coed. Teimlai'r cyfranogwr hwn y dylai'r adolygiad helpu ffermwyr i flaenoriaethu eu tir fel na fyddai tir cynhyrchiol o werth da'n cael ei gynnwys. Gallai canllawiau a disgrifiad cliriach o sut y gallai'r adolygiad cynefin sylfaenol hwn, a rhestr o eithriadau, helpu i flaenoriaethu tir ar gyfer plannu coed a helpu i gael gwared ar rwystrau i barodrwydd ffermwyr i gwblhau'r cam gwaith hwn, yn enwedig drwy gydnabod y byddai tir amaethyddol o werth da'n cael ei flaenoriaethu i gynhyrchu bwyd. Roedd hefyd angen mwy o fanylion am sut y penderfynwyd ar y ganran o 10%, gyda rhai o ymatebwyr i'r arolwg eisiau eglurder na fyddai tir a oedd yn anaddas i blannu coed yn cael ei dynnu allan o'r 10%.

Roedd tenantiaeth yn rhwystr mawr i gwblhau'r cam gwaith a ffermwyr yn aneglur sut y byddent yn cwblhau'r cam gwaith os na fyddai eu cytundeb yn caniatáu hynny, a dryswch ynghylch pwy a fyddai'n elwa o blannu'r coed – y tenant neu'r tirfeddiannwr. Un senario a drafodwyd yn y gweithdai ac mewn cyfweliad oedd 'marchnad rhentu coed'. Trafodwyd y gallai tenantiaid neu ffermwyr eraill nad ydynt eisiau plannu coed ar eu tir rentu tir ychwanegol gyda choed arno fel y gallent gwrdd â gofynion yr UA 10%. Teimlai'r rhai a soniodd am y senario hwn er y gallai fod yn ateb i gwblhau'r cam gwaith, na ddylai fod yn un o ganlyniadau bwriedig y Cynllun.

> *"Gallai'r UA hwn ysgogi marchnad cyfnewid tir / rhentu coed i sicrhau cydymffurfio. Gallai fod yn ganlyniad anfwriadol."*
>
> *"Cydymffurfio maleisus, bydd pobl yn cynllwynio sut i gwrdd â'r gofynion, e.e. rhentu coed er mwyn cymhwyso."*

### *Hyblygrwydd ar sut i gyflawni amcan y cam gwaith*

Roedd ffermwyr eisiau hyblygrwydd gyda'r cam gwaith hwn, fel y gall ffermwyr nad ydynt yn meddwl y gallent gwrdd â'r 10% gyflawni'r un amcanion mewn ffyrdd eraill. Un opsiwn a gododd mewn nifer o'r gweithdai oedd cael hyblygrwydd rhwng y cam gwaith cynefinoedd a'r un gorchudd coed. Os oes gan ffermwr lawer o goetir ar y fferm yn barod, ond dim llawer o gynefin, dylent fod yn gallu creu canran uwch o goetir a chanran is o gynefin. Awgrymodd un cyfranogwr os oedd gan ffermwr fwy na 10% o gynefin, y dylent gael eu heithrio o blannu coed. Roedd barn gymysg a fyddai ffermwyr yn fodlon ymrwymo 20% o'u tir i gyfuniad o'r ddau gam gwaith hwn,

hyd yn oed os oedd hyblygrwydd rhyngddynt. Dywedodd rai bod ganddynt bron i 20% o gynefin yn barod ar y fferm, neu 20% o goed, gydag eraill yn teimlo bod gofyn am gyfanswm o 20% yn ormod:

> *“Dylai 10% o’r gorchudd coed hefyd gynnwys cynefinoedd oherwydd mae bron yn amhosib i ffermwyr dynnu 20% o’u tir allan o gynhyrchu.”*

***Rheoli gwrychoedd***

Trafododd y cyfranogwyr fod angen hyblygrwydd i ddewis dulliau eraill o gyflawni beth a fyddai, yn eu barn nhw, yn rhoi’r un canlyniadau amgylcheddol â phlannu coed, fel rheoli mawndir, ac y dylid cynnwys gwrychoedd wedi eu rheoli’n dda yn y 10%. Cefnogwyd hyn yn yr ymatebion ansoddol i’r arolwg:

> *“Oherwydd y math o fferm ydyw, nid oes lle amhwrpasol i blannu ac mae mawndir yn fwy perthnasol na choed yn yr ardal hon.”*

Yn y gweithdai a’r arolwg, awgrymodd lawer y dylid cynnwys gwrychoedd yn yr opsiwn 10% gorchudd coed, gan gynnwys rhai a ddywedodd eu bod yn barod i gwblhau’r cam gwaith.

> *“oni bai fod gwrychoedd a choed gwrychoedd yn gymwys, byddai hwn yn anodd iawn / amhosib.”*

> *“Byddwn yn barod i blannu mwy o wrychoedd a lledu’r gwrychoedd sydd gen i a’u llenwi â mwy o goed. Ond ni fyddwn am golli gormod o dir â hynny i goed.”*

> *Ni allwn neilltuo 10% ar gyfer coed oherwydd fferm rent ydy hi – mae gwrychoedd yn hanfodol i ni. Gallwn weithio ar y gwrychoedd ond nid yw plannu coed yn opsiwn mae arnaf ofn.”*

Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr eisiau mwy o fanylion am beth a fyddai’n cael ei gyfrif yn y 10% gan ofyn a fyddai coed mewn gwrychoedd, neu’r gwrychoedd eu hunain, yn cael eu cynnwys. Yn y gweithdai, eglurodd yr hwyluswyr mai safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd oedd na fyddai’r gwrychoedd eu hunain yn rhan o’r ffigur 10%, ond y byddai coed mewn gwrychoedd yn cael eu cynnwys. Arweiniodd hyn at gwestiynau fel “ar ba bwynt y mae gwrych yn dod yn goeden?” a “pham na allwch gynnwys gwrychoedd os ydyn nhw’n darparu’r un amcanion amgylcheddol?”:

> *“Mae gwrych 12 troedfedd o led yn dda iawn i fywyd gwyllt. Felly dydy o ddim yn gwneud synnwyr.”*

> *“Mae gwrychoedd yn gallu dal a storio carbon a dylid cyfrif hynny, fel glaswelltir, neu bydd colli tir cynhyrchiol yn gwneud ymuno â’r Cynllun yn aneconomaidd gan effeithio ar gynaliadwyedd y busnes a’r economi wledig.”*

Awgrymodd un cyfranogwr y gallai system o bwysoli gwrychoedd a choed fod yn gyfaddawd er mwyn gallu cynnwys gwrychoedd yn y cam gwaith:

> *“Gwrychoedd fel cyfran o’r coed, e.e. 2ha o wrychoedd i bob 1ha o goed, er mwyn eu cyfrif.”*

Roedd nifer o’r ymatebwyr i’r arolwg yn awyddus i gael mwy o fanylion am ochr rheoli gwrychoedd y cam gwaith:

> *“O ran gwrychoedd, ni welais lawer o fanylion am y plannu, gosod a bon-docio a wnaethom ond a ddylai gael ei gynnwys.”*

> *"Hoffwn weld cymorth i beidio â thorri gwrychoedd ar y cyfle cyntaf oherwydd mae ffrwythau ac aeron y gwrychoedd yn fwyd naturiol i gynnal bywyd gwyllt cyn y gaeaf."*

***Hyblygrwydd ac arweiniad ar sut i integreiddio coed ar y fferm***

Yn ogystal â hyblygrwydd i ddarparu'r cam gwaith mewn ffyrdd eraill heblaw plannu coed, roedd y cyfranogwyr hefyd eisiau hyblygrwydd gyda sut i blannu coed a'u hintegreiddio yn eu system ffermio. Trafododd gyfranogwyr y gweithdai a'r arolwg wahanol opsiynau o blannu coed ar ffermydd, gan gynnwys:

- Amaeth-goedwigaeth
- Perllannau
- Plannu ymylon tir

Roedd gan ffermwyr ddiddordeb yn yr opsiynau hyn o blannu coed ond yn ansicr a fyddent yn cael eu caniatáu oherwydd y negeseuon a gawsant o gynlluniau blaenorol, e.e. perllannau heb eu cynnwys yn y BPS, a grantiau creu coetir blaenorol yn gwrthod pori a fyddai'n atal amaeth-goedwigaeth. Roedd cyfranogwyr yn awyddus i gael cadarnhad yn ogystal ag arweiniad ar sut i ddarparu a chynnwys y gwahanol opsiynau plannu coed yn y Cynllun. Teimlai un cyfranogwr gyda mwy o brofiad coedwigaeth y dylai fod mwy o arweiniad ac y dylid hyrwyddo'n well sut y gallai coetir fod yn gynhyrchiol i ffermwyr.

Gofynnwyd am gadarnhad hefyd am beth a fyddai'n cael ei ystyried yn 'dir cynefin', a beth a fyddai'n 'goed', ac eglurder ynghylch sut y byddai'r cam gwaith hwn yn gweithio ochr yn ochr â rheolau cynlluniau eraill sy'n dweud fel arall ar hyn o bryd.

Mae hefyd angen arweiniad a chymorth ar Safon Coedwigaeth y DU[20] oherwydd diffyg gwybodaeth am hyn yn y Cynllun a rhywbeth nad oedd y cyfranogwyr yn ei ddeall yn iawn. Mae Safon Coedwigaeth y DU yn fwy na 232 tudalen o hyd a theimlwyd y byddai'n afrealistig disgwyl i ffermwyr fod â dealltwriaeth dda o'r canllawiau hyn.

> *"Mae Safon Coedwigaeth y DU yn debyg i'r rheolau trawsgydymffurfio ar gyfer amaeth ac yn eithaf drud. Mae'n cynnwys llwyth o ofynion cyfreithiol ynghyd â chanllawiau ac yn y blaen. Nid oes llawer yn gwybod yn iawn ydyn nhw ei dilyn neu beidio – dim llawer o help ar hyn."*
>
> *"Wn i ddim beth y mae 'Safon Coedwigaeth' yn ei feddwl – mae angen egluro hyn yn well i ffermwyr."*

Trafododd gyfranogwyr mewn un gweithdy fod angen cymorth i reoli rhywogaethau ymwthiol, clefydau a phlâu fel gwiwerod a cheirw. Roedd ymatebwyr i'r arolwg hefyd eisiau mwy o gamau gwaith ar reoli rhywogaethau ymwthiol gan sôn bod yn rhaid i'r cam gwaith hwn annog plannu coed brodorol yn unig i beidio â chynyddu clefydau ymwthiol.

> *"Rheoli rhywogaethau anfrodorol ymwthiol, e.e. Clymog Japan, Jac y neidiwr, rhododendron, llwyni llawr-geirios, gwiwerod llwyd, carw mwntjac."*
>
> *"angen cymorth i ddelio â rhywogaethau ymwthiol fel Jac y neidiwr a chlymog Japan."*

[20] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/687147/The_UK_Forestry_Standard.pdf

Roedd cyfranogwyr y gweithdai a'r arolwg hefyd yn awyddus i gael mwy o eglurder ar sut y byddai camau gwaith yr SFS yn gweithio ochr yn ochr â modelau cyllid gwyrdd eraill fel y farchnad garbon. Roedd rhai ffermwyr yn poeni y gallent, drwy blannu coed o dan yr SFS, golli'r cyfle i ymuno â'r farchnad garbon yn y dyfodol. Rhannwyd y pryder hwn yn enwedig gan rai a fyddai angen plannu coed i gwrdd â'r UA wrth bwyso a mesur opsiynau o ran taliadau.

#### 6.5.1.6 Mathau o gymorth

Yn yr arolwg, dywedodd 75% o ffermwyr a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith y byddai angen cymorth arnynt. O'r cyfweliadau, dyma'r opsiynau cymorth a gefnogwyd fwyaf:

- Cyngor gan ymgynghorwyr
- Cwrs hyfforddiant wyneb yn wyneb
- Trafodaeth grŵp / seminar gyda ffermwyr eraill

Lleisiwyd pryder am gapasiti adnoddau yn y diwydiant i gefnogi'r gwaith o blannu gymaint o goed. Awgrymwyd y dylid cael cydweithrediad gwell rhwng gwahanol sectorau yn y diwydiant, e.e. contractwyr a Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod digon o gymorth ar gael. Roeddent hefyd am weld cymorth i ddod o hyd i ddeunyddiau lleol i wneud y gwaith gan deimlo ei bod yn anodd ar hyn o bryd dod o hyd i rywogaethau coed / gwrychoedd brodorol yn lleol.


Roedd y cyfranogwyr eisiau mwy o fanylion am y grantiau a fyddai ar gael i blannu, ac yn benodol sut y byddent yn gweithio gyda'r grantiau presennol fel y 'grant creu'. Roeddent eisiau mwy o fanylion am amseriad y mathau hyn o gymorth i sicrhau y gallent ddefnyddio'r arian i blannu coed o fewn amserlen y Cynllun.

O'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith (667 allan o 1443 o ymatebwyr), dywedodd 73% na fyddai'r cymorth priodol yn eu helpu i gwblhau'r cam gwaith.

### 6.5.2 OA: Rheoli a phlannu mwy na 10% o goed


**OA:** Rheoli coed a choetir sydd yno'n barod, gan gynnwys coedwigoedd hynafol, yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (UA mwy na 10%).

Ffigwr 6.8 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA rheoli mwy na 10% o goed (n=713)




**OA:** Gall ffermwyr sy'n dymuno plannu mwy na'r lleiafswm o 10% o goed dderbyn cymorth pellach i blannu mwy o goed unigol, gwrychoedd, grwpiau o goed, lleiniau cysgodi a stribedi clustog wrth ymyl afonydd.

Ffigwr 6.9 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA plannu mwy na 10% o goed (n=714)




Roedd cyfranogwyr y gweithdai'n gweld gwerth mewn rheoli mwy o goetir ond yn lleisio pryderon am y gwrthdaro posib rhwng tenant a thirfeddiannwr am yr OA i blannu mwy na 10% o goed. Dywedodd 38% o'r ymatebwyr i'r arolwg y byddai angen cymorth arnynt i reoli coed a dywedodd 32% y byddai angen cymorth plannu arnynt. Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai fod angen buddsoddi mewn amser, cyfarpar ac arbenigedd i gwblhau'r camau gwaith OA hyn.

### 6.5.3 OA: Gwrychoedd 3m o led

**OA:** Bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi ffermwyr i ledu gwrychoedd ar derfynau rhwng ffermydd i 3 metr (oni bai eu bod wedi eu gwahanu gan goetiroedd, ffyrdd, cloddiau ayyb.

Ffigwr 6.10 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA gwrychoedd 3m o led (n=723)





Roedd gan ganran uchel o'r ymatebwyr ddiddordeb yn yr OA i gynyddu lled terfynau gwrychoedd i 3m (Ffigwr 6.10). Yn y gweithdai a'r ymatebion ansoddol i'r arolwg, dangosodd ffermwyr ddiddordeb brwd mewn cydnabod gwerth gwrychoedd a'u rheoli fel rhan o'r Cynllun. Bu'r cyfranogwyr mewn un gweithdy'n trafod manteision gwrychoedd gan gynnwys ar gyfer bioamrywiaeth a rheoli clefydau mewn anifeiliaid, ond mewn gweithdy arall er y tybiwyd mai bioddiogelwch oedd pwrpas y pellter o 3m, roedd cyfranogwyr eisiau eglurhad pellach.

Teimlai un cyfranogwr y dylid lleihau'r pellter i 2m yn lle 3m er mwyn cael mwy i gwblhau'r gwaith hwn, sy'n cyd-fynd â sylwadau tebyg a wnaed mewn gweithdai eraill ar ofynion grant ar gyfer gwrychoedd a ffensio. Yn yr arolwg, dywedodd 41% y byddai angen cymorth arnynt i gwblhau'r gwaith hwn.

### 6.5.4 CA: Coetiroedd sy’n cysylltu i’w gilydd

**CA:** Cymorth i brosiectau rheoli a chreu coetiroedd sy’n cysylltu i’w gilydd ar raddfa fwy na’r fferm unigol ac a fyddai o fudd i’r fferm, yr amgylchedd a chymdeithas yn gyffredinol.

Ffigwr 6.11 Diddordeb ymatebwyr i’r arolwg yn y CA coetiroedd (n=406)




Ar wahân i’r rhwystrau i blannu coed fel rhan o’r UA, roedd ymateb cyfranogwyr y gweithdai i’r CA hwn yn bositif gan deimlo y gellid gwneud hyn ar raddfa fach er yn cydnabod y byddai angen amser ac ymdrech i gydweithredu. Roedd rhai eisiau cadarnhad a oedd y cam gwaith hwn yn ei le’n benodol ar gyfer ffermwyr tir comin. Dywedodd 35% o’r ymatebwyr i’r arolwg y byddai angen cymorth arnynt i wneud y gwaith hwn, gyda grantiau cymorth i blannu’n cael ei drafod yn y gweithdai.

# 7 Gwarchod a gwella ecosystem y fferm

## 7.1 Rhagarweiniad

Un o amcanion “Gwarchod a gwella ecosystem y fferm” yw bod Llywodraeth Cymru’n cefnogi ffermydd i weithio ag ecosystem y fferm gan ddefnyddio atebion ym myd natur i wella iechyd y pridd a chyfoethogi amrywiaeth y fferm a byd natur.

Mae’r rhan yma o’r adroddiad yn dadansoddi sgiliau a phrofiad, cyfle a chymhelliad ffermwyr i gwblhau’r Camau gwaith Sylfaenol (UA) o dan y nodwedd ‘Diogelu ecosystem y fferm’. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o’r prif ganfyddiadau ar draws y Camau gwaith Dewisol (OA) a Chydweithredol (CA). Mae’r adran hon hefyd yn adrodd ar awgrymiadau’r ffermwyr ar gyfer newid neu wella mesurau gwaith y Cynllun.

Trefnir yr adran hon o dan is-nodweddion canlynol yr SFS sy’n cynnwys y camau gwaith canlynol:

Tabl 7.1 Camau gwaith o dan Gwarchod a gwella ecosystem y fferm


| Is-nodwedd | Camau gwaith | Tudalen |
|---|---|---|
| Diogelu priddoedd rhag erydu a diraddio | UA: Cnwd gorchudd aml-rywogaeth<br>OA: Troi’r tir cyn lleied â phosib | 83 |
| Amrywiaeth cyfoethog ar y fferm: Gwarchod bridiau brodorol | OA: Bridiau brodorol<br>CA: Bridiau brodorol | 86 |
| Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau: Cynnal a chreu cynefinoedd | UA: 10% o gynefin<br>OA: Mwy na 10% o gynefin<br>CA: Cynefinoedd yn cysylltu i’w gilydd | 88 |
| Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau: Safleoedd dynodedig | UA: Safleoedd gwarchodedig<br>CA: Safleoedd gwarchodedig | 94 |
| Dŵr yn cael ei warchod rhag llygredd | OA: Dull pwrpasol o ddelio â llygredd dŵr<br>OA: Lleiniau clustog 6m<br>CA: Dalgylchoedd ansawdd dŵr | 97 |
| Arbed a chadw dŵr | UA: Pyllau dŵr<br>OA: Pyllau dŵr<br>OA: Cynaeafu dŵr<br>CA: Lleihau llifogydd | 101 |

## 7.2 Diogelu priddoedd rhag erydu a diraddio

### 7.2.1 UA: Cnydau gorchudd aml-rywogaeth

**UA:** Er mwyn diogelu pridd rhag erydu, bydd angen i ffermwyr blannu cnwd gorchudd aml-rywogaeth ar yr holl dir sydd heb gnwd dros y gaeaf.

#### 7.2.1.1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| • Roedd gan **82%** o'r ymatebwyr gyda phridd moel ar y fferm dros y gaeaf yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn.<br>• **Y 3 prif ffactor cymell:**<br>• "Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (62%)<br>• "Dw i'n gwneud y cam gwaith hwn ar y fferm yn barod" (60%)<br>• ""Dw i'n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da" (50%) | • Roedd **18%** o'r ymatebwyr i'r arolwg gyda phridd moel ar y fferm dros y gaeaf yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn.<br>• **Y 3 prif rwystr:**<br>• "Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i fy fferm" (37%)<br>• "Nid yw'r math o fferm a / neu system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn" (36%)<br>• "Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (36%) | • Roedd y cyfranogwyr yn gefnogol o gysyniad y cam gwaith hwn ond cyfeiriodd rai at senarios lle na fyddai'r cam gwaith yn fanteisiol (e.e. os oedd y cynhaeaf yn hwyr) neu os oeddent yn teimlo eu bod yn darparu amcanion y cam gwaith hwn mewn ffordd wahanol (cadw sofl dros y gaeaf neu ffermwyr organig yn gadael chwyn). |

#### 7.2.1.2 Sgiliau a phrofiad

Yn yr arolwg o rai a ddywedodd eu bod yn cynaeafu neu'n tyfu grawnfwyd ar eu fferm, roedd 82% yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn. O'r rhain, dywedodd 60% eu bod yn gwneud hyn yn barod ar y fferm – dyma'r prif ffactor cymell ar wahân i dderbyn taliadau. Dywedodd 37% fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i wneud hyn.

Roedd gan nifer o gyfranogwyr y gweithdai brofiad o sefydlu cnwd gorchudd aml-rywogaeth, gyda llwyddiant cymysg.

#### 7.2.1.3 Cyfle

Mae'r cam gwaith hwn yn arbennig o berthnasol i ffermwyr tir âr a thir isel, gyda 39% o'r rhain yn dweud bod ganddynt gnydau neu rawnfwydydd o'i gymharu â dim ond 18% o ffermwyr mynydd.

Er ei fod yn fwy perthnasol i ffermydd tir âr, dywedodd 40% na fyddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith. Y rhai a ddewisodd fferm bîff a chymysg fel eu prif fath o fferm oedd fwyaf parod, o'r holl wahanol fathau o fferm, i gwblhau'r cam gwaith hwn, gyda 87% o'r ymatebwyr o'r ddau sector yn nodi parodrwydd.

Roedd cytundeb yn y gweithdai bod cnydau gorchudd yn gweithio'n well mewn rhai amgylchiadau nag eraill, ac y byddai'n fwy priodol ar gyfer india corn na gwenith. Trafodwyd amgylchiadau eraill pryd na fyddai'r cam gwaith yn addas i rai ffermydd, yn enwedig o ystyried natur benodol y cam gwaith. Soniwyd os oedd y cynhaeaf yn hwyr na fyddai digon o amser efallai i blannu cnwd gorchudd, ac y gallai ffermwyr wneud mwy o niwed drwy styrbio'r pridd. Teimlai cyfranogwr arall nad oedd angen cnwd gorchudd aml-rywogaeth arnynt oherwydd bod gan eu tir âr lawer o chwyn brodorol yn tyfu'n flynyddol ac nad ydynt yn chwistrellu cemegau arnynt. Dywedodd gyfranogwr arall eu bod yn gadael sofl a chwyn ar y tir dros y gaeaf. Gwnaed sylwadau tebyg yn yr arolwg gyda 9 allan o 25 ymateb gan rai a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn yn dweud eu bod yn cwblhau'r gwaith hwn yn barod ond yn teimlo na ddylai'r cam gwaith fynnu ar ormod o ofynion am resymau tywydd:

> *"Ceisiwn wneud hyn bob tro ond mae'n dibynnu'n sylweddol ar y tywydd."*
>
> *"Defnyddiwn gnydau gorchudd yn flynyddol ond mae'n dibynnu gymaint ar y tywydd a'r fferm."*
>
> *"Nid yw cyflwr y pridd yn caniatáu i ni wneud hyn fel arfer da bob tro, ac mewn sefyllfa lle y credai'r ffermwr na fyddai'n syniad da, pwy yn Taliadau Gwledig Cymru sydd â'r sgiliau i farnu ar hyn?"*

#### 7.2.1.4 Cymhelliad

Roedd y rhan fwyaf yn y gweithdai o blaid y syniad mewn egwyddor gan deimlo bod y camau gwaith i atal erydiad y pridd yn un o gryfderau'r Cynllun. Roedd y cyfranogwyr yn hoffi dewisiadau'r grwpiau aml-rywogaeth a'r hyblygrwydd i ddewis rhyngddynt:

- Planhigion bachu nitrogen
- Planhigion porthi
- Planhigion sy'n gwella strwythur y pridd drwy eu gwreiddiau
- Planhigion ar gyfer peillwyr
- Planhigion ar gyfer adar

Teimlai 50% o ffermwyr a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith ei fod yn arfer ffermio da, y 3ydd ffactor cymell mwyaf.

Fodd bynnag, fel y dywedwn uchod, trafododd gyfranogwyr rai amgylchiadau lle na fyddai'r cam gwaith hwn yn ymarferol bob tro. Roedd dryswch hefyd a fyddai sofl dros y gaeaf yn parhau i gael ei gefnogi yn y Cynllun fel yn y cynllun Glastir. Roedd cyfranogwyr y gweithdai, a rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg, yn awyddus i weld y math hwn o waith yn parhau fel rhan o'r Cynllun.


#### 7.2.1.5 Gwelliannau a chymorth

Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i sicrhau hyblygrwydd gyda'r cam gwaith hwn fel y gallai ffermwyr reoli eu tir i gyflawni'r un amcanion ond mewn ffordd a oedd yn addas i'w ffermydd. Awgrymwyd y dylai'r cam gwaith fod yn fwy hyblyg ond, efallai mewn rhai amgylchiadau, y dylai'r gofynion fod yn fwy penodol, e.e. ar gyfer tyfu india corn. Roedd cyfranogwyr eisiau cyngor gan Cyswllt Ffermio ar wahanol ffyrdd o gwblhau'r cam gwaith hwn pe bai'n cynnwys hyblygrwydd.

### 7.2.2 OA: Troi'r tir cyn lleied â phosib

**OA:** Bydd gan ffermwyr yr opsiwn o ddewis camau gwaith sy'n canolbwyntio ar sefydlu cnydau drwy droi cyn lleied â phosib neu ddim o gwbl.

Ffigwr 7.1 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA troi'r tir cyn lleied â phosib (n=724)




Roedd gan nifer o gyfranogwyr y gweithdai brofiadau positif o beidio â throi / troi cyn lleied â phosib. Roedd rhai'n dechrau treialu hyn ar eu tir gyda llwyddiant cymysg ond yn ymwybodol bod y dechneg yn cymryd amser i sefydlu.

Roedd trafodaeth rhwng ffermwyr yn y gweithdai am fanteision ac anfanteision peidio â throi / troi cyn lleied â phosib ond defnyddio *glyphosate* yn lle troi. Trafodwyd defnyddio *glyphosate* gan gydnabod nad yw efallai o fudd i'r amgylchedd, ond mewn rhai amgylchiadau nad oedd dewis arall er mwyn lladd chwyn, a theimlai nifer o'r ffermwyr sy'n hau drwy ddrilio ar hyn o bryd fod *glyphosate* yn angenrheidiol os oedd y broses i weithio.

> *"Dw i wedi meddwl yn galed am beth fyddai'n well – drwy droi, rydych yn rhyddhau carbon ac efallai'n lladd pryfed genwair a styrbio strwythur y pridd. Os dewiswch beidio â throi / troi cyn lleied â phosib – a gorfod chwistrellu glyphosate, ni allaf wneud hyn fel ffermwr organig – ni fyddwn am ei gael yn agos i fy fferm i beth bynnag."*

Trafodwyd y byddai cwblhau'r OA hwn yn llwyddiannus yn dibynnu ar y tir ac na fyddai efallai'n gweithio mewn rhai ardaloedd lle'r oedd y pridd yn garregog er enghraifft. Gallai'r cyfarpar i gwblhau'r cam gwaith hwn fod yn rhwystr i rai hefyd, yn enwedig ar fferm fach neu fferm anodd ei chyrraedd a thrafferthion cael contractwyr i wneud y gwaith.


Roedd un cyfranogwr garddwriaeth eisiau mwy o gamau gwaith OA perthnasol i'w sector gan drafod syniadau fel dulliau dim tyllu, defnyddio siwrwd a bio-olosg.

# 7.3 Amrywiaeth cyfoethog ar y fferm: gwarchod bridiau brodorol

## 7.3.1 Camau gwaith OA a CA: Bridiau brodorol


**OA:** Gall ffermwyr ddewis opsiwn bridiau brodol mewn perygl y DU fel opsiwn ategol i Gamau gwaith Dewisol eraill. Rhaid i'r rhain fod yn anifeiliaid pedigri cofrestredig o frîd brodorol, yn unol â'r diffiniad ohonynt ar restr gymeradwy'r DU o fridiau brodorol mewn perygl.

Ffigwr 7.2 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA bridiau brodorol (n=716)




**CA:** Bydd cymorth cydweithredol ar gael i ffermwyr gael cynhyrchu'n gyson o fridiau brodorol, gan gynnwys gwerthu'n fwy uniongyrchol i gwsmeriaid a gweithio gyda'i gilydd i hybu iechyd genetig. Bydd cymorth cydweithredol hefyd ar gael i ffermwyr gael dod at ei gilydd a defnyddio bridiau brodorol i ddatblygu a chynnal cynefinoedd naturiol a chynyddu bioamrywiaeth.

Ffigwr 7.3  Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA bridiau brodorol (n=408)




Roedd cyfranogwyr y gweithdai'n cydnabod manteision bridiau brodorol gan sôn am wella gwydnwch yn erbyn yr hinsawdd a'r manteision i fywyd gwyllt.

> *"...maen nhw'n ffynnu yn ein hinsawdd ni ac yn wydn i sut y disgwylir i'r hinsawdd newid..."*

Mewn un gweithdy, trafodwyd y bridiau brodorol eraill y gellid eu hychwanegu at y rhestr bridiau brodorol mewn perygl fel 'gwartheg duon Cymreig' a 'mynydd Cymreig'. Trafodwyd hefyd sut y gallai'r cam gwaith bridiau brodorol gysylltu i gamau gwaith eraill yn y Cynllun. Rhoddwyd enghraifft o fanteision bridiau brodorol yn gofalu am gynefin, e.e. pori mawndir, coetir, er mwyn rheoli 10% o gynefin.

Fodd bynnag roedd pryderon y gallai bridiau brodorol effeithio ar gynhyrchu a pherfformiad economaidd y fferm a chael effaith ar eu dangosyddion KPI, er bod un cyfranogwr yn anghytuno gan deimlo bod eu dangosyddion KPI wedi gwella ar ôl symud at fridiau brodorol. Mae angen eglurder ar effaith y cam gwaith hwn ar ddangosyddion KPI.

# 7.4 Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau: cynnal a chreu cynefinoedd

## 7.4.1 UA: Rheoli 10% o gynefin

**UA:** Bydd angen i ffermwyr reoli o leiaf 10% o dir y fferm er mwyn cynnal a gwella cynefinoedd lled-naturiol. Os nad oes digon o gynefinoedd lled-naturiol ar gael, bydd angen i ffermwyr ddewis camau gwaith i greu nodweddion cynefin parhaol neu dros dro ar dir amaethyddol arall.

### 7.4.1.1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

**Ffactorau cymell**

- Roedd **65%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn.
- **Y 3 prif ffactor cymell:**
- "Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (73%)
- "Dw i'n gwneud y cam gwaith hwn ar y fferm yn barod" (52%)
- ""Byddai'n fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy" (50%)

**Ffactorau rhwystro**

- Roedd **35%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn amharod i gwblhau'r cam gwaith.
- **Y 3 prif rwystr:**
- "Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i fy fferm" (55%).
- "Nid yw'r math o fferm a / neu system ffermio yn cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn" (53%)
- "Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (42%)

**Negeseuon o'r gweithdy**

- Roedd llawer o gyfranogwyr y gweithdai'n gwarchod 10% o gynefin yn barod ond yn poeni am y goblygiadau i fusnes y fferm o dynnu cyfuniad o 20% o dir y fferm allan o gynhyrchu. Roedd rhai o'r cyfranogwyr am weld hyblygrwydd i ddewis rhwng y gwahanol gamau gwaith cynefinoedd a gorchudd coed fel y gallent gwblhau mwy o un na'r llall, gan ddibynnu ar beth oedd ar gael ar eu ffermydd.

### 7.4.1.2 Sgiliau a phrofiad

Dywedodd 65% o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn fodlon rheoli 10% o gynefin. O'r 936 o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn, teimlai 52% fod ganddynt 10% o gynefin yn barod ar y fferm. Teimlai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr mewn un gweithdy fod y camau gwaith hyn yn ymarferol ar eu fferm a bod ganddynt 10% o gynefin yn barod ond yn codi pryderon a allai ffermydd eraill wneud hyn.

Roedd rhai gyda phrofiad blaenorol o AES yn fwy tebygol o fod yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn a hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod (Tabl 7.2). Felly hefyd, roedd ffermwyr organig yn fwy tebygol na ffermwyr di-organig o fod yn barod ac eisoes yn cwblhau'r cam gwaith hwn, ac o fod â'r sgiliau angenrheidiol (Tabl 7.3).

Tabl 7.2 Parodrwydd i gwblhau'r cam gwaith yn ôl profiad o AES

| Profiad o AES | Canran o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran a ddywedodd eu bod yn cwblhau'r cam gwaith yn barod | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran a ddywedodd fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Profiad o AES (n=917) | 68% | 58% | 39% |
| Dim profiad o AES (446) | 60% | 41% | 28% |

Tabl 7.3 Parodrwydd i gwblhau'r cam gwaith yn ôl statws organig (dylid cofio bod maint y sampl o ffermwyr organig yn fach, a allai effeithio ar gryfder y canfyddiadau hyn)

| Statws organig | Canran o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran a ddywedodd eu bod yn cwblhau'r cam gwaith yn barod | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran a ddywedodd fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Organig ardystiedig (n=145) | 72% | 64% | 40% |
| Anorganig (n=1288) | 65% | 50% | 34% |

#### 7.4.1.3 Cyfle

Awgryma'r data y byddai gan y rhan fwyaf o'r gwahanol fathau o fferm gyfle i gwblhau'r cam gwaith hwn oherwydd y parodrwydd uchel (garddwriaeth 94%, moch 80%, dofednod 75%, defaid 70%, ffermydd cymysg 66%, gwartheg sugno 65%, gwartheg bîff 57% ac eraill 88%). Fodd bynnag, roedd lefel isel o barodrwydd gan ffermydd tir âr a llaeth i gwblhau'r cam gwaith hwn (44% a 45%). Roedd cyfranogwyr y gweithdai tir âr yn poeni am dynnu tir âr allan o gynhyrchu. Lleisiodd rai bryderon am orfod neilltuo 10% o'u tir ar gyfer cynefin a 10% ar gyfer coed ac effaith bosib hyn ar hyfywedd busnes y fferm.

Lleisiwyd pryderon yn y gweithdai hefyd a allai ffermwyr llaeth gwblhau'r cam gwaith hwn. Teimlai cyfranogwyr y gweithdai y byddai hwn yn gam gwaith hawdd ar dir mynydd ac ucheldir o'i gymharu â thir isel.

> *"Digon hawdd ei wneud ar dir mynydd ac ati ond ar dir isel byddai'n anodd iawn neilltuo 10% o dir amaethyddol da gyda chnydau neu laswelltir cynhyrchiol."*

Roedd yr arolwg yn ategu'r pryderon hyn gyda 55% o ffermwyr llaeth yn dweud na fyddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith, a'r prif rwystrau'n cynnwys na fyddai o fudd i'w system ffermio (68%) ac nad yw fy math o fferm / system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith (64%). Roedd 40% o ffermwyr tir isel hefyd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith, o'i gymharu â 31% o ffermwyr ucheldir.

Yn olaf, roedd gwahanol fathau o berchnogaeth tir yn rhwystro cyfle i denantiaid (Tabl 7.4). Roedd 72% o'r rhai a oedd yn berchen ar eu tir i gyd yn barod i gwblhau'r cam gwaith cynefinoedd, o'i gymharu â 56% a oedd yn berchen ar y rhan fwyaf, 50% a oedd yn denantiaid ar y rhan fwyaf a 64% a oedd yn denantiaid ar eu tir i

gyd. Ar gyfer rhai a oedd yn denantiaid ar y rhan fwyaf neu ar eu tir i gyd, diffyg rheolaeth dros y math yma o waith rheoli oedd y prif rwystr.

Tabl 7.4 Y 3 prif rwystr gan rai a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith cynefinoedd, yn ôl perchnogaeth tir

| Perchen ar eu tir i gyd (n=216) | Perchen ar y rhan fwyaf (n=168) | Tenant ar y rhan fwyaf (n=59) | Tenant ar eu tir i gyd (n=39) |
|---|---|---|---|
| Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i'r fferm (56%) | Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i'r fferm (60%) | Nid yw'r math o fferm / system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn (53%) | Nid yw'r math o fferm / system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn (51%) |
| Nid yw'r math o fferm / system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn (50%) | Nid yw'r math o fferm / system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn (55%) | Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i'r fferm (51%) | Nid oes gen i reolaeth dros y math yma o waith rheoli (49%) |
| Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (46%) | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (46%) | Nid oes gen i reolaeth dros y math yma o waith rheoli (49%) | Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i'r fferm (38%) |

#### 7.4.1.4 Cymhelliad

Dywedodd 50% o'r ymatebwyr a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith mai cynaliadwyedd amgylcheddol oedd un o'r prif ffactorau a fyddai'n eu cymell i'w gwblhau. Dyma'r trydydd ffactor cymell mwyaf ar wahân i daliadau a chwblhau'r cam gwaith yn barod. Trafodwyd manteision cynefinoedd i beillio mewn un gweithdy a theimlai'r cyfranogwyr, a nifer o'r rhai a holwyd drwy gyfweliad, fod cynnwys a hyrwyddo rheoli cynefinoedd yn un o gryfderau'r Cynllun.

Er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr un gweithdy'n cyrraedd y gofyniad 10% o gynefin yn barod, roedd pryderon am sut y byddai'r cam gwaith 10% o gynefin, a hefyd y cam gwaith 10% o goed, yn effeithio ar eu cynhyrchu a'u busnes. Roedd y cyfranogwyr hyn yn poeni na fyddai'r Cynllun yn digolledu'n iawn am unrhyw golledion.

> *"Dw i'n barod i wneud beth sydd ei angen i ymuno â'r Cynllun. Mae'n debyg y bydd yn golygu llai o dir amaethyddol cynhyrchiol neu dir pori er mwyn cwrdd â'r gofynion 10% o dir lled-naturiol a 10% o orchudd coed hefyd. Mae'n dibynnu beth fydd yn digwydd gyda'r gwrychoedd – manylion hynny a'r taliadau yn y pen draw fydd yn penderfynu. Felly a fyddaf yn cael fy nigolledu'n iawn am symud allan o bori a'i droi'n dir lled-naturiol neu goed?"*

> *"Os bydd ffermwyr yn colli 20% o'u tir, bydd angen ffermio'n fwy dwys i gynhyrchu'r un faint."*

Gwnaed sylwadau tebyg yn yr arolwg. Dengys Tabl 7.5 enghreifftiau o themâu sy'n berthnasol i sylwadau'r arolwg gan gymharu nifer y sylwadau gan rai a oedd yn barod a rhai a oedd yn amharod i gwblhau'r camau gwaith. Gwelwn o'r tabl, er eu parodrwydd, bod gan rai bryderon o hyd am y camau gwaith a'u goblygiadau ehangach posib.

Tabl 7.5 Nifer yr ymatebwyr i'r arolwg a wnaeth sylwadau am gynhyrchu bwyd a defnydd o'r tir

| Codau | Parod (n=78) | Amharod (n=107) | Dyfyniad i egluro hyn |
|---|---|---|---|
| Colli tir cynhyrchiol / amaethyddol da | 5 | 20 | "rydym yn gwneud hyn lle y gallwn (ac eithrio'r coetir) ond byddai ehangu hyn i fwy na 10% o dir y fferm yn cael effaith ddrwg ar elw'r fferm" |
| Diogelwch bwyd | * | 14 | "yn anwybyddu pwysigrwydd diogelwch bwyd" |
| Mae 10% o dir yn ormod | 10 | 18 | "methu cyrraedd 10% - gallai 5-8% fod yn bosib" |

*Wedi'i dynnu allan er mwyn atal adnabod – maint y sampl yn llai na 3

Mewn un gweithdy roedd gwahaniaeth barn am y ffigur o 10% gyda rhai'n meddwl ei fod yn ormod ac eraill yn meddwl bod yr amrywiaeth o wahanol gynefinoedd yng Nghymru'n golygu ei fod yn ymarferol. Gwnaed 17 o sylwadau gan un ymatebwr i'r arolwg a ddywedodd na fyddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith a'u bod yn rheoli cynefinoedd yn barod yn unol â'r amcanion ond na allent gyrraedd 10%.

Roedd rhai o gyfranogwyr mewn un gweithdy'n cwestiynu a ddylid tynnu tir allan o gynhyrchu fel bod angen mewnforio mwy o fwyd gan ddadleoli'r newid mewn defnydd tir i wledydd eraill a allai hefyd fod â chynefinoedd pwysig i'w gwarchod. Mewn gweithdy arall, teimlai rhai cyfranogwyr fod y cam gwaith 10% yn ddull arbed tir o ffermio, yn hytrach na'n ddull rhannu tir / fferm gyfan gyda'r awgrym bod hynny'n cael ei ffafrio o'r blaen. Mae'n dangos bod angen geirio pethau'n fwy eglur, yn enwedig wrth ystyried y camau gwaith 10% o gynefin a'r 10% gorchudd coed gyda'i gilydd.

Roedd angen eglurder ynghylch beth a fyddai'n cael ei gynnwys yn y cam gwaith cynefinoedd. Fel gyda'r cam gwaith coed, roedd cyfranogwyr eisiau gwybod a fyddai gwrychoedd yn cael eu cynnwys. Roedd cyfranogwr arall eisiau eglurder os oedd gennych goed gyda chynefin o danynt nad oedd yn cael ei bori, a fyddai'n cyfrif tuag at y ddau gam gwaith:

> *"a fyddai'r 10% yn croesi drosodd i'w gilydd? Dwy system (coed drosto a chynefin o dano) – a fyddai lle'r oedd y ddwy'n gorgyffwrdd yn cyfrif?"*

#### 7.4.1.5 Gwelliannau a chymorth

Mewn un gweithdy, cynigiodd y cyfranogwyr wahanol syniadau ar gyfer gwneud y cam gwaith yn fwy hyblyg i wahanol systemau, gan gynnwys ardaloedd cynefin dros dro (cnydau gorchudd / porfeydd cymysg), ac edrych arno fesul cae yn hytrach nag ar sail fferm gyfan, a meddwl sut y gallai cymysgedd o wrychoedd a choed gyfrannu a chydbwyso'r camau gwaith hyn. Mae angen mwy o eglurder ar gyfranogwyr ar beth y gellir ei gynnwys yn y cam gwaith a sut y mae'n berthnasol i wrychoedd, coed a phori. Eto, awgrymwyd y gallai'r cam gwaith hwn greu marchnad rentu lle y gellid rhentu tir i wneud iawn am y camau gwaith coed a chynefinoedd. Teimlai rhai cyfranogwyr y byddai hyn yn risg i amcanion y Cynllun, yn enwedig os nad oedd y tir rhent yn cael ei reoli.


Dywedodd 77% o'r rhai a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn (n=904) y byddai angen cymorth arnynt. Yn enwedig, dywedodd y rhai heb brofiad blaenorol o AES fod angen mwy o gymorth arnynt (84%) na rhai gyda phrofiad (73%). Cyrsiau

hyfforddiant wyneb yn wyneb a chyngor gan ymgynghorwyr oedd y cymorth mwyaf poblogaidd a ofynnwyd amdano yn y cyfweliadau ar y cam gwaith hwn.

### 7.4.2 OA: Rheoli mwy na 10% o gynefin

**OA:** Rheoli neu wella mwy o gynefin na'r lleiafswm o 10%, gan gynnwys camau gwaith mwy pwrpasol a phenodol i safle.

Ffigwr 7.4 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y cam gwaith cynefinoedd dewisol (n=714)





Teimlai cyfranogwyr y gweithdai fod hwn yn gam gwaith pwysig i'w annog o dan y Cynllun, Dywedodd un cyfranogwr y byddai'n beth da pe bai ffermydd a allai warchod ardaloedd mwy o gynefin gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn cydbwyso systemau 'ungnwd' a ffermydd dwys gydag 'gwerddon' o fioamrywiaeth. Roedd cyfranogwyr y gweithdai'n falch o weld gwaith rheoli nodweddion da'n cael ei gydnabod drwy gydol y Cynllun.

### 7.4.3 CA: Cynefinoedd yn cysylltu i'w gilydd

**CA:** Bydd y Cynllun yn cefnogi cydweithredu i greu cynefinoedd sy'n cysylltu i'w gilydd drwy uno tir cynefin ac ystyried unrhyw flaenoriaethau adfer rhywogaeth lleol neu genedlaethol.

Ffigwr 7.5 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y cam gwaith cydweithredu ar gynefinoedd (n=411)




Roedd gan ganran uchel o'r ymatebwyr i'r arolwg (54%) ddiddordeb mewn CA i gysylltu tirluniau a chynefinoedd (Ffigwr 7.6).

Teimlai cyfranogwyr y gweithdai fod hyblygrwydd gyda'r camau gwaith CA yn bwysig. Er enghraifft, roedd llawer o gyfranogwyr yn awyddus i gydweithredu â rhannau eraill o'r diwydiant a'r cyhoedd, yn ogystal â ffermwyr eraill. Rhoddwyd enghreifftiau fel:

- ymweliadau addysgol;
- gwenynwyr;
- gwyddoniaeth;
- dŵr yfed;
- grant adfer gan ymddiriedolaeth natur leol;
- cysylltu ffermydd i dir comin ar gyfer bioamrywiaeth;
- mynediad i'r cyhoedd a llwybrau troed.

Roedd rhai cyfranogwyr yn gwneud gwaith cydweithredol yn barod, er enghraifft ymweliadau addysgol ar y fferm, ac am ei weld yn derbyn cymorth o dan y Cynllun.

Roedd gan rai bryderon am sut y gallent gwblhau'r camau gwaith CA os nad oeddent yn tynnu ymlaen â'u cymdogion ac y gallent gael eu gadael allan o'r Cynllun oherwydd hyn.

> *"Teimlo'n ynysig, efallai meddylfryd, dydy rhywun ddim mor allblyg a theimlo nad ydych yn adnabod llawer o gymdogion. Pam rhoi'r cwbl arnoch chi o gofio mai'r peth pwysicaf ydy sut yr ydych yn rhedeg eich fferm eich hun"*

# 7.5 Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau: safleoedd dynodedig

## 7.5.1 UA: Cynllun ar gyfer rheoli safleoedd gwarchodedig

**UA:** Wedi datblygu a chytuno ar gynllun rheoli sydd yn ei le’n barod ar gyfer gweithredu safleoedd gwarchodedig o dan reolaeth y ffermwr yn unig.

### 7.5.1.1 Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| • Roedd **81%** o'r ymatebwyr i'r arolwg oedd â safleoedd gwarchodedig ar y fferm yn barod i gwblhau'r cam gwaith.<br>• **Y 3 prif ffactor cymell:**<br>• "Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (67%)<br>• "Dw i'n cwblhau'r cam gwaith hwn ar y fferm yn barod" (61%)<br>• "Byddai'n fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy" (40%) | • Roedd **19%** o'r ymatebwyr i'r arolwg oedd â safleoedd gwarchodedig ar y fferm yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn.<br>• **Y 3 prif rwystr:**<br>• "Dw i ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol (54%).<br>• "Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn ar y ferm" (52%)<br>• "Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i fy fferm" (48%) | • Roedd cyfranogwyr y gweithdai'n awyddus i weld mwy o gymorth a hyblygrwydd gan gyrff a fyddai'n rhoi cyllid i wella a gwarchod safleoedd dynodedig. Teimlai rhai bod angen mwy o adnoddau ac arbenigedd ar gyfer safleoedd dynodedig. |

### 7.5.1.2 Sgiliau a phrofiad

Dywedodd 22% o’r ffermwyr a ymatebodd i’r arolwg fod ganddynt safleoedd gwarchodedig ar y fferm, ac o’r rhain roedd 81% yn barod i gwblhau’r cam gwaith. Dywedodd 169 o ffermwyr allan o 275 (61%) eu bod yn cwblhau’r cam gwaith hwn ar y fferm yn barod – yr ail ffactor cymell mwyaf.

### 7.5.1.3 Cyfle

Dywedodd 25% o ffermwyr mynydd fod ganddynt ardaloedd gwarchodedig ar y fferm, mwy na ffermwyr tir isel (19%). Roedd rhai gyda ffermydd mwy hefyd yn fwy tebygol o fod ag ardaloedd gwarchodedig.

#### 7.5.1.4 Cymhelliad

Credai 40% o'r rhai a oedd yn barod i gwblhau'r gwaith y byddai'n eu gwneud yn fwy amgylcheddol cynaliadwy. Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn cwblhau'r gwaith yn barod wedi trafod y manteision iddynt:

> *"Mae rhan o'n tir, sy'n ddôl blodau gwyllt, wedi'i ddynodi'n swyddogol fel Safle Bywyd Gwyllt Lleol gan Ymddiriedolaeth Natur Gwent. Rheolwn y safle'n bwrpasol i annog bioamrywiaeth a bywyd gwyllt"*
>
> *"Mae'r safleoedd SoDdGa yn bwysig iawn i ni ac i filoedd o gerddwyr pob blwyddyn"*

#### 7.5.1.5 Gwelliannau a chymorth

Disgrifiodd cyfranogwr mewn un gweithdy fod wedi treulio 7 mlynedd yn ceisio cael cyllid ar gyfer cynllun rheoli. Er i'r canlyniadau fod yn dda iawn i'r cyfranogwr, dywedodd y dylai'r cyrff cyfrifol fod yn fwy hyblyg gyda'r meini prawf ar ddyfarnu cyllid oherwydd bod gormod o feini tramgwydd ar hyn o bryd.

Soniodd gyfranogwr arall am grant adfer ymddiriedolaeth natur leol, sy'n cysylltu ffermydd yn yr ardal i dir comin. Awgrymodd y gallai hyn fod yn fodel diddorol i'w ystyried fel rhan o CA.

Soniodd dri ymatebwr i'r arolwg (a ddywedodd y byddent yn amharod i gwblhau'r cam gwaith) fod ganddynt gynllun rheoli'n barod mewn contractau eraill:


> *"Mae gen i gontract yn barod gyda NRW"*
>
> *"Mae gennym gytundeb ar y SoDdGA yn barod"*

Mae angen eglurder ar sut y gall ffermwyr ddefnyddio eu cynlluniau presennol i ymuno â'r SFS, ac fel yr awgrymwyd gyda rhannau eraill o'r Cynllun, mae angen cydlynu rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i sicrhau bod yr SFA yn cyplysu i gynlluniau a rhaglenni eraill.

### 7.5.2 CA: Rheoli safleoedd gwarchodedig yn gydweithredol

> **CA:** Cymorth i reoli safleoedd gwarchodedig yn gydweithredol er mwyn darparu canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Ffigwr 7.6 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA rheoli safleoedd gwarchodedig yn gydweithredol (n=396)




## 7.6 Dŵr yn cael ei warchod rhag llygredd

### 7.6.1 Camau gwaith OA: Atal llygredd dŵr a lleiniau clustog 6m


**OA:** Bydd ffermwyr yn derbyn cymorth i ddatblygu dull pwrpasol o leihau'r risg o lygredd yn mynd ar wasgar. Bydd hyn yn amrywio o fferm i fferm ond yn cynnwys dewis Camau gwaith Dewisol ar sail data mapio risg.

Ffigwr 7.7 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA dulliau pwrpasol o leihau llygredd sy'n mynd ar wasgar (n=713)




**OA:** Bydd ffermwyr yn derbyn cymorth i sefydlu lleiniau clustog wrth ymyl cyrsiau dŵr. Rhaid i'r llain fod yn 6m o led o leiaf a gall gynnwys cymysgedd o weiriau, llwyni a choed.

Ffigwr 7.8  Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA lleiniau clustog 6m (n=716)




Roedd cyfranogwyr y gweithdai'n bositif am y camau gwaith hyn, gyda rhai'n ei gwblhau'n barod ar y fferm ac yn meddwl y dylai fod yn UA. Teimlent fod y camau gwaith hyn yn un o gryfderau'r Cynllun. Soniwyd ganddynt am fanteision posib lleiniau clustog ar gyfer y camau gwaith hyn drwy atal da byw rhag pori ar borfa wlyb, a thrwy hynny'n lleihau'r risg o lyngyr. Teimlai un y dylai fod yn rheidrwydd trawswladol, p'un ai oeddech yn y Cynllun neu beidio, sicrhau bod afonydd Cymru'n ddi-lygredd a dywedodd y cyfranogwyr hefyd y dylid deddfu mwy i gosbi ffermwyr a oedd yn achosi problemau llygredd.

Er bod cyfranogwyr y gweithdai'n bositif am y camau gwaith hyn, lleisiwyd rhai pryderon rheoli posib. Teimlai un cyfranogwr y gallai fod yn drafferthus cael peiriannau i gyrraedd lleiniau clustog, gan arwain at ordyfiant ar y lleiniau hyn. Teimlai'r cyfranogwr hwn y gallai hyn greu problemau cynefin, er enghraifft os na allent reoli tir dolydd wrth ymyl cyrsiau dŵr yn iawn.


Roedd cyfranogwyr un gweithdy eisiau mwy o gyngor ac arweiniad ar ddefnyddio ffensys dros dro, fel rhai trydan, i ddiogelu lleiniau clustog oherwydd bod llifogydd yn gallu gwneud difrod i ffensys.

Yn y ddau weithdy, soniodd y cyfranogwyr y byddai angen cymorth arnynt i ddarparu lle yfed i'w stoc, yn ogystal â chymorth ffensio, i gwblhau'r cam gwaith hwn.

### 7.6.2 CA: Gweithio gyda ffermwyr a'r diwydiant ehangach i wella ansawdd dŵr


**CA:** Cefnogi ffermwyr i weithio gyda'i gilydd mewn dalgylch er mwyn gwella ansawdd dŵr.

Ffigwr 7.9  Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA ffermwyr yn gweithio gyda'i gilydd mewn dalgylch i wella ansawdd dŵr (n=412)




**CA:** Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried sut y gallai'r Cynllun ddod â grŵp ehangach o ffermwyr, tirfeddianwyr, partïon budd a chwmnïau dŵr at ei gilydd i sicrhau bod y camau gwaith sy'n cael eu cwblhau ar fferm yn rhan o becyn ehangach i ddelio â'r holl ffynonellau llygredd dŵr.

Ffigwr 7.10  Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA bod y diwydiant ehangach yn gweithio gyda'i gilydd i wella ansawdd dŵr (n=411)




Y ddau gam gwaith CA o wella ansawdd dŵr a dderbyniodd y ganran uchaf o gyfranogwyr gyda diddordeb yn eu cwblhau (Ffigwr 7.9 a Ffigwr 7.10).

Roedd gan un cyfranogwr brofiad o'r math yma o waith fel rhan o gynllun rheoli cynaliadwy. Ar hyn o bryd, roedd rhywun yn gyfrifol am y gwaith papur ac yn rheoli'r cynllun ar ran y ffermwyr, ond teimlent y byddai angen gwella'r drefn hon yn y dyfodol fel y gallai redeg yn fwy llyfn.

Dywedodd gyfranogwyr mewn un gweithdy y gallai'r rheolau presennol ar wasgaru slyri achosi canlyniadau anfwriadol a thanseilio'r camau gwaith hyn wrth i ffermwyr wasgaru slyri yn y glaw.

## 7.7 Arbed a chadw dŵr

### 7.7.1 UA: Pyllau dŵr

**UA:** Bydd yn rhaid i ffermydd adfer a rheoli pyllau dŵr bywyd gwyllt parhaol ar y fferm a / neu greu nifer o byllau dŵr tymhorol dros dro.

#### 7.7.1.1 Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| •Roedd **66%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn.<br>•**Y 3 prif ffactor cymell:**<br>•"Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (71%)<br>•"Dw i'n gwneud y cam gwaith hwn ar y fferm yn barod" (39%)<br>•""Byddai'n fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy" (50%) | • Roedd **34%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn.<br>•**Y 3 prif rwystr:**<br>•"Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i fy fferm" (50%).<br>•"Nid yw'r math o fferm a / neu system ffermio yn cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn" (52%)<br>•"Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (39%) | •Roedd y cyfranogwyr ar y cyfan yn gefnogol o gael pyllau dŵr ar y fferm gyda rhai'n dweud eu bod yn falch o weld hyn yn cael ei gefnogi oherwydd nad oedd cynlluniau blaenorol yn ei gefnogi. Er hynny lleisiwyd pryderon am y gofynion maint ar gyfer pyllau dŵr, yn ogystal ag ansawdd a lleoliad pyllau dŵr. |

#### 7.7.1.2 Sgiliau a phrofiad

Yn yr arolwg, dywedodd 66% y byddent yn barod i gwblhau’r cam gwaith hwn. O’r 945 o ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn barod, teimlai 39% eu bod yn cwblhau’r cam gwaith hwn ar y fferm yn barod, gyda 30% yn dweud bod ganddynt y sgiliau perthnasol i’w gwblhau.

Roedd ffermwyr organig (79%) yn fwy parod na ffermwyr anorganig (65%) i gwblhau’r cam gwaith hwn. Roedd ffermwyr organig yn fwy tebygol yn barod o fod yn cwblhau’r cam gwaith hwn gan deimlo bod ganddynt y sgiliau perthnasol (Tabl 7.6).

Roedd y rhai a oedd wedi bod mewn AES o’r blaen hefyd yn fwy parod i gwblhau’r cam gwaith, wedi cwblhau’r cam gwaith yn barod, a gyda’r sgiliau perthnasol i wneud hynny, na rhai oedd heb fod mewn AES, er bod y gwahaniaeth yma’n llawi amlwg (Tabl 7.7).

Tabl 7.6 Parodrwydd i gwblhau'r cam gwaith yn ôl statws organig (dylid cofio bod maint y sampl o ffermwyr organig yn fach, a allai effeithio ar gryfder y canfyddiadau hyn)

| Statws organig | Canran o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran sy'n cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran a ddywedodd fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Organig ardystiedig (n=145) | 79% | 47% | 40% |
| Anorganig (n=1288) | 65% | 38% | 29% |

Tabl 7.7 Parodrwydd i gwblhau'r cam gwaith yn ôl profiad o AES

| Profiad o AES | Canran o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran sy'n cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran a ddywedodd fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Profiad o AES (n=918) | 69% | 41% | 33% |
| Dim profiad o AES (n=445) | 59% | 37% | 27% |

#### 7.7.1.3 Cyfle

O'r rhai nad oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith, y math o fferm / system ffermio oedd y rhwystr mwyaf 52%). Wrth adolygu ymatebion y ffermydd llaeth, cododd hyn i 61% a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith, gyda'r math o fferm fel rhwystr. Addasrwydd y tir oedd y rhwystr mwyaf cyffredin yn yr ymatebion ansoddol i'r arolwg (24 sylw allan o 107). Roedd y problemau'n cynnwys y math o dopograffi, math o bridd, calchfaen, tir sych iawn, pridd clai trwm, pridd bas, diffyg tir gwastad.

> *"Mae'r tir ar galchfaen, ni fyddai'r dŵr yn aros heb ryw fath o wahanfur neu leinar."*
>
> *"Ychydig iawn o dir gwastad sydd gen i a fyddai'n addas i leoli pwll dŵr arno. Dim llawer o ffosydd / nentydd ychwaith a allai lenwi pwll dŵr."*

Roedd tenantiaid yn llai tebygol o fod yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn na rhai a oedd yn berchen ar eu ffermydd – roedd 71% o'r rhai a oedd yn berchen ar eu tir i gyd yn barod i gwblhau'r gwaith pwll dŵr, o'i gymharu â 61% a oedd yn berchen ar y rhan fwyaf, 55% a oedd yn denant ar y rhan fwyaf a 57% a oedd yn denant ar eu tir i gyd (Tabl 7.8). Diffyg rheolaeth dros eu tir oedd un o'r tri rhwystr mwyaf i rai a oedd yn denantiaid ar eu tir i gyd (54% y prif rwystr) ac ar y rhan fwyaf o'u tir (51% ail rwystr mwyaf), gyda rhai ymatebwyr i'r arolwg hefyd yn nodi hyn fel rhwystr yn y sylwadau:

> *"Eto, byddai angen caniatâd y landlord a gallai achosi problemau eraill."*

Tabl 7.8 Y 3 prif rwystr gan rai a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith pyllau dŵr, yn ôl perchnogaeth tir

| Perchen ar eu tir i gyd (n=221) | Perchen ar y rhan fwyaf (n=148) | Tenant ar y rhan fwyaf (n=53) | Tenant ar eu tir i gyd (n=48) |
|---|---|---|---|
| Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (52%) | Nid yw'r math o fferm a / neu system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn (57%) | Nid yw'r math o fferm a / neu system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn (53%) | Dim rheolaeth dros y math yma o waith rheoli (54%) |
| Nid yw'r math o fferm a / neu system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn (49%) | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (51%) | Dim rheolaeth dros y math yma o waith rheoli (51%) | Nid yw'r math o fferm a / neu system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn (46%) |
| Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision (43%) | Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision(41%) | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (45%) | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (33%) |

Roedd gwahaniaeth bach hefyd mewn parodrwydd i gwblhau'r cam gwaith hwn rhwng ffermwyr ucheldir (70%) ac iseldir (60%). Gallai hyn fod oherwydd gwahaniaeth yn eu hargraff o'r manteision i'w busnesau fferm oherwydd teimlai 45% o ffermwyr ucheldir na fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i'w fferm, o'i gymharu â 56% o ffermwyr iseldir.

#### 7.7.1.4 Cymhelliad

Teimlai 50% o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn barod i reoli a chreu pyllau dŵr ar y fferm y byddai'r cam gwaith hwn yn eu helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy a 38% ei fod yn arfer ffermio da. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr un gweithdy o blaid rheoli a chreu pyllau dŵr ar y fferm, gan gydnabod manteision a phwysigrwydd tiroedd gwlyb. Roedd y manteision a drafodwyd yn cynnwys:

- Amddiffyn rhag llifogydd
- Gwydnwch yn erbyn sychder
- Manteision bywyd gwyllt

Teimlai nifer o'r rhai a gymrodd ran mewn cyfweliadau a chyfranogwyr un gweithdy fod y camau gwaith dŵr a phyllau dŵr / pyllau tymhorol yn gryfder ac yn falch y byddai cymorth i wneud y pethau hyn. Gwnaed sylwadau nad oedd cynlluniau blaenorol yn barod iawn i gynnwys y mathau hyn o gamau gwaith.

Lleisiodd gyfranogwyr yn y ddau weithdy bryderon am ansawdd a / neu leoliad pyllau dŵr ac y gallai creu pyllau dŵr yn y lle anghywir achosi effeithiau negyddol drwy golli neu wneud niwed i gynefinoedd neu gynnwys dŵr wedi'i halogi.

> *"Byddwn yn hollol yn erbyn creu pyllau dŵr newydd, yn aml iawn y llefydd y byddai pobl yn lleoli pyllau dŵr ynddynt yw cynefinoedd gorau'r fferm. Byddai'n beth negyddol iawn pe gorfodir ni i wneud hyn fel UA."*

Gwnaed sylwadau tebyg yn yr ymatebion ansoddol i'r arolwg gan naw ymatebwr a oedd yn anghytuno y byddai pyllau dŵr yn cyflawni'r nod a ddisgrifir:

> *“Nid yw’n glir i mi y bydd hyn o fudd i natur, mae’n dibynnu ar y fferm. Ydych chi eisiau i mi roi pyllau dŵr tymhorol yn lle cynefin lled-naturiol, e.e. ar fy nhir gwlyb sy’n gynefin gwych yn barod?”*

Mewn un gweithdy, teimlwyd bod y maint lleiaf o bwll dŵr yn rhy fawr a hefyd bod y cynnydd ym maint pyllau dŵr ar gyfer ffermydd mwy’n rhy fawr.

#### 7.7.1.5 Gwelliannau a chymorth

Teimlai 82% o’r ymatebwyr i’r arolwg a oedd yn barod i gwblhau’r cam gwaith hwn y byddai angen cymorth arnynt. Yn ôl cyfranogwyr y gweithdai, a rhai o’r ymatebion ansoddol i’r arolwg, byddai angen cymorth i helpu ffermwyr i ddewis y lle gorau i leoli pwll dŵr / pwll tymhorol er mwyn sicrhau’r manteision mwyaf, eu bod o ansawdd da ac i atal gwneud niwed i gynefinoedd sydd yno’n barod.

Trafododd y gweithdai y gellid defnyddio dull mwy seiliedig ar ganlyniadau, neu daliadau ychwanegol, fel cymhelliad a gwobrwyo tiroedd gwlyb o ansawdd uwch. Roeddent hefyd eisiau sicrhau y byddai cynnal a chadw pyllau dŵr sy’n bodoli’n barod yn cael ei gydnabod a’i wobrwyo.


Roedd awgrymiadau eraill gan y cyfranogwyr yn cynnwys:

- Pantiau
- Argaeau gollwng mewn nentydd
- Amryw byd o byllau dŵr bach (yn lle ychydig o rai mwy)
- Systemau trin ecosystemau tir gwlyb

### 7.7.2 OA: Pyllau dŵr ychwanegol

**OA:** Bydd ffermwyr sy’n awyddus i wneud mwy’n cael eu gwobrwyo am gyflwyno pyllau dŵr ychwanegol a thymhorol lle bo’n briodol gwneud hynny.

Ffigwr 7.11 Diddordeb ymatebwyr i’r arolwg yn yr OA pyllau dŵr (n=416)




### 7.7.3 OA: Storio dŵr

**OA:** Bydd ffermwyr yn derbyn cymorth i:

- Creu pyllau dyfrio a chronfeydd dŵr newydd
- Gosod cyfarpar i ailddefnyddio a chynaeafu dŵr
- Gosod seilwaith gwahanu dŵr glân a dŵr budr

Ffigwr 7.12 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA storio dŵr (n=716)





Roedd peth diddordeb yn yr OA hwn yn y gweithdy. Roedd un cyfranogwr eisiau sicrhau bod grantiau a chymorth ar gyfer cwblhau'r camau gwaith hyn yn ystyried adeiladau llai, gan deimlo bod grantiau blaenorol ond yn darparu ar gyfer ffermydd ac adeiladau mawr. Roedd cyfranogwr arall eisiau gweld y cymorth i wahanu dŵr budr, a fu'n rhan o gynlluniau blaenorol, yn parhau.

### 7.7.4 CA: Rheoli llifogydd

Ffigwr 7.13 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA rheoli llifogydd (n=405)

**CA:** Bydd ffermwyr yn cael eu hannog i gydweithredu ar draws dalgylch i leihau'r risg llifogydd. Byddant yn cael eu gwobrwyo am weithredu camau gwaith gyda'i gilydd, fel creu argaeau gollwng, ardaloedd storio all-lein neu goetir ar orlifdir.



# 8 Lles pobl, anifeiliaid a llefydd

## 8.1 Rhagarweiniad

Amcan y nodwedd 'Lles pobl, anifeiliaid a llefydd' yw bod Llywodraeth Cymru'n helpu ffermwyr i wneud ymdrechion rhagweithiol i hyrwyddo a gwella eu lles, yn ogystal â lles eu teuluoedd, gweithwyr, y gymuned ehangach a'u hanifeiliaid. Bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi ffermydd i wella harddwch yr amgylchedd naturiol a rhoi cyfle i bobl gael mynediad at, a mwynhau, diwylliant cefn gwlad, tirluniau a threftadaeth.

Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi sgiliau a phrofiad, cyfle a chymhelliad ffermwyr i gwblhau'r Camau gwaith Sylfaenol (UA) o dan 'Lles pobl, anifeiliaid a llefydd' gan roi crynodeb o'r prif ganfyddiadau ar draws y Camau gwaith Dewisol (OA) a Chydweithredol (CA). Mae'r adran hon hefyd yn adrodd ar awgrymiadau'r ffermwyr ar gyfer newid neu wella camau gwaith y Cynllun.

Trefnir yr adran hon o dan is-nodweddion canlynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) (Tabl 8.1):

Tabl 8.1 Camau gwaith o dan Lles pobl, anifeiliaid a llefydd

| Is-nodwedd | Cam gwaith | Tudalen |
|---|---|---|
| Cynnal a gwella'r amgylchedd hanesyddol, treftadaeth, a harddwch | UA: Nodweddion hanesyddol<br>OA: Nodweddion hanesyddol<br>OA: Tirluniau gwarchodedig<br>CA: Prosiectau tirlun cydweithredol | 108 |
| Cynorthwyo pobl i fwynhau a chael mynediad i'r amgylchedd naturiol | OA: Mynediad i'r cyhoedd<br>CA: Mynediad i'r cyhoedd | 113 |
| Mae gan dda byw les bywyd da | OA: Lles bywyd da | 115 |
| Hyfedredd i ymarfer yn ddiogel ac effeithlon | UA: Dysgu<br>OA: Dysgu ychwanegol | 116 |

## 8.2 Cynnal a gwella'r amgylchedd hanesyddol, treftadaeth a harddwch

### 8.2.1 UA: Nodweddion amgylchedd hanesyddol

**UA:** Bydd angen i ffermydd sydd â nodweddion amgylchedd hanesyddol wedi eu hadnabod ar y fferm ddilyn canllawiau cyffredinol ar sut i'w rheoli.

#### 8.2.1.1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| • Roedd **83%** o'r ymatebwyr i'r arolwg gyda nodweddion hanesyddol ar y fferm yn barod i gwblhau'r cam gwaith.<br>• **Y 3 prif ffactor cymell:**<br>• "Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (73%)<br>• "Dw i'n gwneud hyn yn barod ar y fferm" (50%)<br>• "Mae fy math o fferm / system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn" (34%) | • Roedd **17%** o'r ymatebwyr i'r arolwg gyda nodweddion hanesyddol ar y fferm yn amharod i gwblhau'r cam gwaith.<br>• **Y 3 prif rhwystr:**<br>• "Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn" (54%)<br>• "Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm" (35%)<br>• "Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (33%) | • Roedd cyfranogwyr y gweithdai'n gefnogol o'r cam gwaith hwn ar y cyfan ondeisiau sicrhau na fyddai rheoli'r nodweddion hyn yn eu rhwystro rhag datblygu'r fferm. Byddai cyfranogwyr yn hoffi derbyn diffiniad cliriach o nodweddion amgylchedd hanesyddol a gweld nodweddion eraill yn cael eu cynnwys yn y Cynllun. |

#### 8.2.1.2 Sgiliau a phrofiad

Dywedodd 28% (n=412) o'r holl ymatebwyr i'r arolwg fod ganddynt nodweddion amgylchedd hanesyddol wedi eu hadnabod ar eu tir a dywedodd 12% na wyddent a oedd ganddynt neu beidio. O'r rhai a ddywedodd fod ganddynt nodweddion amgylchedd hanesyddol, dywedodd 83% (n=343) y byddent yn barod i ddilyn canllawiau ar eu rheoli. O'r rhai a oedd yn barod i ddilyn canllawiau ar reoli nodweddion amgylchedd hanesyddol, dywedodd 50% eu bod yn cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod – yr ail ffactor cymell mwyaf.

Roedd rhai gyda phrofiad blaenorol o AES yn fwy tebygol o fod yn barod, yn cwblhau'r gwaith hwn yn barod, a gyda'r sgiliau angenrheidiol i wneud hyn, o'i gymharu â rhai heb brofiad o AES (Tabl 8.2).

Tabl 8.2 Parodrwydd i gwblhau'r cam gwaith yn ôl profiad o AES

| Profiad o AES | Canran o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran sy'n cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod | O'r rhai a oedd yn barod, y ganran a ddywedodd fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Profiad o AES (n=325) | 85% | 53% | 33% |
| Dim profiad o AES (n=79) | 76% | 35% | 22% |

### 8.2.1.3 Cyfle

Roedd ffermydd mwy yn fwy tebygol na rhai llai o fod â nodweddion amgylchedd hanesyddol (Tabl 8.3). Felly hefyd, roedd rhai gyda phrofiad blaenorol o AES yn fwy tebygol na rhai heb brofiad o AES o ddweud bod ganddynt nodweddion hanesyddol (Tabl 8.4). Gallai hyn fod oherwydd bod y rhai gyda phrofiad o AES yn fwy tebygol o wybod bod ganddynt y nodweddion hyn ar eu tir oherwydd gwaith o dan yr AES.

Tabl 8.3 Y ganran o ymatebwyr gyda nodweddion amgylchedd hanesyddol ar eu fferm yn ôl maint y fferm (n=412)

| Maint y fferm (Ha) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llai na 3 | 3 - <20 | 20 - <50 | 50 - <100 | 100 - <200 | 200+ |
| 14% | 17% | 21% | 22% | 33% | 48% |

Tabl 8.4 Y ganran o ymatebwyr gyda nodweddion amgylchedd hanesyddol ar eu tir yn ôl profiad o AES (n=412)

| | Profiad o AES | |
|---|---|---|
| | Oes | Nag oes |
| Canran o'r ymatebwyr gyda nodweddion amgylchedd hanesyddol ar eu tir (n=412) | 34% | 17% |

Teimlai cyfranogwyr y gweithdai fod angen cael mwy o eglurder ar y diffiniad o henebion, oherwydd weithiau nid yw'r nodweddion hyn yn cael eu hadnabod fel henebion a gallai ffermwyr felly golli allan ar gwblhau'r cam gwaith hwn.

> *"Os oes gan rywun Heneb Gofrestredig (SAM), fe'i cofrestrir yn awtomatig, ond efallai bod llai'n gwybod am, ac na fydd hyn yn digwydd gyda nodweddion hanesyddol eraill."*

Roedd cyfranogwyr hefyd eisiau eglurder ar sut y gallai nodweddion hanesyddol gael eu dilysu er mwyn cynnwys nodweddion sydd wedi eu hadnabod, ond nad ydynt efallai'n dangos ar fapiau. Awgrymodd gyfranogwyr y gweithdai fathau eraill o

nodweddion hanesyddol y byddai ganddynt ddiddordeb yn eu cynnal o dan y Cynllun, fel treftadaeth ddiwydiannol (rhoddir enghreifftiau yn 8.5.1.5)

#### 8.2.1.4 Cymhelliad

Y cam gwaith hwn oedd â'r ganran uchaf o ffermwyr yn dweud eu bod yn barod i'w gwblhau (83%), ac o'r rhai a ddywedodd eu bod yn barod i'w gwblhau, roedd 50% yn gwneud hynny'n barod. Fel gyda'r arolwg, roedd cyfranogwyr y gweithdai ar y cyfan o blaid y cam gwaith hwn ac yn cytuno bod cynnal a chadw nodweddion hanesyddol yn bwysig ac y dylid talu am wneud hyn.

Lleisiwyd rhai pryderon y gallai gwarchod nodweddion hanesyddol atal ffermwyr rhag gallu cael caniatâd cynllunio i ddatblygu eu fferm. Er bod ffermwyr yn gefnogol o warchod yr amgylchedd hanesyddol, roeddent eisiau sicrhau na fyddai'n ormod o rwystr i ddatblygu eu ffermydd yn y broses. Cyfeiriodd rai at broblemau cynllunio a chyfyngiadau ar rai mathau o ddatblygu ar y tir fel rhwystr posib i ymuno â'r Cynllun. Gwnaed sylwadau tebyg mewn cyfweliad:

> *"Cefnogi cynnal a chadw a datblygu adeiladau traddodiadol ond angen gadael i adeiladau esblygu, allwch chi ddim eu cloi mewn hanes."*

Er nad yw'r broblem gynllunio hon yn un y gall yr SFS ei hun ei datrys, gallai wneud ffermwyr yn gyndyn o fod yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn neu'n rhwystr i ymuno â'r Cynllun.

#### 8.2.1.5 Sylwadau ac awgrymiadau

Dywedodd 82% o'r ymatebwyr i'r arolwg y byddai angen cymorth arnynt, gyda chanfyddiadau'r cyfweliadau'n dangos mai taflenni gwybodaeth, yna trafodaethau grŵp, a chyngor gan ymgynghorwyr, oedd y dulliau cymorth mwyaf poblogaidd.

Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai fod angen mwy o arweiniad ac eglurder ar beth a fyddai'n cael ei ystyried i fod yn nodwedd hanesyddol, gyda chyfle i ehangu'r rhestr ar sail rhai o awgrymiadau'r gweithdai. Roedd y mathau o nodweddion hanesyddol y byddai gan gyfranogwyr y gweithdai ddiddordeb yn eu cynnal a'u cadw'n cynnwys:

- Cloddiau
- Camfeydd
- Hen ysguboriau
- Nodweddion treftadaeth ddiwylliannol, e.e. hen siafftiau gwaith mwyn


Roedd y cyfranogwyr hefyd eisiau cymorth i ddilysu nodweddion ar y fferm, gydag un yn dweud y cawsant drafferth yn y gorffennol cael rhywun i ddilysu nodweddion ar y fferm o dan Tir Gofal.

Ni wnaed llawer o sylwadau ar y cam gwaith hwn yn yr arolwg, ond un thema gyffredin gan rai a oedd yn barod a rhai a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn oedd poeni am roi mynediad i'r cyhoedd a sut y gallai'r cyhoedd a fandaliaeth effeithio ar y nodweddion hanesyddol hyn.

### 8.2.2 OA: Tirluniau gwarchodedig

**OA:** Cefnogir ffermwyr i ddarparu mwy er mwyn gwella tirluniau gwarchodedig. Bydd y camau gwaith hyn yn bwrpasol i'r fferm a'r ardal o gwmpas ac yn cysylltu i nodweddion arbennig Ardaloedd o Harddwch Naturiol


Ffigwr 8.1 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA tirluniau gwarchodedig (n=702)




### 8.2.3 OA: Nodweddion hanesyddol

**OA:** Cefnogir ffermwyr i adrodd ar gyflwr nodweddion hanesyddol a sut y maen nhw'n cael eu rheoli. Lle bo'n briodol, cefnogir ffermwyr i atgyweirio nodwedd hanesyddol gydag arweiniad proffesiynol.


Ffigwr 8.2 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA nodweddion hanesyddol (n=706)




**CA:** Bydd y Cynllun yn cefnogi prosiectau tirlun cydweithredol sy'n gwella'r amgylchedd hanesyddol a thirluniau dynodedig ar draws nifer o ffermydd.

### 8.2.4 CA: Nodweddion hanesyddol

Ffigwr 8.3 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA nodweddion hanesyddol (n=405)




## 8.3 Cynorthwyo pobl i fwynhau a chael mynediad at yr amgylchedd naturiol

### 8.3.1 Camau gwaith OA a CA: Mynediad i'r cyhoedd

**OA:** Bydd ffermwyr yn gallu dewis opsiynau i helpu pobl i fwynhau a chael mynediad i'r amgylchedd naturiol.

Ffigwr 8.4 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA mynediad i'r cyhoedd (n=714)




Dywedodd 50% o'r ymatebwyr i'r arolwg nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn cwblhau OA i wella mynediad i'r cyhoedd (Ffigwr 8.4). Hwn oedd un o'r tri OA lleiaf poblogaidd.

Roedd rhai o gyfranogwyr y gweithdai'n bositif am wella llwybrau mynediad i'r cyhoedd sydd ar gael yn barod, er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch. Teimlai cyfranogwyr fod gwella mynediad i'r cyhoedd yn gyfle i addysgu'r cyhoedd am y diwydiant ffermio. Dywedodd gyfranogwyr fod y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn gyfle aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf i hyrwyddo ffermio i'r cyhoedd ehangach. Roedd llawer yn awyddus i wahodd plant cynradd i'w fferm ond yn poeni am gymorth i wneud asesiadau risg a sicrhau bod y seilwaith priodol yn ei le, fel rhywle i olchi dwylo.

Er yn gweld y pethau positif am y cam gwaith hwn, roedd y cyfranogwyr yn awyddus i'w gadw'n ddewisol oherwydd pryderon am ymddygiad ar y fferm. Lleisiwyd pryderon cryf am fioddiogelwch ac ymddygiad negyddol yn gysylltiedig â rhoi mwy o fynediad i'r cyhoedd, fel tipio anghyfreithlon, mwy o droseddu gwledig, hela 'sgwarnogod, torri ffensys, cŵn, cerbydau modur swnllyd.


Lle'r oedd y cyhoedd yn cael mynd ar y tir, dylai fod rheolau y byddai angen i'r cyhoedd eu dilyn a bod angen cymorth gan Lywodraeth Cymru i helpu i orfodi hyn. Roedd pryderon am ddiogelwch y cyhoedd a da byw ar adegau penodol o'r flwyddyn, e.e. wrth droi tarw at fuchod. Roedd cyfranogwyr yn gweld y camau gwaith hyn fel cyfle i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ba fynediad sy'n addas ac anaddas. Awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru helpu gyda phosteri addysgol i helpu i godi ymwybyddiaeth.

Yng ngoleuni'r pryderon hyn, teimlwyd fod angen peth hyblygrwydd gyda mynediad i'r cyhoedd fel y gallai ffermwyr gau llwybrau am resymau diogelwch lle'r oedd hyn yn briodol, neu symud llwybr i atal problemau bioddiogelwch neu droseddu gwledig.

Yn ogystal â chymorth i reoli ymddygiad y cyhoedd, dywedodd gyfranogwyr y gweithdai y byddai angen cymorth i roi'r seilwaith cywir yn ei le, fel ffensys, gatiau sy'n cau eu hunain a chamfeydd.

**CA:** Bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi prosiectau cydweithredol sy'n gwella mynediad i gymunedau lleol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.

Ffigwr 8.5 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn y CA mynediad i'r cyhoedd (n=410)




Cynigiodd gyfranogwyr y gweithdai nifer o syniadau am brosiectau cydweithredol i wella mynediad i'r gymuned leol:

- **Cydweithredu rhwng y fferm a'r gymuned:** Ysgolion, clybiau ffotograffiaeth, grwpiau gwylio adar
- **Clirio rhedyn a bugeilio ar dir comin** er mwyn cynyddu faint o ddefaid y gellir eu ffermio a chreu manteision economaidd. Os cefnogir y camau gwaith hyn drwy'r Cynllun, byddai llai o ddibynnu ar barciau cenedlaethol.
- **Adfer y Mynyddoedd Duon:** Awgrymodd ddau gyfranogwr brosiect cydweithredol yn ochr ddwyreiniol y mynyddoedd duon. Teimlai'r cyfranogwyr fod gan yr ardal hon ei micro-hinsawdd ei hun ac y byddai'n gyfle da i gael cyswllt rhwng ffermwyr a phrifysgolion er mwyn gwarchod a diogelu'r tirluniau hyn.


Roedd cyfranogwyr yn awyddus i drafod y syniadau cydweithredol hyn ond eisiau mwy o fanylion am sut y byddai'r math yma o CA yn cael ei gynnig o dan y Cynllun.

## 8.4 Mae gan dda byw les bywyd da

### 8.4.1 OA: Y dull Lles Bywyd Da

**OA:** Cefnogir ffermwyr i ddefnyddio safon lles anifeiliaid uwch. Gallai hyn gynnwys dilyn y dull Lles Bywyd Da (neu debyg).

Ffigwr 8.6 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA Lles Bywyd Da (n=711)




Roedd gan 51% o'r ymatebwyr i'r arolwg ddiddordeb yn yr OA o ddefnyddio safon lles uwch (Ffigwr 8.6). Teimlai rhai yn y gweithdai y dylai'r cam gwaith hwn fod yn UA o dan y Cynllun oherwydd y dylai pob ffermwr ymarfer hwsmonaeth dda. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y ffaith bod gan y Deyrnas Unedig rai o'r safonau lles uchaf yn y byd yn barod ond bod angen parhau i wella'r safonau hyn. Y nod yw cadw cynhyrchion lles is allan o'r farchnad a chadw siâr y DU o'r farchnad. Dywedodd ffermwr organig y dylai'r cam gwaith hwn gysylltu i arferion ffermio organig oherwydd bod safon lles ffermio organig yn uwch na'r isafswm cyfreithiol.

Er yn teimlo bod y cam gwaith hwn yn bwysig, roedd diffyg eglurder yn y gweithdai ynghylch beth fyddai'r cam gwaith yn ei olygu a'i gynnwys yn benodol, ar wahân i'r arferion lles da arferol.

Awgrymodd un cyfranogwr fod cloffni'n flaenoriaeth lles a bod angen mwy o ymchwil i frechiadau ar gyfer clefydau traed ac y gallai hyn fod yn gam mawr ymlaen i wella lles anifeiliaid. Byddai mwy o gymorth yn gyffredinol gyda thrin a rheolaeth bwrpasol o glefydau'n ddefnyddiol.

## 8.5 Hyfedredd i ymarfer yn ddiogel ac effeithlon

### 8.5.1 UA: Dysgu

**UA:** Bydd yn ofynnol i ffermwyr gwblhau isafswm o ddysgu, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch.

#### 8.5.1.1 Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

| Ffactorau cymell | Ffactorau rhwystro | Prif negeseuon o'r gweithdai |
|---|---|---|
| • Roedd **76%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn barod i gwblhau'r cam gwaith.<br>• **Y 3 prif ffactor cymell:**<br>• "Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn er mwyn derbyn taliadau drwy'r Cynllun" (72%)<br>• "Dw i'n meddwl bod y cam gwaith hwn yn arfer ffermio da" (62%)<br>• "Dw i'n gwneud hyn yn barod ar y fferm" (36%) | • Roedd **24%** o'r ymatebwyr i'r arolwg yn amharod i gwblhau'r cam gwaith.<br>• **Y 3 prif rhwystr:**<br>• "Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn" (55%)<br>• "Dw i ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol" (51%)<br>• "Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision" (37%) | • Teimlai ffermwyr fod hyfforddiant iechyd a diogelwch yn bwysig iawn ac roeddent yn gefnogol o'r cam gwaith hwn. Hoffent weld mwy o hyblygrwydd a chynnig gwahanol ffyrdd o ddysgu perthnasol i'r ffermwr. Lleisiodd rai bryderon am yr amser y byddai angen ei roi, gan gydnabod mai un person yn cwblhau'r cam gwaith o bob fferm a fyddai, nid holl staff y fferm. |

#### 8.5.1.2 Sgiliau a phrofiad

Roedd 76% o’r holl ymatebwyr i’r arolwg yn barod i gwblhau’r dysgu iechyd a diogelwch. O’r 1,091 a ddywedodd eu bod yn barod i gwblhau’r cam gwaith hwn, roedd 36% yn gwneud hynny’n barod a theimlai 24% y byddai’r hyfforddiant yn gwella allbynnau’r fferm (e.e. iechyd anifeiliaid / cynhyrchu / elw).

Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai eu bod yn cwblhau cyrsiau Iechyd a Diogelwch yn barod fel rhan o gynllun gwarant fferm, yn enwedig Tractor Coch. Roedd canfyddiadau’r arolwg yn cefnogi hyn gyda rhai mewn cynlluniau gwarant fferm yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cwblhau’r cam gwaith yn barod. Er enghraifft, roedd 42% o dan Tractor Coch, 39% wedi eu hardystio gan Ardystio Bwyd Cymru o Safon Cyf (QWFC), 38% mewn cynllun gwarant fferm a 38% a oedd yn ffermydd organig Cymreig ardystiedig yn cwblhau cyrsiau Iechyd a Diogelwch yn barod, o’i gymharu â 28% nad oedd mewn unrhyw gynllun gwarant fferm.

#### 8.5.1.3 Cyfle

Yn y gweithdai, soniwyd am gyfyngiadau amser fel rhwystr penodol gyda'r cam gwaith hwn.

> *"pryd fydden ni'n dod o hyd i amser i wneud hyn a phryd fyddai gan staff yr amser?"*

Amser hefyd oedd y prif rwystr yn yr arolwg gan rai a oedd yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn (55%). Gwnaed sylwadau yn yr arolwg am y baich gweinyddol ychwanegol gyda'r math yma o waith, gan rai a oedd o blaid y cam gwaith (n=10) a rhai a oedd yn amharod i'w gwblhau (n=15).

> *"Mae hyn yn arfer ffermio da ac rydym yn ei wneud yn barod. Ni fyddem yn hapus gorfod ymdopi â mwy o faich gweinyddol i wneud pethau a wnawn yn naturiol wrth redeg busnes da. Cofiwch am y gwaith gweinyddol ychwanegol y bydd yr holl gamau gwaith o dan y Cynllun yn ei achosi i ffermwyr, fydd yn rhoi blaenoriaeth i les anifeiliaid ac nad oes arnynt angen treulio mwy o amser yn llenwi gwaith papur a thicio bocsys."*

Trafododd gyfranogwyr y gweithdai ochr ymarferol cwblhau'r cam gwaith hwn a sut y byddent yn cwblhau'r cwrs dysgu ar gyfer y fferm. Er bod rhai'n teimlo na fyddai hynny'n well o reidrwydd, byddai'n fwy realistig i un person fynychu'r hyfforddiant a throsglwyddo'r wybodaeth i staff eraill. Cefnogwyd hyn mewn gweithdy arall lle'r oedd y cyfranogwyr o blaid dysgu ar sail fferm yn hytrach nag ar sail unigolyn. Roedd hyn am resymau parhad staff a theimlo bod sgiliau'n gysylltiedig â'r fferm yn hytrach nag unigolion. Mewn un gweithdy, teimlai rai ffermwyr a oedd yn ferched mai nhw a fyddai'n gorfod cwblhau'r hyfforddiant:

> *"Yn ein sefyllfa ni, y funud y bydd yn cael ei awgrymu, mi fyddant yn gofyn i mi fynd ac adrodd yn ôl wedyn, ond nid dyna bwynt y peth." (ffermwr / merch)*

> *"Ni chyflogwn neb yma heblaw am gontractwyr i gneifio a chymysgu silwair. Fi fydd yn gorfod mynd ar y cwrs." (ffermwr / merch)*

Soniwyd hefyd fod pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, wyneb yn wyneb, ar-lein, ymweliadau fferm, yn gydweithredol. Roedd angen cefnogi gwahanol ffyrdd o ddysgu i roi dewis i ffermwyr ac annog eraill i gymryd rhan. Gallai amrywiaeth o opsiynau hefyd gefnogi rhai a deimlai y byddent yn rhy brysur neu fod cyrsiau hir wyneb yn wyneb yn rhy bell.

#### 8.5.1.4 Cymhelliad

Cytunodd holl gyfranogwyr y gweithdai fod dysgu am iechyd a diogelwch yn bwysig iawn. Teimlai llawer o gyfranogwyr y gweithdai fod y cam gwaith hwn yn un o gryfderau'r Cynllun ac roeddent yn awyddus i weld y dysgu'n cael ei annog drwy wahanol ddulliau fel ar-lein neu wyneb yn wyneb. Roedd yr arolwg yn cefnogi hyn ac un o brif ffactorau cymell y cam gwaith hwn oedd "Dw i'n meddwl ei fod yn arfer ffermio da" (62%). Mewn un gweithdy, rhannodd ffermwyr eu profiadau ac enghreifftiau o ddamweiniau ar ffermydd gan gredu y byddai'r hyfforddiant yn delio â'r sefyllfa.

> *"Mae iechyd a diogelwch yn hanfodol i'r diwydiant, sydd ag enw drwg iawn am farwolaethau, damweiniau, ayyb. ... Mae angen i ni roi trefn ar hyn fel diwydiant."*

Gwnaed sylwadau tebyg yn yr arolwg hefyd:

> *"Mae bod yn hunan-fodlon yn achosi damweiniau ac ail-addysgu fel arfer yn hynod werthfawr."*

Er bod y cyfranogwyr i gyd yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant iechyd a diogelwch, roedd barn gymysg am a ddylai'r cam gwaith fod yn UA. Y farn mewn un gweithdy oedd y dylai fod yn UA cyn belled ag y bo'r hyfforddiant yn berthnasol i'r ffermwr a'r fferm.

> *"Gweithdy iechyd a diogelwch – ai UA ydy hwn? Dim problem gen i. Mae'n bwysig yn fy marn i. Pe byddem yn mynd pob 12 mis i loywi ein gwybodaeth ac mae'n ticio bocsys yr UA, mae'n beth da. Mater i ddarparwr yr hyfforddiant yw ei wneud yn berthnasol i'r mynychwyr."*

Fodd bynnag, mewn gweithdy arall, roedd barn gymysg a ddylai fod yn OA neu'n UA. Pwysleisiwyd y byddai'r hyfforddiant yn bwysig iawn i ffermwyr iau a phobl newydd i'r diwydiant ffermio. Ond teimlai rhai bod llawer o ffermwyr hŷn yn annhebygol o newid eu harferion a bod ganddynt lawer o brofiad yn barod. Gwnaed sylwadau tebyg yn yr arolwg gan ffermwyr a deimlai nad oedd ei angen oherwydd eu bod yn gwybod beth i'w wneud yn barod (n=31).

> *"Dw i'n brysur ac yn gwybod beth sydd angen ei wneud, yn 62 oed a dim angen cael hyfforddiant."*
>
> *"Wedi ffermio'n llwyddiannus ers blynyddoedd ac yn gwybod beth sy'n gweithio!!"*

Er y sylwadau tebyg yn y gweithdai ac mewn rhai o'r ymatebion ansoddol i'r arolwg, ffermwyr a ddywedodd eu bod yn 65+ oed oedd y grŵp oed mwyaf parod i gwblhau'r cam gwaith hwn, gyda 79% yn barod i'w gwblhau, o'i gymharu â 74-75% ar gyfer grwpiau oed eraill.  Teimlai eraill yn y gweithdai nad yw pobl byth yn rhy hen i ddysgu a bod peiriannau a chyfarpar fferm yn datblygu o hyd ac felly bod angen hyfforddiant iechyd a diogelwch newydd.

#### 8.5.1.5 Sylwadau ac awgrymiadau

Dywedodd 86% o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn barod i gwblhau'r cam gwaith hwn y byddai angen cymorth arnynt. Yn y cyfweliadau, hyfforddiant wyneb yn wyneb, yna hyfforddiant ar-lein oedd y mathau mwyaf poblogaidd o gymorth ar gyfer hyn.

Teimlai cyfranogwyr y gweithdai fod darparu dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein yn bwysig. Gallai dysgu wyneb yn wyneb fod yn arbennig o bwysig i ddysgu am beiriannau. Trafododd un cyfranogwr sesiynau gyda'r hyfforddwr yn mynd i'r fferm i roi hyfforddiant yn defnyddio cyfarpar y ffermwr ei hun. Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn awyddus i fynychu sesiynau wyneb yn wyneb er ei bod yn bwysig eu cynnig yn lleol, i leihau amser teithio. Dywedodd gyfranogwr arall y byddai'n bwysig cael rhai sesiynau ar-lein oherwydd nad oedd ganddynt amser ar y funud i fynychu cyrsiau oherwydd gorfod gofalu am fferm fach a salwch yn y teulu.

Mewn un gweithdy, soniodd y cyfranogwyr am nifer o sesiynau hyfforddi a phynciau defnyddiol:

Rhoddwyd enghreifftiau o hyfforddiant a weithiodd yn dda yn y gorffennol:

- Hyfforddiant ar gae sioe amaethyddol
- Bŵt-camp iechyd a diogelwch mewn marchnad yn Henffordd
- Hyfforddiant peiriannau
- Cwrs ar y fferm ar y *telehandler* (craen / fforch-godwr)

Dyma rai pynciau defnyddiol y soniwyd amdanynt:

- Peryglon trydan
- Sut i rwymo tarw'n iawn
- Llenwi driliau gwrtaith
- Hyfforddiant peiriannau
- Codi ymwybyddiaeth o'r damweiniau sy'n gallu digwydd ar fferm i annog mwy o bobl i dderbyn hyfforddiant.


Roeddent yn awyddus i sicrhau nad oedd dyblygu ymdrech, felly os oedd cynllun gwarant fferm yn cynnwys iechyd a diogelwch bod hyn yn 'cydnabod perfformiad'. Soniodd y cyfranogwyr fod y cynllun Tractor Coch yn ychwanegu llawer o gyfleoedd dysgu newydd. Mewn un gweithdy wrth drafod sut i ddarparu'r Cynllun, roedd yn well gan y cyfranogwyr system bwyntiau'n hytrach na system amser i gofnodi a dangos tystiolaeth o hyfforddiant, i atal rhai rhag camddefnyddio'r system i ymddangos fel pe baent wedi cwblhau mwy o oriau.

Lleisiwyd pryderon am eiriad y cam gwaith yn y gweithdai. Mae diffyg eglurder o ran beth y mae 'isafswm dysgu' yn ei feddwl gan awgrymu nad yw ffermwyr yn dysgu'n barod. Roedd rhai ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo'r un peth a bod y cam gwaith hwn fel pe bai'n nawddoglyd i ffermwyr. Codwyd cwestiynau pellach am ba mor hyblyg fyddai hyn, gyda'r cyfranogwyr yn meddwl tybed a fyddai angen mynd ar gwrs cyffredinol, neu a fyddai hyblygrwydd i ddewis rhywbeth sy'n addas i'w harferion ffermio a'r sgiliau yr oeddent eisiau eu datblygu. Gallai gwella geiriad y cam gwaith, a chynnwys mwy o hyblygrwydd fel y gallai ffermwyr deilwrio'r dysgu i'w diddordebau ac anghenion, wneud ffermwyr yn fwy parod i gwblhau'r cam gwaith.

## 8.5.2 OA: Dysgu ychwanegol

**OA:** Cefnogir ffermwyr sy'n awyddus i wneud dysgu ychwanegol am gwblhau CPD mwy cymhleth a lefel uwch. Bydd ffermwyr hefyd yn cael eu gwobrwyo am helpu i drosglwyddo gwybodaeth i ffermwyr eraill.

Ffigwr 8.7 Diddordeb ymatebwyr i'r arolwg yn yr OA dysgu (n=416)




Roedd cyfranogwyr y gweithdai'n awyddus i drafod yr OA hwn ond yn teimlo ei bod yn bwysig cadw pethau'n hyblyg oherwydd pryderon y byddai barn rhy gul am ba hyfforddiant fyddai'n cael ei ganiatáu. Cytunodd y cyfranogwyr na ddylid mynnu ar

ormod o ofynion, a chaniatáu ar gyfer hyblygrwydd ac arloesi, fel y gall ffermwyr ddewis hyfforddiant ar sgiliau sydd angen eu gwella. I sicrhau hyblygrwydd, roedd nifer yn awyddus i dderbyn hyfforddiant a gynigir y tu allan i Cyswllt Ffermio.

Trafodwyd syniadau posib ar gyfer gwahanol ffyrdd o wneud hyfforddiant a dysgu drwy'r cam gwaith hwn:

- **Ymweliadau fferm:** Rhoddodd un cyfranogwr enghraifft o'i gŵr yn mynd ar dripiau gyda grŵp glaswelltir i ymweld â gwahanol ffermydd i weld sut y maen nhw'n rheoli eu tir. Cytunodd y cyfranogwyr y dylid digolledu ffermwyr sy'n cynnal ymweliadau fferm am yr amser a'r ymdrech o dan y cam gwaith hwn. O'i wneud yn gydweithredol, dylai'r ffermwyr i gyd dderbyn peth incwm, er y gallai fod yn anodd ei rannu.
- **Marchnadoedd anifeiliaid lleol:** Trafododd gyfranogwyr farchnadoedd lleol fel rhwydwaith cymorth ymhlith ffermwyr a lle da i basio gwybodaeth ymlaen. Awgrymwyd y byddai hefyd yn lle da i gynnal sesiynau dan arweiniad ffermwyr i ddysgu am y Cynllun ei hun.

# 9 Prosesau'r Cynllun

## 9.1 Meini prawf cymhwyso

Y meini prawf cymhwyso sydd mewn golwg ar gyfer y Cynllun SFS yw'r canlynol:

- rhaid bod yn ffermwr yn gwneud gwaith amaethyddol
- rhaid i'r tir amaethyddol fod yng Nghymru
- rhaid i'r fferm fod yn 3 hectar o dir amaethyddol cymwys o leiaf
- rhaid gallu cyflawni'r Camau gwaith Sylfaenol (UA) perthnasol o leiaf, drwy gydol y contract

Yn yr arolwg, gofynnwyd a allai'r cyfranogwyr gwrdd â'r prif feini prawf cymhwyso (heb gynnwys rhai UA) ac os na, pa feini prawf na allent gwrdd â nhw.

Dywedodd 94% o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn gallu cwrdd â'r meini prawf cymhwyso, dywedodd 2% na allent ac roedd 4% yn ansicr a allent eu cwrdd.

O'r rhai nad oedd neu a oedd yn ansicr a allent gwrdd â'r meini prawf (n=75), nid oedd y meini prawf canlynol yn berthnasol iddynt:

- rhaid bod yn ffermwr yn gwneud gwaith amaethyddol: 32%
- rhaid i'r tir amaethyddol fod yng Nghymru: 8%
- rhaid i'r fferm fod yn 3 hectar o dir amaethyddol cymwys o leiaf: 35%
- ansicr: 39%

Allan o'r 24 o ymatebwyr a deimlai nad oeddent yn cwrdd â'r maen prawf 'ffermwr yn gwneud gwaith amaethyddol', dewisodd chwech fod ganddynt fath 'arall' o fferm. Dewisodd y 16 arall un o'r prif sectorau ffermio er yn parhau i fod yn ansicr neu'n teimlo nad oeddent yn cwrdd â'r maen prawf 'ffermwr yn gwneud gwaith amaethyddol'.
Mae hyn yn awgrymu, i rai ffermwyr, bod diffyg eglurder ar y diffiniad o 'ffermwr yn gwneud gwaith amaethyddol'.

### 9.1.1 Ffermwr beunyddiol

Yng ngweithdai prosesau'r Cynllun, roedd rhai cyfranogwyr eisiau mwy o eglurder ar beth yw 'ffermwr beunyddiol'. Teimlai rhai nad oedd eu sectorau'n dod o dan y Cynllun ac yn ansicr a fyddent yn cael eu hystyried yn 'ffermwr beunyddiol'. Prif fentrau'r cyfranogwyr hyn oedd geifr, ceffylau neu geirw gan ddosbarthu eu hunain fel ffermwyr neu gyda diddordeb mewn cwblhau camau gwaith y Cynllun. Arweiniodd hyn at drafod pwrpas yr SFS.

Roedd peth dadlau o gwmpas amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr SFS wrth drafod y maen prawf cymhwyso hwn ac a ddylid ystyried pobl sy'n rheoli tir y tu allan i ffermio. Wrth drafod y diffiniad o ffermwr beunyddiol, teimlai rhai y dylech orfod cael eich ystyried i fod yn ffermwr beunyddiol i ymuno, ond teimlai eraill cyn belled â'ch bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn gallu darparu'r hyn sydd mewn golwg gan Lywodraeth Cymru, na ddylai fod yn un o'r gofynion:

> *"Os ydych yn cydymffurfio â'r rheoliadau a darparu'r hyn sydd gan Lywodraeth Cymru mewn golwg, ni ddylai fod ots a ydych yn ffermwr beunyddiol neu beidio."*

### 9.1.2 Y gofyniad 3 hectar

Ym mhob un o'r tri gweithdy prosesau'r Cynllun, trafodwyd y gofyniad bod angen o leiaf 3 hectar o dir. Nid oedd y rhan fwyaf yn deall y penderfyniad y tu ôl i'r maen prawf 3 hectar, yn enwedig oherwydd bod angen 5ha yn y BPS gan deimlo nad oedd 3ha yn ddigon ac y gallai 'ffermwyr hobi' ymuno â'r Cynllun. Teimlai rhai cyfranogwyr y dylid cynyddu hyn i 5 neu 10ha.

Fodd bynnag, awgrymodd rai y dylai rhai sectorau fel garddwriaeth gael eu heithrio o'r gofyniad hwn. Gofynnodd rai hefyd a allai ffermwyr gyda llai na 3ha gyfuno er mwyn ymuno â'r Cynllun a chwrdd â'r gofyniad o 3ha oherwydd roeddent yn poeni y byddai rhai ffermwyr llysiau'n cael eu gadael allan pe bai lleiafswm o 3ha o leiaf yn cael ei osod.

Trafodwyd yn y gweithdai a ddylid cael uchafswm nifer o hectarau i sicrhau na allai sefydliadau mawr fanteisio ar y Cynllun. Roedd pryderon cyffredinol am bwy a ddylai dderbyn y taliadau, gyda'r cyfranogwyr yn awyddus i sicrhau bod y Cynllun yn cefnogi 'ffermwyr go iawn' yn eu barn nhw:

> *"Dim ond potyn bach o arian sydd ar gael, fydd yn mynd yn llai, felly byddai'n gas gen i weld cwmnïau a sefydliadau mawr....y cyrff mawr, y tirfeddianwyr mawr, parciau cenedlaethol, ac yn y blaen, yn llyncu'r arian. Dylai fynd i ffermwyr yn fy marn i."*

Yn ôl rhai, mae gan rai ffermwyr, yn eu barn nhw, wahanol resymau am ffermio. Trafodwyd y syniad a ddylai'r gwahanol resymau hyn eithrio rhai ohonynt o dderbyn arian gan y llywodraeth. Disgrifiwyd bod rhai tirfeddianwyr mawr yn *"ffermio am resymau heblaw am y rhesymau yr ydym ni'n ffermio"* fel cynhyrchu bwyd. Roedd pryder am rai cyfranogwyr oherwydd faint o arian a allai gael ei ddyrannu allan o botyn bach. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod bod y tirfeddianwyr hyn yn aml yn gwneud gwaith stiwardio tir ac amgylcheddol da. Roedd y cyfranogwyr hyn yn poeni'n bennaf am warchod y ffermwyr llai a sicrhau bod ffermwyr sydd fwy o angen cymorth ariannol drwy'r Cynllun yn gallu ei dderbyn.

### 9.1.3 Ymgeisio i ymuno â'r Cynllun

Byddai 70% o ffermwyr yn teimlo'n hyderus yn ymgeisio i ymuno â'r SFS drwy Daliadau Gwledig Cymru (RPW) ar-lein, ni fyddai 11% yn teimlo'n hyderus ac ni wyddai 20%.

Dywedodd 90% o'r ymatebwyr eu bod yn darparu gwybodaeth sylfaenol am eu fferm a'u tir yn barod, tebyg i Ffurflen Cais Sengl (SAF) neu gynllun gwarant fferm. Ar draws y sectorau, roedd y ganran o ffermwyr nad oedd yn darparu'r wybodaeth yma'n isel ar y cyfan. Fodd bynnag, ar gyfer rhai a ddywedodd mai garddwriaeth oedd eu prif fath o fferm, nid oedd 10 allan o 16 yn darparu'r wybodaeth. Roedd nifer hefyd o ffermwyr moch a ffermwyr 'sector arall' a ddywedodd nad ydynt yn darparu'r wybodaeth yma ar hyn o bryd.

Byddai 49% o'r ymatebwyr yn teimlo'n hyderus i ddarparu'r wybodaeth ar-lein heb gymorth a 25% na fyddent yn teimlo'n hyderus heb gymorth.

## 9.2 Adolygiad Cynaliadwyedd

### 9.2.1 Asesiad carbon

Dim ond 12% o'r ymatebwyr i'r arolwg a ddywedodd eu bod yn cwblhau asesiad carbon ar y fferm. Roedd y ganran o ymatebwyr mewn cynlluniau gwarant Tractor Coch a ddywedodd eu bod yn cwblhau'r cam gwaith hwn dipyn yn uwch (31%) o'i gymharu â 5% nad oedd yn rhan o gynlluniau gwarant fferm.

Dywedodd 23% o ymatebwyr y byddent yn hyderus i wneud asesiad carbon ar-lein yn defnyddio offeryn fel carboniadur. Dywedodd 38% na fyddent yn hyderus ac ni wyddai 39%. Mae canlyniadau'r arolwg a'r sylwadau o'r gweithdai'n awgrymu bod angen cymorth ar gyfer y cam gwaith hwn.

Roedd gan rai o gyfranogwyr gweithdai prosesau'r Cynllun, ond nid y rhan fwyaf, brofiad o ddefnyddio carboniadur. Ym mhob un o'r tri gweithdy ar brosesau'r Cynllun, cwestiynwyd pa mor effeithiol yw carboniaduron gan sôn am ddiffyg cysondeb a bod y canlyniadau'n gallu amrywio rhwng gwahanol garboniaduron. Trafododd un eu profiad o ddefnyddio amryw o garboniaduron a phob un yn rhoi canlyniadau gwahanol. Soniwyd am broblem benodol lle'r oedd un carboniadur wedi'i dargedu fwy at y sector llaeth gan gyfrifo carbon ar sail gwartheg llaeth, a fyddai'n wahanol iawn i wartheg sugno. Cawsant mai'r un mwyaf manwl oedd yr un gorau, gan gymryd tridiau; fodd bynnag, roedd y cyfranogwr hwn ac eraill yn cydnabod y byddai defnyddio carboniadur dwys a fyddai angen gymaint o ddiwrnodau yn rhwystr i rai. Roedd gan y cyfranogwr hwn y cymhelliad i gwblhau'r asesiad carbon i ddangos bod eu fferm yn gynaliadwy ac i hyrwyddo'r diwydiant bîff:

> *"dw i wedi cael llond bol ar bobl yn beirniadu'r diwydiant bîff – fe wnaethom ni hyn i gael gwybod lle'r oeddem ni'n sefyll; erbyn y trydydd tro, gyda chymaint o ddata am y fferm gennym, gofynnwyd i ni gymryd rhan yn y Ffordd Gymreig.  Cefais fy rhybuddio y byddai'n cymryd amser ond gyda'r ddogfen olaf, mae'n rhoi'r data i chi ddweud wrth bobl nad yw'r straeon yn y cyfryngau'n gywir, cyn belled ag y mae ffermio yng Nghymru yn y cwestiwn."*

Yn ôl yr adborth gan gyfranogwyr ar y carboniadur a ddisgrifiwyd yn y deunydd briffio, (Carboniaduron), roedd yn rhy hir ac yn anodd ei gwblhau.

Teimlai un cyfranogwr fod carboniaduron yn aml yn canolbwyntio ar goed ac nid ar ardaloedd dal a storio carbon posib eraill fel cynefinoedd. Lleisiwyd pryderon tebyg mewn gweithdai eraill am ba mor effeithiol oedd carboniaduron. Teimlai rhai cyfranogwyr er y gall carboniaduron fod yn dda am dracio allbynnau'r fferm, nad ydynt cystal am dracio dal a storio carbon.

> *"Angen geirio ôl-troed carbon a charboniadur yn well, nid yw rhai carboniaduron yn gweithio gan gyfrifo allbynnau'n gywir ond mewnbynnau'n anghywir."*

Wrth ddewis carboniadur ar gyfer y Cynllun, teimlai'r cyfranogwyr y dylid cael un carboniadur a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar draws Cymru i sicrhau cysondeb. Fodd bynnag, dylid ei deilwrio i'r diwydiant yng Nghymru oherwydd ystyrir bod cynaliadwyedd Cymru'n bwynt gwerthu unigryw a dylai unrhyw garboniadur sicrhau nad yw'n tanseilio hyn o'i gymharu â rhai eraill.

Lleisiodd y cyfranogwyr bryderon am y baich gweinyddol o wneud asesiad carbon a'i fod yn cymryd amser. Mewn dau o weithdai prosesau'r Cynllun, teimlai rhai o'r cyfranogwyr y gallai'r holl amser i wneud gwaith papur a bod angen darparu'r holl wybodaeth cyn hyd yn oed ymuno â'r Cynllun droi pobl yn erbyn ymuno â'r SFS.

Teimlai'r ddau weithdy fod angen mwy o amser ar ffermwyr i ddod i arfer â'r hyn y byddent yn ei wneud ac y gallai gormod o waith yn syth fod yn ormod a dryslyd. Trafodwyd bod angen i'r Cynllun roi cyfle i ffermwyr ddod i arfer â'r rhaglen ac y gellid cyflwyno gwahanol rannau'n raddol drwy gydol y contract. Teimlai rhai cyfranogwyr dan bwysau gan y Cynllun ac yn poeni'n arw am orfod gwneud yr holl waith cyn derbyn unrhyw arian / taliadau. Argymhellodd y cyfranogwyr gyflwyno'r Cynllun yn fwy graddol ar draws y flwyddyn 1af a'r 2il a'r 3edd flwyddyn.

Dywedodd eraill y gellid defnyddio setiau data o gynlluniau eraill gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r math hwn o wybodaeth cyn gwario mwy o amser ac arian yn casglu mwy o ddata. Syniad arall oedd y gallai'r carboniadur a ddatblygir gyfrifo a darparu data sylfaenol ar wahanol fathau o ffermydd ar draws Cymru, gan adeiladu ar hynny drwy ychwanegu'r camau gwaith a weithredir (e.e. plannu coed a newid defnydd tir).

### 9.2.2 Asesiad cynefin sylfaenol

Pan ofynnwyd "A gawsoch arolwg cynefin proffesiynol wedi'i wneud ar eich fferm erioed? (er enghraifft fel rhan o arolygon Glastir Uwch, Tir Gofal, NRW neu wrychoedd)", atebodd 33% o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi cael, 60% nad oeddent ac ni wyddai 8%. Roedd y rhai a fu'n rhan o AES yn fwy tebygol o ddweud bod asesiad cynefin wedi cael ei wneud (45%) na rhai oedd heb fod yn rhan o gynllun (9%).

Teimlai llawer o'r ffermwyr yn y gweithdai prosesau'r Cynllun fod asesiad cynefin sylfaenol yn ddefnyddiol i adnabod potensial eu tir. Mewn gweithdai eraill, gan gynnwys y rhai camau gwaith coed, trafodwyd y gallai asesiad cynefin fod yn ddefnyddiol i helpu i adnabod ardaloedd o dir i blannu coed.

Er bod rhai'n cydnabod gwerth y gwaith hwn, lleisiwyd y pryderon canlynol:

- **Costau i'w talu ymlaen llaw:** Yng ngweithdai prosesau'r Cynllun, gofynnwyd a fyddai'n rhaid i ffermwyr dalu ymlaen llaw i rywun proffesiynol gwblhau'r asesiad cynefin cyn arwyddo'r contract, gan boeni y byddai hyn yn ddrud. Roedd pryder cyffredinol hefyd y byddai'n ddrud talu am asesiadau cynefin ar gyfer pob fferm a fyddai eisiau ymuno â'r Cynllun, ac effeithiau posib y gwariant hwn ar y gyllideb a fyddai ar gael i dalu i ffermwyr am wahanol gamau gwaith.
- **Methu ag ymddiried:** Mae ffermwyr yn aml yn methu ag ymddiried yn yr 'arbenigwyr' a ddaw i'r fferm i wneud asesiadau, gydag amheuon am ba gyrff ac arbenigwyr y bwriedir eu defnyddio. Roedd llawer o gyfranogwyr y gweithdai'n poeni y byddai'r rhai a fyddai'n gwneud yr asesiadau'n ymyrryd â rhedeg y busnes ac roedd rhai wedi cael profiadau drwg gydag arolygwyr anwybodus neu a oedd yn rhy lym eu gofynion. Awgrymodd y cyfranogwyr y gallai'r ymarfer cynefin sylfaenol fod yn dasg gydweithredol gyda'r arbenigwr a'r ffermwr yn dod i gytundeb.
- **Adnoddau a chapasiti:** Yn debyg i rannau eraill o'r Cynllun, lleisiwyd pryder am yr adnoddau a'r capasiti yn y diwydiant i wneud asesiadau cynefin ac y gallai greu tagfeydd gwaith a llifo'r system pe bai pawb yn ceisio cwblhau'r cam gwaith hwn ar yr un pryd. I oresgyn hyn, awgrymodd rai y dylid dechrau'r adolygiadau'n gynt na 2025 ac y gallai eraill wneud pethau'n raddol fel bod y capasiti i'w cwblhau. Soniodd cyfranogwr arall am y syniad o gael ap i gasglu peth o'r data eu hunain.
- **Mapio a delweddu o bell:** Trafododd weithdai prosesau'r Cynllun ddefnyddio delweddu o bell i helpu i fapio'r hyn oedd yn bresennol ar y fferm. Fodd bynnag,

roedd rhai wedi cael profiad anffodus o fapio yn y gorffennol gan deimlo iddo farnu'n annheg nad oeddent yn gymwys am gynllun.  Roedd rhai eisiau sicrhau bod rhywun yn dod i'r fferm fel y gallent fod yn fwy hyderus na fyddai hyn yn digwydd.


- **Pryderon am ddynodiadau cynefin parhaol:** Mewn un gweithdy ar brosesau'r Cynllun, gofynnwyd a fyddai'r dynodiadau cynefin yn para dros gyfnod y Cynllun yn unig, neu a fyddent yn barhaol, gan efallai eu hatal rhag gwneud rhai mathau o waith ar y fferm o ganlyniad. Lleisiwyd y pryderon hyn mewn gweithdai eraill wrth drafod y camau UA cynefinoedd a choed.

### 9.2.3 Eglurder ar yr adolygiad cynaliadwyedd

Roedd cyfranogwyr y gweithdai eisiau mwy o eglurder ar bwrpas yr adolygiad cynaliadwyedd. Er i hyn gael ei egluro yn y gweithdai a thrwy ddeunydd briffio, roedd rhai cyfranogwyr yn dal i fod yn ansicr o'i bwrpas.

Dywedodd 53% o'r ymatebwyr i'r arolwg nad oedd manteision yr adolygiad cynaliadwyedd yn glir iddynt, o'i gymharu â 47% a deimlai fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r manteision. Teimlai 47% y byddai'r adolygiad cynaliadwyedd yn fanteisiol i bob fferm wrth ddarparu canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) (Ffigwr 9.1)

Ffigwr 9.1  Ymatebion i'r arolwg a oedd yn cytuno â datganiadau'r adolygiad cynaliadwyedd (n=1336)




## 9.3 Monitro a thystiolaeth

Yn y tri gweithdy ar brosesau'r Cynllun, roedd y cyfranogwyr yn derbyn bod angen rhywfaint o fonitro a thystiolaeth o gamau gwaith, i sicrhau bod yr arian ar gyfer y camau gwaith yn mynd i'r bobl sy'n gwneud y gwaith. Roeddent hefyd yn deall bod monitro'n bwysig i ddangos lle'r oedd gwelliannau wedi eu gwneud.

### 9.3.1 Hunan-asesiadau

Teimlai rhai cyfranogwyr fod hunan-asesiadau gan y ffermwr i fonitro a dangos tystiolaeth o gamau gwaith yn ddefnyddiol mewn rhai amgylchiadau. Trafodwyd defnyddio lluniau wedi eu geo-dagio fel un offeryn asesu. Dywedodd gyfranogwr arall ei bod yn bwysig sicrhau y cawsant gadarnhad eu bod yn gymwys i wneud y gwaith ar eu fferm drwy ddilysu'r llun 'cynt' fel na fyddent yn gwneud y gwaith a darganfod nes ymlaen nad oeddent yn gymwys ar gyfer y cam gwaith hwnnw. Teimlai rhai cyfranogwyr mewn un gweithdy y dylid digolledu'r ffermwr drwy'r Cynllun am yr amser a gymerai i hunan-asesu a darparu'r math yma o wybodaeth.

Yng ngweithdai prosesau'r Cynllun, lleisiwyd rhai pryderon y gallai ffermwyr gyda band-eang gwael neu ffermwyr hŷn gael trafferth gyda'r dechnoleg i gwblhau hunan-asesiadau. Awgrymwyd ateb gan un cyfranogwr y gallai'r gymuned a swyddogion cyswllt fferm weithio gyda'i gilydd i helpu ffermwyr hŷn i ddefnyddio'r dechnoleg.

Trafodwyd mapio lloeren fel offeryn monitro arall posib er i gyfranogwyr gael llwyddiant cymysg gyda hyn yn y gorffennol, er enghraifft cysgodion o gymylau'n blocio caeau.

### 9.3.2 Asesiadau ar y safle

Mewn un gweithdy prosesau'r Cynllun, roedd y grŵp yn deall y byddai angen i bobl ddod ar y fferm i fonitro a gweld tystiolaeth. Er hynny, teimlai'r cyfranogwyr fod angen gwahanu swyddogion cynghori ac aseswyr er mwyn cadw'r berthynas â swyddogion cynghori'n gyfrinachol a di-duedd a gallu gofyn yn agored am gyngor. Lleisiwyd pryderon am gapasiti swyddogion cynghori ac aseswyr ac y gallai hyn effeithio ar bryd y byddai ffermwyr yn derbyn eu taliadau.

## 9.4 Data

Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu, fel rhan o'r SFS, y bydd yn defnyddio data wedi'i gasglu o dan yr adolygiad cynaliadwyedd fel data cyfunol ar berfformiad cynaliadwyedd y diwydiant gan ddarparu tystiolaeth i gefnogi ymgyrchoedd hyrwyddo'n tynnu sylw at gynaliadwyedd y sector ffermio yng Nghymru, yn ogystal ag i roi data sylfaenol er mwyn gallu monitro cynnydd gyda chanlyniadau SLM. Gall y ffermwr hefyd ddefnyddio'r data i ddangos perfformiad cynaliadwy eu fferm i ddefnyddwyr a manwerthwyr. Bydd hefyd yn ail-ddefnyddio data sy'n cael ei gasglu'n barod gan ffermwyr, i leihau'r baich gweinyddol, ac yn rhannu data y bydd yn ei gasglu â'r ffermwr a'r diwydiant ehangach (ar ôl ei ddi-enwi) lle bo'n ychwanegu gwerth.

Roedd defnyddio a rhannu data gan Lywodraeth Cymru'n destun sgwrs mewn rhai o'r gweithdai. Lleisiodd y cyfranogwyr bryderon am rannu data'n deillio o fethu ag ymddiried yn Llywodraeth Cymru. Roedd cyfranogwyr yn cwestiynu ac yn methu â deall pam fod Llywodraeth Cymru eisiau i ffermwyr fewnbynnu data fel rhan o'r Cynllun.

Roedd hyn yn arbennig gyda'r cam gwaith KPI. Mewn un gweithdy, teimlai llawer o'r cyfranogwyr eu bod yn cofnodi data KPI yn barod eu hunain ac nid oeddent eisiau i Lywodraeth Cymru fod yn rhan o'r broses oherwydd pryderon am fethu ag ymddiried, rhannu a defnyddio'r data. Roeddent yn poeni y gallai'r data wedi'i gasglu drwy'r cam gwaith KPI gael ei ddefnyddio yn eu herbyn yn y dyfodol.

> *"Pam fod angen yr holl wybodaeth – pam ei fod yn bwysig? Cyn belled â'n bod ni'n gwneud elw? Yn ceisio ein gwneud yn fwy effeithlon i wneud mwy o elw'n barod, felly pam fod angen yr holl ddata?"*

> *"Gan bwy fydd y data hwn i gyd a phwy fydd yn ei gasglu? Beth fyddan nhw'n ei wneud â fo? Dw i'n poeni y bydd yn cael ei ddefnyddio fel ffon ac nid i'n helpu. Casglu er mwyn casglu, neu a fydd defnydd cynhyrchiol iddo?"*

> *"Mae angen gallu ymddiried, ddim yn siŵr ydy pobl yn ymddiried ynoch [Llywodraeth Cymru]. Dw i'n monitro dangosyddion KPI yn fy mhen. Os dechreuaf rannu hynny, beth fydd yn digwydd? Mae angen dangos y gallwn ymddiried ynoch, dechrau pethau'n araf a'i gyflwyno i wneud gwelliannau – nid drwy sancsiynau."*

Roedd gan ymatebwyr i'r arolwg bryderon tebyg ar draws y gwahanol gamau gwaith:

> *"Eto, ar y sail y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio ond er gwybodaeth ac nid i gosbi pobl am ddiffyg perfformiad."*

Teimlai cyfranogwyr y gweithdai hyn eu bod yn rhannu digon o ddata'n barod, a heb reswm da na fyddent yn teimlo'n gyffyrddus yn rhannu'r data hwn, yn enwedig unrhyw ddata economaidd.

> *"Angen datganiad mawr mewn llythrennau bras yn dweud na fydd y data'n cael ei ddefnyddio i'ch cosbi na'ch cymharu â rhywun arall."*

Yn y gweithdai ychwanegol lle y trafodwyd dangosyddion KPI yn fwy manwl, lleisiwyd pryderon am ddefnyddio data. Teimlai rhai cyfranogwyr y gallai risg bod data wedi'i gyflwyno drwy'r SFS yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar yr archfarchnadoedd a bod yn andwyol i fusnesau fferm. Teimlai'r cyfranogwyr hyn, er mwyn diogelu eu data, y dylai fod yn annibynnol o Lywodraeth Cymru.

Roedd ganddynt gwestiynau eraill am ddefnyddio'r data, o ran cyflwyno data PPP ac IPM, yn ogystal â data profion pridd. Er bod rhai'n deall a hoffi'r syniad o rannu'r data i hyrwyddo bod ffermydd Cymru'n gynaliadwy, roedd eraill yn dal i boeni am gasglu data a'u bod yn methu ag ymddiried yn Llywodraeth Cymru.

### 9.4.1 Ymarfer rhannu data

Er mwyn trafod mwy ar y pwnc o rannu data, fel yr ymarfer olaf yng ngweithdai prosesau'r Cynllun, holwyd barn y cyfranogwyr am wahanol senarios ar gyfer rhannu data fel rhan o'r Cynllun. Dim ond enghreifftiau oedd y senarios hyn i weld pa mor barod a fyddai ffermwyr i rannu data neu beidio, gyda rhai senarios yn mynd y tu hwnt i unrhyw ofynion neu gynigion o dan yr SFS. Ar gyfer pob un o'r gwahanol senarios, gofynnwyd i'r cyfranogwyr bleidleisio a thrafod a fyddent yn fodlon rhannu eu data.

A) Mae data wedi'i fewnbynnu ar gael i chi ei ddefnyddio. Gallwch ei ddadansoddi eich hun neu ddewis ei rannu. Er enghraifft, gallech rannu data'r Cynllun â chynlluniau gwarant fferm, neu ddewis gwneud fel arall a rhannu data wedi'i fewnbynnu fel rhan o gynllun gwarant fferm â Llywodraeth Cymru.

B) Mae data a gasglwyd o'r Asesiad Carbon yn cael ei gyfuno, di-enwi a'i rannu â'r cyhoedd gan Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at sut y mae ffermydd Cymru'n cynhyrchu bwyd cynaliadwy a chyfrannu at leihau ôl-troed carbon.

C) Mae data perfformiad wedi'i ddi-enwi a gasglwyd o dan y Cynllun yn cael ei rannu â chyrff fel Cyswllt Ffermio i helpu i wella meincnodi ac i roi cymorth i'r diwydiant.

D) Rydych yn dewis rhannu data o'ch asesiad cynefin sylfaenol â phrifysgol er mwyn gwneud ymchwil i weld beth sy'n gwella bioamrywiaeth ar ffermydd.

E) Rydych wedi bod yn defnyddio adnoddau a thechnoleg newydd i leihau eich ôl-troed carbon ar y fferm. Rydych yn dewis rhannu data monitro'r Cynllun â chwmni technoleg i'w ddefnyddio i wella sut y mae eu meddalwedd / peiriannau'n gweithio.

Yn y ddau weithdy cyntaf, ni phleidleisiodd y cyfranogwyr dros eu senarios, dim ond rhoi adborth. Mewn un gweithdy, roedd y cyfranogwyr yn gweld mantais y senarios rhannu data gan ddweud y byddent yn ystyried rhannu eu data ym mhob un o'r senarios ond y dylai'r gofyniad hwn fod yn ddewisol fel mai nhw oedd yn penderfynu hynny. Mewn gweithdy arall, teimlai'r cyfranogwyr fod angen eglurder ar bwy sydd piau'r data. Roedd pryderon am rannu data â thrydydd partïon ac nad oeddent eisiau i'r data gael ei werthu. O ran senario A, dywedodd un cyfranogwr os yw rhai dulliau'n lleihau'r baich gweinyddol y byddai hynny'n beth da.

Yn y trydydd gweithdy ar brosesau'r Cynllun, roeddent yn pleidleisio dros senarios y byddent yn ystyried defnyddio data ynddynt. Roedd 11 o gyfranogwyr yn bresennol yn y gweithdy, a bleidleisiodd fel a ganlyn:

- Senario A: 5 pleidlais
- Senario B: 11 pleidlais
- Senario C: 6 pleidlais
- Senario D: 4 pleidlais
- Senario E: 0 pleidlais

Ystyriwyd mai Senario B, rhannu data i hyrwyddo cynaliadwyedd ffermydd Cymru, oedd y senario rhannu data mwyaf derbyniol i'r cyfranogwyr. Roedd rhai cyfranogwyr yn y gweithdai eraill hefyd yn cytuno y byddai hyn yn ddefnydd da o ddata. Mae hyn yn awgrymu y gellid rhannu data fel hyn fel rhan o'r SFS ond bod angen gwybodaeth ac arweiniad clir i roi eglurder i ffermwyr ar sut y byddai'r data'n cael ei ddefnyddio a'i rannu. Mae'n debyg y byddai rhai ffermwyr yn dal i fod yn gyndyn o rannu'r data hwn oherwydd diffyg ymddiriedaeth yn y llywodraeth.

O ran senario C, lleisiwyd pryderon am rannu gwybodaeth fasnachol sensitif, yn enwedig y gallai archfarchnadoedd dderbyn y wybodaeth yma a'i defnyddio yn erbyn y sector ffermio.

O ran senario D a rhannu data â phrifysgolion, byddai angen mwy o wybodaeth a pherthynas unigol rhwng y ffermwr a'r brifysgol er mwyn creu ymddiriedaeth a chael eglurder ar sut y byddai'r data'n cael ei ddefnyddio.

Dywedodd y cyfranogwyr fod eu data'n werthfawr, yn enwedig i gwmnïau technoleg; felly pe byddent yn rhannu'r data o dan y senario hwn, y dylent gael eu digolledu'n deg amdano.

# 10 Casgliadau

Roedd ffermwyr yn gefnogol o'r egwyddor gyffredinol a'r cysyniad ar gyfer nifer o gamau gwaith y Cynllun. Teimlai'r cyfranogwyr fod cynnwys camau gwaith ar gyfer gwella iechyd y pridd, rheoli gwrychoedd, opsiynau ynni adnewyddadwy, iechyd a lles anifeiliaid, ac iechyd a diogelwch ffermwyr, i gyd yn bwysig.

> *"y cryfder yw ei fod yn edrych ar iechyd hirdymor y pridd drwy samplo'n lle dim ond ar gynhyrchu mwy yn y tymor byr drwy ddefnyddio gwrtaith synthetig."*

> *"dw i'n meddwl bod ynni adnewyddadwy'n gryfder da....yn enwedig oherwydd bod pobl yn adnewyddu eu contractau trydan a phethau felna. Felly byddem yn awyddus iawn i fuddsoddi efallai mewn solar a gwynt yn y dyfodol. Ac wrth gwrs, o ran iechyd anifeiliaid, mae'n debyg mai'r pwynt pwysicaf ar hynny yw ei fod yn cael ei fonitro i ddangos gwelliannau dros amser."*

> *"Mae iechyd a diogelwch yn eithriadol bwysig i'r diwydiant hwn. Mae gan y sector enw drwg ofnadwy am farwolaethau, 30 o ddamweiniau'r flwyddyn a mwy....felly mae'n hynod bwysig i ni wneud hyn."*

At ei gilydd, ar draws y camau gwaith Dewisol (OA) a Chydweithredol (CA), roedd yr adborth yn bositif a'r cyfranogwyr yn awyddus i fod yn gallu dewis camau gwaith a allai weithio'n dda a bod o fudd i'w fferm. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd o blaid y syniad o gael haen sylfaenol o gamau gwaith i helpu i godi'r holl ffermydd drwy Gymru a oedd yn y Cynllun i safon debyg, er bod llawer o'r cyfranogwyr eisiau gweld rhai o'r camau gwaith Sylfaenol (UA) yn cael eu symleiddio gan leisio pryderon am ddull 'un esgid i ffitio pawb' gyda'r camau gwaith hyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cydnabod ei bod yn bwysig bod y Cynllun wedi'i ategu gan egwyddorion cynaliadwyedd, er bod peth gwahaniaeth barn am sut orau i wneud hyn. Yn y gweithdai i gyd, dywedodd nifer o'r cyfranogwyr eu bod yn cwblhau rhai o'r camau gwaith yn barod. Roedd y rhai nad oeddent yn cwblhau'r camau gwaith wedi trafod sut y gallent weithio iddynt gan geisio datrys rhwystrau ymarferol posib i weithredu'r camau gwaith hyn ar eu ffermydd. Nodir y canfyddiadau hyn drwy gydol yr adroddiad hwn gan roi arweiniad defnyddiol i Lywodraeth Cymru ar sut i wneud y camau gwaith yn fwy ymarferol i ffermwyr.

Er i'r cyfranogwyr nodi bod gan y Cynllun gryfderau drwy gydol y broses cyd-ddylunio, roedd meysydd cyffredin y lleisiwyd pryderon amdanynt. Mae'r rhannau canlynol yn dadansoddi'r pryderon cyffredin a godwyd gan gyfranogwyr ac yn feysydd allweddol i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth ddatblygu'r SFS.

## 10.1 Diffyg eglurder ar beth yw amcanion y cynllun

Yn y ddau weithdy ac yn yr arolwg, dywedodd ffermwyr fod diffyg eglurder ar beth oedd y cynigion bras yn gofyn i ffermwyr ei wneud fel rhan o'r Cynllun a pha amcanion oedd Llywodraeth Cymru'n ceisio eu cyflawni. Roedd ganddynt bryderon penodol am:

**Diffyg manylder yn y cynigion bras**

Roedd ffermwyr yn poeni am y diffyg manylion yn y cynigion bras, yn enwedig o ran cyfraddau tâl a'r gofynion ar gyfer cwblhau'r camau gwaith. Daeth hyn trwodd yn y sylwadau i'r arolwg a'r trafodaethau yn y gweithdai lle'r oedd cyfranogwyr naill ai wedi nodi diffyg manylion neu'n gofyn llawer iawn o gwestiynau am y cam gwaith.

Yn yr arolwg, roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n ymwneud â dangosyddion KPI ac ansicrwydd am fanylion y cam gwaith hwn, gyda 17 sylw gan rai a oedd yn barod ac amharod i gwblhau'r cam gwaith. Profion pridd proffesiynol oedd â'r rhan fwyaf o sylwadau'n codi ansicrwydd am gyfraddau tâl, gyda 39 sylw gan rai a oedd yn barod ac amharod i gwblhau'r cam gwaith.

Pwysleisiodd gyfranogwyr y gweithdai i gyd ba mor anodd oedd gwneud sylw ar gamau gwaith y Cynllun heb wybod y cyfraddau tâl, ac i'r rhan fwyaf o ffermwyr mai'r taliadau a fyddai'n penderfynu a fyddent yn ymuno â'r Cynllun neu beidio. Roedd yr ymatebion i'r arolwg o'r un farn, gyda chyfraddau tâl fel prif ffactor cymell pob un o'r 14 cam gwaith UA. Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai:

> *"Dw i eisiau gwneud pwynt cyffredinol – rydym i gyd eisiau gwneud ein gorau ond nes y gwyddom ba arian fydd ar gael a pha gymorth.....dim ond wedyn y gallwn gynllunio beth i'w wneud. Bydd beth a wnaf i'n dibynnu ar yr arian."*

> *"Yn y pen draw, bydd llawer o'r penderfyniadau'n cael eu gwneud o safbwynt busnes. Mae'n iawn edrych ar beth y gallwn ei gyfrannu i'r Cynllun, ond nes y gwyddom beth fydd y taliadau, bydd yn anodd iawn gwneud penderfyniad."*

Lleisiodd gyfranogwyr y gweithdai hefyd eu siop gyda'r diffyg manylion yn y cynigion bras ac efallai'r diffyg arloesi:

> *"Pan ddaeth yr adroddiad llan [cynigion bras yr SFS], darllenais trwyddo droeon a meddwl fy mod yn colli rhywbeth – welais i ddim byd newydd ynddo. Digonedd o eiriau, dogfen fawr, ond yn dweud dim byd."*

Roedd pryder cyfranogwyr am y diffyg manylion yn aml wedi'i gysylltu i'r amserlen ar gyfer symud i ffwrdd o daliadau CAP a BPS i'r system newydd. Roedd ffermwyr yn poeni bod y cynigion bras yn dangos nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud, a gyda dyddiadau pwysig yn nesáu, teimlai ffermwyr y dylai fod mwy o wybodaeth ar gael am gyfleoedd yn y dyfodol.

> *"Mae amser yn mynd yn brin. Byddwn yn gobeithio gweld mwy o fanylion am y pethau hyn, neu fel arall ni fydd cyfle i ddod yn ôl atynt cyn lansio'r Cynllun."*

### Dryswch ynghylch sut y disgrifiwyd y Cynllun, gyda rhai amcanion fel pe baent yn gwrthdaro â'i gilydd

Teimlai nifer o gyfranogwyr y gweithdai a'r ymatebwyr i'r arolwg yn aneglur am beth yr oedd Llywodraeth Cymru'n ceisio ei gyflawni drwy'r SFS a bod llawer o'r camau gwaith fel pe baent yn gwrthdaro â'i gilydd. Yn ôl un o gyfranogwyr y gweithdai:

> [Cyfranogwr ar ei argraff o wrthdaro rhwng yr UA ar fioddiogelwch a'r OA ar fynediad i'r cyhoedd] *"Gyda'r cynllun gwarant fferm, mae gennym brotocol [bioddiogelwch] a rhaid i bawb sy'n ymweld yn swyddogol â'r fferm ddefnyddio'r tanc diheintio. Beth yw'r gwahaniaeth i rai sy'n cerdded drwy'r caeau – pam ddylai'r protocol fod yn wahanol i'r bobl hyn os yw ymwelwyr yn gorfod dilyn y mesurau bioddiogelwch? Mae gwrthdaro rhwng y cynllun gwarant fferm, bioddiogelwch a'r camau gwaith hyn."*

Dangosyddion KPI oedd fel pe baent yn gwrthdaro fwyaf â chamau gwaith eraill. Er enghraifft eu bod yn gwrthdaro â'r camau gwaith gorchudd coed a chynefinoedd, a ystyriwyd i fod yn tynnu tir allan o gynhyrchu. Teimlai rai y gallai cwblhau camau gwaith a ystyriwyd i fod yn fwy amgylcheddol eu natur gael effaith negyddol ar eu dangosyddion KPI. Yn ôl un o gyfranogwyr y gweithdai:

> *“Bydd tynnu 20% o’r tir allan yn effeithio ar ddangosyddion KPI. Os yw’r peiriannau gan rywun yn barod ar gyfer hyn a hyn o aceri a rhaid tynnu 20% o dir allan ar gyfer camau gwaith eraill, bydd yn rhoi’r busnes dan bwysau – gormod o gyfalaf mewn cyfarpar.”*

Gwnaed sylwadau hefyd am y gwrthdaro rhwng y cam gwaith KPI yn ymwneud â chynhyrchu’r fferm, a’r camau gwaith o dan arallgyfeirio, gwahaniaethu, arbenigo i ychwanegu gwerth, a bridiau brodorol. Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai y byddai’r dangosyddion KPI yn dangos y canlyniadau mwyaf ffafriol ar gyfer ffermydd mwy dwys yn cynhyrchu da byw a chnydau allbwn uchel ac na fyddai’r metrigau ar gyfer ffermydd yn defnyddio bridiau brodorol neu arbenigol felly’n ffafriol. Roedd pryderon hefyd y byddai angen i ddata fod ar gael i feincnodi yn erbyn amrywiaeth o wahanol fathau o fferm yn cynhyrchu gwahanol gynhyrchion os oedd y meincnodi i fod o unrhyw werth i’r ffermwr.

Roedd cyfranogwyr un gweithdy wedi trafod y gwrthdaro a’r trafferthion gyda chwblhau’r camau gwaith bioamrywiaeth a hefyd y camau gwaith OA ar wella mynediad i’r cyhoedd. Roedd y cyfranogwyr yn deall pam fod y ddau gam gwaith yn y Cynllun, a’u manteision, ond y gallent gynyddu’r peryglon bioddiogelwch ar y fferm drwy roi mwy o fynediad i’r cyhoedd. Gallai’r risg uwch hwn felly atal rhai ffermydd rhag dewis y camau gwaith OA.

Roedd cyfranogwyr y gweithdai a’r ymatebwyr i’r arolwg hefyd yn awyddus iawn i’r SFS barhau ymlaen o gynlluniau AES blaenorol mor ddi-dor â phosib. Un enghraifft lle’r oedd diffyg eglurder o ran parhad o gynllun Glastir oedd gyda defnyddio cnydau gorchudd bywyd gwyllt a sofl dros y gaeaf ac a fyddai cymorth ariannol i’r rhain fel rhan o’r UA cnydau gorchudd aml-rywogaeth. Roedd cyfranogwyr yn awyddus i hyn barhau oherwydd gallent weld y manteision i’w fferm ac i adar.

Awgrymwyd fod angen geirio’r camau gwaith UA yn ofalus er mwyn hyrwyddo’r opsiynau rheoli cywir. Rhoddodd un cyfranogwr enghraifft o sut y gallai’r geiriad presennol gael ei ddehongli fel bod y Cynllun yn cefnogi defnyddio gwrtaith artiffisial:

> *“Dylai gwrtaith artiffisial fod yn ddewisol, dylai defnyddio pethau ‘da’ fod yn gam gwaith sylfaenol. Mae’n ddryslyd cael gwrteithiau artiffisial mewn dangosydd sylfaenol ac yn awgrymu y dylai pawb fod yn gwneud hyn.”*

Dywedodd nifer fach o gyfranogwyr y gweithdai fod dryswch hefyd gyda’r ffordd y mae’r Cynllun wedi ei osod allan a chamau gwaith wedi eu grwpio o dan nodweddion. Yn ôl un o gyfranogwyr y gweithdai:

> *“Mae’r rhan yma’n ymwneud ag ecosystem y fferm, ond mae tua’i hanner yn sôn am ddŵr sydd wedi’i gysylltu i bethau eraill (fel rheoli slyri). Pam fod bridiau prin yn adran yr ecosystem? Os dylai fod yn rhywle, dylai fod gyda’r pethau milfeddygol. Pethau bach ond symptom bod y Cynllun i gyd yn ddarniog ac yn orlawn. Mae’n gwneud y Cynllun yn gymhleth. Byddem eisiau Cynllun symlach.”*

## 10.2 Gwobrwyo gwaith a wneir eisoes a chydnabod perfformiad

Drwy gydol y gweithdai, roedd y cyfranogwyr yn glir iawn y byddent yn gwerthfawrogi system o gydnabod perfformiad a thaliadau i rai sydd eisoes yn cwblhau camau gwaith. Roedd pryder gan rai na fyddai taliadau a chydnabyddiaeth i rai a oedd yn cwblhau’r camau gwaith yn barod neu’n cynnal a chadw nodweddion yn barhaus. Yn enwedig gyda’r cam gwaith creu pyllau dŵr, y camau gwaith mawndir (UA) a’r OA “mae gan dda byw les bywyd da”. Teimlent fod llawer o

ffermwyr yn cwblhau'r camau gwaith hyn yn barod i safon uchel ac y dylent gael eu gwobrwyo am eu gwaith caled a'u cyfraniad positif. Awgrymwyd mewn un gweithdy hefyd y dylid mesur ansawdd y pyllau dŵr a fyddai'n cael eu creu gyda'r rhai sy'n creu a chynnal y pyllau dŵr mwyaf ecolegol manteisiol yn derbyn mwy o dâl.

Os oedd cyfranogwyr mewn cynlluniau eraill, roeddent o blaid sicrhau nad oedd ymdrechion yn cael eu dyblygu. Roedd ffermwyr yn awyddus i weld cydnabod perfformiad i leihau baich gweinyddol posib. Baich gweinyddol oedd un o'r tri phrif rwystr gan ymatebwyr i'r arolwg ar gyfer hanner y camau gwaith UA. Felly, byddai gallu cynnig llai o faich gweinyddol i rai a oedd yn gwneud ymdrech weinyddol yn barod gyda'r camau gwaith hyn yn lleihau'r pwysau ar rai ffermwyr.

> *[Cyfranogwr yn trafod yr UA isafswm dysgu, gan gynnwys iechyd a diogelwch] "Mae llawer iawn o hyn yn digwydd drwy Tractor Coch. Cawsom gwrs iechyd a diogelwch wythnos diwethaf. Mae hwn yn dyblygu'r gwaith."*
>
> *[Roedd cyfranogwr arall yn cytuno gan ychwanegu] "Yn ein harchwiliad Tractor Coch, y prif ddatblygiad ers 18 mis yn ôl yw hyfforddiant iechyd a diogelwch. Bydd angen i ni wneud popeth a restrir yma fel rhan o'r SFS ar gyfer Tractor Coch beth bynnag."*

Roedd yr enghreifftiau o gydnabod perfformiad a gynigiwyd yn y gweithdai'n cynnwys:

- Tystiolaeth bioddiogelwch a wnaed yn barod drwy gynllun gwarant fferm ac Achrediad Cymdeithas Ceffylau Prydain.
- Adroddiadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion a wnaed yn barod drwy systemau HSE
- Mae profion gwrth-fiotig o dan y cam gwaith AHIC yn digwydd yn barod o dan gynlluniau gwarant fferm
- Mae dysgu iechyd a diogelwch a phynciau ffermio eraill yn digwydd yn barod o dan Tractor Coch

Roedd sylw a wnaed yn aml yn yr arolwg, gan rai a ddywedodd nad oeddent yn barod i gwblhau'r camau gwaith UA, yn disgrifio eu bod yn cwblhau'r cam gwaith yn llwyr neu'n rhannol yn barod. Gwnaed y sylw hwn ar holl gamau gwaith y Cynllun heblaw'r cam gwaith UA safleoedd gwarchodedig. Dyma rai enghreifftiau:

- 12 sylw ar fioddiogelwch
- 17 sylw ar brofion pridd proffesiynol
- 17 sylw ar AHIC
- 9 sylw ar gnydau gorchudd aml-rywogaeth
- 17 sylw ar ddysgu iechyd a diogelwch

Mae hyn yn awgrymu na fydd gan rai ffermwyr, sy'n cwblhau rhai camau gwaith yn llwyr neu'n rhannol yn barod er budd i'w fferm, efallai ddiddordeb yn eu cwblhau o dan yr SFS oherwydd na fyddent am fod o dan gyfyngiadau.

Fodd bynnag, roedd hefyd yn glir o'r ymatebion i'r gweithdai nad oedd y cynigion bras yn egluro'n glir y byddai taliadau ar gael i rai a oedd yn cwblhau camau gwaith yn barod, ac nid dim ond ar gyfer gweithredu nodweddion neu ddulliau newydd. Mae'r ymatebion o'r gweithdai ac o'r arolwg yn awgrymu bod angen cyfathrebu'n well i egluro nad oes raid i ffermwyr sy'n cwblhau'r cam gwaith yn barod wneud gwaith ychwanegol i ymuno â'r Cynllun.

## 10.3 Pryder am ddull ‘un esgid i ffitio pawb’ a’r camau gwaith UA

Pwysleisiodd gyfranogwyr y gweithdai’n gryf fod cyd-destun pob fferm yn bwysig ac y byddai dull ‘un esgid i ffitio pawb’ yn rhwystr i ymuno â’r Cynllun, yn rhoi mwy o bwysau ar ffermwyr ac na fyddai’n hyrwyddo’r canlyniadau cynaliadwyedd gorau. Roedd pryderon yn y gweithdai ac yn y cyfweliadau am ddull ‘un esgid i ffitio pawb’, yn enwedig gyda’r camau gwaith UA:

> *“Mae ffermydd gwahanol yn addas ar gyfer gwahanol bethau ac yn gallu cyfrannu mewn ffyrdd gwahanol.”*

Roedd cyfranogwyr y gweithdai’n poeni’n benodol am natur gyffredinol rhai camau gwaith fel y dangosyddion KPI a’r dysgu. Teimlent fod angen i’r pethau hyn fod yn benodol i’r fferm i fod o werth i’r ffermwr. Awgrymwyd hefyd y gallai profion pridd gynnwys canllawiau ar gyd-destunau penodol fel y gallai ffermwyr ddefnyddio eu canlyniadau a deall yn well sut i wella eu priddoedd penodol.

Dywedodd cyfranogwyr mewn un gweithdy y byddai rhai camau gwaith yn llawer anoddach eu cwblhau ar rai mathau o fferm. Un enghraifft a roddwyd oedd gyda chreu pyllau dŵr a phyllau tymhorol, a fyddai’n llawer mwy costus ac anodd eu cynnal i ffermwyr arfordirol ac ar dir calchfaen neu laid oherwydd y byddai angen prynu llwythi sylweddol o glai.

Fel rhan o’r pryderon hyn am ddull ‘un esgid i ffitio pawb’, roedd ffermwyr hefyd yn poeni am y cysyniad o gamau gwaith ‘sylfaenol’. Teimlai rai o gyfranogwyr y gweithdai, drwy beidio â rhoi dewis i ffermwyr ar ba gamau gwaith i’w cwblhau, bod y Cynllun eisoes yn creu rhwystrau i ymuno ac yn enwedig na fyddai gan rai o’r ffermwyr mwy dwys, mwy o faint, gymhelliad i ymuno. Dyma rai dyfyniadau gan gyfranogwyr y gweithdai a’r cyfweliadau:

> *“Yn hollol yn erbyn y syniad o gamau gwaith UA.”*
>
> *“Ni fydd gan bobl gymhelliad i gwblhau rhai o’r camau gwaith hyn os nad ydynt yn gallu gwneud y rhai sylfaenol i gyd. Talu am y camau UA i gyd neu ddim. Ni fyddai cymhelliad gyda rhai mathau o waith rheoli.”*
>
> *“I mi, byddai’n well i’r Cynllun fod yn rhywbeth cymharol a thalu am faint o waith a wneir. Mae’r Cynllun yn anhyblyg. Os na allwn ymuno, ni fydd dim yn digwydd, felly ‘tŷ hanner ffordd’.”*

Roedd hyn yn adleisio awgrymiadau mewn rhai gweithdai y dylid symleiddio’r camau gwaith UA fel cymhelliad i ffermwyr a fyddai angen gwneud llawer iawn o waith wrth ymuno â’r Cynllun oherwydd nad ydynt yn cwblhau llawer o’r gwaith eisoes. Er enghraifft, mewn un gweithdy awgrymwyd symleiddio’r UA profion pridd er mwyn peidio â rhoi gormod o bwysau a chymell ffermwyr nad ydynt eto’n profi’r pridd i beidio ag ymuno.

Lle’r oedd camau gwaith UA yn dod gyda rhestr o eithriadau, fel y 10% gorchudd coed a oedd yn eithrio mawndir a safleoedd gwarchodedig, roedd cyfranogwyr y gweithdai’n falch o weld yr eglurder a’r ystyriaeth yma o wahanol gyd-destunau ffermio.

Yn olaf, awgrymodd rai o gyfranogwyr y gweithdai a’r ymatebwyr i’r arolwg y dylid gallu cyfnewid rhwng rhai o’r camau gwaith UA ac OA i sicrhau’r manteision amgylcheddol mwyaf. Awgrymwyd y gallai’r camau gwaith UA 10% gorchudd coed a 10% creu cynefin, yn ogystal â’r OA adfer a rheoli mawndir, fod yn gyfnewidiol, lle’r oedd hynny’n gwneud synnwyr yng nghyd-destun y fferm. Yn enwedig os oedd gan

ffermydd fawndir neu gynefin helaeth yn barod ac yn well ganddynt reoli neu ehangu'r rhain na throi'r ardaloedd hyn yn goetir (lle y byddai'n cael ei ganiatáu) neu dynnu mwy o dir allan o gynhyrchu (gan deimlo eu bod wedi tynnu digon allan yn barod i gwrdd â'u cyfrifoldeb amgylcheddol). Dadleuai'r cyfranogwyr, drwy ganolbwyntio ar un neu ddau yn hytrach na phob un o'r tri cham gwaith hyn, os oeddent yn rheoli'r nodwedd yn barod, y gallent sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell a'u rheoli'n well fyth.

## 10.4 Cymorth i'r diwydiant

Roedd gan gyfranogwyr y gweithdai a'r ymatebwyr i'r arolwg nifer o bryderon pwysig am ba gymorth y bydd yr SFS yn ei roi i'r diwydiant amaethyddol o ran cymorth ariannol a chefnogi cynhyrchu bwyd / marchnadoedd lleol.

**Cyfraddau tâl**

Roedd cyfranogwyr y gweithdai a'r ymatebwyr i'r arolwg eisiau sicrhau bod y Cynllun yn rhoi digon o gymorth ariannol i ffermwyr i gwblhau'r camau gwaith er mwyn parhau i fod yn fusnesau hyfyw.

> *"Ni allaf feddwl bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o arian i dalu digon i'w wneud yn werth chweil i unrhyw un gymryd rhan yn y Cynllun."*

> *"Os na all pobl wneud elw ar ddiwedd y dydd, bydd pobl yn gadael yr economi wledig ac ardaloedd gwledig. Mae'n bwysig bod gan bobl ifanc yr opsiwn o wneud digon o arian i aros yn yr economi wledig. Ni allwch gael yr holl ofynion hyn heb wneud elw. Os na fyddant yn gwneud elw, byddant yn gorfod gadael cefn gwlad."*

Oherwydd mai cyfraddau tâl oedd y prif ffactor cymell yn ôl ymatebwyr i'r arolwg, mae'n glir y bydd cyfathrebu ac ymrwymiadau tâl yn allweddol i wella hyder ffermwyr yn y Cynllun ac o ran ymddiried yn Llywodraeth Cymru i ddarparu Cynllun sy'n rhoi cymorth ariannol i ffermwyr. Teimlai llawer o ffermwyr y bydd ymgynghori yn y dyfodol, ar ôl cyhoeddi'r cyfraddau tâl, yn bwysig iawn.

- **Cyfyngu gwario ar ymgynghorwyr**

Roedd y cyfranogwyr yn awyddus, lle'r oedd hynny'n briodol, y gallai'r rhan fwyaf o'r camau gwaith gael eu cwblhau gan y ffermwr heb fod angen ymgynghorwyr, gan boeni y byddai llai o arian yn y potyn wrth orfod talu am ymgynghorwyr a dim digon i'r ffermwyr i gwblhau'r gwaith.

> *"Meddwl ei bod yn bwysig bod ffermwyr yn gallu cwblhau llawer o waith y Cynllun eu hunain i gadw eu teuluoedd gartref ac yng nghefn gwlad a rhoi cyflog iddynt. Yn y gorffennol, mae gormod o waith mewn cynlluniau i ffermwyr fod yn gallu ei wneud i gyd eu hunain, ac mae cael contractwr i mewn yn golygu bod y ffermwyr ar eu colled. Ni fyddai gan lawer o ffermwyr y llif arian i dalu pobl i wneud gwaith sylweddol o dan gynlluniau o fewn yr amser. Mae'n bwysig gwasgaru'r gwaith dros flynyddoedd."*

Dangosodd ganlyniadau'r arolwg hyn yn glir oherwydd gwnaed y rhan fwyaf o'r sylwadau ar y cam gwaith profion pridd proffesiynol yn ymwneud ag ansicrwydd am gyfraddau tâl, gyda llawer yn gwneud sylwadau byr fel pwy sy'n talu am y profion hyn, neu fod y costau'n fwy na'r manteision. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

> *"Cost ychwanegol heb fantais glir i fi na'r amgylchedd. Beth yw'r amcan yn y pen draw? Angen cymorth ariannol i wneud hyn."*

Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys sylwadau am ba mor ddefnyddiol oedd y cam gwaith AHIC o ran cynnydd posib mewn amser milfeddyg:

> *"Mae'r anifeiliaid yn cael gofal da, gan ffonio'r milfeddyg pan fo angen. Bydd hwn ond yn gwneud mwy o elw i'r milfeddygon, heb wella iechyd anifeiliaid."*

Roedd thema gyffredin y dylai'r SFS fod yn cefnogi mwy ar y ffermwyr ac felly mai nhw a ddylai fod y rhai i gael eu gwobrwyo'n ariannol.

- **Diogelwch bwyd a chynhyrchu bwyd**

Teimlai cyfranogwyr y gweithdai a'r arolwg nad oedd y Cynllun wedi cynnwys camau gwaith cynhyrchu bwyd a sicrhau diogelwch bwyd, yn enwedig yn y camau gwaith gorchudd coed a chynefinoedd a ystyriwyd i fod yn lleihau cynhyrchu ar ffermydd.

I lawer o ffermwyr, cynhyrchwyr bwyd ydynt yn bennaf gan deimlo felly nad yw'r llywodraeth yn eu cefnogi yn ystod cyfnodau anodd oherwydd bod y taliadau cymorth i gyd bellach yn dod drwy gynlluniau amaeth-amgylchedd. Ni theimlai gyfran sylweddol o gyfranogwyr y gweithdai a'r ymatebwyr i'r arolwg fod manteision y camau gweithredu o dan y nodwedd "Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol" yn ddigon i ddangos bod cynhyrchu bwyd yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Fel y dywedodd un o gyfranogwyr y gweithdai:

> *"Yn y 12 mis diwethaf dylai Llywodraeth Cymru fod wedi gweld tro ar fyd anferth o ran stociau bwyd y byd – mae bwyd yn mynd yn brinnach a ninnau'n trafod sut i gynhyrchu llai fyth o fwyd. Mae angen gweld yn bellach ar hyn – sychder o gwmpas y byd, y rhyfel yn Wcráin. Angen cynhyrchu amgylchedd cynaliadwy a system fwyd gynaliadwy i Lywodraeth Cymru. Ydy pobl eraill yn meddwl yr un fath? Y bydd cynhyrchu bwyd yn cael ei daflu allan."*

Roedd ffermwyr yn deall manteision llawer o gamau gwaith yr SFS ond yn aml yn negyddol am rai a fyddai'n tynnu tir allan o gynhyrchu, fel y camau gwaith UA gorchudd coed a chynefinoedd. Teimlai rai bod camau gwaith amgylcheddol yn cael blaenoriaeth gan boeni y byddai rhai busnesau ffermio'n cael eu gorfodi i ddilyn yr arian drwy'r SFS a'r wlad yn cynhyrchu llai o fwyd o ganlyniad.

## 10.5 Parodrwydd y diwydiant a chadwyni cyflenwi i gefnogi'r camau gwaith

Lleisiodd y cyfranogwyr bryderon am gapasiti staff cynghori, contractwyr, arolygwyr a rhannau o'r gadwyn gyflenwi (adnoddau ar gyfer cwblhau'r camau gwaith), i ymdopi â'r mewnlifiad o ffermwyr a fyddai'n cwblhau camau gwaith o dan y Cynllun. Roedd y pryderon hyn am gamau gwaith fel gorchudd coed neu brofion pridd lle y byddai'n rhaid cael cymorth gan ymgynghorwyr, labordai, contractwyr a meithrinfeydd planhigion.

Roedd ffermwyr yn poeni am gapasiti Cyswllt Ffermio a labordai i gwblhau'r cam gwaith profion pridd:

> *"Mae samplo pridd yn rhywbeth tymhorol, ceisiais gael Cyswllt Ffermio i'w wneud yn y gorffennol ond gormod o waith aros bob tro! Swnio'n dda ond ddim yn ymarferol bob tro."*
>
> *"Sut ar y ddaear fydd gennych y seilwaith labordai i wneud hyn."*

Roedd angen i Lywodraeth Cymru gyfathrebu'n gliriach â ffermwyr i egluro am ba hyd y byddai contractau'r SFS efallai'n para ac a fyddai angen i ffermwyr fod yn cwblhau'r camau gwaith cyn ymuno â'r Cynllun. Soniwyd am y math yma o eglurder gyda chyfraddau tâl hefyd, gyda phryderon y gallai rhai camau gwaith achosi costau ymlaen llaw i ffermwyr ac felly y byddai'n well ganddynt dderbyn taliad ymlaen llaw. Un enghraifft oedd hadau cymysg i hau cnydau gorchudd. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd grantiau cyfalaf i dalu am ffensio ar gyfer bioddiogelwch a rhai camau gwaith OA.

> *"Cymeraf y byddai'r gost o dalu am ffens ddwbl yn disgyn ar y ffermwr a oedd yn berchen ar y terfyn – byddai angen i gost sylweddol y gwaith hwn gael ei ystyried a'i dalu amdano."*

Teimlai llawer o'r cyfranogwyr hefyd fod y Cynllun yn disgwyl gormod ar unwaith a bod arnynt eisiau gallu symleiddio'r Cynllun fel bod ffermwyr yn gallu dod i arfer â'r gofynion yn hytrach na chael eu gorlwytho yn y tymor byr.

## 10.6 Ffermwyr dan bwysau

Lleisiodd nifer o'r gweithdai bryderon am y pwysau ychwanegol y gallai'r SFS ei roi ar ffermwyr sy'n gwneud gwaith anodd yn barod, ac effaith hyn ar iechyd meddwl o ganlyniad.  Mae'r diwydiant ffermio wedi dioddef lefelau uchel o iechyd meddwl gwael ers tro byd, gyda llawer o astudiaethau'n tynnu sylw at achosion straen yn y sector. Mae'r digwyddiadau byd-eang a gwleidyddol presennol yn cynyddu costau mewnbynnau, gwneud prisiau cynnyrch yn fwy ansefydlog a chreu ansicrwydd am bolisi a thaliadau cymorth. Tynnwyd sylw amlwg at hyn mewn adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl yn 2019 sef bod y newid ers Brexit yn creu ansicrwydd sylweddol i'r diwydiant ffermio ac yn gyfle allweddol i rai gyda'r awdurdod i wneud penderfyniadau gefnogi'r diwydiant ffermio dros y cyfnod pontio hwn (Davies, AR. et al., 2019[21]). Dywedodd un a holwyd mewn cyfweliad, gyda phrofiad o weithio gyda ffermwyr ar eu hiechyd meddwl, fod llawer o yn cael trafferth yn barod gyda'r ddeddfwriaeth, rheoliadau ac archwiliadau a bod problemau band-eang a llythrennedd technoleg gwybodaeth gwael ond yn gwaethygu hyn.

Oherwydd bod llawer o ffermwyr yn ystyried mai cynhyrchwyr bwyd ydynt yn bennaf, bydd llawer yn gweld unrhyw gynnydd mewn baich gan AES fel rhwystr i ymuno. Gwelir hyn yn yr ymatebion i'r arolwg lle'r oedd baich gweinyddol yn un o'r tri rhwystr mwyaf gyda 7 allan o'r 14 cam gwaith UA.

Roedd cyfranogwyr yn y ddau weithdy ar ddangosyddion KPI, ac ar wahân, wedi lleisio pryderon cryf am feincnodi a'r UA KPI. Y teimlad oedd y gallai ffermwyr a oedd yn meincnodi o dan gynllun llywodraeth, a'r data'n cael ei gyflwyno i'r llywodraeth, roi mwy o bwysau diangen arnynt a chael effaith negyddol ar iechyd meddwl.

> *"A fydden ni'n cael ein cyhuddo o fod yn ffermwyr gwael drwy beidio â chydymffurfio?...mae hynny'n wendid mawr yn y Cynllun oherwydd bydd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi. Rydym yn clywed am iechyd meddwl yn aml mewn amaeth. Bydd pobl hefyd yn edrych ar hynny'n negyddol a dweud dw i ddim yn gwneud job ddigon da. Dw i ddim yn*

[21] Davies AR, Homolova L, Grey CNB, Fisher J, Burchett N, Kousoulis A (2019). Supporting farming communities at times of uncertainty: an action framework to support the mental health and well-being of farmers and their families. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl.

*cymharu, ac mae'n dibynnu pa mor gul yr edrychwch ar y data, ond bydd rhai'n ofnadwy o sensitif yn ei gylch."*

Fodd bynnag, lleisiwyd pryderon hefyd am gamau gwaith eraill, yn enwedig y rhai y bydd angen mewnbynnu data i Lywodraeth Cymru ar eu cyfer:

*"Dw i'n cael trafferth deall sut y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio? Ai dim ond er gwybodaeth i ffermwyr, neu a fydd yn cael ei ddefnyddio fel bod ffermwyr yn cystadlu â'i gilydd? Nid oes angen mwy o straen na gofid ar sector sy'n dioddef o ran iechyd meddwl yn barod."*

Lleisiwyd y rhan fwyaf o'r pryderon ar lefel uwch ac am y Cynllun yn gyffredinol a'r baich posib y bydd yn ei roi ar ffermwyr sydd efallai angen ymuno â'r Cynllun i gynnal eu busnesau a'u bywoliaeth.

*"Felly, dw i am sôn am yr eliffant yn yr ystafell – iechyd meddwl mewn amaeth. Mae'n ofnadwy, roedd ystadegau dychrynllyd allan wythnos diwethaf? Dw i'n poeni'n fawr am y pethau sydd wedi cael eu trafod heddiw – bydd yn rhoi mwy fyth o faich biwrocrataidd ar ffermwyr. A rhaid i hynny gael ei nodi. Dw i'n poeni'n ofnadwy am y peth. Ac rydym i gyd yn adnabod rhywun sy'n cael trafferthion ar y funud, heb sôn pan ddaw'r mesurau newydd hyn i rym, felly rhaid meddwl o ddifrif am hynny."*

*"Dw i'n meddwl ein bod yn gwneud pethau'n iawn, ond yn 62 oed, dw i'n ofni y bydd y baich gweinyddol yn fy eithrio i o'r Cynllun. Dw i wedi gorfod tynnu allan o Glastir yn barod am resymau iechyd meddwl. Byddaf yn gyndyn iawn o ymuno â chynllun arall os bydd agwedd Taliadau Gwledig Cymru'r un peth. Sy'n drueni mawr oherwydd dw i'n ffermio barod yn y ffordd y mae Taliadau Gwledig Cymru eisiau i Gymru fynd. Dyna pam wnes i ymuno â Thir Gofal a Glastir flynyddoedd yn ôl, dim ond bod Glastir wedi rhoi ffon arall i Daliadau Gwledig Cymru fy nghuro â hi."*

Mae amgylchiadau presennol fel Brexit, pandemig Covid-19 a'r rhyfel yn Wcráin yn effeithio ar gadwyni cyflenwi, costau mewnbynnau uwch a chyfraddau llog uchel i gyd yn ychwanegu pwysau ar ffermwyr.

# 11 Myfyrdodau ar y broses cyd-ddylunio

Mae’r rhan yma’n cyflwyno myfyrdodau’r tîm ADAS a’r ICF ar brofiadau o’r broses cyd-ddylunio. Gall y diffiniad o gyd-ddylunio a sut y mae’n cael ei ymarfer amrywio, yn aml iawn gyda lefelau gwahanol o fewnbwn a rhannu cyfrifoldeb ar draws y gwahanol gyd-destunau. Ar lefel polisi cyhoeddus, mae’n aml yn eithaf anodd sicrhau cyd-ddylunio llawn oherwydd paramedrau llywodraeth, systemau sefydliadol a’r amgylchedd gwleidyddol. Er mwyn myfyrio ar y prosiect hwn ac ail gam proses cyd-ddylunio’r SFS, byddwn yn myfyrio ar lwyddiant y broses ar draws y gwahanol egwyddorion o gyd-ddylunio.

**Cynhwysiant**

Defnyddiwyd nifer o wahanol ddulliau ymgysylltu – gweithdai ar-lein, cyfweliadau dros y ffôn, copïau papur a chopïau ar-lein o arolygon ynghyd â thrafod wyneb yn wyneb mewn sioeau a marchnadoedd anifeiliaid – i wneud y broses cyd-ddylunio’n fwy cynhwysol a rhoi dewis i ffermwyr ar sut i gyfrannu. Er mwyn gwneud i ffwrdd â rhwystrau amser posib, rhoddwyd cyfle i ffermwyr ddewis pa weithdy y byddent yn hoffi eu mynychu gan roi’r opsiwn o weithdai bore a diwedd prynhawn ar nifer o wahanol ddyddiadau. Os na allai ffermwyr fynychu ar y dyddiadau, os oedd yn rhaid iddynt ganslo, neu os cawsant drafferthion technoleg yn ystod y gweithdy, roeddent yn cael cyfle i gael cyfweliad dros y ffôn ar unrhyw adeg a oedd yn gyfleus, gan gynnwys min nos. Ar gyfer ffermwyr a fyddai’n mynychu’r gweithdai ar-lein, rhoddwyd canllawiau ar ddefnyddio Microsoft Teams a chynigiwyd sesiynau ymarfer technoleg ar wahân i bawb fel y gallent ymuno a chadarnhau eu bod yn gyffyrddus i ymuno ar-lein. Roedd y ffermwyr na allent fynychu’r gweithdai, neu y bu’n rhaid iddynt ganslo ar y funud olaf, yn falch o’r cyfle i siarad gyda ni mewn cyfweliad ar amser a oedd yn gyfleus. Cafodd y broses cyd-ddylunio ei darparu yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer yr arolwg, cyfweliadau a’r gweithdai. Ar gyfer y gweithdai, roedd gan ffermwyr yr opsiwn o ddewis pa iaith oedd orau ganddynt (Cymraeg / Saesneg neu ddim gwahaniaeth) a’u dyrannu i weithdai ar sail hynny. Cafodd y gweithdai Cymraeg eu hwyluso gan y tîm ADAS gyda’r holl ddeunydd PowerPoint a briffio yn Gymraeg. Ar gyfer unrhyw gyfweliadau lle’r oedd dewis iaith y ffermwyr yn hysbys, cawsant eu dyrannu i gyfwelydd gyda’r sgiliau iaith perthnasol, a lle’r oedd eu dewis iaith yn anhysbys, dyrannwyd cyfwelydd dwyieithog er mwyn gallu cynnig y cyfweliadau yn Gymraeg neu Saesneg.

**Cymryd rhan**

Mae proses cyd-ddylunio’n gofyn bod rhanddeiliaid yn rhan o’r broses gan ddylunio ‘gyda’ y rhanddeiliaid ac nid ‘dros’ y rhanddeiliaid. Gall y broses ddylunio hon weithiau fod yn anodd wrth i randdeiliaid deimlo’n fwy neu’n llai cyffyrddus yn rhannu a datblygu syniadau. Er mai nod cyd-ddylunio fyddai dylunio’r polisi cyfan gyda rhanddeiliaid gan ddechrau o ‘dudalen wag’ yn y broses ddylunio, gall hyn weithiau fod yn anodd. Yn y cylch hwn o gyd-ddylunio, roedd cael cynigion bras ar gyfer syniadau cychwynnol i adeiladu arnynt yn ddefnyddiol er mwyn creu syniadau a thrafod â ffermwyr. Roedd yn bwysig pwysleisio i gyfranogwyr bod y cynigion bras yn ddim mwy na ‘chynigion’ ar y pwynt hwn, nid syniadau terfynol, a bod croeso iddynt gyflwyno eu hawgrymiadau a syniadau. Drwy ddefnyddio’r camau gwaith yn y Cynllun fel man cychwyn, cafwyd trafodaethau helaeth yn y gweithdai, a phan oedd y cyfranogwyr gyda phryderon neu’n anghytuno â’r camau gwaith a gynigiwyd, roedd ICF fel hwyluswyr yn eu hannog i rannu eu syniadau a’u hawgrymiadau ar sut i’w gwella. O ganlyniad rhannwyd llawer o syniadau, a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo’n rhwystredig nad oedd mwy o fanylion yn y

camau gwaith drwy fod wedi gobeithio cael mwy o eglurder ar beth sydd o'u blaenau er mwyn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd rai o gyfranogwyr y gweithdai eu bod yn teimlo elfen o annhegwch yn y gweithdai drwy fod swyddogion Llywodraeth Cymru a'r hwyluswyr ymgynghori yn y gweithdai'n cael eu talu am eu hamser, ond nid y ffermwyr. Roedd y ffermwyr yn cydnabod eu bod yn allweddol i'r broses cyd-ddylunio ac yn siomedig nad oedd eu hamser yn cael ei werthfawrogi'r un fath ag amser pobl eraill. Roeddent yn pwysleisio bod hyn, yn anffodus, yn arferol ac yn aml yn rhwystr i gymryd rhan. Roedd y ffermwyr yn deall drwy gymryd rhan yn y gweithdai y gallent fod ar eu hennill yn y tymor hir oherwydd y byddai'r Cynllun wedi'i deilwrio'n well iddynt, ond roedd ganddynt amheuon am ba effaith y gallent ei gael mewn gwirionedd. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd rôl Llywodraeth Cymru mewn pwysleisio eu bod yn gwrando ar ffermwyr wrth ddiwygio sgôp a phrosesau'r Cynllun, a bod eu hamser a'u mewnbwn wedi bod o werth.

### Tryloywder a rhannu dealltwriaeth

Roedd y deunydd briffio a'r cyflwyniad rhagarweiniad i gyfranogwyr y gweithdai'n rhoi dealltwriaeth dda o gynigion bras y Cynllun o ran y camau gwaith UA, OA a CA ynghyd â dealltwriaeth gymharol dda o'r Cynllun a'r pynciau trafod. Roedd y deunydd briffio'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan gydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru a dolenni i wybodaeth allanol fel adnoddau, cyngor a chanllawiau eraill, er mwyn rhoi mwy o wybodaeth a manylion am ddatblygiadau polisi ar wahân i'r hyn a rannwyd yn barod yn y cynigion bras. Er bod rhai cyfranogwyr wedi gallu gweld y wybodaeth ategol hon, nid oedd yn glir bod cyfranogwyr y gweithdai wedi defnyddio'r wybodaeth yn llawn bob tro, mae'n debyg oherwydd diffyg amser a chymhelliad i fynd drwy'r manylion ychwanegol. Roedd y cyflwyniad ar ddechrau'r gweithdy wedi rhoi cyfle i gyfranogwyr fynd drwy bynciau ac amcanion y gweithdai eto, gan helpu i wella gwybodaeth a dealltwriaeth polisi'r cyfranogwyr. Yn y gweithdai, roedd gan y ffermwyr gyfle i roi adborth cyffredinol yn ogystal ag adborth manwl, ymarferol a phenodol i'r fferm, a syniadau ar gyfer y Cynllun, sy'n awgrymu bod y deunydd briffio, y cyflwyniad yn y gweithdai a'r broses o hwyluso'r gweithdai wedi cynnig digon o ddealltwriaeth ac eglurder ar yr SFS a phwrpas y sesiwn. Er y cafwyd trafodaethau da a rhannu syniadau ar sut i ddatblygu'r Cynllun yn y gweithdai i gyd, teimlai rai cyfranogwyr yn rhwystredig nad oedd mwy o fanylion ar gael ac na allent ofyn cwestiynau i Lywodraeth Cymru am ddatblygiad y polisi ac, yn benodol, am gyfraddau tâl. Teimlai lawer o gyfranogwyr y dylai cyfraddau tâl a mwy o fanylion am y Cynllun fod ar gael ac yn siomedig nad oedd y manylion hyn ar gael ar y pwynt hwn.

### Ymddiriedaeth

Er mwyn i randdeiliaid fod yn barod i gymryd rhan mewn cyd-ddylunio, mae angen iddynt fod â ffydd y defnyddir eu mewnbwn i'r Cynllun. Mae angen i randdeiliaid felly fod yn gallu ymddiried yn ICF ac ADAS, fel hwyluswyr y broses, i gasglu a rhannu eu mewnbwn a'u syniadau â Llywodraeth Cymru a chael ffydd yn Llywodraeth Cymru i ystyried a darparu ar sail y mewnbwn hwnnw. Bydd ymddiried yn y broses cyd-ddylunio'n dibynnu ar ganlyniadau'r cylch cyd-ddylunio hwn a bod syniadau ffermwyr ar ddatblygu'r polisi'n cael eu hystyried. Er bod nifer uchel o ymatebion i'r arolwg a chyfranogwyr yn y gweithdai, roedd rhai arwyddion o fod wedi blino gyda'r broses wrth i lawer o gyfranogwyr ddewis peidio ag ymateb neu fynychu er bod wedi cael cyfle i wneud hynny. Gallai hyn fod oherwydd blinder polisi'n dilyn sawl cylch blaenorol o ymgynghori a chyd-ddylunio.


# Atodiad 1 Camau Gwaith Sylfaenol

Ar gyfer pob Cam Gwaith Sylfaenol (UA), gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg 'a fyddech yn fodlon cwblhau'r cam gwaith uchod ar eich fferm fel UA o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd?'. Roedd ymatebion ar draws y rhanddeiliaid a oedd yn barod i gwblhau'r gwahanol gamau gwaith UA yn amrywio rhwng 57% a 83%.

Y camau gwaith UA gyda'r ganran fwyaf o ymatebwyr a oedd yn barod i'w cwblhau oedd y camau gwaith PPP/IPM (83%), cnydau gorchudd aml-rywogaeth (82%) a nodweddion amgylchedd hanesyddol (83%) (Ffigwr A.1.1). Fodd bynnag, roedd llai wedi ymateb i'r camau gwaith hyn oherwydd bod angen gweithredu nodwedd benodol neu fesur rheoli ar y fferm.

Yr UA gyda'r gyfran leiaf o ymatebwyr a oedd yn barod i'w gwblhau oedd y cam gwaith gorchudd coed (57%). Yna cynefinoedd lled-naturiol gyda 65% yn barod i gwblhau'r UA, a phyllau dŵr a phyllau tymhorol gyda 66% yn barod i'w gwblhau. Teimlai ffermwyr fod newid defnydd tir a cholli cynhyrchu bwyd yn gysylltiedig â'r camau gwaith hyn.

Ffigwr A1.1 Parodrwydd ymatebwyr i'r arolwg i gwblhau'r camau gwaith UA (n=318-1446)



# A1.1 Crynodeb o’r ffactorau sy’n cymell a rhwystro cwblhau’r camau gwaith

## A1.1.1 Ffactorau cymell cwblhau’r camau gwaith

Yn yr arolwg, os oedd yr ymatebwyr wedi nodi y byddent yn fodlon cwblhau mesur gweithredu, gofynnwyd iddynt nodi’r prif ffactorau a fyddai’n eu cynorthwyo i wneud hynny.

Tabl A1.2 Ffactorau cymell cwblhau’r camau gwaith

| Model COM-B | Ffactorau cymell |
|---|---|
| Gallu (sgiliau a phrofiad) | Mae gen i’r sgiliau / wybodaeth angenrheidiol i gwblhau’r cam gwaith hwn |
| Gallu (sgiliau a phrofiad) / cyfle | Dw i’n cwblhau’r cam gwaith hwn ar y fferm yn barod. |
| Cyfle | Mae fy system ffermio’n cynnig ei hun yn dda i’r cam gwaith hwn. |
| | Mae gen i’r adnoddau amser / llafur / deunyddiau i gwblhau’r cam gwaith hwn ar y fferm. |
| Cymhelliad | Dw i’n barod i gwblhau’r cam gwaith hwn i dderbyn taliadau drwy’r Cynllun. |
| | Byddai hyn yn gwella allbynnau’r fferm (e.e. iechyd anifeiliaid / cynhyrchu / elw). |
| | Byddai hyn yn fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy. |
| | Dw i’n meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da. |
| | Rhywbeth arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda. |

Y **cymhelliad** i gwblhau’r cam gwaith er mwyn **derbyn taliadau** a dderbyniodd yr ymateb mwyaf o’r holl gamau gwaith UA, gyda rhwng 62%-76% o ymatebwyr wedi dewis y ffactor cymell hwn ar draws yr holl gamau gwaith (Tabl A1.5 a Tabl A1.2).

Roedd ffactorau cymell eraill a dderbyniodd ymateb uchel yn cynnwys:

- **Cymhelliad:** oherwydd meddwl ei fod yn arfer ffermio da a / mae’n helpu’r ffermwr i fod yn fwy amgylcheddol cynaliadwy.
- **Sgiliau a phrofiad / cyfle:** oherwydd eu bod yn gallu ac yn cwblhau’r cam gwaith ar y fferm yn barod.

Mae’n werth nodi, gyda’r pump UA: gorchudd coed, cynefinoedd, safleoedd gwarchodedig, pyllau dŵr ac amgylchedd hanesyddol, nad ‘arfer ffermio da’ oedd un o’r prif ffactorau cymell, er bod ‘amgylcheddol gynaliadwy’ wedi’i ddewis yn hytrach ar eu cyfer. Roedd trafodaethau yn y gweithdai’n awgrymu bod ffermwyr yn gweld y camau gwaith hyn fel rhai gyda ffocws amgylcheddol cryf a allai fod angen newid defnydd tir. Yn ôl adborth o’r arolwg ar ffactorau rhwystro a chymell, er bod gan rai ffermwyr gymhelliad i gwblhau’r camau gwaith hyn, efallai y bydd angen hyrwyddo mwy ar y manteision i’r fferm. Roedd rhai o gyfranogwyr y gweithdai wedi rhannu eu barn am fanteision posib y camau gwaith hyn i’w fferm ond yn teimlo y gellid gwneud mwy i’w hyrwyddo.

Tabl A1.3  Pa mor aml y cododd y prif ffactorau cymell ar gyfer y camau gwaith UA

- *"Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn i dderbyn taliadau drwy'r Cynllun"* – **y prif ffactor cymell ar gyfer pob un o'r 14 cam gwaith.**
- *"Dw i'n cwblhau'r cam gwaith hwn ar y fferm yn barod."* - un o'r prif ffactorau cymell ar gyfer 9 UA.
- *"Dw i'n meddwl bod y cam gwaith hwn yn arfer ffermio da"* – un o'r prif ffactorau cymell ar gyfer 9 o'r camau gwaith UA.
- *"Byddai'n fy helpu i fod yn fwy amgylcheddol cynaliadwy"* – un o'r prif ffactorau cymell ar gyfer 8 o'r camau gwaith UA.
- *"Mae gen i'r sgiliau / wybodaeth angenrheidiol i gwblhau'r cam gwaith hwn"* – un o'r prif ffactorau cymell ar gyfer y cam gwaith KPI.
- *"Mae fy math o fferm a / neu system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn"* – un o'r prif ffactorau cymell ar gyfer y cam gwaith Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol.

## A1.1.2 Ffactorau rhwystro cwblhau'r camau gwaith

Os oedd cyfranogwyr wedi nodi nad oeddent yn barod i gwblhau'r cam gwaith, gofynnwyd iddynt egluro'r prif rwystrau. Roedd y rhain yn amrywio ychydig ond gan amlaf yn cynnwys y canlynol:

Tabl A1.4  Ffactorau rhwystro cwblhau'r camau gwaith UA

| Model COM-B | Ffactorau rhwystro |
|---|---|
| Sgiliau a phrofiad | Nid oes gen i'r sgiliau / gwybodaeth / profiad angenrheidiol i gwblhau'r cam gwaith hwn ar fy fferm. |
| | Nid oes gen i'r gallu corfforol i gwblhau'r cam gwaith hwn (oherwydd salwch neu anabledd). |
| Cyfle | Nid yw fy system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn. |
| | Dim amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn ar y fferm. |
| | Dim rheolaeth dros y math hwn o waith rheoli ar y fferm, er enghraifft oherwydd fy mod yn denant / dan gontract / tir comin. |
| Cymhelliad | Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i fy fferm. |
| | Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision. |
| | Ddim yn meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da. |
| | Yn meddwl bod gormod o risg neu gyfyngiadau gyda'r cam gwaith. |
| | Ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol. |
| | Rhywbeth arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda. |

Diffyg cymhelliad oherwydd ystyried bod yr ymdrech yn fwy na'r manteision oedd y rhwystr mwyaf cyffredin i fod yn barod i gwblhau camau gwaith (Tabl A1.4). Mae'n debyg bod hyn yn rhannol oherwydd na wyddai'r ffermwyr faint y byddent yn cael eu

talu am y camau gwaith, sy'n rhan bwysig o benderfyniadau ffermwyr. Roedd y diffyg manylion am gyfraddau tâl yn rhwystredig i ymatebwyr i'r arolwg yn ogystal ag i gyfranogwyr y gweithdai. Un rheswm posib arall y gallai hyn fod yn rhwystr yw oherwydd naill ai nad oedd rhai ymatebwyr yn gweld neu'n deall rhai o'r manteision y gallai'r camau gwaith hyn eu cynnig i'w system ffermio oherwydd roedd 'ni fyddai'r cam gwaith o fudd i fy fferm' yn ffactor rhwystro cyffredin arall.

Awgryma'r llenyddiaeth, wrth ystyried costau a manteision cynlluniau, fod ffermwyr efallai'n 'tueddu i feddwl am heddiw', hynny yw'n rhoi mwy o bwysau ar gostau a manteision presennol na rhai yn y dyfodol (Dessart *et al.,* 2019[22]; Lyon *et al.,* 2020[23]). Gall y duedd hon fod yn arbennig o berswadiol yn achos arferion ffermio cynaliadwy sy'n gofyn am gostau ymlaen llaw, er enghraifft ar ffurf peiriannau newydd neu gynhyrchu llai, ond na fydd y manteision i'w gweld am beth amser, p'un ai mewn taliadau am gwblhau'r camau gwaith neu fanteision ecosystem fel cyflwr pridd gwell (Dessart *et al.,* 2019; Lyon *et al.,* 2020). Roedd hyn yn glir yn y gweithdai wrth drafod sut y gallai rhai o'r camau gwaith effeithio ar denantiaid sydd ond â'r tir yn eu meddiant am gyfnod byr ac felly heb yr un weledigaeth hirdymor wrth wneud penderfyniadau rheoli ar y fferm.

Roedd rhwystrau cyffredin eraill yn cynnwys:

- **Cymhelliad:** dim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol.
- **Cyfle:** dim amser / adnoddau ac nad oedd y cam gwaith yn cynnig ei hun i'w system ffermio.

Roedd diffyg cymhelliad i gwblhau camau gwaith oherwydd baich gweinyddol yn fwy cyffredin gyda chamau gwaith lle'r oedd angen rhyw fath o gofnodi data neu gynllun rheoli. Roedd baich gweinyddol yn thema gyffredin yn y gweithdai (wele Adran C) gyda rhai cyfranogwyr yn lleisio pryderon bod rhai camau gwaith fel y dangosyddion KPI a'r asesiadau IPM yn ddim mwy nag ymarferion 'ticio bocsys' heb fawr ddim manteision i'r fferm. Roedd pryder hefyd am y dyblygu ymdrech y gallai rhai o'r camau gwaith hyn ei achosi o ran arferion ffermio presennol ac roedd cyfranogwyr y gweithdai'n awyddus i weld llai o hyn a bod perfformiad yn cael ei gydnabod lle'r oedd yn briodol.

Am resymau tebyg i 'baich gweinyddol', roedd y diffyg cyfle i gwblhau cam gwaith oherwydd prinder amser ac adnoddau'n un o'r prif rwystrau i'r rhan fwyaf o'r camau gwaith (heblaw am rai lle'r oedd angen newid defnydd tir a rhwystrau cymhelliad eraill wedi sgorio'n uwch). Roedd hyn yn bryder cyffredin yn y gweithdai:

> *"Dw i'n edrych ar ddull darniog o wneud hyn lle y byddai angen llawer iawn o waith papur. O'i gymharu â fferm fawr gyda rheolwr ac yn y blaen, gallai fod yn anodd i mi. Mae angen 'gyda dros X o aceri, dylid gwneud hyn – llai na X o aceri, dylid gwneud y llall'. Nid yw'n werth chweil i mi ac yn faich gweinyddol i ffermwyr llai."*
>
> *"Problem amser. Does gan neb amser, gallaf weld rhai'n meddwl na fydd amser ganddynt, yn enwedig os oes gwaith deall ar bob dim. Gan edrych arno a meddwl – sut alla i wneud hyn? Beth wna i? Does gen i mo'r amser."*

[22] Dessart, F., Barreiro-Hurlé, J. a van Bavel, R., 2019. Behavioural factors affecting the adoption of sustainable farming practices: a policy-oriented review. *European Review of Agricultural Economics*, 46(3), tud.417-471.

[23] Lyon, J., Hurley, P., Hall, J., Tsouvalis, J., Rose, D., Little, R., 2020. Inclusive design of post-Brexit Agri-Environmental policy: Identifying and engaging the harder to reach stakeholders, A quick scoping review. Prifysgolion Sheffield a Reading. DOI:10.15131/shef.data.12506582

Tabl A1.5 Pa mor aml y cododd y prif ffactorau rhwystro ar gyfer cwblhau'r camau gwaith

- *"Mae'r ymdrech yn fwy na'r manteision"* – un o'r prif rwystrau ar gyfer 12 o'r 14 cam gwaith UA
- *"Nid oes gen i'r amser / llafur / adnoddau i gwblhau'r cam gwaith hwn"* – un o'r prif rwystrau ar gyfer 9 o'r camau gwaith UA.
- *"Ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol"* – un o'r tri phrif rwystr ar gyfer 7 o'r camau gwaith UA
- *"Ni fyddai'r cam gwaith hwn o fudd i fy fferm"* – un o'r prif rwystrau ar gyfer 7 o'r camau gwaith UA
- *"Nid yw fy math o fferm a / neu system ffermio'n cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith hwn"* – un o'r prif rwystrau ar gyfer 5 o'r camau gwaith UA.
- *"Ddim yn meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da"* – un o'r prif rwystrau i'r cam gwaith gorchudd coed.
- *"Nid yw'n ymarferol plannu 10% o goed ar fy math o fferm a / neu system ffermio"* – y prif rwystr ar gyfer y cam gwaith gorchudd coed.

Mae Tabl A1.5 yn dadansoddi'r prif ffactorau cymell a rhwystro gan yr ymatebwyr i gyd. Lle bo'n berthnasol, mae'r adroddiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau rhwng y prif ffactorau cymell a rhwystro ar draws y gwahanol sectorau. Ni roddir dadansoddiad llawn yn ôl sector o'r ffactorau cymell a rhwystro oherwydd mae'r gwahanol amrywiadau yn yr ymatebion yn ei gwneud cymhariaeth deg yn anodd.

Tabl A1.6 Y 3 prif ffactor cymell a rhwystro ar gyfer yr holl gamau gwaith UA ar draws yr ymatebwyr i gyd.

| UA | Yn barod i gwblhau | Y 3 prif ffactor cymell | Amharod i gwblhau | Y 3 prif ffactor rhwystro |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion KPI | 72% | Taliadau (76%) | 28% | Baich gweinyddol (69%) |
| | | Arfer ffermio da (55%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (52%) |
| | | Sgiliau a gwybodaeth (47%) | | Dim amser / llafur / adnoddau (50%) |
| Bioddiogelwch | 77% | Taliadau (65%) | 23% | Nid yw'r fferm yn cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith (46%) |
| | | Arfer ffermio da (59%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (46%) |
| | | Yn gwneud hyn yn barod (46%) | | Dim amser / llafur / adnoddau (45%) |
| Profion pridd gan y ffermwr | 77% | Taliadau (71%) | 23% | Dim amser / llafur / adnoddau (51%) |
| | | Arfer ffermio da (58%) | | Baich gweinyddol (50%) |
| | | Amgylcheddol gynaliadwy (43%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (41%) |

| UA | Yn barod i gwblhau | Y 3 prif ffactor cymell | Amharod i gwblhau | Y 3 prif ffactor rhwystro |
|---|---|---|---|---|
| Profion pridd proffesiynol | 77% | Taliadau (65%) | 23% | Dim amser / llafur / adnoddau (44%) |
| | | Arfer ffermio da (54%) | | Baich gweinyddol (50%) |
| | | Amgylcheddol gynaliadwy (42%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (36%) |
| Cynhyrchion PPP / IPM | 83% | Taliadau (63%) | 17% | Dim amser / llafur / adnoddau (49%) |
| | | Arfer ffermio da (52%) | | Baich gweinyddol (49%) |
| | | Amgylcheddol gynaliadwy (38%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (41%) |
| AHIC | 79% | Taliadau (62%) | 21% | Baich gweinyddol (48%) |
| | | Arfer ffermio da (55%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (42%) |
| | | Yn gwneud hyn yn barod (55%) | | Dim amser / llafur / adnoddau (37%) |
| Mawndir | 78% | Taliadau (72%) | 22% | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (43%) |
| | | Amgylcheddol gynaliadwy (53%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (39%) |
| | | Arfer ffermio da (40%) | | Nid yw'r fferm yn cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith (33%) |
| Gorchudd coed | 57% | Taliadau (73%) | 43% | Ddim yn ymarferol plannu 10% o goed (67%) |
| | | Amgylcheddol gynaliadwy (54%) | | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (57%) |
| | | Yn gwneud hyn yn barod (52%) | | Ddim yn meddwl bod y cam gwaith yn arfer ffermio da (48%) |
| Cnydau gorchudd | 82% | Taliadau (62%) | 18% | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (37%) |
| | | Yn gwneud hyn yn barod (60%) | | Nid yw'r fferm yn cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith (36%) |
| | | Arfer ffermio da (50%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (36%) |
| Cynefinoedd lled-naturiol | 65% | Taliadau (73%) | 35% | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (55%) |
| | | Yn gwneud hyn yn barod (52%) | | Nid yw'r fferm yn cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith (53%) |
| | | Amgylcheddol gynaliadwy (50%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (42%) |
| | 81% | Taliadau (67%) | 19% | Baich gweinyddol (54%) |

| UA | Yn barod i gwblhau | Y 3 prif ffactor cymell | Amharod i gwblhau | Y 3 prif ffactor rhwystro |
|---|---|---|---|---|
| Safleoedd gwarchodedig | | Yn gwneud hyn yn barod (61%) | | Dim amser / llafur / adnoddau (52%) |
| | | Amgylcheddol gynaliadwy (40%) | | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (48%) |
| Pyllau dŵr | 66% | Taliadau (71%) | 34% | Nid yw'r fferm yn cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith (52%) |
| | | Amgylcheddol gynaliadwy (50%) | | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (50%) |
| | | Yn gwneud hyn yn barod (36%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (39%) |
| Nodweddion amgylchedd hanesyddol | 83% | Taliadau (73%) | 17% | Dim amser / llafur / adnoddau (54%) |
| | | Yn gwneud hyn yn barod (50%) | | Ni fyddai'r cam gwaith o fudd i'r fferm (35%) |
| | | Y fferm yn cynnig ei hun yn dda i'r cam gwaith (34%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (33%) |
| Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch | 76% | Taliadau (72%) | 24% | Dim amser / llafur / adnoddau (55%) |
| | | Arfer ffermio da (62%) | | Baich gweinyddol (51%) |
| | | Yn gwneud hyn yn barod (36%) | | Yr ymdrech yn fwy na'r manteision (37%) |

### A1.1.3 Parodrwydd, gwybodaeth a phrofiad o gamau gwaith yn ôl profiad o AES


Gyda'r holl gamau gwaith UA heblaw am Gynhyrchion PPP / IPM, roedd ffermwyr gyda phrofiad o AES yn fwy tebygol na rhai heb brofiad o AES o fod yn barod i gwblhau camau gwaith UA (Ffigwr A1.2). Ar gyfer saith o'r camau gwaith UA, roedd profiad o AES yn ymylol ac efallai'n awgrymu bod camau gwaith oedd heb eu cynnwys mewn cynllun blaenorol yn hygyrch mwy neu lai i'r holl ymatebwyr i'r arolwg, p'un ai oedd ganddynt brofiad o AES neu beidio.

Roedd rôl profiad o AES yn arbennig o glir yn y camau gwaith UA canlynol, lle'r oedd y gwahaniaeth rhwng cohortau'n amrywio rhwng 7 a 12%:

- Mawndir
- Cnydau gorchudd
- Cynefinoedd lled-naturiol
- Safleoedd gwarchodedig
- Pyllau dŵr

Mae'r camau gwaith hyn wedi bod yn rhan o gynlluniau AES blaenorol ac mae'n gwneud synnwyr y byddai gan rai gyda phrofiad blaenorol rai o rwystrau i'w cwblhau.


## Ffigwr A1.2 Parodrwydd i gwblhau'r camau gwaith UA yn ôl profiad o AES



## A1.1.4 Parodrwydd, gwybodaeth a phrofiad o gwblhau camau gwaith yn ôl profiad o gynlluniau gwarant fferm

Y cynlluniau gwarant fferm oedd â'r rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg yn aelodau ohonynt oedd y Cynllun Gwarant Fferm Bîff a Chig Oen (FAWL) (n=858) a'r Cynllun Tractor Coch (n=249).

Ffigwr A1.3 Parodrwydd ymatebwyr i'r arolwg i gwblhau'r camau gwaith UA KPI, Bioddiogelwch, Profion Pridd Proffesiynol, AHIC a Dysgu, yn ôl profiad o gynlluniau gwarant fferm



Ar y cyfan, roedd rhai gyda phrofiad o gynlluniau Tractor Coch neu FAWL yn fwy tebygol o fod yn barod i gwblhau camau gwaith yn ymwneud â chynhyrchu'r fferm ac iechyd anifeiliaid na rhai nad oeddent mewn cynlluniau gwarant fferm (Ffigwr A1.3).

Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn fwy tebygol o fod â'r sgiliau a'r profiad o gwblhau'r camau gwaith UA hyn na rhai nad oeddent mewn cynlluniau gwarant fferm, gyda'r gwahaniaeth yn amrywio rhwng 14-63% ar gyfer y 6 cham gwaith hwn. Y gwahaniaeth mwyaf oedd gyda'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) lle'r oedd 71% o rai yn y cynllun FAWL a 75% yn y cynllun Tractor Coch yn cwblhau'r cam gwaith hwn, o'i gymharu â 12% nad oeddent mewn cynllun gwarant fferm. Ar gyfer rhai yn y cynlluniau Tractor Coch a FAWL, roedd y ffactor cymell "Dw i'n cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod" wedi'i ddewis yn amlach na'r ffactor cymell "Dw i'n barod i gwblhau'r cam gwaith hwn am dderbyn taliadau drwy'r Cynllun". Roedd hyn hefyd yn un o brif ganfyddiadau'r gweithdai gyda chyfranogwyr yn gofyn, er mwyn osgoi dyblygu ymdrech, am ystyried y cynlluniau gwarant fferm hyn fel "cydnabod perfformiad" ar gyfer rhai o'r camau gwaith.

Fodd bynnag, ar y cyfan roedd yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn rhan o FAWL / Tractor Coch yn llai tebygol na rhai heb brofiad o gynllun gwarant fferm o fod yn barod i gwblhau camau gwaith gan feddwl mai dim ond manteision amgylcheddol oedd iddynt.

## A1.2 Dadansoddiad yn ôl sectorau ffermio

Mae'r graffiau isod yn rhoi dadansoddiad o barodrwydd yr ymatebwyr i gwblhau camau gwaith yn ôl eu prif sector ffermio. Ni wnaed dadansoddiad ar gyfer y sectorau canlynol oherwydd y nifer isel o ymatebion: moch (n=5), dofednod (n=4). Rhoddir crynodeb ar gyfer y sector garddwriaeth er nad yw graffiau o'r ymatebion a ddadansoddwyd wedi eu cynnwys oherwydd nifer isel yr ymatebion (n=16).


Roedd rhai amrywiadau ym mharodrwydd ffermwyr o wahanol sectorau i gwblhau gwahanol gamau gwaith UA, gyda phlannu coed, cynefinoedd lled-naturiol a phyllau dŵr ar y cyfan yn sgorio'n isel ym mhob sector o'i gymharu â chamau gwaith UA eraill. Y camau gwaith UA hyn sydd â'r gofynion gofod mwyaf ac yn rhai a ystyrir i fod angen elfen o newid defnydd tir.

### A1.2.1 Ffermwyr tir âr

Ffermwyr tir âr oedd y rhai mwyaf parod i gwblhau'r camau gwaith PPP / IPM a Bioddiogelwch (Ffigwr A1.4). O'r rhai a ddywedodd mai tir âr oedd eu prif sector (n=45), roedd 91% yn defnyddio cynhyrchion PPP. Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai a'r arolwg o'r sector tir âr fod y cam gwaith hwn yn arfer ffermio da ac roedd y rhan fwyaf yn ei gwblhau'n barod (56% o'r ymatebwyr i'r arolwg). Dangosodd ffermwyr tir âr barodrwydd arbennig o isel ar gyfer plannu coed (44%), cynefinoedd lled-naturiol (44%) a phyllau dŵr (47%), mae'n debyg oherwydd natur fwy dwys y systemau ffermio hyn.

Roedd ffermwyr tir âr yn llai parod na'r disgwyl i gwblhau'r camau gwaith profion pridd ffermwr a phroffesiynol (67%). Y prif rwystr i ffermwyr tir âr gyda'r cam gwaith hwn oedd y baich gweinyddol ychwanegol (73%). Awgrymodd drafodaethau yn y gweithdai y gallai'r UA gael ei symleiddio, ac y gallai'r profion mwy manwl fod yn OA.

Ffigwr A1.4 Ymatebion ffermwyr tir âr i'r camau gwaith UA (n=10-45)[24]




## A1.2.2 Ffermwyr llaeth

Yn yr arolwg, roedd dros 77% o ffermwyr llaeth yn barod i gwblhau 9 allan o'r 14 cam gwaith (Ffigwr A1.5), ond roedd ganddynt barodrwydd isel iawn i gwblhau'r camau gwaith canlynol:

- **Plannu coed:** Roedd 64% yn amharod i gwblhau'r cam gwaith a'r rhwystr mwyaf cyffredin oedd credu nad oedd yn ymarferol plannu 10% o dir y fferm yn goed (75%).
- **Cynefinoedd lled-naturiol:** Roedd 55% yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn a'r rhwystr mwyaf cyffredin oedd credu na fyddai o fudd i'w system ffermio (68%)
- **Pyllau dŵr:** Roedd 42% yn amharod i gwblhau'r cam gwaith hwn a'r rhwystr mwyaf cyffredin oedd credu na fyddai o fudd i'w system ffermio (61%).

Cefnogir hyn gan yr adborth o'r gweithdai gyda thema gyffredin ynddynt y byddai'r camau gwaith penodol hyn yn rhwystr i ffermwyr llaeth yn ymuno â'r SFS. Teimlai un ffermwr llaeth yn un o'r gweithdai y byddai'r cam gwaith gorchudd coed yn rhwystr iddynt ymuno â'r Cynllun, oedd yn bechod oherwydd teimlent yn frwdfrydig am rannau eraill o'r Cynllun. Rhannwyd teimladau tebyg gan ffermwyr llaeth eraill, neu rai a wyddai am ffermwyr llaeth:

> *"Mae prisiau llaeth yn pwyso ar fusnesau – ni fyddent yn fodlon rhoi 10% o dir i blannu coed."*


> *"Bydd y ffermwyr llaeth mwyaf cynhyrchiol yn edrych ar y Cynllun a dweud na."*

Fodd bynnag, ffermwyr llaeth oedd y rhai mwyaf parod i gwblhau'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (86% o'r ymatebwyr). O'r rhai a ddywedodd eu bod yn barod i gwblhau'r cam

[24] Mae'r data ar yr UA mawndir wedi'i dynnu allan o'r graff oherwydd nifer isel yr ymatebion a'r posibilrwydd o adnabod.

gwaith hwn, dywedodd 87% eu bod yn gwneud hyn yn barod ar y fferm. Y ffactor cymell hwn y soniodd ffermwyr llaeth amdano amlaf gyda'r cam gwaith hwn (ac yn amlach na thaliadau).


Ffigwr A1.5  Ymatebion ffermwyr llaeth i'r camau gwaith UA (n=14-140)




## A1.2.3 Ffermwyr bîff

Dywedodd ffermwyr bîff (n=107) eu bod yn arbennig o barod i gwblhau'r camau gwaith profion pridd, AHIC, bioddiogelwch a KPI (71-79%) (Ffigwr A1.6). Dywedodd is-grwpiau o ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn ffermwyr bîff yn bennaf eu bod hwythau hefyd yn barod iawn i gwblhau'r camau gwaith oedd yn berthnasol i fusnes y fferm, fel y camau gwaith PPP / IPM, cnydau gorchudd a nodweddion hanesyddol.


Ffigwr A1.6 Ymatebion ffermwyr bîff i'r camau gwaith UA (n=22-107)




## A1.2.4 Ffermwyr gwartheg sugno

Ffermwyr gwartheg sugno oedd y rhai mwyaf parod i gwblhau'r camau gwaith AHIC, profion pridd, bioddiogelwch a hyfforddiant iechyd a diogelwch (Ffigwr A1.7). Roedd is-grwpiau o ffermwyr gwartheg sugno hefyd yn barod iawn i gwblhau'r camau gwaith cnydau gorchudd, nodweddion hanesyddol, safleoedd gwarchodedig a PPP / IPM. Roedd ffermwyr gwartheg sugno (n=111) yn fwy parod na ffermwyr bîff i gwblhau'r rhan fwyaf o'r camau gwaith. Fodd bynnag, roedd ffermwyr gwartheg sugno'n llai parod na'r ffermwyr bîff i gwblhau camau gwaith dangosyddion KPI, profion pridd gan y ffermwyr, mawndir a phyllau dŵr.

Ffigwr A1.7 Ymatebion ffermwyr gwartheg sugno i'r camau gwaith UA (n=22-111)[25]





## A1.2.5 Ffermwyr defaid

Yr ymatebwyr i'r arolwg a ddywedodd mai defaid oedd eu prif fusnes oedd fwyaf parod ar draws yr holl sectorau i gwblhau'r UA cynefinoedd lled-naturiol (70%) (Ffigwr A1.8). Y grŵp ffermwyr defaid yn yr arolwg oedd fwyaf parod i gwblhau'r camau gwaith AHIC, profion pridd a hyfforddiant iechyd a diogelwch. Ar draws y rhan fwyaf o'r camau gwaith, roedd grŵp defaid yr arolwg yr un mor barod mwy neu lai â grŵp ffermwyr bîff yr arolwg i gwblhau camau gwaith. Roeddent hefyd yr un mor amharod mwy neu lai i gwblhau'r camau gwaith gorchudd coed (57%) a phyllau dŵr (66%).

---

[25] Mae'r data ar gnydau gorchudd wedi'i dynnu allan o'r graff oherwydd nifer isel yr ymatebion ac y gallai gael ei ddehongli'n gamarweiniol yn y graff. Dywedodd 23 allan o 24 o ffermwyr gwartheg sugno eu bod yn barod i gwblhau'r cam gwaith.


Ffigwr A1.8  Ymatebion ffermwyr defaid i'r camau gwaith UA (n=86-523)




## A1.2.6 Ffermwyr cymysg

Grŵp ffermwyr cymysg yr arolwg oedd fwyaf parod, o'r holl wahanol fathau o fferm, i gwblhau'r camau gwaith UA dysgu iechyd a diogelwch (80%), gorchudd coed (62%) a phyllau dŵr (71%) (Ffigwr A1.9). Ar draws y camau gwaith eraill, dangosodd y grŵp ffermwyr cymysg tua'r un lefel o barodrwydd â'r sectorau da byw. Roedd hyn yn cynnwys y camau gwaith AHIC, PPP / IPM a phrofion pridd. Roedd y grŵp ffermwyr cymysg hefyd yn llai parod i gwblhau'r cam gwaith cynefinoedd lled-naturiol, tebyg i'r grwpiau ffermwyr tir âr, llaeth, bîff a gwartheg sugno.

Ffigwr A1.9 Ymatebion ffermwyr cymysg i'r camau gwaith UA (n=76-384)




## A1.2.7 Garddwriaeth

Ychydig iawn o ymateb a gafwyd gan ffermwyr a ddywedodd mai garddwriaeth oedd eu prif sector (n=16). Mae'r gyfradd ymateb isel hon gan y sector garddwriaeth i'w disgwyl oherwydd nid yw cnydau a garddwriaeth ond yn gyfran fach o dir ffermio Cymru, gan gyfrif ond am tua 4.5% o'r holl dir yng Nghymru [26]. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr garddwriaeth eu bod yn barod i gwblhau'r rhan fwyaf o'r camau gwaith UA, er na ddylid ystyried i fod yn cynrychioli'r sector cyfan, o gofio maint y sampl.

Roedd presenoldeb bach o'r sector garddwriaeth yn y gweithdai. Roedd y problemau a godwyd gan y sector garddwriaeth yn cynnwys:

- **Meini prawf cymhwyso:** Mae'r lleiafswm tir o 3ha yn rhwystr i rai oherwydd bod busnesau garddwriaeth fel arfer yn ardaloedd llai o dir.
- **Profion pridd:** Pwysleisiodd un cyfranogwr oedd yn cynrychioli garddwriaeth fod cyd-destun y math yma o ffermio'n wahanol iawn i rai eraill. Awgrymodd y byddai gan ffermwyr garddwriaeth fwy o ddiddordeb mewn 'uwch-wybodaeth' fel systemau biolegol ac elfennau 'hybrin'. Teimlent hefyd y gallai natur gymhleth systemau garddwriaeth fod yn rhy gymhleth i systemau'r SFS a Taliadau Gwledig Cymru ymdopi â nhw.
- **Diffyg cynrychiolaeth garddwriaeth yn y dangosyddion KPI:** Awgrymodd lawer o gyfranogwyr garddwriaeth y gweithdai na fyddai llawer o'r dangosyddion KPI yn addas i'w busnes ac y byddent yn awyddus i weld yr SFS yn cynnwys cyfres o ddangosyddion KPI wedi eu teilwrio i'r sector garddwriaeth.

[26] Ffeithiau a Ffigurau Ffermio 2022, Cymru

### A1.2.8 Arall (gan gynnwys di-ddosbarth)

Mae'r grŵp sector ffermio 'arall' yn cynnwys ystod eang o fathau o ffermydd ac felly ni ellir ei ddadansoddi'r un fath ag ar gyfer y sectorau ffermio eraill. Gallai'r rhai a ddywedodd eu bod o sector 'arall' gynnwys ymatebion gan unigolion 'dim ffermwr' neu adnabod eu hunain fel ffermwyr ond sydd heb eu diffinio felly o dan bolisi amaethyddol. Yn ystod gweithdai prosesau'r Cynllun, achosodd y diffiniad o 'ffermwr beunyddiol' gryn ddadlau a thrafodaeth a byddai angen diffiniad pellach gan Lywodraeth Cymru i roi eglurder ar bwy sy'n gallu ymgeisio i'r SFS.

Dangosodd y grŵp hwn barodrwydd uchel i gwblhau'r camau gwaith gorchudd coed (88%), cynefinoedd lled-naturiol (88%) a phyllau dŵr (81%).   Fodd bynnag, y grŵp hwn hefyd oedd lleiaf parod i gwblhau'r dysgu iechyd a diogelwch a dangosyddion KPI, efallai oherwydd pryderon am eu perthnasedd i'w mathau neilltuol o ffermydd.

## A1.3 Perchnogaeth tir

Roedd y trafferthion posib i denantiaid gyda chwblhau rhai camau gwaith yn bryder cyffredin yn ystod y gweithdai. Roedd y pryderon yn cynnwys:

- **Cytundeb tenantiaeth yn rhwystr i gwblhau camau gwaith**

  Ni allai tenantiaid gwblhau'r camau gwaith oherwydd bod eu cytundeb tenantiaeth yn atal rhai newidiadau tir. Mae'r rhwystr yma'n arbennig o berthnasol i blannu coed a phyllau dŵr.

- **Dryswch rhwng pwy sy'n elwa o gamau gwaith, y tirfeddiannwr neu'r tenant**

  Roedd dryswch yn y gweithdai ynghylch sut y byddai'r SFS yn gweithio'n ymarferol rhwng tirfeddiannwr a thenant a phwy a fyddai'n elwa o'r camau gwaith. Roedd hyn yn bryder penodol gyda'r gwaith gorchudd coed. Mae rhai tirfeddianwyr efallai'n berchen ar dir gyda gorchudd coed sylweddol arno gan rentu'r rhan amaethyddol-gynhyrchiol yn unig i'r tenant. Pe na bai'r tenant yn gallu hawlio'r gorchudd coed o gwmpas oherwydd na fyddai'n rhan o'u cytundeb, byddai'n rhaid iddynt leihau eu tir cynhyrchiol i blannu coed (pe byddai plannu coed yn cael ei ganiatáu o dan eu cytundeb).  Os oes gan denantiaid ardaloedd o goed yn eu tenantiaeth, roedd pryderon y byddai tirfeddianwyr yn ceisio tynnu'r ardaloedd dan goed allan o'r cytundeb er mwyn derbyn y taliadau SFS yn lle'r tenant.

- **Natur hirdymor rhai camau gwaith** – Dywedodd gyfranogwyr y gweithdai fod rhai camau gwaith, yn enwedig y rhai OA, fel arfer yn arwain at golledion cynhyrchu tymor byr ond yn gallu arwain at gynnydd mewn cynhyrchu yn y tymor hir. Er enghraifft gyda'r OA cnydau gorchudd aml-rywogaeth, mae angen costau tymor byr gyda'r manteision i'r pridd ond i'w gweld yn y tymor hirach yn aml. Teimlai rai cyfranogwyr, oherwydd y colledion tymor byr posib, na fydd tenantiaid yn awyddus i gwblhau'r camau gwaith hyn oherwydd na welant y manteision.

Yn yr arolwg, roedd y gwahaniaeth mewn parodrwydd i gwblhau camau gwaith rhwng rhai a oedd yn berchen ar eu tir i gyd neu'r rhan fwyaf, o'i gymharu â rhai a oedd yn denantiaid ar eu tir i gyd neu'r rhan fwyaf, yn amrywio. Fodd bynnag, ar gyfer y camau gwaith gorchudd coed, cynefinoedd a phyllau dŵr, roedd tenantiaid yn amlwg llai tebygol o fod yn barod i'w cwblhau. Cefnogir hyn gan ganfyddiadau'r gweithdai lle yr awgrymwyd mai diffyg rheolaeth dros wneud penderfyniadau newid defnydd tir oedd y prif reswm y byddai tenantiaid yn llai parod i gwblhau'r camau gwaith hyn.

- **10% gorchudd coed** - roedd 67% o'r rhai a oedd yn berchen ar eu tir i gyd yn barod i gwblhau'r cam gwaith cynefinoedd, o'i gymharu â 46% a oedd yn berchen

ar y rhan fwyaf, 39% a oedd yn denantiaid ar y rhan fwyaf a 49% a oedd yn denantiaid ar eu tir i gyd. Ar gyfer rhai a oedd yn denantiaid ar y rhan fwyaf neu ar eu tir i gyd, diffyg rheolaeth dros y math yma o waith rheoli oedd y prif rwystr.

- **10% cynefinoedd lled-naturiol -** roedd 72% o'r rhai a oedd yn berchen ar eu tir i gyd yn barod i gwblhau'r cam gwaith cynefinoedd, o'i gymharu â 56% a oedd yn berchen ar y rhan fwyaf, 50% a oedd yn denantiaid ar y rhan fwyaf a 64% a oedd yn denantiaid ar eu tir i gyd. Ar gyfer rhai a oedd yn denantiaid ar y rhan fwyaf neu ar eu tir i gyd, diffyg rheolaeth dros y math yma o waith rheoli oedd y prif rwystr.
- **Creu pyllau dŵr -** roedd 71% o'r rhai a oedd yn berchen ar eu tir i gyd yn barod i gwblhau'r cam gwaith cynefinoedd, o'i gymharu â 61% a oedd yn berchen ar y rhan fwyaf, 55% a oedd yn denantiaid ar y rhan fwyaf a 57% a oedd yn denantiaid ar eu tir i gyd. Ar gyfer rhai a oedd yn denantiaid ar y rhan fwyaf neu ar eu tir i gyd, diffyg rheolaeth dros y math yma o waith rheoli oedd y prif rwystr.

Y camau gwaith UA eraill lle'r oedd diffyg rheolaeth dros y tir yn un o'r tri phrif rwystr i denantiaid oedd:

- Bioddiogelwch
- Profion pridd gan y ffermwr
- Nodweddion amgylchedd hanesyddol


## A1.4 Diddordeb mewn ymuno â'r SFS

Casglodd yr arolwg ddata ar y gwahanol ddiddordeb mewn ymuno â'r SFS (Ffigwr A1.10). Dangosai'r data felly a oedd y brwdfrydedd cyffredinol am y Cynllun yn ymwneud â pharodrwydd i gwblhau camau gwaith unigol, neu a oedd gan unigolion ddiddordeb mewn ymuno â'r AES newydd ond dim diddordeb yn, na chymhelliad oherwydd, y camau gwaith a ddisgrifiwyd yn y cynigion bras. Dengys y graffiau isod fod diddordeb mewn ymuno â'r Cynllun wedi'i gysylltu'n uniongyrchol i barodrwydd i gwblhau'r camau gwaith. Er bod hwn yn gysylltiad amlwg, mae'n dangos o bosib bod cyfres gadarn o gamau gwaith wedi eu cyflwyno yn y cynigion bras a bod y camau gwaith hyn yn creu cymhelliad, o leiaf i rai sydd fwyaf awyddus ac efallai gyda mwy o ffocws amgylcheddol.

Dylid hefyd nodi fel cafeat o'r data mai dim ond 4% o'r ymatebwyr i'r arolwg a ddywedodd nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn ymuno â'r SFS. Oherwydd ei bod yn aneglur ar hyn o bryd faint o ddiddordeb sydd yn y Cynllun ar draws y gymuned ffermio yng Nghymru, gallai'r data fod wedi'i sgiwio o blaid y rhai sy'n barod eisoes i ymuno â'r Cynllun a rhai sydd efallai'n barod i ymuno. Dengys canlyniadau'r data felly pa rannau o'r Cynllun y mae rhai sydd ag o leiaf rhywfaint o ddiddordeb yn y Cynllun yn barod yn eu hoffi neu beidio, a pha gymorth a allai fod angen arnynt. Fodd bynnag, dim ond syniad y mae'r data'n ei roi o ba rannau o'r Cynllun sy'n apelio neu ddim yn apelio at rai heb ddiddordeb, ond nid yw'n gwneud hyn mewn ffordd sy'n berthnasol i'r gymuned ffermio gyfan yng Nghymru oherwydd maint bach y sampl.


Roedd gan y 4% o ymatebwyr, a ddywedodd nad oedd diddordeb ganddynt mewn ymuno â'r SFS, ffermydd da byw neu gymysg. Roedd gan 52% (n=30) brofiad blaenorol o AES a mwy na'u hanner gyda thros bum mlynedd o brofiad. Roedd 58% (n=33) o'r grŵp hefyd yn rhan o Gynllun Gwarant Fferm Bîff a Chig Oen Cymru (FAWL). Dywedodd 79% (n=45) o'r grŵp y byddent yn cwrdd â'r meini prawf cymhwyso ar gyfer yr SFS ac mae 74% (n=42) eisoes yn llenwi Ffurflenni Cais Sengl. Drwy gydol yr arolwg, roedd yr ymatebwyr hyn yn gwneud sylwadau am roi ffocws ar ddiogelwch bwyd a theimlo naill ai na allent gwblhau, neu eu bod yn hollol yn erbyn y camau gwaith UA 10% gorchudd coed a 10% cynefin.

Ffigwr A1.10 Diddordeb mewn ymuno â'r SFS (n=1453)





Gyda'r rhan fwyaf o'r camau gwaith UA, dywedodd 80% o'r rhai oedd â diddordeb mewn ymuno â'r SFS eu bod yn barod i'w cwblhau (Ffigwr A1.11). Yr unig gamau gwaith a dderbyniodd lai na 80% o barodrwydd i'w cwblhau oedd gorchudd coed (69%), cynefinoedd lled-naturiol (79%) a phyllau dŵr (77%).

Ffigwr A1.11 Parodrwydd i gwblhau camau gwaith UA gan rai â diddordeb mewn ymuno




Yn achos rhai a ddywedodd y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn ymuno â'r SFS (n=698), roedd llai o barodrwydd i gwblhau'r camau gwaith gan amrywio rhwng 65% - 80% ar gyfer y rhan fwyaf o'r camau gwaith (Ffigwr A1.12). Unwaith eto, gorchudd coed (47%), cynefinoedd lled-naturiol (55%) a phyllau dŵr (57%) oedd y camau gwaith gyda llai o barodrwydd i'w cwblhau.


Ffigwr A1.12 Parodrwydd i gwblhau camau gwaith UA gan rai efallai â diddordeb mewn ymuno




Camau gwaith sylfaenol a nifer yr ymatebwyr efallai â ddiddordeb mewn ymuno (n)

Roedd y rhai a ddywedodd nad oedd diddordeb ganddynt mewn ymuno â'r SFS (n=57) yn llai parod i gwblhau'r camau gwaith, gyda'r ymateb yn amrywio rhwng 33-75% (Ffigwr A1.13). Unwaith eto, gorchudd coed (32%), cynefinoedd lled-naturiol (26%) a phyllau dŵr (32%) oedd y rhai gyda'r lleiaf o barodrwydd i'w cwblhau, ond roedd ymateb isel i ddangosyddion KPI hefyd (33%).


Ffigwr A1.13 Parodrwydd i gwblhau camau gwaith gan rai heb ddiddordeb mewn ymuno




## A1.5 Cymorth

Yn ogystal â'r cwestiynau cymorth penodol yn ymwneud â phob UA, roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiwn mwy cyffredinol am ddewisiadau cymorth (Ffigwr A1.14). Y math o gymorth y soniwyd amdano amlaf oedd 'Cyngor gan ymgynghorwyr / staff proffesiynol / arbenigwyr technegol' (54%).

## Ffigwr A1.14 Y mathau o gymorth a ffafriwyd gan ymatebwyr i'r arolwg




Hefyd, dywedodd y rhai oedd â phrofiad blaenorol o grwpiau cydweithredol fod yn well ganddynt 'Trafodaethau grŵp / seminarau â ffermwyr eraill' (47%) na rhai oedd heb brofiad (21%).

Gwnaed sylwadau gan nifer fach o ymatebwyr i'r arolwg am gael trafferth gyda gweithgareddau ar-lein a llenwi ffurflenni ar-lein oherwydd problemau band-eang a llythrennedd cyfrifiadurol. Roeddent yn awgrymu y byddai'n well ganddynt ddefnyddio copi caled ac y gall hyn eu helpu i gadw cofnodion.

# Atodiad 2 Camau Gwaith Dewisol

Roedd 740 o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi llenwi'r arolwg Camau Gwaith Dewisol (OA). Roedd yr arolwg hwn yn arolwg gwirfoddol ar wahân ar ddiwedd y prif arolwg ac roedd gan ymatebwyr ryddid i ddewis pa gwestiynau i ymateb iddynt. Dylid nodi hyn oherwydd mae'n debyg mai'r ymatebwyr a lenwodd yr arolwg ychwanegol hwn yw'r rhai sy'n ymgysylltu fwyaf a'u ffocws fwyaf ar yr amgylchedd yn y gymuned ffermio ac nad ydynt efallai'n cynrychioli'r ffermwr Cymreig arferol a'u hamcanion ffermio.

## A2.1 Crynodeb o brif ganfyddiadau'r arolwg

Yr OA a dderbyniodd y ganran fwyaf o ymatebwyr yn dweud eu bod yn ei gwblhau'n barod oedd y cam gwaith o ynysu anifeiliaid sy'n cyrraedd y fferm am 6 diwrnod o leiaf cyn cymysgu â stoc arall y fferm (58%).

Tabl A2.1 Y 3 prif OA sy'n cael eu cwblhau'n barod

| OA a chyfanswm yr ymatebwyr | % sy'n cwblhau'r cam gwaith hwn yn barod |
|---|---|
| Ynysu am 6 diwrnod | 58 |
| Pori a gorffwys | 40 |
| Cyflwr y pridd | 33 |

Yr OA a dderbyniodd y ganran fwyaf o ymatebwyr oedd â diddordeb yn ei gwblhau oedd ffermwyr yn defnyddio cymorth cyfalaf i gwblhau amrywiol gamau gwaith arbed ynni (71%).

Tabl A2.2 Y 3 prif OA yr oedd gan ymatebwyr i'r arolwg fwyaf o ddiddordeb yn eu cwblhau

| OA | % |
|---|---|
| Cymorth cyfalaf ar gyfer peiriannau | 71 |
| Cymorth ar gyfer seilwaith | 67 |
| Ynysu am 6 diwrnod | 58 |

Yr OA a dderbyniodd y ganran fwyaf o ymatebwyr heb ddiddordeb mewn cwblhau'r cam gweithredu oedd cymorth i gwblhau gwaith i adfer a rheoli mawndir (66%). Mae'n debyg oherwydd bod y cam gweithredu'n dibynnu a oes mawndir ar y fferm. Wrth edrych ar ymatebion y rhai a ddywedodd fod ganddynt fawndir ar y fferm ac a atebodd gwestiynau'r arolwg dewisol (n=170), dywedodd 53% o'r ymatebwyr fod ganddynt ddiddordeb mewn cwblhau'r gwaith o'i gymharu â 23% oedd heb ddiddordeb.

Tabl A2.3 Y 3 prif OA NAD OEDD gan ymatebwyr i'r arolwg ddiddordeb yn eu cwblhau

| OA | % |
|---|---|
| Adfer mawndir | 65 |
| Busnes garddwriaeth | 60 |
| Mynediad i'r cyhoedd | 50 |

Yn olaf, dywedodd ymatebwyr i'r arolwg – ar wahân i'r camau gwaith cymorth cyfalaf – mai'r un y byddai angen mwyaf o gymorth arnynt i'w gwblhau oedd yr OA gwrychoedd 3m (41%). Yr un y byddai angen lleiaf o gymorth arnynt oedd ynysu stoc yn cyrraedd y fferm am 6 diwrnod (17%).


Tabl A2.4 Y 3 prif OA y byddai angen cymorth ar eu cyfer

| OA | % |
|---|---|
| Cymorth cyfalaf ar gyfer peiriannau | 45 |
| Cymorth ar gyfer seilwaith | 41 |
| Gwrychoedd 3m | 41 |

## A2.2 Dadansoddiad o'r holl gamau gwaith OA yn ôl nodwedd


O dan y nodwedd 'ffermydd cydnerth a chynhyrchiol', yr OA cymorth ar gyfer prosiectau arloesol a chreu ffensys 3m o led oedd gan ymatebwyr i'r arolwg fwyaf o ddiddordeb ynddynt. Ynysu da byw newydd am 6 diwrnod oedd â'r lleiaf o ddiddordeb ynddo, efallai oherwydd bod nifer uchel o ymatebwyr i'r arolwg yn gwneud hyn yn barod.

Ffigwr A2.1 Diddordeb yn y camau gwaith OA o dan Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol (ystodau 'n' rhwng 740 a 733)





O dan y nodwedd 'Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu', y cam gwaith cymorth ar gyfer seilwaith oedd fwyaf o ddiddordeb ynddo, yna porfeydd cymysg a chyflwr y pridd. Pori a gorffwys, a'r cam gwaith allyriadau amonia, oedd â'r lleiaf o ddiddordeb ynddynt gan ymatebwyr i'r arolwg.

Ffigwr A2.2  Diddordeb yn y camau gwaith OA o dan Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu (ystodau ‘na’ rhwng 726 a 718)





O dan ‘Lleihau allyriadau’r fferm’, cymorth ar gyfer peiriannau wedi eu datgarboneiddio oedd â’r mwyaf o ddiddordeb ynddo, yna gwrychoedd 3m. Adfer mawndir oedd â’r lleiaf o ddiddordeb ynddo, oherwydd ei berthnasedd cyfyngedig.

Ffigwr A2.3  Diddordeb yn y camau gwaith OA o dan Lleihau allyriadau’r fferm (ystodau ‘n’ rhwng 726 a 708)





O dan y nodwedd ‘Gwarchod a gwella ecosystem y fferm’, roedd diddordeb cryf yn yr holl gamau gwaith OA. Pyllau dŵr ychwanegol oedd yr un â mwyaf o ddiddordeb ynddo, yna storio dŵr a chymorth pwrpasol i leihau llygredd sy’n mynd ar wasgar.

Ffigwr A2.4 Diddordeb yn y camau gwaith OA o dan Gwarchod a gwella ecosystem y fferm (ystodau ‘na’ rhwng 724 a 713)




O dan y nodwedd 'Pobl, anifeiliaid a llefydd', yr OA Lles Bywyd Da oedd â'r mwyaf o ddiddordeb ynddo, yna'r cam gwaith hyfforddiant pellach. Mynediad i'r cyhoedd ac adrodd ar gyflwr nodweddion hanesyddol oedd â'r lleiaf o ddiddordeb ynddynt.

Ffigwr A2.5 Diddordeb yn y camau gwaith OA o dan Pobl, anifeiliaid a llefydd (ystodau 'n' rhwng 714 a 702)



# Atodiad 3 Camau Gwaith Cydweithredol

Roedd 429 wedi cwblhau'r arolwg Camau Gwaith Cydweithredol (CA). Roedd yr arolwg hwn yn arolwg gwirfoddol ar wahân ar ddiwedd y prif arolwg (ar ôl arolwg y camau gwaith OA) ac roedd gan ymatebwyr ryddid i ddewis pa gwestiynau i ymateb iddynt. Dylid nodi hyn oherwydd mae'n debyg mai'r ymatebwyr a lenwodd yr ail arolwg ychwanegol hwn yw'r rhai sy'n ymgysylltu fwyaf a'u ffocws fwyaf ar yr amgylchedd yn y gymuned ffermio ac nad ydynt efallai'n cynrychioli'r ffermwr Cymreig arferol a'u hamcanion ffermio.

## A3.1 Crynodeb o brif ganfyddiadau'r arolwg

Dywedodd 40% (n=171) o ymatebwyr i'r arolwg eu bod eisoes yn cymryd rhan mewn grwpiau cydweithredol. Teimlai'r rhai oedd â phrofiad o grwpiau cydweithredol mai cyllid i grwpiau (65%) a hwyluso (60%) oedd y dulliau cymorth pwysicaf ar gyfer cydweithredu.

Tabl A3.1 Cymorth ar gyfer grwpiau cydweithredol (n=167)

| Cymorth ar gyfer cydweithredu | Canran o'r ymatebion |
|---|---|
| Cyllid i grwpiau | 65% |
| Cymorth hwyluso | 60% |
| Adnoddau digidol, e.e. mapio a rhannu data | 32% |
| Arall, rhowch fanylion | 19% |
| Dim angen cymorth allanol | 13% |

Gwybodaeth oedd y fantais fwyaf o gydweithredu yn ôl yr ymatebwyr, yna cyswllt cymdeithasol gwell a chymorth rhwng ffermwyr.

Tabl A3.2 Manteision cydweithredu (n=167)

| Manteision cydweithredu | Canran o'r ymatebion |
|---|---|
| Gwybodaeth | 81% |
| Cyswllt cymdeithasol gwell | 62% |
| Cymorth rhwng ffermwyr | 60% |
| Canlyniadau amgylcheddol gwell | 57% |
| Manteision cynhyrchu i'r fferm | 47% |
| Cymuned, iechyd a lles | 56% |
| Sgiliau | 55% |
| Rhannu adnoddau, e.e. cyfarpar, peiriannau, seilwaith | 48% |
| Gwella elw'r busnes | 34% |

Diffyg ymwybyddiaeth o grwpiau a gweithgareddau cydweithredol (69%) oedd y rhwystr mwyaf i rai nad oeddent yn cymryd rhan mewn cydweithredu'n barod. Mae hyn yn awgrymu bod gan yr SFS gyfle i hyrwyddo ac annod cydweithredu os yw'r gweithgareddau hyn yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol drwy'r Cynllun.

Tabl A3.3 Rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredu gan rai nad ydynt yn rhan o grwpiau cydweithredol yn barod (n=250)

| Rhwystrau i gydweithredu | Canran o'r ymatebion |
|---|---|
| Nid wyf yn ymwybodol o grwpiau neu weithgareddau cydweithredol i gymryd rhan ynddynt | 69% |
| Nid oes gen i'r amser a / neu adnoddau i gymryd rhan | 34% |
| Ddim eisiau'r baich gweinyddol ychwanegol | 31% |
| Nid oes gen i'r hyder i gysylltu ag eraill i greu grŵp newydd | 28% |
| Ddim yn meddwl y byddai cydweithredu'n rhywbeth y byddai fy nghyd-ffermwyr / ffermydd cyfagos yn debygol o gymryd rhan ynddo | 27% |
| Nid oes gen i'r hyder i ymuno â grŵp sydd wedi sefydlu'n barod | 18% |
| Ddim yn meddwl y byddai cydweithredu o fudd i mi na fy system ffermio | 16% |
| Ddim eisiau rhannu gwybodaeth nac adnoddau â ffermwyr eraill | 7% |
| Yn meddwl fod cydweithredu'n creu risg neu'n cyfyngu ar rywun | 6% |
| Ddim yn meddwl y byddai cydweithredu o fudd i'r amgylchedd | 4% |
| Ddim yn meddwl bod cydweithredu'n arfer ffermio da | 2% |

## A3.2 Dadansoddiad o'r camau gwaith CA

Y CA oedd â'r ganran fwyaf o ymatebwyr oedd yn ei gwblhau'n barod oedd gweithio gyda'r diwydiant i ystyried sut i atal clefydau rhag lledu (13%).

Tabl 11.1 Y 3 prif CA sy'n cael eu cwblhau'n barod

| CA | Canran o'r ymatebion |
|---|---|
| Gweithdrefn i ddangos risg isel o glefyd mewn anifeiliaid newydd (n= 414) | 13% |
| Ansawdd dŵr y dalgylch – cydweithredu rhwng ffermwyr yn unig (n= 412) | 12% |
| Cymorth ar gyfer bridiau brodorol (n=408) | 9% |

Y camau gwaith CA ar leihau allyriadau amonia, a chreu coetiroedd yn cysylltu i'w gilydd, oedd â'r ganran leiaf o ymatebwyr i'r arolwg oedd yn eu cwblhau.

Tabl 11.2 Camau gwaith CA sy'n cael eu cwblhau leiaf ar hyn o bryd

| CA | Canran o'r ymatebion |
|---|---|
| Lleihau allyriadau amonia (n=407) | 3% |
| Coetiroedd yn cysylltu i'w gilydd (n=406) | 3% |
| Safleoedd gwarchodedig (n=396) | 4% |
| Rheoli perygl llifogydd (n=405) | 4% |
| Yr amgylchedd hanesyddol (n=405) | 4% |

Y CA gyda'r ganran fwyaf o ymatebwyr oedd â diddordeb yn ei gwblhau oedd ffermwyr yn gweithio gyda'i gilydd mewn dalgylch i wella ansawdd dŵr (62%).

Tabl A3.4 Y camau gwaith CA yr oedd gan ymatebwyr i'r arolwg fwyaf o ddiddordeb ynddynt

| Camau gwaith CA | Canran o'r ymatebion |
|---|---|
| Ansawdd dŵr y dalgylch – ffermwyr yn unig (n=412) | 62% |
| Ansawdd dŵr y dalgylch – cynnwys rhanddeiliaid eraill (n=411) | 61% |
| Cynefinoedd yn cysylltu i'w gilydd (n=411) | 54% |
| Gwerthu'n uniongyrchol ac ychwanegu gwerth (n=416 | 53% |

Y CA gyda'r ganran uchaf o ymatebwyr heb ddiddordeb yn ei gwblhau oedd cymorth ar gyfer prosiectau i adfer a rheoli mawndir gan nifer o ffermwyr (66%). Gallai hyn fod oherwydd bod y cam gwaith yn dibynnu a oes mawndir ar y fferm. O'r rhai a ddywedodd fod ganddynt fawndir ac a oedd wedi cwblhau'r arolwg camau gwaith CA, roedd gan 42% ddiddordeb mewn cwblhau'r CA hwn a 24% heb ddiddordeb.

Tabl A3.5 Y camau gwaith CA NAD OEDD gan y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg ddiddordeb ynddynt

| Camau gwaith CA | Canran o'r ymatebion |
|---|---|
| Adfer a rheoli mawndir (n=402) | 66% |
| Amgylchedd hanesyddol (n=405) | 45% |
| Safleoedd gwarchodedig (n=396) | 45% |
| Mynediad i'r gymuned leol (n=410) | 45% |
| Coetiroedd yn cysylltu i'w gilydd (n=406) | 45% |

Y CA lle'r oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg wedi dweud y byddai angen cymorth arnynt i'w cwblhau oedd gwella ansawdd dŵr y dalgylch. Y camau gwaith CA lle'r oedd y lleiaf o ymatebwyr i'r arolwg wedi dweud y byddai angen cymorth arnynt i'w cwblhau oedd adfer a rheoli mawndir. Mae'n debyg bod hyn oherwydd nad oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddiddordeb mewn cwblhau'r camau gwaith hyn.

Tabl A3.6 Camau gwaith CA lle y teimlai ymatebwyr i'r arolwg fod angen cymorth arnynt

| Camau gwaith CA | Canran o'r ymatebion |
|---|---|
| Ansawdd dŵr y dalgylch – cynnwys rhanddeiliaid eraill (n=411) | 42% |
| Ansawdd dŵr y dalgylch – ffermwyr yn unig (n=412) | 40% |
| Cynefinoedd yn cysylltu i'w gilydd (n=411) | 38% |
| Lleihau allyriadau amonia (n=407) | 38% |
| Gwerthu'n uniongyrchol ac ychwanegu gwerth (n=416) | 38% |